Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 16/2026

Dyddiad cyhoeddi: 12/03/2026

# Ymchwil i lywio'r gwerthusiad o Ddiwygiadau Diamond i gyllid myfyrwyr yng Nghymru

This document is also available in English.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-118-0

Ymchwil i lywio'r gwerthusiad o Ddiwygiadau Diamond i gyllid myfyrwyr yng Nghymru

Awduron: Nia Bryer, Heledd Bebb, Tanwen Grover, Kerry KilBride, Sophie Wheeler a Mariana Fikry

Adroddiad Ymchwil Llawn: Bryer, N. et al (2026). Ymchwil i lywio'r gwerthusiad o Ddiwygiadau Diamond i gyllid myfyrwyr yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 16/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/ymchwil-i-lywior-gwerthusiad-or-diwygiadau-diamond-i-gyllid-myfyrwyr

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ymchwil Addysg a Sgiliau

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 0734

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o dablau ... 6

Rhestr o ffigurau ... 8

Rhestr o dermau ... 9

1. Cyflwyniad a chefndir ... 15

  1.1. Nodau ac amcanion yr ymchwil ... 15

  1.2. Strwythur yr adroddiad hwn ... 15

2. Methodoleg ... 17

  2.1. Dull gweithredu ... 17

    2.1.1. Cam 1 – Cam cychwynnol ... 17

    2.1.2. Cam 2 – Adolygiad desg ... 17

    2.1.3. Cam 3 – Paratoi offer ymchwil ... 17

    2.1.4. Cam 4 – Gwaith maes gyda dysgwyr, rhieni a gwarcheidwaid Blwyddyn 12 a 13, a myfyrwyr AU ... 18

    2.1.5. Cam 5 – Gwaith maes gyda staff Darparwyr AU ... 20

    2.1.6. Cam 6 - Dadansoddi ... 20

  2.2. Proffil y rhai a gyfrannodd at yr ymchwil ... 21

    2.2.1. Proffil carfan yr arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13 ... 21

    2.2.1.1. Proffil demograffig yr ymatebwyr i'r arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13 ... 21

    2.2.1.2. Proffil astudio yr ymatebwyr i'r arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13 ... 22

    2.2.1.3. Caledi ariannol a wynebwyd gan ymatebwyr i'r arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13 22

    2.2.2. Proffil y rhai a gymerodd ran yng nghyfweliadau a grwpiau ffocws Blwyddyn 13 23

    2.2.3. Proffil o garfan yr ymatebwyr i'r arolwg o fyfyrwyr AU ... 24

    2.2.3.1. Proffil demograffig o'r ymatebwyr i'r arolwg o fyfyrwyr AU ... 24

    2.2.3.2. Proffil astudio yr ymatebwyr i'r arolwg o fyfyrwyr AU ... 24

    2.2.4. Proffil y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws AU ... 25

  2.3. Ystyriaethau methodolegol ... 26

3. Adolygiad o bolisïau ... 28

  3.1. Cyflwyniad ... 28

  3.2. Cymorth cynhaliaeth blynyddol i israddedigion llawnamser ... 29

    3.2.1. Pennu lefel y cymorth cynhaliaeth ... 31

    3.2.2. Meini prawf cymhwystra ar gyfer myfyrwyr israddedig ... 31

3.3. Cymorth i israddedigion rhan-amser ........ 31
3.3.1. Benthyciad ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr israddedig rhan-amser ........ 31
3.3.2. Cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig rhan-amser ........ 31
3.4. Cymorth i fyfyrwyr cyrsiau meistr ôl-raddedig a addysgir ........ 32
3.5. Cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal ........ 32
3.6. Grantiau a lwfansau eraill wedi'u targedu ........ 33
3.7. Cymorth myfyrwyr ar gyfer cyllid AU ........ 33
3.7.1. Ad-dalu benthyciadau myfyrwyr ........ 35
3.7.2. Ystyriaethau ychwanegol ........ 35
4. Adolygiad o niferoedd y myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru mewn AU ........ 36
4.1. Niferoedd y myfyrwyr israddedig ........ 36
4.2. Niferoedd y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau meistr ôl-raddedig a addysgir ........ 39
4.3. Y llif o fyfyrwyr ar draws ffiniau ........ 41
4.4. Proffil o'r myfyrwyr ........ 42
5. Adolygiad llenyddiaeth ........ 44
5.1. Canfyddiadau o werth ........ 44
5.2. Amharodrwydd i ysgwyddo dyled benthyciad myfyrwyr ........ 45
5.3. Ymwybyddiaeth, gwybodaeth ac arweiniad ........ 46
5.4. Ehangu mynediad a chanfyddiadau o werth ........ 48
5.5. Sylwadau i gloi ........ 49
6. Penderfyniadau ynglŷn â'r brifysgol: gwaith maes gyda dysgwyr Blwyddyn 12 a 13 a rhieni a gwarcheidwaid dysgwyr Blwyddyn 12 a 13 ........ 51
6.1. Cynlluniau i astudio yn y brifysgol neu beidio ........ 51
6.1.1. Barn dysgwyr ........ 51
6.1.2. Barn rhieni a gwarcheidwaid a gyfrannodd at yr ymchwil ........ 53
6.2. Amseriad penderfyniadau ynglŷn â mynd i'r brifysgol ........ 54
6.3. Cyrchfannau'r rhai a oedd y bwriadu mynd i'r brifysgol ........ 55
6.4. Dylanwad teulu a chyfoedion ar y penderfyniad i fynd i'r brifysgol ........ 57
6.5. Y rhai nad ydynt yn bwriadu astudio yn y brifysgol neu sydd heb benderfynu, a beth sy'n hatal neu'n eu poeni am hynny ........ 57
6.6. Gwerth AU ........ 59
6.6.1. Barn dysgwyr ........ 59
6.6.2. Barn rhieni a gwarcheidwaid ........ 64

7. Cyllid myfyrwyr: gwaith maes gyda dysgwyr Blwyddyn 12 a 13 a rhieni a gwarcheidwaid dysgwyr Blwyddyn 12 a 13 ....66
7.1. Dylanwad costau ar y dewis o brifysgol a phwnc gradd....66
7.2. Fforddiadwyedd AU ....68
7.2.1. Barn dysgwyr....68
7.2.2. Barn rhieni a gwarcheidwaid ....70
7.3. Deall y cymorth ariannol i fyfyrwyr ....70
7.3.1. Barn dysgwyr....70
7.3.2. Barn rhieni a gwarcheidwaid ....72
7.4. Agweddau tuag at ddyled myfyrwyr....73
7.4.1. Barn dysgwyr....73
7.4.2. Barn rhieni a gwarcheidwaid ....77
8. Gwaith maes gyda myfyrwyr israddedig rhan-amser....79
8.1. Cymhellion dros astudio cwrs israddedig rhan-amser ....79
8.2. Manteision ac anfanteision astudio'n rhan-amser....81
8.3. Profiad myfyrwyr israddedig rhan-amser o AU ....82
8.4. Sut y gellid diwallu anghenion myfyrwyr israddedig rhan-amser yn well....85
8.5. Profiad myfyrwyr israddedig rhan-amser o gyllid myfyrwyr....86
8.6. Dulliau myfyrwyr israddedig rhan-amser o ariannu costau byw....87
8.7. Profiad o galedi ariannol....88
8.8. Gwelliannau a awgrymwyd gan fyfyrwyr israddedig rhan-amser....89
8.9. Agweddau myfyrwyr israddedig rhan-amser at ddyled benthyciad myfyrwyr....91
8.10. A yw cymhwyster yn werth dyled benthyciad myfyrwyr....93
9. Gwaith maes gyda myfyrwyr ôl-raddedig ....94
9.1. Cymhellion myfyrwyr ôl-raddedig dros astudio eu cwrs....94
9.2. Profiad myfyrwyr ôl-raddedig o AU ....96
9.3. Sut y gellid diwallu anghenion myfyrwyr ôl-raddedig yn well ....99
9.4. Profiad myfyrwyr ôl-raddedig o gyllid myfyrwyr....101
9.5. Dulliau myfyrwyr ôl-raddedig o gyllido ffioedd dysgu a chostau byw ....103
9.6. Profiad o galedi ariannol....104
9.7. Gwelliannau a awgrymwyd gan fyfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir ....105
9.8. Agweddau myfyrwyr cyrsiau meistr tuag at ddyled benthyciad myfyrwyr ....107
9.9. A yw'n werth ysgwyddo dyled benthyciad myfyrwyr er mwyn ennill cymhwyster.108
9.10. Myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser....111

10. Canfyddiadau o'r gwaith maes gyda rhanddeiliaid a staff Darparwyr AU .............112
10.1. Materion strategol .....................................................112
10.1.1. Yr hyn yr oedd disgwyl i Ddiwygiadau Diamond ei gyflawni.....................112
10.1.2. Gweithredu Diwygiadau Diamond yn rhannol .........................113
10.1.3. Cwmpas yr astudiaeth ymchwil hon .................................113
10.2. Ehangu mynediad i AU ...................................................114
10.2.1. Priodoldeb y cyllid i fyfyrwyr ......................................114
10.2.2. Ffactorau sydd i'w cyfrif am y bwlch mewn cyfranogiad.....................115
10.2.3. Natur y cymorth ehangu mynediad a ddarperir ...........................116
10.2.4. Effeithiolrwydd cymorth ehangu mynediad ...............................117
10.2.5. Effaith Diwygiadau Diamond ar allu Darparwyr AU i ehangu mynediad i AU .. ........................................................118
10.2.6. Sut y gellid ehangu mynediad i AU ymhellach ...........................119
10.3. Cryfhau'r ddarpariaeth ran-amser ..........................................121
10.3.1. Effaith y diwygiadau ar gyfranogiad rhan-amser ..........................121
10.3.2. Effaith y diwygiadau ar ddarpariaeth ran-amser...........................122
10.3.3. Effaith y pandemig ar ddarpariaeth ran-amser.............................122
10.3.4. Pa mor dda y mae Darparwyr AU yn diwallu anghenion myfyrwyr rhan-amser .......................................................122
10.3.5. Deilliannau myfyrwyr rhan-amser.......................................123
10.3.6. Bylchau a dyblygu mewn darpariaeth ran-amser ...........................123
10.3.7. Sut y mae Darparwyr AU yn cyllido darpariaeth ran-amser ....................123
10.3.8. Y prif rwystrau i gynnig mwy o astudiaethau rhan-amser......................124
10.4. Cryfhau'r ddarpariaeth ôl-raddedig.........................................124
10.4.1. Effaith Diwygiadau Diamond ar ddarpariaeth ôl-raddedig......................124
10.4.2. Nifer a natur cyrsiau meistr a addysgir...................................125
10.4.3. Cyllido cyrsiau meistr a addysgir.......................................125
10.4.4. Rhwystrau i ddarparu cyrsiau meistr a addysgir ...........................126
11. Casgliadau ..................................................................127
11.1. Barn dysgwyr colegau addysg bellach (AB) a dysgwyr chweched dosbarth sydd â'u domisil yng Nghymru am AU ..................................................127
11.2. Ymwybyddiaeth dysgwyr mewn colegau AB a'r chweched dosbarth, sydd â'u domisil yng Nghymru, o'r pecyn cymorth ariannol ....................................128
11.3. Profiadau myfyrwyr o ddarpariaeth ran-amser ...............................129
11.4. Rhwystrau i fyfyrwyr sydd am astudio'n rhan-amser ...........................130

11.5. Effeithiau ariannol a gweithredol y ddarpariaeth ran-amser ar Ddarparwyr AU yng Nghymru ..... 131
11.6. Profiadau myfyrwyr o'r ddarpariaeth ôl-raddedig ..... 131
11.7. Y rhwystrau i fyfyrwyr ôl-raddedig sydd am astudio'n rhan-amser ..... 132
11.8. Effeithiau ariannol a gweithredol darpariaeth ôl-raddedig ar Ddarparwyr AU yng Nghymru ..... 133
11.9. Pa mor dda y mae pecyn cymorth ariannol Llywodraeth Cymru yn diwallu anghenion pob myfyriwr AU sydd â'i ddomisil yng Nghymru ..... 133
12. Argymhellion ..... 135
Cyfeiriadau ..... 138
Atodiad A Offerynnau ymchwil ..... 140
Canllaw trafod 1: Dysgwyr Blwyddyn 13 ..... 140
Canllaw trafod 2: Rhieni/gwarcheidwaid dysgwyr Blwyddyn 12/13 sy'n bwriadu / ddim yn bwriadu astudio mewn AU ..... 143
Canllaw trafod 3: Myfyrwyr israddedig rhan-amser presennol mewn AU ..... 146
Canllaw trafod 4: Myfyrwyr presennol cyrsiau meistr llawnamser a addysgir ..... 149
Canllaw trafod 5: Myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser presennol mewn AU ..... 151
Canllaw trafod 6: Staff ac arweinwyr Darparwyr AU ..... 155

## Rhestr o dablau


Tabl 2.1: Proffil astudio yr ymatebwyr i'r arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13....................22

Tabl 2.2: Proffil astudio myfyrwyr AU a ymatebodd i'r arolwg ..............................................25

Tabl 3.1: Cymorth cynhaliaeth blynyddol i fyfyrwyr israddedig llawnamser sydd â'u domisil yng Nghymru.................................................................................................30

Tabl 3.2: Cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig rhan-amser..........................................32

Tabl 4.1: Nifer y dechreuwyr israddedig â'u domisil yng Nghymru mewn sefydliadau Darparwyr AU yn y DU ..............................................................................37

Tabl 4.2: Nifer y dechreuwyr ôl-raddedig ar gyrsiau meistr a addysgir, sydd â'u domisil yng Nghymru, a oedd yn astudio gyda Darparwyr AU yn y DU......................................40

Tabl 4.3: Nifer y dechreuwyr israddedig llawnamser sy'n croesi ffiniau i astudio .................42

Tabl 6.1: Cynlluniau'r ymatebwyr i fynd i'r brifysgol ar ôl gorffen yr ysgol neu'r coleg ..........52

Tabl 6.2: Y tro cyntaf y gwnaethant feddwl eu bod eisiau mynd i'r brifysgol .........................54

Tabl 6.3: Y tro cynaf y gwnaethant feddwl eu nad oeddent eisiau mynd i'r brifysgol ...........55

Tabl 6.4: Lleoliad prifysgol a ffafriwyd gan y rhai a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol .......56

Tabl 6.5: Rhesymau pam nad oedd dysgwyr a gymerodd ran yn yr arolwg yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu heb benderfynu ..............................................................58

Tabl 6.6: Barn yr ymatebwyr i'r arolwg am yr effaith y mae cost astudio am radd wedi'i chael neu a fydd yn ei chael ar eu penderfyniad.............................................59

Tabl 6.7: Barn yr ymatebwyr i'r arolwg am werth cymhwyster gradd iddyn nhw yn y dyfodol .................................................................................................60

Tabl 6.8: Barn ymatebwyr i'r arolwg am y ffordd y bydd neu y gallai cymhwyster gradd fod yn werthfawr iddynt yn y dyfodol ..............................................................61

Tabl 6.9: Barn yr ymatebwyr i'r arolwg ynghylch a yw gradd yn angenrheidiol i gael swydd dda yn y dyfodol ...................................................................................64

Tabl 7.1: A yw costau astudio am radd yn dylanwadu ar y brifysgol y gwnaeth dysgwyr gais iddi (neu yr oeddent yn ystyried gwneud cais iddi)..................................................67

Tabl 7.2: P'un a oedd costau astudio am radd wedi dylanwadu ar y pwnc yr oedd dysgwyr wedi gwneud cais amdano (neu yr oeddent yn ystyried gwneud cais amdano)......67

Tabl 7.3: Pa mor bryderus yw neu y byddai'r ymatebwyr i'r arolwg am allu fforddio costau byw bob dydd fel rhent, bwyd a biliau tra byddant yn y brifysgol.............................68

Tabl 7.4: Pa mor bryderus yw'r ymatebwyr i'r arolwg y bydd costau byw cynyddol yn gwneud bywyd prifysgol yn anoddach ei fforddio ..................................................69

Tabl 7.5: Pa mor dda yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo eu bod yn deall sut y mae cyllid myfyrwyr yn gweithio ........ 71
Tabl 7.6: Barn ymatebwyr i'r arolwg ynghylch a yw'n werth ysgwyddo dyled benthyciad myfyrwyr er mwyn cael gradd ........ 74
Tabl 7.7: Pa mor bryderus yw neu y byddai'r ymatebwyr i'r arolwg ynghylch faint o ddyled benthyciad myfyrwyr y gallai fod ganddynt pe baent yn mynd i'r brifysgol ........ 75
Tabl 7.8: Elfennau o gyllid myfyrwyr a oedd yn destun pryder i'r ymatebwyr i'r arolwg ........ 76
Tabl 7.9: Yr ystyriaeth a roddodd yr ymatebwyr i'r arolwg i ddyled benthyciad myfyrwyr wrth benderfynu mynd i'r brifysgol ........ 76
Tabl 8.1: Rhesymau dros astudio cwrs israddedig yn rhan-amser ........ 80
Tabl 8.2: Barn myfyrwyr israddedig rhan-amser am eu profiad yn y brifysgol ........ 82
Tabl 8.3: Pa mor dda y mae'r brifysgol wedi gallu diwallu anghenion myfyrwyr israddedig rhan-amser ........ 83
Tabl 8.4: Y camau a gymerwyd gan y brifysgol i ddiwallu anghenion myfyrwyr israddedig rhan-amser ........ 84
Tabl 8.5: Pa mor dda y mae myfyrwyr israddedig rhan-amser yn teimlo eu bod yn deall sut y mae cyllid myfyrwyr yn gweithio ........ 87
Tabl 8.6: Pa mor dda y mae benthyciad neu grant myfyrwyr israddedig rhan-amser yn talu eu costau byw ........ 87
Tabl 8.7: Pa mor bryderus yw myfyrwyr israddedig rhan-amser ynghylch y ddyled benthyciad myfyrwyr a fydd ganddynt o ganlyniad i'w hastudiaethau AU? ........ 91
Tabl 8.8: P'un a yw myfyrwyr israddedig rhan-amser yn credu ei bod yn werth ysgwyddo dyled benthyciad myfyrwyr er mwyn cael gradd ........ 93
Tabl 9.1: Rhesymau dros astudio cwrs meistr a addysgir yn rhan-amser ........ 95
Tabl 9.2: Barn myfyrwyr meistr a addysgir am eu profiad yn y brifysgol ........ 96
Tabl 9.3: Pa mor dda y mae'r brifysgol wedi gallu diwallu eu hanghenion fel myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir yn llawnamser neu'n rhan-amser ........ 96
Tabl 9.4: Camau a gymerwyd gan y brifysgol i ddiwallu anghenion myfyrwyr llawnamser a rhan-amser ........ 98
Tabl 9.5: Pa mor dda y mae myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir yn teimlo eu bod yn deall sut y mae cyllid myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig yn gweithio ........ 102
Tabl 9.6: Pa mor dda y mae benthyciadau neu grantiau myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir yn talu eu costau byw ........ 104
Tabl 9.7: Pa mor bryderus yw myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir ynghylch y ddyled benthyciad myfyrwyr a fydd ganddynt o ganlyniad i'w hastudiaethau AU ........ 108

Tabl 9.8: A yw myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir yn credu ei bod yn werth mynd i ddyled benthyciadau myfyrwyr er mwyn cael eu cymhwyster ........................................ 109

## Rhestr o ffigurau

Ffigur 2.1: P'un a oedd dysgwyr Blwyddyn 12 a 13 wedi profi tlodi bwyd yn ystod y 12 mis blaenorol ........................................ 23
Ffigur 3.1: Nifer y myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru a'r UE (y tu allan i'r DU) sy'n derbyn cymorth AU a'r swm a ddyfarnwyd/a dalwyd ........................................ 34
Ffigur 4.1: Cyfanswm y dechreuwyr israddedig llawnamser a rhan-amser ........................................ 38
Ffigur 4.2: Cyfanswm y dechreuwyr ôl-raddedig ar gyrsiau meistr llawnamser a rhan-amser a addysgir, sydd â'u domisil yng Nghymru ........................................ 41
Ffigur 8.1: P'un a oedd myfyrwyr israddedig rhan-amser wedi wynebu caledi ariannol oherwydd diffyg arian neu adnoddau yn ystod y 12 mis blaenorol ........................................ 89
Ffigur 9.1: A oedd myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir wedi profi caledi ariannol oherwydd diffyg arian neu adnoddau yn ystod y cyfnod o 12 mis blaenorol ........................................ 105

## Rhestr o dermau

**Addysg Bellach** (AB)
Addysg sy'n digwydd ar ôl addysg orfodol, fel arfer ar gyfer myfyrwyr 16 oed a throsodd, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol, Safon Uwch, a chymwysterau eraill islaw lefel gradd.

**Addysg Uwch** (AU)
Addysg a ddarperir gan brifysgolion neu sefydliadau addysg uwch sy'n arwain at gymwysterau fel gradd neu ddyfarniadau galwedigaethol lefel uwch.

**Advance HE**
Corff y sector sy'n gweithio gyda darparwyr addysg uwch ledled y DU i wella ansawdd addysgu, arweinyddiaeth, cydraddoldeb a deilliannau myfyrwyr.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol** (ADY)
Term penodol i Gymru a ddefnyddir o fewn y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (p'un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu beidio) sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

**Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch** (HESA)
Yr asiantaeth swyddogol sy'n gyfrifol am gasglu, dadansoddi a chyhoeddi data am addysg uwch yn y DU.

**Benthyciad cynhaliaeth**
Benthyciad ad-daladwy a ddarperir i gefnogi myfyrwyr gyda chostau byw tra byddant yn astudio. Mae hyn yn cynnwys benthyciadau cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr israddedig yn ogystal â chymorth cynhaliaeth ar gyfer graddau Meistr a doethuriaeth ôl-raddedig, a delir fel un benthyciad sydd wedi'i fwriadu i gyfrannu at ffioedd dysgu a chostau byw.

**Benthyciad ffioedd dysgu**
Benthyciad ad-daladwy a ddefnyddir i dalu cost ffioedd dysgu a godir gan sefydliadau addysg uwch.

**Canolfan Ddysgu**
Term gweinyddol a ddefnyddir gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr i ddisgrifio darparwr addysg megis ysgol neu goleg.

**CASCADE**
Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant ym Mhrifysgol Caerdydd. Canolfan ymchwil yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar brofiadau a deilliannau plant a phobl ifanc sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol, gan gynnwys dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

.

**Cefndir economaidd-gymdeithasol**
Amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd unigolyn, sy'n cael eu mesur gan ddefnyddio dangosyddion megis cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim, incwm aelwyd, galwedigaeth neu addysg rhieni, a mesurau amddifadedd sy'n seiliedig ar ardal megis Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC).

**COVID-19**
Clefyd heintus a achosodd bandemig byd-eang yn 2020.

**Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr** (SLC)
Y sefydliad ar gyfer y DU gyfan sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau Cyllid Myfyrwyr Cymru, Student Finance England, Student Finance Northern Ireland, a gweinyddu benthyciadau myfyrwyr a chasglu ad-daliadau ar gyfer myfyrwyr ledled y DU.

**Cyflog Byw Go Iawn**
Cyfradd gyflog wirfoddol, a gyfrifir yn annibynnol gan y Sefydliad Cyflog Byw yn seiliedig ar gostau byw go iawn. Yn 2025 mae'r gyfradd yn £13.45 yr awr yn y DU. Mae hyn yn wahanol i'r Cyflog Byw Cenedlaethol (isafswm cyflog i bobl dros 21 oed) sy'n £12.21 yr awr yn 2025.

**Cyfrif Dysgu Personol** Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n caniatáu i unigolion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra gael mynediad at gyrsiau a chymwysterau proffesiynol am ddim i ddatblygu eu sgiliau neu eu helpu i symud ymlaen neu newid gyrfa. I fod yn gymwys mae'n rhaid i unigolion fyw yng Nghymru, bod yn 19 oed a throsodd a bodloni'r meini prawf cymhwystra.

**Cyllid Myfyrwyr Cymru**
Y corff sy'n gyfrifol am weinyddu benthyciadau a grantiau myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru, sef y myfyrwyr hynny y mae eu cyfeiriad cartref parhaol yng Nghymru pan fyddant yn dechrau ar eu cwrs.

**Cymorth i'r Rhai sy'n Gadael Gofal a Myfyrwyr (CLASS) Cymru**
Gwasanaeth cymorth a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth, canllawiau a chymorth ar gyllid myfyrwyr, yn enwedig i ddysgwyr addysg bellach ac addysg uwch.

**Cynyddu cyfranogiad**
Yn cyfeirio at dwf yn nifer neu gyfran y ceisiadau, y cofrestriadau, y dilyniant a'r cyrsiau a gwblheir mewn addysg drydyddol ymhlith dysgwyr o bob cefndir. Defnyddir y term hwn i gyfeirio at addysg drydyddol, neu lle y nodir, addysg uwch.

**Darparwr Addysg Uwch** (Darparwr AU)
Sefydliad sydd wedi'i awdurdodi i ddarparu cyrsiau addysg uwch, gan gynnwys prifysgolion a rhai colegau sy'n cynnig cymwysterau lefel gradd.

**Dysg**
Y gwasanaeth gwybodaeth ac ystadegau addysg ar gyfer Cymru, sy'n darparu data swyddogol, dadansoddiadau a chyhoeddiadau ar ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch.

**Dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal**
Term a ddefnyddir ym mholisi addysg uwch y DU ar gyfer pobl sydd wedi treulio amser yng ngofal awdurdod lleol, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal, a'r rhai sy'n cael gofal gan berthynas neu ofalwyr maeth. Maent yn cael eu cydnabod fel grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n aml yn gymwys i gael cymorth wedi'i dargedu.

**Ehangu mynediad**
Ymdrechion gan lywodraethau a sefydliadau addysg bellach ac uwch i gynyddu cyfranogiad mewn addysg uwch ymhlith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu dan anfantais yn unig. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau cymdeithasol, diwylliannol, sefydliadol neu economaidd i fynd i addysg uwch. Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y term i gyfeirio'n benodol at waith wedi'i dargedu sydd â'r nod o gefnogi'r grwpiau hyn.

**Grant cynhaliaeth**
Cyllid nad oes rhaid ei ad-dalu a ddarperir i fyfyrwyr israddedig i helpu gyda chostau byw tra byddant yn astudio. Yng Nghymru, mae hyn yn cynnwys grant cyffredinol o £1,000 ar gyfer myfyrwyr llawnamser a chyllid grant ychwanegol sy'n seiliedig ar brawf modd. Mae myfyrwyr rhan-amser yn derbyn grant ar sail pro rata.

**Grant Dysgu Llywodraeth Cymru** (GDLlC)
Term a ddefnyddir ar gyfer y grant cynhaliaeth sy'n seiliedig ar brawf modd a ddyfernir i fyfyrwyr israddedig sy'n byw yng Nghymru i helpu gyda chostau byw tra byddant yn astudio.

**Grant sy'n seiliedig ar brawf modd**
Cymorth ariannol lle mae'r swm a ddyfernir yn dibynnu ar incwm yr aelwyd neu amgylchiadau ariannol.

**Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau** (UCAS)
Y gwasanaeth ymgeisio i israddedigion yn y DU.

**Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru (NYAS) Cymru**
Gwasanaeth eiriolaeth annibynnol yng Nghymru sy'n cefnogi plant a phobl ifanc.

**Gwasanaeth Iechyd Gwladol** (GIG)
Y system gofal iechyd a ariennir yn gyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.

**Gwybodaeth Reoli**
Data sy'n cael eu casglu a'u dadansoddi gan ddarparwyr addysg uwch a chyrff y llywodraeth i fonitro cofrestriadau, cynnydd, deilliannau a chyllid myfyrwyr.

**Lefel UG**
Hanner cyntaf cymhwyster Safon Uwch, sydd fel arfer yn cael ei gwblhau ar ôl blwyddyn o astudio.

**Lwfans Cynhaliaeth Addysg** (LCA) Cymru
Taliad ariannol a ddarperir i fyfyrwyr yng Nghymru sydd mewn addysg bellach i gefnogi cyfranogiad, sydd fel arfer yn seiliedig ar incwm yr aelwyd.

**Lwfans i Fyfyrwyr Anabl** (DSA)
Lwfans nad yw'n seiliedig ar brawf modd i fyfyrwyr ag anabledd, cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol.

**Medr**
Corff hyd braich Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am gyllido a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

**Myfyriwr Israddedig Llawnamser**
Myfyriwr sydd wedi cofrestru ar gwrs addysg uwch ar y dwyster safonol, sydd fel arfer yn astudio am radd dros gyfnod o dair neu bedair blynedd.

**Myfyriwr Israddedig Rhan-amser**
Myfyriwr sydd wedi cofrestru mewn addysg uwch ar ddwyster astudio sy'n llai na'r dwyster llawnamser safonol, sy'n aml yn astudio ochr yn ochr â gweithio a/neu gyfrifoldebau gofalu.

**Myfyriwr Ôl-raddedig**
Myfyriwr sy'n ymgymryd ag astudiaethau lefel uwch y tu hwnt i radd baglor, fel rhaglen meistr neu ddoethuriaeth.

**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru** (MALIC) Mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach ledled Cymru, sy'n cael eu trefnu o'r ardaloedd â'r lefel fwyaf o amddifadedd i'r ardaloedd â'r lefel leiaf o amddifadedd. Mae hwn yn ystadegyn swyddogol achrededig sy'n cyfuno wyth maes amddifadedd – incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai – yn un sgôr ar gyfer pob ardal.

**Mynegai Prisiau Defnyddwyr** (CPI)
Mesur o chwyddiant sy'n olrhain newidiadau dros amser yn y prisiau cyfartalog a delir gan ddefnyddwyr am fasged o nwyddau a gwasanaethau.

**NUS Cymru**
Cangen Cymru o Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, sy'n cynrychioli myfyrwyr mewn sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch ledled Cymru.

**Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach**
Rhaglen yng Nghymru a gynlluniwyd i ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol drwy weithgareddau ymgysylltu, mentora a chymorth.

**Premiwm enillion graddedigion**
Y gwahaniaeth mewn enillion cyfartalog rhwng graddedigion a phobl nad ydynt yn raddedigion.

**Prifysgolion Cymru**
Mae Prifysgolion Cymru yn gorff aelodaeth sy'n cynrychioli buddiannau'r 9 prifysgol yng Nghymru, gan weithio'n annibynnol fel rhan o Universities UK.

**Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant** (PCYDDS)
Sefydliad addysg uwch yng Nghymru a ffurfiwyd drwy uno Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan, Coleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe.

**Prydau Ysgol am Ddim**
Prydau a ddarperir am ddim i ddisgyblion ysgol o gartrefi ag incwm isel, a ddefnyddir fel dangosydd o anfantais economaidd-gymdeithasol mewn gwaith ymchwil a pholisi addysg.

**Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr** (PISA)
Asesiad rhyngwladol sy'n mesur gwybodaeth a sgiliau dysgwyr 15 oed mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae PISA yn galluogi cymharu perfformiad addysgol ar draws gwledydd ac fe'i defnyddir i werthuso a meincnodi effeithiolrwydd systemau addysg ledled y byd.

**Safon Uwch**
Cymhwyster sy'n seiliedig ar bwnc sydd fel arfer yn cael ei astudio gan fyfyrwyr 16 i 18 oed yn y DU ar ôl cwblhau TGAU. Fel arfer, astudir pynciau Safon Uwch dros gyfnod o ddwy flynedd ac fe'u defnyddir yn helaeth i gael mynediad i'r brifysgol.

**Sefydliad Addysg Bellach** (SAB)
Sefydliad sy'n darparu addysg a hyfforddiant pellach y tu hwnt i addysg orfodol.

**Sefydliad Addysg Uwch** (SAU)
Prifysgol neu gorff dyfarnu graddau arall sy'n darparu cymwysterau lefel uwch fel graddau israddedig ac ôl-raddedig.

**STEM**
Acronym ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (Science, Technology, Engineering, and Mathematics).

**Tystysgrif Addysg i Raddedigion** (TAR)
Cymhwyster addysgu yn y DU i raddedigion sy'n dymuno bod yn athrawon cymwysedig.

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd** (TGAU)
Cymhwyster academaidd yn y DU sy'n cael ei astudio fel arfer gan fyfyrwyr 15–16 oed ar ddiwedd addysg uwchradd orfodol.

**Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr** (NUS)
Sefydliad sy'n cwmpasu'r DU gyfan sy'n cynrychioli myfyrwyr mewn sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, sy'n eirioli dros eu buddiannau ar faterion polisi, lles a dysgu.

**WISERD**
Mae Sefydliad Ymchwil Cymdeithas ac Economaidd a Data Cymru yn ganolfan ymchwil gydweithredol wedi'i lleoli yng Nghymru sy'n ymchwilio i faterion cymdeithasol ac economaidd, gan gynnwys addysg ac anghydraddoldeb.

**Y Deyrnas Unedig** (Y DU)
Mae'n cynnwys pedair gwlad: Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae gan y DU lywodraeth ganolog a senedd yn Llundain, tra bo gan yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon weinyddiaethau datganoledig hefyd sy'n gyfrifol am feysydd penodol fel iechyd ac addysg.

**Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd** (OECD)
Fforwm a chanolfan wybodaeth ar gyfer data, dadansoddi ac arferion gorau mewn polisi cyhoeddus, sy'n gweithio ar draws 100 o wledydd.

**Y Sefydliad Polisi Addysg Uwch** (HEPI)
Melin drafod annibynnol yn y DU sy'n gwneud gwaith ymchwil ar bolisi addysg uwch, gan gynnwys cyllid myfyrwyr, gwerth am arian, ac agweddau'r cyhoedd.

.

# 1. Cyflwyniad a chefndir

Comisiynwyd Ymchwil OB3, ar y cyd â Miller Research, gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â gwaith ymchwil i lywio'r gwerthusiad o Ddiwygiadau Diamond i gyllid myfyrwyr yng Nghymru.

## 1.1. Nodau ac amcanion yr ymchwil

Disgwyliwyd y byddai'r ymchwil yn darparu tystiolaeth yn ymwneud â thri amcan cyntaf y diwygiadau:

- ehangu mynediad i AU
- cryfhau'r ddarpariaeth ran-amser
- cryfhau'r ddarpariaeth ôl-raddedig.

Roedd disgwyl i'r ymchwil fynd i'r afael â 9 amcan allweddol hefyd:

- archwilio barn dysgwyr addysg bellach (AB) a dysgwyr chweched dosbarth sydd â'u domisil yng Nghymru am AU
- archwilio ymwybyddiaeth dysgwyr AB a dysgwyr chweched dosbarth sydd â'u domisil yng Nghymru o'r pecyn cymorth ariannol
- deall profiadau myfyrwyr o'r ddarpariaeth ran-amser
- deall y rhwystrau i fyfyrwyr sydd am astudio'n rhan-amser
- archwilio effeithiau ariannol a gweithredol y ddarpariaeth ran-amser ar Ddarparwyr Addysg Uwch (Darparwyr AU) yng Nghymru
- deall profiadau myfyrwyr o'r ddarpariaeth ôl-raddedig
- deall y rhwystrau i fyfyrwyr ôl-raddedig sydd am astudio'n rhan-amser
- archwilio effeithiau ariannol a gweithredol darpariaeth ôl-raddedig ar Ddarparwyr AU yng Nghymru
- deall pa mor dda y mae pecyn cymorth ariannol Llywodraeth Cymru yn diwallu anghenion pob myfyriwr AU sydd â'i ddomisil yng Nghymru.

## 1.2. Strwythur yr adroddiad hwn

Mae gweddill adrannau'r adroddiad hwn wedi'u strwythuro fel a ganlyn:

- mae Pennod 2 yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr ymchwil
- ym mhennod 3, amlinellir y cyd-destun polisi a rhoddir trosolwg o drefniadau cyllid myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru.
- mae Pennod 4 yn trafod nifer y myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru sy'n mynd ymlaen i AU
- ym Mhennod 5, cyflwynir canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth am y farn ynghylch gwerth AU ac amharodrwydd i ysgwyddo dyled benthyciad myfyrwyr

- ym Mhenodau 6 a 7, ystyrir canfyddiadau'r gwaith maes a wnaed gyda dysgwyr Blwyddyn 12 a 13 a'u rhieni/gofalwyr mewn perthynas ag agweddau tuag at AU a dyled benthyciad myfyrwyr
- ym Mhennod 8, ystyrir canfyddiadau'r gwaith maes a wnaed gyda myfyrwyr israddedig rhan-amser
- ym Mhennod 9, ystyrir canfyddiadau'r gwaith maes a wnaed gyda myfyrwyr ôl-raddedig
- ym Mhennod 10, amlinellir canfyddiadau'r gwaith maes a wnaed gyda Darparwyr AU a sefydliadau rhanddeiliaid
- ym Mhennod 11, amlinellir ein casgliadau.
- ym mhennod 12, amlinellir ein hargymhellion.

# 2. Methodoleg

## 2.1. Dull gweithredu

Cynhaliwyd y rhaglen waith ar gyfer y gwerthusiad hwn mewn 6 cham.

### 2.1.1. Cam 1 – Cam cychwynnol

Roedd y cam cyntaf yn cynnwys cyfarfod cychwynnol gyda'r cleient i gytuno ar y rhaglen waith a sicrhau mynediad at ddogfennaeth berthnasol. Cadarnhawyd y rhaglen waith mewn adroddiad cychwynnol. Yn ystod y cam hwn, datblygwyd cymorth cof a Hysbysiad Preifatrwydd, a chynhaliwyd cyfres o gyfweliadau cwmpasu gyda 18 o gyfranwyr o Lywodraeth Cymru, Medr, y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC), Prifysgolion Cymru, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS) Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Gyrfa Cymru, Voices from Care Cymru, Cymorth i'r Rhai sy'n Gadael Gofal a Myfyrwyr (CLASS) Cymru a Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru. Diben y cyfweliadau hyn oedd meithrin dealltwriaeth gadarn o'r prif faterion yn ymwneud â'r gwerthusiad, nodi unrhyw ymchwil neu ddata ychwanegol i lywio'r gwaith ymchwil, a chytuno ar y themâu a'r cwestiynau i'w trafod yn ystod y gwaith maes.

### 2.1.2. Cam 2 – Adolygiad desg

Roedd ail gam yr ymchwil yn cynnwys adolygiad desg a dadansoddiad. Roedd hyn yn cynnwys:

- adolygiad o ddogfennau polisi allweddol Llywodraeth Cymru a chyhoeddiadau Gweinidogol yn ymwneud â diwygiadau i gyllid myfyrwyr yng Nghymru, gyda phwyslais penodol ar gyrsiau Meistr rhan-amser ac ôl-raddedig a addysgir
- adolygiad o ddata cyhoeddedig ar gyfer niferoedd y myfyrwyr AU sydd â domisil yng Nghymru a'r nifer sy'n manteisio ar gymorth cyllid myfyrwyr gyda phwyslais penodol ar sut y mae myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru yn cymryd rhan mewn astudiaethau AU rhan-amser ac ôl-raddedig dros amser
- adolygiad llenyddiaeth ar ganfyddiad y cyhoedd o AU ac amharodrwydd i ysgwyddo dyled benthyciad myfyrwyr. Canolbwyntiodd yr adolygiad hwn ar gyhoeddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y 5 i 6 mlynedd diwethaf, yn ymwneud â Chymru a'r DU yn ehangach.

### 2.1.3. Cam 3 – Paratoi offer ymchwil

Roedd trydydd cam yr ymchwil yn cynnwys datblygu offer ymchwil. Roedd hyn yn cynnwys datblygu dau arolwg ar-lein dwyieithog gan ddefnyddio meddalwedd SNAP XMP. Cynlluniwyd yr arolwg cyntaf yn wreiddiol ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 13 ac fe'i diwygiwyd yn ddiweddarach fel ei fod yn addas i ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13 ei gwblhau. Cynlluniwyd yr ail arolwg i'w gwblhau gan fyfyrwyr ar gyrsiau meistr AU rhan-amser a/neu gyrsiau meistr a addysgir. Roedd y cam hwn hefyd yn cynnwys datblygu canllawiau trafod ar gyfer cyfweld â dysgwyr Blwyddyn 13, rhieni a gwarcheidwaid dysgwyr Blwyddyn 13, myfyrwyr cyrsiau meistr rhan-amser presennol a/neu fyfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir yn ogystal â staff Darparwyr AU. Rhannwyd yr offerynnau ymchwil hyn gyda Llywodraeth Cymru i gael ei

sylwadau ac er mwyn iddi eu cymeradwyo. Datblygwyd Hysbysiadau Preifatrwydd a Thaflenni Gwybodaeth hefyd i'w dosbarthu yn ôl yr angen.

Yn ystod y cam hwn, cafwyd mynediad hefyd at ddata cyswllt Canolfannau Dysgu a chronfa ddata o fyfyrwyr AU sydd â'u domisil yng Nghymru ac a oedd yn derbyn cymorth cyllid myfyrwyr gan SLC yn ystod y flwyddyn academaidd 2024/25.

#### 2.1.4. Cam 4 – Gwaith maes gyda dysgwyr, rhieni a gwarcheidwaid Blwyddyn 12 a 13, a myfyrwyr AU

Roedd y pedwerydd cam yn cynnwys gwaith maes gyda dysgwyr, rhieni a gwarcheidwaid Blwyddyn 12 a 13, a myfyrwyr AU. Roedd hyn yn cynnwys:

- dosbarthu arolwg i ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13. Gan ddefnyddio cronfa ddata staff Canolfannau Dysgu a ddarparwyd gan SLC, cysylltwyd â Chanolfannau Dysgu ddechrau mis Mehefin 2025 a gofynnwyd iddynt rannu'r arolwg gyda dysgwyr Blwyddyn 13. Fodd bynnag, gan i'r cais gael ei wneud ar ôl i'r rhan fwyaf o ddysgwyr Blwyddyn 13 orffen yn yr ysgol a phan oeddent ar ganol cyfnod yr arholiadau, dim ond 211 o ddysgwyr a gwblhaodd yr arolwg (y cylch cyntaf).

  Yna cytunwyd â Llywodraeth Cymru y byddai'r arolwg yn cael ei ohirio dros gyfnod yr haf ac y byddai'n cael ei ailddylunio ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 12 a 13 o ddechrau'r flwyddyn academaidd 2025/26. Roedd hyn yn golygu addasu cwestiynau i ystyried y ffaith nad oedd dysgwyr wedi gwneud cais i'r brifysgol eto a dileu cwestiynau am geisiadau am gyllid myfyrwyr gan na fyddai'r rhain yn berthnasol eto. O ganol mis Medi ymlaen, cysylltwyd â Chanolfannau Dysgu eto, wedi'i ategu gan lythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru, i ofyn am eu cefnogaeth i ddosbarthu'r arolwg wedi'i ddiweddaru i'w dysgwyr. Hefyd, fe wnaeth Llywodraeth Cymru hyrwyddo'r arolwg drwy'r cylchlythyr Dysg ac fe wnaeth staff SLC helpu i godi ymwybyddiaeth ohono.

  Cwblhawyd arolwg yr ail gylch gan 669 o ddysgwyr a daeth i ben ddiwedd mis Hydref 2025, gan ddod â chyfanswm nifer yr ymatebwyr i'r arolwg i 880. Cwblhawyd cyfanswm o 93% (819) o'r ymatebion i'r arolwg yn Saesneg a 7% (61) yn Gymraeg. Ar ôl cwblhau'r arolwg, cymerodd 671 o ymatebwyr o'r ddau gylch ran mewn cystadleuaeth i ennill taleb siopa gwerth £50 drwy dynnu enw allan o het.

- cyfweliadau dilynol a grwpiau ffocws gyda dysgwyr Blwyddyn 13. Ar ôl cwblhau cam cyntaf yr arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 13, gofynnwyd i ddysgwyr a oeddent yn fodlon cymryd rhan mewn cyfweliad dilynol neu drafodaeth grŵp ffocws. Gwirfoddolodd 30 o ddysgwyr (14% o'r ymatebwyr i'r arolwg) ac roedd y tîm ymchwil yn gallu cyfweld â 9 o ddysgwyr yn ystod mis Awst a dechrau mis Medi. Gan fod y rhan fwyaf o'r cyfranwyr yn fenywod, yn astudio yn yr ysgol ac yn y rhan fwyaf o achosion, eisoes wedi ymrwymo i fynd i'r brifysgol, mabwysiadwyd dull gwahanol i nodi carfan ehangach o ddysgwyr Blwyddyn 13 i gyfrannu at weddill elfennau'r gwaith maes ansoddol. Cysylltwyd â thri choleg AB i drafod y posibilrwydd o gynnal grwpiau ffocws gyda rhai o’u dysgwyr Blwyddyn 13. Cytunodd dau goleg i hynny a chynhaliwyd sesiynau grŵp ffocws gyda dysgwyr mewn colegau yn ystod mis Hydref 2025. Gwnaed ymdrech i recriwtio cyfranogwyr gwrywaidd a oedd naill ai heb benderfynu neu'n ansicr ynghylch a fyddent yn mynd i'r brifysgol i'r sesiynau hyn.

Cyflawnwyd hyn drwy dargedu campysau a chyrsiau â niferoedd uchel o ddysgwyr gwrywaidd a chyrsiau ble, yn hanesyddol, roedd niferoedd bach o ddysgwyr wedi symud ymlaen i astudio yn y brifysgol. Mynychodd cyfanswm o 16 o ddysgwyr Blwyddyn 13 y 2 grŵp ffocws

- grwpiau ffocws i rieni a gwarcheidwaid. Cynhaliwyd tri grŵp ffocws rhithwir ym mis Medi gyda chyfanswm o 24 o rieni a gwarcheidwaid dysgwyr Blwyddyn 13. Defnyddiwyd cwmni recriwtio annibynnol i recriwtio a sgrinio cyfranwyr addas. Cytunwyd â Llywodraeth Cymru y dylai'r grwpiau gynnwys cymysgedd o rieni a gwarcheidwaid dysgwyr Blwyddyn 12 a 13, gan gynrychioli'r rhai yr oedd eu plant yn bendant/yn debygol iawn o fynd i'r brifysgol a'r rhai nad oeddent yn siŵr neu a oedd yn annhebygol o fynd i'r brifysgol. Roedd y 3 grŵp hefyd wedi'u strwythuro ar sail incwm yr aelwyd, a chynhaliwyd sesiynau ar wahân ar gyfer grwpiau incwm isel, canolig ac uchel [troednodyn 1]
- dosbarthu'r arolwg i fyfyrwyr AU rhan-amser ac ôl-raddedig sydd â'u domisil yng Nghymru. Dosbarthwyd arolwg i fyfyrwyr AU rhan-amser ac ôl-raddedig sydd â'u domisil yng Nghymru a oedd yn derbyn cymorth cyllid myfyrwyr ac wedi cydsynio i'w data gael eu defnyddio at ddibenion ymchwil ac ystadegol. Darparwyd cronfa ddata o 19,365 o fyfyrwyr AU sydd â'u domisil yng Nghymru i'r tîm ymchwil gan SLC, yn cwmpasu 3 carfan o fyfyrwyr:
    - myfyrwyr israddedig rhan-amser
    - myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser
    - myfyrwyr ôl-raddedig llawnamser a'r rhai sy'n dysgu o bell

  Nid oedd y gronfa ddata yn cynnwys unrhyw fyfyrwyr israddedig llawnamser gan nad oedd y garfan hon o fewn cwmpas yr ymchwil. Crëwyd sampl ar gyfer dosbarthu'r arolwg, wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

    - pob cyswllt a oedd yn fyfyriwr ôl-raddedig rhan-amser (996)
    - pob cyswllt a oedd yn fyfyriwr ôl-raddedig llawnamser (3,411) a'r rhai a oedd yn dysgu o bell (182) (cyfanswm o 3,593)
    - sampl ar hap o ychydig dros hanner y cysylltiadau a oedd yn fyfyrwyr israddedig rhan-amser (6,359 o 11,218).

  Ar ôl dileu'r cyfeiriadau e-bost dyblyg, cafodd cyfanswm o 10,651 o gysylltiadau eu huwchlwytho i feddalwedd yr arolwg. Lansiwyd yr arolwg ddechrau mis Mehefin a daeth i ben ddechrau mis Gorffennaf 2025. Anfonwyd gwahoddiad cychwynnol, ac yna hyd at 2 neges atgoffa, at y rhai na wnaethant ymateb. O'r cysylltiadau a gafodd eu huwchlwytho i feddalwedd yr arolwg:

    - ni wnaeth 76 o negeseuon gyrraedd pen eu taith

[1] Mynychodd y rhai â chyfanswm incwm aelwyd blynyddol o lai na £25,000 y grŵp ffocws incwm isel, mynychodd y rhai ag incwm o rhwng £25,001 a £44,999 y grŵp incwm canolig a mynychodd y rhai ag incwm o £45,000 a throsodd y grŵp incwm uchel.

- dewisodd 112 o unigolion beidio â chymryd rhan yn yr ymchwil.

Cwblhawyd yr arolwg gan 811 o gyfranogwyr. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd ymateb o 7.7% (811 o blith 10,585). Cwblhaodd y mwyafrif (99%) yr arolwg yn Saesneg, a chwblhaodd 1% (7) yr arolwg yn Gymraeg.

Ar ôl cwblhau'r arolwg, cymerodd 622 o'r ymatebwyr ran mewn cystadleuaeth i ennill taleb siop gwerth £50 drwy dynnu enw'r enillydd allan o het ar hap.

- grwpiau ffocws dilynol gyda myfyrwyr AU. Ar ddiwedd yr arolwg o fyfyrwyr AU, gofynnwyd i fyfyrwyr a fyddent yn fodlon cymryd rhan mewn grŵp ffocws dilynol. Gwirfoddolodd cyfanswm o 196 o fyfyrwyr, a gwahoddwyd 181 o'r rhain i fynychu trafodaeth grŵp ffocws yn ystod mis Mehefin. O blith y rhain, cadarnhaodd 76 y byddent yn mynychu. Cymerodd cyfanswm o 52 o fyfyrwyr ran mewn 10 sesiwn grŵp ffocws. O blith y rhain:
    - roedd 29 yn fyfyrwyr israddedig rhan-amser
    - roedd 8 yn fyfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser, ac
    - roedd 15 yn fyfyrwyr cwrs gradd meistr llawnamser a addysgir.

  Trefnwyd sesiwn grŵp ffocws ychwanegol ar gyfer myfyrwyr a nododd yr hoffent gymryd rhan yn y Gymraeg (12), ond ni fynychodd yr un ohonynt.

Rhoddwyd taleb siopa gwerth £20 i bob dysgwr blwyddyn 13 a gymerodd ran mewn cyfweliadau neu drafodaethau grŵp ffocws i gydnabod eu hamser a'u cyfraniad. Rhoddwyd taleb gwerth £30 i fyfyrwyr AU a gyfrannodd a rhoddwyd taleb gwerth £40 i rieni a gwarcheidwaid a gyfrannodd.

### 2.1.5. Cam 5 – Gwaith maes gyda staff Darparwyr AU

Roedd pumed cam y rhaglen waith yn cynnwys gwaith maes gyda staff Darparwyr AU. Gwahoddwyd pob un o'r 9 Sefydliad Addysg Uwch (SAU) yng Nghymru ynghyd â 2 Sefydliad Addysg Bellach (SAB) sy'n cynnig darpariaeth AU i gyfrannu at yr ymchwil. Y bwriad oedd siarad â staff Darparwyr AU sydd â chyfrifoldebau strategol, timau cymorth i fyfyrwyr, ac arweinwyr ar gyfer darpariaeth ran-amser ac ôl-raddedig.

Cyfrannodd cyfanswm o 10 Darparwr AU at yr ymchwil. Cynhaliwyd cyfweliadau â 7 Darparwr AU, ac fe wnaeth un ohonynt ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol hefyd. O blith y rhai a gyfwelwyd, roedd 5 yn SAU a 2 yn SAB. Dim ond 3 SAU arall a anfonodd dystiolaeth ysgrifenedig a hwyluswyd trafodaeth grŵp gydag Is-Gangellorion AU yn un o gyfarfodydd Prifysgolion Cymru. Darparodd Prifysgolion Cymru bapur tystiolaeth ysgrifenedig hefyd yn ogystal â chymryd rhan mewn cyfweliad.

At hynny, cynhaliwyd trafodaeth grŵp ffocws gyda'r 3 arweinydd Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach o bob cwr o'r sector AU yng Nghymru.

### 2.1.6. Cam 6 - Dadansoddi

Roedd cam olaf y rhaglen waith yn cynnwys dadansoddi data'r arolwg a'r gwaith maes ansoddol. Dadansoddwyd data meintiol yr arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13 yn ôl nodweddion allweddol megis lleoliad addysg, blwyddyn astudio, rhyw, lefel addysg rhieni a statws economaidd-gymdeithasol. Dadansoddwyd data meintiol yr arolwg o fyfyrwyr AU yn

ôl dull astudio. Cafodd data ansoddol yr arolwg eu codio a'u dadansoddi'n thematig. Paratowyd nodiadau manwl o gyfweliadau a thrafodaethau grwpiau ffocws gan ddefnyddio templed adrodd. Dadansoddwyd y nodiadau hyn yn thematig, gan ddefnyddio'r Dull Fframwaith (Gale et al, 2013), [troednodyn 2] gan ganiatáu i themâu a chymariaethau gael eu hadnabod yn systematig a'u cymharu ar draws gwahanol fathau o gyfranwyr.

## 2.2. Proffil y rhai a gyfrannodd at yr ymchwil

Yn yr adran hon rydym yn cyflwyno proffil o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13 a myfyrwyr AU a gyfrannodd at yr ymchwil.

### 2.2.1. Proffil carfan yr arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13

#### 2.2.1.1. Proffil demograffig yr ymatebwyr i'r arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13

Roedd yr 880 o ymatebwyr i'r arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13 yn dod o bob cwr o Gymru. Cafwyd y nifer mwyaf o ymatebion gan ymatebwyr sydd â'u domisil yn siroedd Rhondda Cynon Taf, Sir Fynwy a Chaerdydd. Cafwyd y nifer lleiaf o ymatebion gan ymatebwyr sydd â'u domisil yn siroedd Torfaen, Merthyr Tudful a Wrecsam.

Roedd cyfanswm o 64% o'r ymatebwyr i'r arolwg yn fenywod (562) a 34% (302) yn wrywod. Ni ddatgelodd yr ychydig sy'n weddill, 2% (16), eu rhyw. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr, 95% (837), yn uniaethu â'r un rhyw ag a gofrestrwyd adeg eu geni, roedd 2% (20) yn uniaethu â rhyw gwahanol ac roedd yn well gan weddill yr ymatebwyr, 3% (23), beidio ag ateb.

O ran grŵp ethnig neu genedligrwydd, nododd 83% (734) bod eu cefndir yn wyn, [troednodyn 3] nododd 13% (116) bod eu cefndir yn fwyafrif byd-eang [troednodyn 4] ac ni ddatgelodd yr ychydig sy'n weddill (4% neu 30) y wybodaeth hon.

O ran gwybodaeth ddemograffig arall:

- roedd gan 10% anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
- roedd 6% (57) yn gofalu am aelod arall o'r teulu fel rhiant, chwaer neu frawd
- roedd 5% (44) yn ystyried eu hunain yn anabl
- roedd gan 2% brofiad o fod mewn gofal
- roedd gan lai nag 1% blant
- nid oedd gan 26% (226) unrhyw rieni na gwarcheidwaid â chymwysterau AU. Roedd gan 63% (558) o leiaf un rhiant neu warcheidwad â chymwysterau AU ac ni ddarparodd yr 11% (98) sy'n weddill y data hwn.
- roedd 54% (472) wedi gweithio mewn swydd gyflogedig dros y flwyddyn flaenorol yn ogystal ag astudio, ond nid felly 43% (382). Dewisodd ychydig, 3% (26), beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

---

[2] Gale, N.K., Heath, G., Cameron, E. et al. Using the framework method for the analysis of qualitative data in multi-disciplinary health research. BMC Med Res Method Vol 13, 117 (2013). https://doi.org/10.1186/1471-2288-13-117

[3] Yn yr ystyr eu bod wedi disgrifio eu grŵp ethnig neu eu cenedligrwydd fel Cymreig Gwyn, Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig o Ogledd Iwerddon/Prydeinig, Gwyddelig Gwyn, Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig Gwyn, Roma Gwyn neu unrhyw gefndir Gwyn arall.

[4] Yn yr ystyr eu bod wedi disgrifio eu grŵp ethnig neu eu cenedligrwydd fel Cymysg, Asiaidd, Du neu grŵp ethnig arall.

### 2.2.1.2. Proffil astudio yr ymatebwyr i'r arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13

Mae Tabl 2.1 yn amlinellu proffil astudio'r ymatebwyr i'r arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13. Roedd cyfanswm o 79% o'r ymatebwyr i'r arolwg wedi'u lleoli mewn ysgol, tra bo 19% wedi'u lleoli mewn coleg. Roedd cyfanswm o 55% (481) o'r holl ymatebwyr i'r arolwg yn ddysgwyr Blwyddyn 13, roedd 45% (396) yn ddysgwyr Blwyddyn 12, ac ni wnaeth 3 ymateb i'r cwestiwn hwn.

**Tabl 2.1: Proffil astudio yr ymatebwyr i'r arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13**

| | Cylch 1 | | Cylch 2 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| **Coleg** | 18 | 9% | 151 | 23% |
| **Ysgol** | 188 | 89% | 506 | 75% |
| **Lleoliad arall** | 4 | 2% | 9 | 1% |
| **Heb ymateb** | 1 | <1% | 2 | <1% |
| **Cyfanswm** | 211 | 100% | 669 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3


O ran mynediad at gymorth neu gefnogaeth ariannol a ddefnyddiwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg, er bod y mwyafrif, 70% (614), wedi nodi nad oeddent wedi derbyn unrhyw un o'r mathau o gymorth a restrwyd, roedd eraill wedi cael y canlynol:

- roedd 14% (127) wedi cael Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)
- roedd 9% (81) wedi cael prydau ysgol neu brydau coleg am ddim
- roedd 1% (10) wedi cael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (GDLIC AB)
- roedd 1% (10) wedi cael cymorth ariannol gan goleg
- roedd llai nag 1% wedi cael grant i helpu gyda gofal plant
- roedd 2% (21) wedi cael math arall o gymorth ariannol.

### 2.2.1.3. Caledi ariannol a wynebwyd gan ymatebwyr i'r arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13

Mae Ffigur 2.1 yn amlinellu effaith caledi ariannol ar dlodi bwyd a brofwyd gan y garfan o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13. Mae'n dangos mai cymharol ychydig, 14% a llai ym mhob achos, a oedd wedi profi tlodi bwyd oherwydd diffyg arian neu adnoddau.

**Ffigur 2.1: P'un a oedd dysgwyr Blwyddyn 12 a 13 wedi profi tlodi bwyd yn ystod y 12 mis blaenorol**




Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r ffigur hwn yn dangos bod 14% neu lai o ddysgwyr presennol Blwyddyn 12 a 13 a gwblhaodd yr arolwg wedi profi tlodi bwyd. Bwyta dim ond ychydig o fathau o fwydydd a bwyta llai nag y dylent oedd y problemau mwyaf cyffredin yr oeddent yn eu hwynebu.

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 880 o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13. Mae'r cwestiynau'n deillio o Raddfa Diffyg Diogeledd Bwyd Aelwydydd a ddefnyddir yn gyffredin i asesu diogeledd bwyd, gan gynnwys gan Raglen Bwyd y Byd.

### 2.2.2. Proffil y rhai a gymerodd ran yng nghyfweliadau a grwpiau ffocws Blwyddyn 13

Cyfrannodd cyfanswm o 25 o ddysgwyr Blwyddyn 13, gyda 9 yn cymryd rhan mewn cyfweliadau ac 16 yn cyfrannu at drafodaethau grwpiau ffocws. O blith y 9 dysgwr Blwyddyn 13 a gymerodd ran mewn cyfweliad, roedd 6 yn fenywod a 3 yn wrywod. Roedd 8 wedi cwblhau eu hastudiaethau mewn ysgol ac un mewn coleg. Roedd pob un o'r 9 yn bwriadu dechrau yn y brifysgol yn nhymor yr hydref 2025.

Cymerodd cyfanswm o 16 o ddysgwyr Blwyddyn 13 ran mewn 2 drafodaeth grŵp ffocws a gynhaliwyd mewn 2 goleg AB gwahanol, roedd 11 yn bwriadu mynd i'r brifysgol, roedd 2 heb benderfynu ac nid oedd gan 2 ddiddordeb mewn astudio yn y brifysgol.

Roedd proffil yr 16 o ddysgwyr Blwyddyn 13 a gyfrannodd at drafodaethau’r grwpiau ffocws fel a ganlyn:

- roedd 9 yn wrywod a 7 yn fenywod
- disgrifiodd pob un o'r 16 eu grŵp ethnig fel Cymreig Gwyn
- roedd 7 yn gallu siarad o leiaf rhywfaint o Gymraeg (roedd 2 yn rhugl); nid oedd 7 yn gallu siarad unrhyw Gymraeg neu dim ond ychydig o eiriau y gallent eu siarad, roedd 5 yn astudio o leiaf rhywfaint o'u pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg

- nid oedd gan yr un ohonynt brofiad o fod mewn gofal ac nid oedd gan yr un ohonynt blant eu hunain
- roedd un yn gofalu am aelod o'r teulu
- roedd gan 11 ADY ac roedd un yn anabl
- roedd gan 8 riant â chymwysterau AU, ond nid felly 8 ohonynt
- roedd 6 yn cael LCA a 2 yn cael prydau coleg am ddim
- roedd y rhan fwyaf yn astudio cyrsiau galwedigaethol, gan gynnwys 5 yn astudio cwrs Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3, 4 yn astudio cwrs Cyfrifiadureg Lefel 3, 2 yn astudio cymhwyster gofal plant Lefel 3 a 2 yn astudio cymhwyster Chwaraeon Lefel 3.

### 2.2.3. Proffil o garfan yr ymatebwyr i'r arolwg o fyfyrwyr AU

#### 2.2.3.1. Proffil demograffig o'r ymatebwyr i'r arolwg o fyfyrwyr AU

Roedd ymatebwyr i'r arolwg AU yn dod o bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Cafwyd y nifer mwyaf o ymatebion gan ymatebwyr yn siroedd Caerdydd (13% neu 106 o ymatebwyr) ac Abertawe (8% neu 62 o ymatebwyr); gyda siroedd Caerfyrddin, Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Wrecsam oll yn cyfrif am tua 6% o'r ymatebwyr. Cafwyd y nifer lleiaf o ymatebion gan ymatebwyr yn siroedd Merthyr Tudful, Ynys Môn, Sir Fynwy a Blaenau Gwent – pob un yn cyfrif am 2% neu lai o'r ymatebion a gafwyd.

Roedd ychydig o dan dri chwarter (73% neu 589 o ymatebwyr) o'r holl ymatebwyr i'r arolwg yn fyfyrwyr benywaidd a 24% (197 o ymatebwyr) yn fyfyrwyr gwrywaidd. Ni ddatgelodd yr ychydig sy'n weddill eu rhyw. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (96% neu 776 o ymatebwyr), yn uniaethu â'r un rhyw ag a gofrestrwyd adeg eu geni, roedd 1% (10 o ymatebwyr) yn uniaethu â rhyw gwahanol ac roedd yn well gan yr ychydig ymatebwyr a oedd yn weddill beidio ag ateb.

O ran grŵp ethnig neu genedligrwydd, nododd 91% (732 o ymatebwyr) fod ganddynt gefndir gwyn, nododd 6% (57 o ymatebwyr) fod ganddynt gefndir mwyafrif byd-eang ac ni ddatgelodd yr ychydig sy'n weddill y wybodaeth hon.

O ran gwybodaeth ddemograffig arall:

- roedd gan 27% (197 o ymatebwyr) ADY a oedd yn ei gwneud hi'n anoddach iddynt ddysgu
- roedd 22% (161 o ymatebwyr) yn ystyried eu hunain yn anabl
- roedd gan 48% (385 o ymatebwyr) blant [troednodyn 5]
- roedd 14% (110) yn gofalu am aelod arall o'r teulu fel rhiant, chwaer neu frawd
- roedd gan 4% (29 o ymatebwyr) brofiad o fod mewn gofal
- nid oedd gan 64% (476 o ymatebwyr) unrhyw rieni na gwarcheidwaid â chymwysterau AU.

#### 2.2.3.2. Proffil astudio yr ymatebwyr i'r arolwg o fyfyrwyr AU

Mae Tabl 2.2 yn amlinellu proffil astudio'r ymatebwyr i'r arolwg. Roedd ychydig dros eu hanner (55% neu 449 o ymatebwyr) yn fyfyrwyr israddedig rhan-amser ac roedd dwy ran o

[5] Ni ddiffiniodd yr arolwg oedran y plant, felly gallai'r rhain fod wedi cynnwys plant a oedd yn oedolion.

bump (41% neu 335 o ymatebwyr) yn astudio cwrs meistr a addysgir. Roedd yr ychydig sy'n weddill (5% neu 42 o ymatebwyr) yn astudio cwrs ôl-raddedig rhan-amser arall.

**Tabl 2.2: Proffil astudio myfyrwyr AU a ymatebodd i'r arolwg**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Myfyrwyr israddedig rhan-amser** | 449 | 55 |
| **Cwrs meistr a addysgir ar sail llawnamser** | 218 | 27 |
| **Cwrs meistr a addysgir ar sail ran-amser** | 117 | 14 |
| **Cwrs ôl-raddedig rhan-amser arall** | 27 | 3 |
| **Cyfanswm** | 811 | 100 |

Ffynhonnell: Arolwg OB3

Roedd ychydig yn llai na hanner y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg (49% neu 396 o ymatebwyr) yn astudio cwrs ar sail dysgu o bell gyda'r Brifysgol Agored. O blith y rhain, roedd y mwyafrif (89% neu 353 o ymatebwyr) yn astudio cwrs israddedig rhan-amser.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nad oeddent yn astudio gyda'r Brifysgol Agored (430 o ymatebwyr) am leoliad eu prifysgol. O blith y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (407 o ymatebwyr), roedd dros eu hanner (58% neu 235) yn astudio mewn prifysgol yng Nghymru tra bo'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr sy'n weddill (40% neu 162) yn astudio mewn prifysgol yn Lloegr.

O ran mynediad at gymorth neu gefnogaeth ariannol a ddefnyddiwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg, er nad oedd y mwyafrif (60% neu 480 o ymatebwyr) wedi cael unrhyw un o'r mathau o gymorth a restrwyd, roedd eraill wedi cael y canlynol:

- roedd 15% (480) wedi cael Lwfans Myfyrwyr Anabl
- roedd 13% (105) wedi cael cymorth ariannol gan rieni, partner neu deulu arall
- roedd 5% (43) wedi cael bwrsariaeth prifysgol
- roedd 3% (25) wedi cael cymorth ariannol i dalu costau gofal plant
- roedd 2% (13) wedi cael cymorth ariannol i ofalu am oedolion dibynnol
- roedd 2% (13) wedi cael cymorth o gronfa galedi'r brifysgol.

### 2.2.4. Proffil y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws AU

Cwblhaodd 42 o blith 52 o fyfyrwyr AU a gyfrannodd at drafodaethau'r grwpiau ffocws ffurflen ddemograffig:

- roedd 9 yn wrywod a 33 yn fenywod
- roedd 20 yn astudio gyda'r Brifysgol Agored; nid oedd 21 yn gwneud hynny; ac nid oedd un eisiau datgelu'r wybodaeth
- roedd 38 yn wyn a 4 o gefndir mwyafrif byd-eang
- roedd 20 yn gallu siarad o leiaf rhywfaint o Gymraeg; nid oedd 22 yn gallu siarad yr iaith. Nid oedd yr un ohonynt yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
- roedd gan 2 brofiad o fod mewn gofal

- roedd gan 17 blant [troednodyn 6]
- roedd 6 yn ofalwyr
- roedd gan 16 ADY ac roedd 11 yn ystyried eu hunain yn anabl
- roedd gan 20 riant â chymwysterau AU, ond nid felly 22 ohonynt.

## 2.3. Ystyriaethau methodolegol

Mae'n werth nodi, gan fod y gwaith ymchwil hwn wedi'i gomisiynu i lywio gwerthusiad o Ddiwygiadau Diamond, nad yw'r adroddiad hwn wedi'i fwriadu i ddarparu gwerthusiad llawn a chynhwysfawr o'r diwygiadau eu hunain. Yn hytrach, mae'r adroddiad wedi'i strwythuro i ddarparu tystiolaeth benodol ar y tri amcan allweddol sy'n ymwneud ag ehangu mynediad, darpariaeth ran-amser a darpariaeth ôl-raddedig.

Bu ymgysylltu â dysgwyr Blwyddyn 13 ar ddiwedd y flwyddyn academaidd yn heriol, gan fod llawer yn gadael yr ysgol neu'r coleg ac yng nghanol eu harholiadau. I liniaru hyn, gweinyddwyd yr arolwg mewn dau gylch a chafodd ei ehangu yn ystod yr ail garfan i gynnwys dysgwyr Blwyddyn 12.

Mae tuedd ymateb bosibl yn ymatebion dysgwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 a gymerodd ran yn yr arolwg, gan fod y rhai a oedd yn bwriadu mynd ymlaen i'r brifysgol yn fwy tebygol o ymateb. Yn ogystal â hynny, yng nghylch cyntaf yr arolwg, roedd tuedd o blaid dysgwyr mewn ysgolion, ac yn gyffredinol, cafwyd cyfran uwch o ymatebion gan ddysgwyr benywaidd. Er mwyn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn, cynhaliwyd gwaith maes ansoddol mewn 2 goleg yn ystod mis Hydref, gan ganolbwyntio'n benodol ar recriwtio dysgwyr gwrywaidd a'r rhai a oedd heb benderfynu a fyddent yn mynd ymlaen i AU ai peidio.

Mae data'r arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13 wedi'i ddadansoddi ar draws 5 nodwedd allweddol. Archwiliwyd yr ymatebion yn ôl lleoliad addysg (ysgol neu goleg), blwyddyn astudio (Blwyddyn 12 neu Flwyddyn 13), rhyw (gwryw neu fenyw), lefel addysg rhieni (p'un a oedd gan y dysgwyr riant a oedd wedi cael addysg uwch ai peidio), a statws economaidd-gymdeithasol (wedi'i fesur ar sail cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim neu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)). Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli canfyddiadau ar gyfer dysgwyr sy'n cael prydau am ddim neu'r LCA, gan fod y grwpiau hyn yn gymharol lai na'r categorïau eraill a ddadansoddwyd.

Mewn achosion lle mae nifer yr ymatebion i'r arolwg yn llai na 5, mae'r data wedi'i atal er mwyn diogelu cyfrinachedd ymatebwyr i'r arolwg.

Er bod yr adroddiad hwn yn crynhoi'r prif batrymau demograffeg, byddai dadansoddiad pellach o ethnigrwydd ymhlith dechreuwyr AU sydd â'u domisil yng Nghymru yn cefnogi'r gwaith monitro yn erbyn uchelgeisiau Llywodraeth Cymru yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae data HESA yn dangos amrywiad mewn cyfranogiad ar draws grwpiau ethnig, ond mae'r manylder a'r gallu i gymharu'r setiau data sydd ar gael yn cyfyngu ar y graddau y gellir dod i gasgliadau cadarn ar hyn o bryd. Byddai cryfhau ansawdd y data a'r trefniadau adrodd yn y maes hwn yn gwella'r ddealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng ethnigrwydd a mynediad at AU yng Nghymru.

---

[6] Nid oedd yr arolwg yn diffinio oedran y plant, felly gallai'r rhain fod wedi cynnwys plant a oedd yn oedolion.

Defnyddir data dyddiol system glirio UCAS yn yr adroddiad hwn i roi darlun o'r tueddiadau recriwtio. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwbl gynhwysfawr. Nid yw pob myfyriwr israddedig llawnamser yn gwneud cais drwy UCAS, ac mae ffigurau dyddiol y system glirio yn wahanol i'r ystadegau terfynol ar ddiwedd y cylch. Felly, dylid dehongli'r data hyn fel rhai sy'n darparu tueddiadau eang yn hytrach na chyfansymiau manwl gywir. Byddai darlun mwy pendant o ddechreuwyr llawnamser yn gofyn am driongli data UCAS â chofnodion cofrestru HESA.

Mae hefyd yn bwysig nodi bod cyfran o ddechreuwyr israddedig llawnamser yn gwneud cais yn uniongyrchol i sefydliadau yn hytrach na thrwy UCAS. Mae'r llwybrau hyn yn fwy cyffredin mewn pynciau penodol neu ymhlith dysgwyr aeddfed, sy'n golygu nad yw ffigurau sy'n seiliedig ar ddata UCAS yn cynrychioli'r garfan gyfan sydd â'u domisil yng Nghymru.

I ddechrau, ystyriwyd y byddai ysgolion a cholegau yn rhannu negeseuon gyda rhieni a gwarcheidwaid i'w hannog i gymryd rhan yn yr ymchwil. Fodd bynnag, o ystyried yr ymgysylltiad cyfyngedig gan ysgolion a cholegau tua diwedd y flwyddyn academaidd 2024 i 2025 ac er mwyn peidio â rhoi gormod o faich arnynt, penderfynwyd recriwtio rhieni a gwarcheidwaid yn gyfan gwbl drwy gwmni recriwtio annibynnol yn lle hynny. Arweiniodd cwmni ymchwil y farchnad, DJS Research, y gwaith recriwtio gan ddefnyddio teclyn sgrinio y cytunwyd arno i adnabod cyfranwyr addas. Bu'r dull hwn yn effeithiol o ran sicrhau bod trawstoriad o rieni a gwarcheidwaid yn cymryd rhan yn nhrafodaethau'r grwpiau ffocws.

Yn olaf, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r adborth ansoddol a gasglwyd gan ddysgwyr, myfyrwyr, rhieni a gwarcheidwaid a gyfrannodd at y gwaith ymchwil hwn. Mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu barn nifer bach o gyfranwyr ac ni ddylid eu defnyddio i orgyffredinoli ar draws y carfanau hyn.

# 3. Adolygiad o bolisïau

## 3.1. Cyflwyniad

Yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadolygiad annibynnol o drefniadau cyllido AU a chyllid myfyrwyr, wedi'i arwain gan Syr Ian Diamond. Argymhellodd yr adolygiad y dylid ailwampio'r pecyn cymorth i fyfyrwyr yn llwyr, gan fabwysiadu model a fyddai'n cydnabod 'costau cyfannol astudio AU i fyfyrwyr, sef ffioedd a chynhaliaeth'. Argymhellodd hefyd y dylid annog llwybrau rhan-amser i AU, drwy ddarparu cymorth tuag at gostau byw i fyfyrwyr rhan-amser, ac y dylai benthyciadau ar gyfer ffioedd barhau i fod ar gael i'r garfan hon. Nododd ymhellach argymhellion ar gyfer cefnogi astudiaethau ôl-raddedig, gan gynnwys y dylai myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir gael yr un lefel o gymorth cynhaliaeth a ffioedd dysgu â myfyrwyr israddedig. At hynny, nododd yr adolygiad gynigion ar gyfer cefnogi 3 grŵp o fyfyrwyr sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i AU, sef myfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, myfyrwyr anabl a myfyrwyr sy'n rhieni.

Mewn ymateb i argymhellion yr adolygiad, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfres o newidiadau i gyllid myfyrwyr, y cyfeirir atynt fel Diwygiadau Diamond. Bwriad Diwygiadau Diamond oedd ehangu mynediad i AU, a chyfranogiad yn y maes, a chryfhau'r ddarpariaeth ran-amser ac ôl-raddedig ledled Cymru.

O'r flwyddyn academaidd 2018/19 ymlaen, cyflwynodd Diwygiadau Diamond newidiadau i'r pecyn cymorth ffioedd dysgu a chymorth cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru. Roedd y prif newidiadau fel a ganlyn:

- cafodd grantiau ffioedd dysgu llawnamser eu disodli gan fenthyciadau hyd at y lefel ffioedd uchaf sy'n berthnasol. Gosodwyd hyn ar £9,000 tan fis Chwefror 2024, pan gafodd ei gynyddu i £9,250 y flwyddyn i gyd-fynd â'r ffioedd a godir gan Ddarparwyr AU yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban ynghyd â chap ffioedd dysgu uwch cyfatebol i'r rhai sy'n astudio yng Nghymru. Cafodd hefyd ei gynyddu i £9,535 ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025/26 a bydd yn cynyddu eto i £9,700 ar gyfer y flwyddyn academaidd 2026/27. Mae'r cynnydd yn cyd-fynd â'r ffioedd a godir yn Lloegr. Roedd benthyciad ffioedd dysgu rhan-amser ar gael am y tro cyntaf hefyd.

- diwygiwyd cymorth cynhaliaeth i gynnwys grant cynhaliaeth heb brawf modd o £1,000 ar gyfer pob myfyriwr cymwys llawnamser sydd â'i ddomisil yng Nghymru. Cyflwynwyd grant cynhaliaeth ychwanegol sy'n seiliedig ar brawf modd, a oedd yn lleihau'n raddol i'r rhai ag incwm aelwydydd o hyd at £59,200.

- cyflwynwyd benthyciad cynhaliaeth nad oedd yn seiliedig ar brawf modd i dalu'r gwahaniaeth rhwng uchafswm y cymorth cynhaliaeth, a swm y grant cynhaliaeth sy'n seiliedig ar brawf modd y gall myfyriwr ei gael

- daeth myfyrwyr rhan-amser yn gymwys i gael pecyn o gymorth cynhaliaeth, sy'n cyfateb i'r hyn sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig llawnamser ar sail pro rata, ac mae hyn yn parhau i fodoli. Mae'r swm a dderbynnir yn dibynnu ar incwm yr aelwyd a dwyster yr astudiaethau. Rhaid i fyfyrwyr rhan-amser fod yn astudio o leiaf 25% o gwrs cyfwerth ag amser llawn (FTE) er mwyn bod yn gymwys.

- daeth myfyrwyr ôl-raddedig a oedd yn astudio cwrs meistr a addysgir yn gymwys i gael cymorth fel cyfraniad tuag at gostau, gan gynnwys cyllid grant a benthyciadau. Fodd bynnag, cafodd yr elfen grant ei dileu ym mis Chwefror 2024 a'i disodli gan gymorth benthyciad myfyriwr ad-daladwy o'r flwyddyn academaidd 2024/25 ymlaen. Mae gan fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n astudio ar lefel doethuriaeth fynediad at fenthyciad ad-daladwy

- daeth myfyrwyr â phrofiad o fod mewn gofal a oedd o dan 25 oed ar ddechrau eu cwrs yn gymwys i gael uchafswm y grant cynhaliaeth, waeth beth fo incwm yr aelwyd ac unrhyw gymorth ariannol arall y maent yn gymwys i'w gael, ac mae hynny'n parhau.

## 3.2. Cymorth cynhaliaeth blynyddol i israddedigion llawnamser

Mae'r trefniadau blynyddol cyfredol ar gyfer cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig wedi'u nodi yn Nhabl 3.1. Ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol (2025/26) mae myfyrwyr israddedig llawnamser yn gymwys i gael hyd at £15,415 tuag at eu costau byw os ydynt yn byw oddi cartref ac yn astudio yn Llundain; hyd at £12,345 y flwyddyn os ydynt yn byw oddi cartref ac yn astudio yn rhywle arall yn y DU, neu hyd at £10,480 os ydynt yn astudio ac yn byw gartref. Mae pob myfyriwr israddedig llawnamser yn cael grant o £1,000 nad yw'n seiliedig ar brawf modd ac mae'r balans sy'n weddill rhwng y benthyciad a'r cymorth grant yn dibynnu ar ble mae'r myfyriwr yn byw ac yn astudio, ac incwm ei aelwyd. [troednodyn 7]

[7] Er enghraifft, mae myfyrwyr sy'n astudio oddi cartref, y tu allan i Lundain, yn gymwys i gael uchafswm o £12,345 o gymorth cynhaliaeth. Dyfernir yr uchafswm o £8,100 i'r rhai sydd â throthwyon incwm aelwyd o hyd at £18,370. Mae hyn yn cael ei ostwng £1 am bob £5.75 ychwanegol o incwm uwchlaw £18,370.

**Tabl 3.1: Cymorth cynhaliaeth blynyddol i fyfyrwyr israddedig llawnamser sydd â'u domisil yng Nghymru**

| **Yn byw oddi cartref: Y tu allan i Lundain**<br>**Trothwyon incwm aelwydydd enghreifftiol** | **Grant** | **Benthyciad** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| £18,370 | £8,100 | £4,245 | £12,345 |
| £25,000 | £6,947 | £5,398 | £12,345 |
| £35,000 | £5,208 | £7,137 | £12,345 |
| £45,000 | £3,469 | £8,876 | £12,345 |
| £59,200 neu uwch | £1,000 | £11,345 | £12,345 |

| **Yn byw oddi cartref: Yn Llundain**<br>**Trothwyon incwm aelwydydd enghreifftiol** | **Grant** | **Benthyciad** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| £18,370 | £10,124 | £5,291 | £15,415 |
| £25,000 | £8,643 | £6,772 | £15,415 |
| £35,000 | £6,408 | £9,007 | £15,415 |
| £45,000 | £4,174 | £11,241 | £15,415 |
| £59,200 neu uwch | £1,000 | £14,415 | £15,415 |

| **Byw gartref**<br>**Trothwyon incwm aelwydydd enghreifftiol** | **Grant** | **Benthyciad** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| £18,370 | £6,885 | £3,595 | £10,480 |
| £25,000 | £5,930 | £4,550 | £10,480 |
| £35,000 | £4,488 | £5,992 | £10,480 |
| £45,000 | £3,047 | £7,433 | £10,480 |
| £59,200 neu uwch | £1,000 | £9,480 | £10,480 |

Ffynhonnell: Cyllid Myfyrwyr Cymru

### 3.2.1. Pennu lefel y cymorth cynhaliaeth

Mae gwerth cymorth cynhaliaeth i israddedigion wedi cynyddu'n flynyddol. Cynigiodd y Diwygiadau Diamond y dylai lefel y cymorth cynhaliaeth gael ei osod ar gyfradd sy'n 'gyfwerth â'r Cyflog Byw Cenedlaethol'.[troednodyn 8] Mabwysiadwyd yr argymhelliad hwn yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru, fodd bynnag, yn fwy diweddar, mae'r cynnydd wedi cael ei gysoni â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Mae hyn wedi golygu bod cyfradd y cynnydd ar gyfer cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig cymwys sydd â'u domisil yng Nghymru wedi arafu – er enghraifft, 1.6% ar gyfer 2025/26.

### 3.2.2. Meini prawf cymhwystra ar gyfer myfyrwyr israddedig

Nid yw'r trothwyon incwm aelwydydd a ddefnyddir i bennu faint o gyllid grant cynhaliaeth israddedig sydd ar gael wedi newid dros amser. Er enghraifft, yn y flwyddyn academaidd 2019/20, roedd myfyrwyr o gartrefi ag incwm gweddilliol o £18,370 yn gymwys i gael y lefel uchaf o gyllid grant cynhaliaeth (sef £8,100) - yr un lefel o incwm ag yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol 2025/26. Wrth i incwm aelwydydd gynyddu dros amser, mae llai o fyfyrwyr wedi bod yn gymwys i gael y lefel uchaf o gymorth grant cynhaliaeth; ac mae'r cymorth grant cynhaliaeth yn ffurfio cyfran lai o'r pecyn cynhaliaeth cyffredinol. Yn yr un modd, nid yw'r trothwy incwm aelwyd uchaf (sef £59,200) wedi newid dros amser.

Er bod swm y grant cynhaliaeth a ddyfernir hefyd wedi aros yr un fath dros amser, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd yn cynyddu'r grant 2% ar gyfer y flwyddyn academaidd 2026/27 fel rhan o gynnydd cyffredinol i gymorth cynhaliaeth.

## 3.3. Cymorth i israddedigion rhan-amser

### 3.3.1. Benthyciad ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr israddedig rhan-amser

Mae myfyrwyr israddedig rhan-amser yn gallu cael mynediad at gymorth benthyciad ffioedd dysgu ar sail pro rata. Rhaid i fyfyrwyr astudio o leiaf 25% o gwrs llawnamser er mwyn cael y benthyciad ffioedd dysgu. Gall myfyrwyr rhan-amser gael benthyciad ffioedd dysgu blynyddol ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol 2025/26 hyd at:

- £2,625 os ydynt mewn prifysgol neu goleg yng Nghymru, neu'n astudio yn y Brifysgol Agored
- £7,145 os ydynt mewn prifysgol neu goleg cyhoeddus y tu allan i Gymru

£4,765 os ydynt mewn prifysgol neu goleg preifat y tu allan i Gymru.

### 3.3.2. Cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig rhan-amser

Gall y rhai sy'n israddedigion cymwys am y tro cyntaf ac sy'n astudio'n rhan-amser gael cymorth ar gyfer costau byw. Mae swm y cymorth yn dibynnu ar ddwyster yr astudiaethau ac incwm yr aelwyd. Rhaid i fyfyrwyr astudio o leiaf 25% o gwrs llawnamser i gael y cymorth. Uchafswm y benthyciad a'r grant wedi'u cyfuno sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser yw £6,829. Mae swm y grant yn seiliedig ar swm cyfwerth ag amser llawn o £6,000, sy'n cael ei ostwng yn raddol fesul £1 am bob £6.84 ychwanegol o incwm uwchlaw £25,000, ac ar sail pro rata yn dibynnu ar ddwyster yr astudiaethau.

[8] Asesiad Effaith Integredig: Cymorth Graddau Meistr Ôl-raddedig ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25

**Tabl 3.2: Cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig rhan-amser**

| Blwyddyn academaidd 2025/26 | Dwyster cwrs o 75% | | Dwyster cwrs o 75% | | Dwyster cwrs o 75% | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Trothwyon incwm aelwydydd enghreifftiol | Benthyciad | Grant | Benthyciad | Grant | Benthyciad | Grant |
| £25,000 neu lai | £776 | £1,500 | £1,553 | £3,000 | £2,329 | £4,500 |
| £35,000 | £1,142 | £1,135 | £2,283 | £2,270 | £3,425 | £3,404 |
| £45,000 | £1,507 | £769 | £3,014 | £1,539 | £4,521 | £2,308 |
| £59,200 neu fwy | £2,026 | £250 | £4,053 | £500 | £6,829 | £750 |
| Cyfanswm | £2,276 | | £4,553 | | £6,829 | |

Ffynhonnell: Cyllid Myfyrwyr Cymru

## 3.4. Cymorth i fyfyrwyr cyrsiau meistr ôl-raddedig a addysgir

Ers gweithredu Diwygiadau Diamond, mae cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig sydd â'u domisil yng Nghymru wedi bod yn hael o'i gymharu â gwledydd eraill y DU.

Rhwng y blynyddoedd academaidd 2019/20 a 2023/24 roedd y cymorth ar gyfer gradd meistr ôl-raddedig a addysgir yn cynnwys grant o £1,000 i bob myfyriwr cymwys, grant 'cyfraniad at gostau' ychwanegol yn seiliedig ar brawf modd hyd at £5,885 a benthyciad ad-daladwy i wneud iawn am y gwahaniaeth rhwng y grant a chyfanswm y cymorth a dderbyniwyd (hyd at £18,770 ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023/24).

Ar gyfer myfyrwyr newydd sy'n cofrestru o'r flwyddyn academaidd 2024/25 ymlaen, cafodd elfen grant y cymorth ei dileu a'i disodli gan fenthyciad ad-daladwy. Y cymorth ar gyfer gradd meistr ôl-raddedig a addysgir ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol 2025/26 yw £19,255.

Cyfraniad tuag at gostau yw'r cyllid hwn ac mae'n cwmpasu hyd y cwrs, felly pe bai myfyriwr yn astudio cymhwyster meistr a addysgir dros gyfnod o ddwy flynedd (o'r flwyddyn academaidd 2025/26), byddai'n cael £9,627 ym mlwyddyn un a £9,628 ym mlwyddyn dau.

## 3.5. Cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal

Gwnaeth Rheoliadau 2018 ddarpariaeth i bobl sy'n gadael gofal gael uchafswm y grant cynhaliaeth, waeth beth fo incwm yr aelwyd, ac unrhyw gymorth ariannol arall y mae ganddynt hawl i'w gael.

### 3.6. Grantiau a lwfansau eraill wedi'u targedu

Mae'r grantiau a'r lwfansau wedi'u targedu sy'n bodoli ar gyfer myfyrwyr israddedig, sef y Grant Gofal Plant, y Grant Oedolion Dibynnol, y Lwfans Dysgu i Rieni a'r Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, yn parhau i fod ar gael.

### 3.7. Cymorth myfyrwyr ar gyfer cyllid AU

Mae'r SLC wedi cyhoeddi ystadegau blynyddol ers 2017/18 am y cymorth ariannol a ddarperir i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru a'r UE (y tu allan i'r DU) sy'n cael cymorth ar gyfer AU.

Yn ystod 2024/25 talwyd £1.2 biliwn i gefnogi myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru a'r UE (y tu allan i'r DU), cynnydd o 1.9% o 2023/24. Roedd nifer y myfyrwyr a dderbyniodd gyllid yn ystod 2024/25 yn 79,000, sy'n gynnydd bach o gymharu â 2023/24.

Ers 2013/14 mae'r swm a dalwyd mewn cyllid AU wedi cynyddu 78.7% o £671.6 miliwn, tra bo nifer y myfyrwyr sy'n derbyn cyllid wedi cynyddu 21.6% (o 65,000), fel y dangosir yn Ffigur 3.1.


Roedd y niferoedd yn cynyddu tua 3% y flwyddyn hyd at 2017/18 pan wnaethant gynyddu 5.5%. Fe wnaethant barhau i gynyddu, gan gyrraedd uchafbwynt o 86,300 yn 2020/21 (cynnydd o 7.1% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol). Mae adroddiad yr SLC yn awgrymu bod y canfyddiad bod llai o gyfleoedd cyflogaeth yn sgil y pandemig COVID-19 yn debygol o fod wedi effeithio ar hyn ac wedi annog myfyrwyr newydd i ddilyn cyrsiau AU a myfyrwyr presennol i barhau â'u haddysg. Roedd y cynnydd yn arbennig o amlwg ymhlith niferoedd yr ôl-raddedigion, lle y gwelwyd cynnydd o 30.8% yn ystod 2020/21. [troednodyn 9]

Rhwng 2020/21 a 2023/24, gostyngodd nifer y myfyrwyr a gafodd gymorth o flwyddyn i flwyddyn. Roedd y gostyngiad yn nifer y myfyrwyr a gafodd gymorth yn ystod 2023/24 i'w briodoli'n bennaf i'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr israddedig a oedd yn derbyn cyllid, a ostyngodd 2.2% rhwng 2022/23 a 2023/24. Priodolir y cynnydd bach a welwyd yn nifer y myfyrwyr y dyfarnwyd cymorth iddynt yn ystod 2024/25 i gynnydd bach mewn israddedigion, wedi'i wrthbwyso gan ostyngiad yn niferoedd yr ôl-raddedigion.

Yn yr un modd, fel y dangosir yn Ffigur 3.1, cynyddodd swm y cyllid a ddyfarnwyd/a dalwyd i fyfyrwyr o flwyddyn i flwyddyn o 2013/14 ymlaen, gan gyrraedd uchafbwynt o £1.2 biliwn yn ystod 2020/21. Gostyngodd y cyllid a ddyfarnwyd rhwng 2020/21 a 2022/23 o flwyddyn i flwyddyn, ond adroddwyd cynnydd blynyddol ar gyfer 2023/24 a 2024/25.

[9] SFR 36/2001

**Ffigur 3.1: Nifer y myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru a'r UE (y tu allan i'r DU) sy'n derbyn cymorth AU a'r swm a ddyfarnwyd/a dalwyd**




Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos fod y swm a dalwyd mewn cyllid AU wedi cynyddu o £671.6 miliwn i £1.2 biliwn rhwng 2013/14 a 2024/25, tra bo nifer y myfyrwyr sy'n derbyn cyllid wedi cynyddu o 65,000 i 79,000, gan gyrraedd uchafbwynt o 86,300 yn 2020/21.

Ffynhonnell: [Cymorth i fyfyrwyr ar gyfer addysg uwch yng Nghymru 2025 - GOV.UK]

Roedd y prif dueddiadau a welwyd ar gyfer cymorth i fyfyrwyr israddedig yn ystod 2024/25 fel a ganlyn:

- talwyd £425.0 miliwn mewn benthyciadau ffioedd dysgu i israddedigion llawnamser, gyda gostyngiadau blynyddol ers yr uchafbwynt o £470.8 miliwn yn 2020/21.
- talwyd £420.0 miliwn mewn benthyciadau cynhaliaeth i israddedigion llawnamser, sy'n gynnydd o 10.1% ers 2023/24. Gostyngodd nifer yr israddedigion llawnamser sy'n derbyn benthyciadau cynhaliaeth 1.7% rhwng 2023/24 a 2024/25, i 51,505 o fyfyrwyr. Mae cynnydd blynyddol yn y swm a delir rhwng 2019/20 a 2024/25 i'w briodoli i gynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y benthyciad cyfartalog a chynnydd yn uchafswm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael.

Roedd y prif dueddiadau a welwyd ar gyfer cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig yn ystod 2024/25 fel a ganlyn:

- talwyd £67.6 miliwn mewn benthyciadau cyrsiau meistr ôl-raddedig, 23.1% yn uwch nag yn 2023/24 ac o ganlyniad uniongyrchol i ddirwyn y grant cyrsiau meistr ôl-raddedig i ben (a oedd yn £17.5 miliwn yn ystod 2023/24)

- talwyd £3.7 miliwn mewn benthyciadau cyrsiau doethuriaeth ôl-raddedig, sef gostyngiad 2.7% o gymharu â 2023/24.

Y benthyciad cynhaliaeth llawnamser cyfartalog a dalwyd i fyfyriwr sydd â'i ddomisil yng Nghymru yn ystod 2024/25 oedd £8,150. Mae'r swm hwn wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ers 2013/14 (o £3,310), yn unol â chynnydd yn uchafswm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr, ac eithrio yn ystod 2018/19 pan ostyngodd y swm cyfartalog – yn fwyaf tebygol oherwydd y cynnydd yn uchafswm y Grant Dysgu llawnamser gan Lywodraeth Cymru a oedd ar gael i fyfyrwyr newydd.

Y benthyciad ffioedd dysgu llawnamser cyfartalog a dalwyd ar ran myfyriwr sydd â'i ddomisil yng Nghymru yn ystod 2024/25 oedd £8,560. Mae'r cyfartaledd hwn wedi cynyddu dros amser ers 2013/14 (o £3,410) gyda chynnydd sydyn yn 2018/19 oherwydd i'r grantiau ffioedd dysgu i fyfyrwyr newydd gael eu dirwyn i ben. Mae cynnydd blynyddol wedi arafu ers 2020/21, ac adroddwyd cynnydd o 0.6% rhwng 2023/24 a 2024/25.

Dengys data cynnar ar gyfer 2025/26 fod cyfanswm o tua 69,700 o fyfyrwyr (israddedig ac ôl-raddedig) yn derbyn cyllid, sy'n gynnydd o'i gymharu â'r 68,600 ar yr un adeg y llynedd.

### 3.7.1. Ad-dalu benthyciadau myfyrwyr

Mae myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru yn dechrau ad-dalu eu benthyciad myfyriwr pan fydd eu hincwm blynyddol yn mynd yn uwch na £28,470. Y cynharaf y bydd myfyriwr yn dechrau ad-dalu'r benthyciad yw'r mis Ebrill ar ôl iddynt adael eu cwrs neu'r mis Ebrill 4 blynedd ar ôl i'r cwrs ddechrau os ydynt wedi astudio'n rhan-amser a bod y cwrs yn hwy na 4 blynedd. Cyfrifir ad-daliadau ar sail 9% o enillion blynyddol uwchlaw'r trothwy incwm.

Ers 2010, mae dyled benthyciad cynhaliaeth myfyrwyr llawnamser sydd â'u domisil yng Nghymru yn cael ei chanslo'n rhannol hyd at £1,500 pan fyddant yn dechrau ad-dalu eu benthyciadau waeth ble maent yn astudio. Mae'r cynllun hwn yn unigryw i Gymru ac wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrwyr israddedig llawnamser.

Mae benthyciadau myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru yn cael ei dileu 30 mlynedd ar ôl y mis Ebrill yr oeddent i fod i ddechrau ei had-dalu. Mae benthyciad myfyriwr hefyd yn cael ei ganslo os bydd y person yn marw a gellir ei ganslo os nad yw'r person yn gallu gweithio mwyach oherwydd salwch neu anabledd.

### 3.7.2. Ystyriaethau ychwanegol

Nid yw lefelau ffioedd dysgu ar gyfer astudiaethau israddedig rhan-amser ac astudiaethau ôl-raddedig wedi'u rheoleiddio ac maent yn fater i Ddarparwyr AU. Fodd bynnag, nid yw Darparwyr AU sydd wedi'u lleoli yng Nghymru fel arfer yn codi mwy nag uchafswm y lwfans cyllid myfyrwyr sydd ar gael drwy'r benthyciad rhan-amser.

# 4. Adolygiad o niferoedd y myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru mewn AU

Mae'r bennod hon yn crynhoi data sydd ar gael gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) [troednodyn 10] a Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS) [troednodyn 11] yn ymwneud â myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru a astudiodd mewn sefydliad AU ers 2016/17, gyda phwyslais penodol ar dueddiadau a data cyrsiau rhan-amser a chyrsiau meistr ôl-raddedig a addysgir.

Yn ôl diffiniadau HESA o fyfyrwyr, mae data myfyrwyr yn seiliedig ar nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru ar gyfer nod addysgol. Gall myfyriwr ddilyn mwy nag un cwrs ac felly, efallai y bydd mwy nag un cofrestriad ar gyfer myfyriwr unigol. Nid yw'n cyfateb i gyfrif pennau nifer y myfyrwyr mewn AU.

## 4.1. Niferoedd y myfyrwyr israddedig

Yn ôl data HESA, mae cyfanswm y myfyrwyr israddedig sy'n hanu o Gymru sy'n dechrau cwrs gyda Darparwyr AU yn y DU (Darparwyr AU) wedi aros yn weddol gyson ers 2016/17. Fel y gwelir yn Nhabl 4.1, ar gyfer y cyfnod rhwng 2016/17 a 2023/24, roedd nifer y dechreuwyr israddedig ar eu huchaf yn 2016/17 (36,020). Yna arhosodd nifer y dechreuwyr israddedig yn weddol gyson nes iddo ostwng ychydig yn 2023/24 (i isafswm o 33,970).

[10] Mae HESA yn defnyddio'r term 'â chyfeiriad parhaol yng Nghymru' yn hytrach na'r term 'sydd â'i ddomisil yng Nghymru'. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r term 'sydd â'i ddomisil yng Nghymru' drwyddo draw er cysondeb, gan gynnwys lle y cyfeirir at ddata HESA ar gyfer myfyrwyr sydd 'â chyfeiriad parhaol yng Nghymru'.

[11] Ystadegau UCAS yw'r brif ffynhonnell ar gyfer ceisiadau myfyrwyr israddedig llawnamser yn y DU. Maent yn rhoi syniad o'r galw am addysg uwch, ond yn nodi nad yw pob myfyriwr yn gwneud cais am brifysgol neu goleg drwy UCAS, ac na fydd pob myfyriwr sy'n gwneud cais yn mynd ymlaen i'r brifysgol. Felly, gallai nifer gwirioneddol y myfyrwyr sy'n mynychu addysg uwch fod yn wahanol i'r hyn y mae'r ffigurau hyn yn ei ddangos.

**Tabl 4.1: Nifer y dechreuwyr israddedig â'u domisil yng Nghymru mewn sefydliadau Darparwyr AU yn y DU**


| Blwyddyn academaidd | Nifer y dechreuwyr (cyfanswm) | Nifer y dechreuwyr llawnamser | Nifer y dechreuwyr rhan-amser |
|---|---:|---:|---:|
| 2016/17 | 36,020 | 21,990 | 14,030 |
| 2017/18 | 34,510 | 22,100 | 12,410 |
| 2018/19 | 35,240 | 22,120 | 13,120 |
| 2019/20 | 35,385 | 22,485 | 12,900 |
| 2020/21 | 35,730 | 22,900 | 12,830 |
| 2021/22 | 34,485 | 22,605 | 11,880 |
| 2022/23 | 35,770 | 21,915 | 13,855 |
| 2023/24 | 33,970 | 20,490 | 13,480 |

Ffynhonnell: HESA[troednodyn 12]

Fel y dangosir yn Ffigur 4.1, mae data HESA hefyd yn dangos, yn y blynyddoedd academaidd ers 2016/17, fod dechreuwyr rhan-amser yn cyfrif am rhwng 34% (2021/22) a 40% (2023/24) o holl gofrestriadau dechreuwyr israddedig.

[12] O 2022/23 ymlaen, mae HESA wedi defnyddio marciwr dechreuwr i nodi myfyrwyr sydd wedi dechrau eu hymgysylltiad rhwng 18 Gorffennaf Bl1 a 17 Gorffennaf Bl2 (y flwyddyn ganlynol). Mae'r marciwr dechreuwr yn disodli'r marciwr blwyddyn gyntaf ac nid yw'n union debyg ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau o fewn pythefnos i ddiwedd y cylch.

**Ffigur 4.1: Cyfanswm y dechreuwyr israddedig llawnamser a rhan-amser**




Disgrifiad o'r ffigur: Siart llinell yn dangos bod cyfanswm y dechreuwyr israddedig gyda Darparwyr AU yn y DU sydd â'u domisil yng Nghymru wedi aros yn gymharol gyson rhwng 2016/17 a 2023/24.

Ffynhonnell: HESA

Mae data diwedd cylch UCAS 2025 yn nodi nifer yr ymgeiswyr a dderbyniwyd ar gyrsiau israddedig llawnamser rhwng 2016 a 2025. Roedd nifer yr ymgeiswyr a dderbyniwyd i'r brifysgol sydd â'u domisil yn Lloegr ar ei uchaf yn 2025. Cyrhaeddodd nifer yr ymgeiswyr o Gymru a dderbyniwyd i'r brifysgol ei anterth yn 2016 ac roedd y nifer ar ei isaf yn 2024. Er y gwelwyd cynnydd bach yn nifer yr ymgeiswyr o Gymru a dderbyniwyd i'r brifysgol yn 2025, nid yw'r adferiad wedi bod mor nodedig â'r cynnydd canrannol o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer myfyrwyr sydd â'u domisil yn Lloegr. Derbyniwyd 8% yn llai o ymgeiswyr o Gymru i brifysgolion yn 2025 (19,120) o gymharu â 2016 (20,715).

Mae'r duedd ymhlith ymgeiswyr 18 oed a dderbynnir i'r brifysgol ychydig yn wahanol. Mae nifer yr ymgeiswyr 18 oed a dderbyniwyd i'r brifysgol, sydd â'u domisil yn Lloegr, wedi cynyddu'n gyffredinol dros amser rhwng 2016 a 2025, heblaw am ostyngiadau o un flwyddyn i'r llall yn 2018 a 2023. Cyrhaeddodd nifer yr ymgeiswyr 18 oed a dderbyniwyd i'r brifysgol, sydd â'u domisil yng Nghymru, uchafbwynt yn 2021. Roedd nifer yr ymgeiswyr 18 oed a dderbyniwyd i'r brifysgol, sydd â'u domisil yng Nghymru, 2% yn is yn 2025 (10,535) nag yn 2016 (10,700).

O ystyried newidiadau i'r boblogaeth dros amser ym mhob un o wledydd y DU, mae data diwedd cylch UCAS 2025 hefyd yn darparu mesur amgen o gyfranogiad israddedigion.

Dengys y data fod canrannau'r dechreuwyr 18 oed yng Nghymru fel cyfran o'r boblogaeth wedi codi o 29.6% yn 2016 i uchafbwynt o 33.6% yn 2021 . Canran y dechreuwyr yn 2025 (29.2%) yw'r isaf a welwyd rhwng 2016 a 2025. Roedd canrannau'r dechreuwyr ar gwrs yn Lloegr yn uwch nag yng Nghymru bob blwyddyn ond roeddent yn dilyn tuedd debyg, gan gynyddu o 32.7% yn 2016 i 38.5% yn 2021 cyn gostwng i 37.1% yn 2025. O gymharu, roedd canrannau'r dechreuwyr yng Ngogledd Iwerddon yn 2025 yn uwch nag yng Nghymru a Lloegr, sef 38.3%.

Mae data HESA yn dangos mai Cymru sydd â'r gyfran uchaf o ddechreuwyr israddedig rhan-amser fel canran o'r holl ddechreuwyr israddedig o blith gwledydd y DU. Arhosodd y gyfran hon yn weddol gyson yn ystod 2019/20 a 2020/21 (ar 36%) ond cynyddodd i 39% yn 2022/23 a 40% yn 2023/24. O gymharu, mae'r gyfran yn Lloegr wedi aros yn gyson ar tuag 16% i 18% ers 2019/20. Mae cyfrannau'r Alban o gofrestriadau rhan-amser yn debycach i gyfrannau Cymru, tra bo cyfrannau Gogledd Iwerddon ychydig yn is ac yn dangos mwy o amrywiant.

## 4.2. Niferoedd y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau meistr ôl-raddedig a addysgir

Dengys data HESA fod canran gyffredinol y dechreuwyr ôl-raddedig ar gyrsiau meistr a addysgir, sydd â'u domisil yng Nghymru, wedi cynyddu rhwng 2016/17 a 2023/24, gan gyrraedd uchafbwynt yn 2020/21. Fel y dangosir yn Nhabl 4.2, cynyddodd nifer y myfyrwyr yn sylweddol o isafswm o 3,590 yn 2016/17 i uchafswm o 8,105 yn 2020/21, gan ostwng rhyw ychydig i 6,350 erbyn 2023/24.


**Tabl 4.2: Nifer y dechreuwyr ôl-raddedig ar gyrsiau meistr a addysgir, sydd â'u domisil yng Nghymru, a oedd yn astudio gyda Darparwyr AU yn y DU**

| Blwyddyn academaidd | Nifer y dechreuwyr (cyfanswm) | Nifer y dechreuwyr llawnamser | Nifer y dechreuwyr rhan-amser |
|---|---:|---:|---:|
| 2016/17 | 3,590 | 1,820 | 1,770 |
| 2017/18 | 5,305 | 2,975 | 2,330 |
| 2018/19 | 6,175 | 3,515 | 2,660 |
| 2019/20 | 6,570 | 3,820 | 2,750 |
| 2020/21 | 8,105 | 4,995 | 3,110 |
| 2021/22 | 7,365 | 4,225 | 3,140 |
| 2022/23 | 6,700 | 3,550 | 3,150 |
| 2023/24 | 6,350 | 3,325 | 3,030 |

Ffynhonnell: Data cofrestru HESA ar gyfer y blynyddoedd diwethaf a data cofrestru HESA ar gyfer blynyddoedd blaenorol

Mae niferoedd y dechreuwyr ôl-raddedig ar gyrsiau meistr rhan-amser a addysgir yn cyfrif am lai na hanner cyfanswm yr ôl-raddedigion a ddechreuodd gyrsiau meistr a addysgir ers 2016/17, ac yn amrywio o uchafswm o 49% yn 2016/17 i isafswm o 38% yn 2020/21. Fel y dangosir yn Ffigur 4.2, er bod nifer y myfyrwyr a oedd yn astudio'n rhan-amser 4% yn is yn 2023/24 nag yr oedd yn 2022/23, roedd 71% yn uwch yn 2023/24 nag yr oedd yn 2016/17. Cyrhaeddodd nifer y dechreuwyr llawnamser uchafbwynt mwy nodedig yn 2020/21 ond mae'r gyfradd wedi gostwng bob blwyddyn ers hynny.

**Ffigur 4.2: Cyfanswm y dechreuwyr ôl-raddedig ar gyrsiau meistr llawnamser a rhan-amser a addysgir, sydd â'u domisil yng Nghymru**




Disgrifiad o'r ffigur: Siart llinell sy'n dangos bod canran gyffredinol y dechreuwyr ôl-raddedig ar gyrsiau meistr a addysgir wedi cynyddu rhwng 2016/17 a 2023/24, gan gyrraedd uchafbwynt yn 2020/21.

Ffynhonnell: Data cofrestru HESA ar gyfer y blynyddoedd diwethaf a data cofrestru HESA ar gyfer blynyddoedd blaenorol

## 4.3. Y llif o fyfyrwyr ar draws ffiniau

Ers 2016/17, mae Llywodraeth Cymru (ac yn ddiweddarach Medr), yn ei data cyhoeddedig ar fyfyrwyr mewn AU, wedi adrodd bod mwy o fyfyrwyr llawnamser o weddill y DU yn astudio yng Nghymru na nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yng Ngweddill y DU. Mae Tabl 4.3 yn cyflwyno data HESA ar nifer y dechreuwyr israddedig llawnamser o Gymru sy'n astudio gyda Darparwyr AU yng ngweddill y DU, yn ogystal â nifer y dechreuwyr israddedig llawnamser o wledydd eraill y DU sy'n astudio gyda Darparwyr AU yng Nghymru. Mae'n llai cyffredin i fyfyrwyr rhan-amser symud ar draws ffiniau, ac yn ôl HESA nid yw myfyrwyr rhan-amser yn symud rhyw lawer.

**Tabl 4.3: Nifer y dechreuwyr israddedig llawnamser sy'n croesi ffiniau i astudio**

| Blwyddyn academaidd | Dechreuwyr israddedig llawnamser o Gymru sy'n astudio gyda Darparwyr AU yng ngweddill y DU | Dechreuwyr israddedig o wledydd eraill y DU sy'n astudio gyda Darparwyr AU yng Nghymru | Symudiad net dechreuwyr israddedig llawnamser sy'n astudio gyda Darparwyr AU yng Nghymru |
|---|---:|---:|---:|
| 2019/20 | 7,950 | 12,590 | +4,640 |
| 2020/21 | 8,300 | 14,635 | +6,335 |
| 2021/22 | 8,925 | 15,075 | +6,150 |
| 2022/23 | 8,685 | 16,735 | +8,050 |
| 2023/24 | 8,095 | 16,730 | +8,635 |

Ffynhonnell: HESA

Adroddodd cyhoeddiad diweddaraf HESA ar ddata symudedd myfyrwyr fod llif trawsffiniol o ddechreuwyr yn y DU yn dangos bod mwyafrif y myfyrwyr yn aros yn eu mamwlad. Fodd bynnag, mae myfyrwyr o Gymru a Gogledd Iwerddon yn fwy tebygol o groesi ffiniau o'u cymharu â'r rhai o Loegr a'r Alban. Dengys data HESA fod cyfran y dechreuwyr israddedig llawnamser o Gymru sy'n astudio yn Lloegr wedi cynyddu dros amser, o 35% (7,815) yn 2019/20 i 39% (7,905) yn 2023/24.

## 4.4. Proffil o'r myfyrwyr

Yn ôl data cofrestru HESA ar gyfer y blynyddoedd diwethaf a data cofrestru HESA ar gyfer blynyddoedd blaenorol, ers 2016/17, mae'r gymhareb o ddechreuwyr gwrywaidd i fenywaidd, sydd â'u domisil yng Nghymru, wedi ehangu. Roedd benywod yn cyfrif am 63% o'r holl ddechreuwyr yn 2023/24, o'i gymharu â 61% yn 2016/17. Roedd benywod yn cyfrif am 62% o ddechreuwyr israddedig yn 2023/24 (60% yn 2016/17) a 67% ddechreuwyr ôl-raddedig yn 2023/24 (63% yn 2016/17). Mae cyfran uwch o ddechreuwyr rhan-amser yn fenywod (yn codi o 63% yn fenywod a 37% yn wrywod yn 2016/17 i 67% yn fenywod a 33% yn wrywod yn 2023/24).

Mae cyfran y dechreuwyr 20 oed ac iau wedi amrywio ers 2016/17, ac yn 2023/24 roeddent yn cyfrif am 36% o'r holl ddechreuwyr sydd â'u domisil yng Nghymru. Yn 2016/17, roedd

62% o'r holl ddechreuwyr llawnamser sydd â'u domisil yng Nghymru yn 20 oed ac iau. Gostyngodd y gyfran hon i 50% yn 2020/21 ond mae wedi cynyddu ers hynny i 58% yn 2023/24.

Roedd cyfran y dechreuwyr a oedd yn anabl hefyd yn sylweddol uwch yn 2023/24 (22%) nag yr oedd yn 2016/17 (12%). Gellir gweld newidiadau tebyg dros amser wrth gyfyngu hyn i ddechreuwyr israddedig neu ddechreuwyr rhan-amser yn unig. [troednodyn 13] Gallai'r cynnydd hwn adlewyrchu cynnydd gwirioneddol yn nifer y myfyrwyr sy'n hunanadrodd am anabledd ymhlith y garfan hon a/neu gyfraddau uwch o ddatgeliad gan ddechreuwyr.

Dengys data HESA ar nodweddion cyfranogiad dros y blynyddoedd diwethaf a data HESA ar nodweddion cyfranogiad ar gyfer blynyddoedd blaenorol fod newid bach wedi bod yng nghyfran y dechreuwyr israddedig llawnamser sydd â'u domisil yng Nghymru sy'n dod o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru (cwintel 1 MALIC) [troednodyn 14]. Roedd hyn yn 16% yn 2016/17 ond mae wedi aros yn gyson ar 18% ers 2019/20. Dengys data diwedd cylch UCAS 2025 fod cyfran y bobl 18 oed o gwintel 1 MALIC a gafodd eu derbyn i AU wedi cynyddu o 16.8% ar gyfer dechreuwyr 2016 i 20.9% ar gyfer dechreuwyr 2022. Fodd bynnag, mae'r ganran o ddechreuwyr 18 oed o gwintel 1 MALIC wedi gostwng ers hynny i 18.2% ar gyfer 2025.

[13] Mae'r categori anabledd 'anhysbys' yn cynnwys myfyrwyr sydd wedi datgan nad oes ganddynt anabledd a'r rhai y mae data ar goll ar eu cyfer.

[14] Drwy'r adroddiad cyfan, mae cyfeiriadau at y 'ddau gwintel isaf' yn ymwneud yn benodol â'r ddau gwintel isaf o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), sef mesur swyddogol Cymru o amddifadedd cymharol ardaloedd. Mae defnyddio MALIC yn caniatáu cymhariaeth gyson o anfantais economaidd-gymdeithasol ar draws rhanbarthau ac yn cefnogi cyfatebiaeth â fframweithiau polisi Llywodraeth Cymru.

# 5. Adolygiad llenyddiaeth

Mae'r bennod hon yn archwilio canfyddiad myfyrwyr o werth AU a'r cysylltiad rhwng y canfyddiadau hyn ac agweddau tuag at ddyled myfyrwyr. Defnyddiodd yr adolygiad dystiolaeth ddiweddar o'r DU a Chymru, gan nodi tueddiadau, bylchau a ffactorau cyd-destunol sy'n berthnasol i'r gwerthusiad o Ddiwygiadau Diamond. Er bod y cyd-destun polisi yn cael ei drafod ym Mhennod 3 o'r adroddiad hwn, mae'r adolygiad llenyddiaeth hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau o werth a fforddiadwyedd AU, a sut y mae'r rhain yn dylanwadu ar benderfyniadau pobl i wneud cais am AU, neu gyfranogi ynddo. Mae hefyd yn nodi meysydd lle mae angen gwaith ymchwil pellach, yn enwedig ynghylch system cymorth i fyfyrwyr unigryw Cymru a'i heffaith ar wneud penderfyniadau ynghylch cyfranogi mewn AU.

## 5.1. Canfyddiadau o werth

Mae'r cysyniad o werth mewn AU yn aml yn cael ei fframio mewn termau economaidd. Mae'r adran hon yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau cyffredinol hynny, gan gynnwys gwerth economaidd. Mae dysgwyr yn aml yn asesu'r enillion ar fuddsoddiad sy'n gysylltiedig ag ennill gradd, gan bwyso a mesur enillion disgwyliedig graddedigion yn erbyn cost dysgu a threuliau byw.

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ar werth economaidd gradd yn amwys. Mae gwaith graffu diweddar ar Ystadegau Marchnad Lafur Graddedigion a'r penderfyniad dilynol gan Yr Adran Addysg (DfE) i dynnu'r prif ffigur premiwm enillion graddedigion yn ôl wedi cynyddu'r ansicrwydd ynghylch yr enillion economaidd ar fuddsoddiad sy'n gysylltiedig ag addysg uwch, mewn cyfnod pan mae'r sylw yn y cyfryngau eisoes yn dylanwadu ar ganfyddiadau’r cyhoedd ynghylch a yw gradd yn “werth chweil”. Mae dileu'r metrig hwn, a oedd unwaith yn fetrig amlwg – metrig y mae Adran Addysg y DU a'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau yn credu ei fod yn ddiffygiol gan ei fod yn gorsymleiddio'r gwahaniaethau mewn enillion ac nad yw'n ystyried ffactorau allweddol fel cyrhaeddiad blaenorol – yn creu gwactod lle yr arferai un ffigur, a oedd yn hawdd ei gyfleu, ddylanwadu ar benderfyniadau myfyrwyr. Gan fod tystiolaeth yn dangos bod deilliannau graddedigion yn amrywio'n sylweddol a bod yr hyn sy'n ysgogi enillion yn ymestyn ymhell y tu hwnt i gael gradd, gall absenoldeb mesur clir o bremiwm enillion gynyddu'r canfyddiadau o risg ymhellach ac erydu hyder yng ngwerth economaidd addysg uwch. Yn y cyd-destun hwn, mae'r her sy'n gysylltiedig â gwybodaeth wallus yn dod yn fwy amlwg: mae darpar fyfyrwyr AU yn wynebu marchnad lle mae data cadarn, dealladwy a chymaradwy yn gyfyngedig, gan ei gwneud yn anoddach iddynt wneud dewisiadau gwybodus a buddiol ynghylch a ddylent astudio a beth i'w astudio, a chynyddu'r tebygolrwydd y bydd canfyddiadau'n cael eu dylanwadu'n llai gan dystiolaeth fanwl ac yn fwy gan naratif y cyfryngau a data anghyflawn. Dylid nodi, fodd bynnag, er bod tystiolaeth o ffynonellau ledled y DU neu o Loegr yn unig yn werthfawr, efallai na fydd yn gwbl berthnasol i'r cyd-destun Cymreig.

Dengys canfyddiadau arolwg a oedd yn cwmpasu'r DU a gynhaliwyd gan y Sefydliad Polisi yng Ngholeg y Brenin, Llundain (2025) fod tua 7 o bob 10 o raddedigion yn credu bod eu gradd yn werth yr amser a'r arian, gan awgrymu bod y canfyddiadau o werth AU yn parhau i fod yn gadarn er gwaetha'r costau cynyddol. Fodd bynnag, datgelodd yr un ymchwil fwlch rhwng disgwyliadau'r cyhoedd ynghylch canfyddiadau graddedigion o werth AU a chanfyddiadau gwirioneddol graddedigion; yn yr un astudiaeth, dywedodd ymatebwyr o blith

y cyhoedd eu bod yn disgwyl mai dim ond 5 o bob 10 o raddedigion fyddai'n credu bod AU yn werth yr amser a'r arian a fuddsoddwyd. Dangosodd astudiaeth ddiweddar a gynhaliwyd gan y Resolution Foundation (2025), yn seiliedig ar ddata'r rhai sydd wedi mynychu sefydliadau AU (SAUau) yn Lloegr, fod graddedigion yn parhau i ennill mwy na'u cyfoedion nad ydynt yn raddedigion. Fodd bynnag, mae'r bwlch enillion hwn wedi culhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf oherwydd y cynnydd yn enillion pobl nad ydynt yn raddedigion. Mae hyn yn awgrymu bod y premiwm enillion graddedigion yn parhau, er ei fod yn llai amlwg.

Mae tystiolaeth ddiweddar ledled y DU yn rhoi cipolwg ar sut y mae canfyddiadau myfyrwyr o werth am arian wedi newid mewn ymateb i bwysau economaidd a chymdeithasol. Canfu'r Arolwg o Brofiad Academaidd Myfyrwyr 2025, a gynhaliwyd gan y Sefydliad Polisi AU ac Advance HE, mai dim ond 37% o fyfyrwyr israddedig a oedd yn ystyried bod eu cwrs yn werth da am arian, tra bo 29% yn credu ei fod yn cynnig gwerth gwael am arian. [troednodyn 15] Y prif ffactorau a oedd yn sail i'r canfyddiadau hyn oedd ansawdd yr addysgu, y ffordd yr oedd cyrsiau'n cael eu trefnu a chostau byw cynyddol. Roedd myfyrwyr a oedd yn teimlo bod eu profiad wedi bodloni eu disgwyliadau neu wedi rhagori arnynt yn llawer mwy tebygol o ystyried ei fod yn werth da am arian, gan awgrymu bod ansawdd yr addysgu a'r cymorth yn parhau i fod yn ganolog i farn myfyrwyr am werth yn hytrach na chost yn unig.

Mae mater cysylltiedig ynghylch canfyddiadau o werth AU yn cynnwys digonolrwydd y cymorth i fyfyrwyr. Awgrymodd yr un Arolwg o Brofiad Academaidd Myfyrwyr (2025) fod llawer o fyfyrwyr yn ei chael hi'n anodd talu costau byw sylfaenol hyd yn oed pan oeddent yn cael y cymorth llawn sydd ar gael. Awgrymodd arolwg o 728 o fyfyrwyr o Gymru a gynhaliwyd gan NUS Cymru yn 2024 fod 1 o bob 10 myfyriwr wedi gorfod dibynnu ar gymorth gan fanciau bwyd i ymdopi â chostau byw cynyddol.

Er bod y pecyn cymorth yng Nghymru yn fwy hael nag mewn rhannau eraill o'r DU, gall costau cynyddol tai a hanfodion danseilio canfyddiadau o werth ariannol ymysg rhai myfyrwyr o hyd. Awgryma canfyddiadau o Astudiaeth HEPI a gynhaliwyd yn 2022 ar agweddau’r cyhoedd tuag at AU fod 71% o’r cyhoedd yn cytuno y bydd costau byw yn atal pobl rhag mynd i’r brifysgol.

## 5.2. Amharodrwydd i ysgwyddo dyled benthyciad myfyrwyr

Mae'r canfyddiadau o ddyled benthyciad myfyrwyr yn parhau i ddylanwadu ar sut y mae darpar fyfyrwyr yn gwerthuso'r risgiau a'r gwobrwyon sy'n gysylltiedig ag AU. Dangosodd un astudiaeth a oedd yn cwmpasu'r DU gyfan ar agweddau myfyrwyr tuag at ddyled benthyciad myfyrwyr fod pryderon ynghylch dyled yn ddyfnach ymhlith y rhai o aelwydydd incwm isel ac y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau pobl i gyfranogi mewn AU. Er na ellir trosglwyddo'r holl ganfyddiadau hyn i'r cyd-destun Cymreig, canfu arolwg o 572 o fyfyrwyr a gynhaliwyd gan NUS Cymru yn 2023 fod pryder ariannol yn beth cyffredin. Nododd traean o'r ymatebwyr eu bod yn poeni am faterion ariannol yn barhaus, er gwaethaf y pecyn cymorth ariannol mwy hael a gynigir i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru drwy Ddiwygiadau Diamond.

[15] Mae'r gwerthuswyr yn ymwybodol, fel rhan o'r ymchwil a'r dadansoddiad ehangach i gefnogi gwerthusiad Diamond, fod dadansoddiad o ymatebion i'r Arolwg o Brofiad Academaidd Myfyrwyr gan fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2026.

Awgrymodd ffigurau a gafodd BBC Cymru Fyw gan Gyllid Myfyrwyr Cymru yn 2024 y bydd myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru yn graddio o'r brifysgol gyda dyled benthyciad myfyrwyr o £35,000 ar gyfartaledd, sy'n cynrychioli cynnydd o fwy na £14,000 mewn pum mlynedd. Mae hyn yn fwy nag yng ngwledydd eraill y DU. Mae ffigurau gan yr SLC (2025) yn datgelu, dros yr un cyfnod, bod dyled gyfartalog graddedigion wedi cynyddu bron i £10,000 yn Lloegr a thua £2,000 neu lai yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er bod graddedigion o Loegr yn gadael y brifysgol gyda dyled uwch yn gyffredinol (tua £53,000), yng Nghymru y gwelwyd y cynnydd cyfrannol mwyaf.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r dystiolaeth ynghylch a yw'r dull hwn o fesur amharodrwydd i ysgwyddo dyled benthyciad myfyrwyr wedi newid y canfyddiadau o ddyled neu wedi dylanwadu ar ymddygiad wrth wneud cais yn gyfyngedig. Ceir rhywfaint o dystiolaeth o un astudiaeth a gynhaliwyd yn Lloegr bod lefelau ffioedd uwch wedi cael effaith andwyol ar y dyhead i gyfranogi mewn AU ymhlith rhai grwpiau ond mae tystiolaeth ar gyfraddau cyfranogi yn awgrymu nad yw'r rhwystr hwn sy'n ymwneud â dyheadau o bosibl wedi cael ei adlewyrchu mewn gostyngiad yn y niferoedd sy'n cofrestru ymhlith y grwpiau hyn. Awgryma dadansoddiad a gynhaliwyd gan Brifysgolion Cymru fod cyfraddau cyfranogi mewn AU yng Nghymru yn llawer is nag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, a bod y bwlch wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er gwaethaf y cymorth grant ychwanegol a gynigir i fyfyrwyr Cymru.

Er bod llawer o'r dystiolaeth yn ymwneud ag israddedigion llawnamser, mae dealltwriaeth gyfyngedig o ganfyddiad myfyrwyr rhan-amser ac ôl-raddedig o werth AU a'r risgiau ariannol cysylltiedig. Yng Nghymru, mae cyfran y myfyrwyr rhan-amser yn parhau i fod yn gymharol uchel. Yn ôl data cofrestru myfyrwyr Cymru 2022 i 2023, roedd myfyrwyr rhan-amser yn cyfrif am tua 30% o israddedigion a 60% o ôl-raddedigion. Ni nododd yr adolygiad llenyddiaeth hwn unrhyw astudiaethau a archwiliodd sut y mae'r grwpiau hyn yn dehongli gwerth neu fforddiadwyedd yn wahanol yn dilyn Diwygiadau Diamond.

Dengys tystiolaeth ddiweddar yn Lloegr mai cymhelliant myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser fel arfer yw datblygiad gyrfa, diddordeb personol a hyblygrwydd, ond mae pwysau ariannol neu gyfrifoldebau gofalu yn aml yn dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch y dull astudio a dwyster yr astudiaethau. Canfu'r un astudiaeth hefyd fod y gostyngiad yn y nifer sy'n astudio'n rhan-amser yn Lloegr yn gysylltiedig â thynnu grantiau yn ôl a chanfyddiadau o enillion ariannol gwannach i fyfyrwyr aeddfed neu fyfyrwyr sy'n gweithio. O ystyried bod Cymru wedi cadw rhywfaint o gymorth grant i fyfyrwyr rhan-amser, mae'n parhau i fod yn aneglur a yw hyn wedi arwain at ganfyddiadau gwahanol yng Nghymru o werth AU rhan-amser o'i gymharu â Lloegr.

## 5.3. Ymwybyddiaeth, gwybodaeth ac arweiniad

Mae ymwybyddiaeth o delerau ad-dalu yn ffactor pwysig sy'n dylanwadu ar y canfyddiad o werth a'r amharodrwydd i ysgwyddo dyled yn ôl tystiolaeth o Loegr, sy'n awgrymu bod dealltwriaeth darpar fyfyrwyr o systemau benthyciadau a grantiau yn dylanwadu ar eu hagweddau tuag at fenthyca. Canfu'r un astudiaeth hefyd gysylltiad cryf rhwng camddealltwriaeth o'r telerau ad-dalu ac amharodrwydd i ysgwyddo dyled a llai o fwriad i gyfranogi mewn AU, yn enwedig ymhlith grwpiau incwm isel.

Mae astudiaethau sy'n cwmpasu'r DU gyfan, gan gynnwys ymchwil i lwybrau Ôl-16 gan Sefydliad Nuffield, hefyd yn amlygu anghydraddoldebau o ran mynediad at wybodaeth ariannol gywir. Mae dysgwyr o deuluoedd incwm isel ac ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd yn llai tebygol o gael arweiniad cyson ar opsiynau ôl-16. Mae tystiolaeth gymharol ar gyfer Cymru yn gyfyngedig, ond adroddodd data cyfranogiad mewn AU a'r farchnad lafur https://wiserd.ac.uk/wp-content/uploads/Working_paper_WAQLCE2014-11.pdf Llywodraeth Cymru ganfyddiadau tebyg ar amrywiad mewn cyfraddau ymgysylltu ar draws rhanbarthau Cymru. Mae adroddiad yn seiliedig ar y Rhaglen Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol (PISA) (2025) a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn cadarnhau'r pryderon hyn yn gyffredinol: er bod uchelgeisiau addysgol wedi codi rhwng 2015 a 2022 o 46% o ddysgwyr yn disgwyl cwblhau rhyw fath o addysg drydyddol i 63%, mae bylchau economaidd-gymdeithasol yn parhau. Mae tua 49% o ddysgwyr o deuluoedd incwm isel yn disgwyl mynd ymlaen i addysg drydyddol o'i gymharu â 78% o'u cyfoedion breintiedig. Ar y llaw arall, mae'r dysgwyr sy'n wynebu'r anfantais gymdeithasol fwyaf yn fwy tebygol na'u cyfoedion mwy breintiedig o fod wedi siarad â chynghorydd gyrfa ar o leiaf un achlysur erbyn iddynt gyrraedd 15 oed. Mae dysgwyr mewn ysgolion gwladol hefyd yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgaredd datblygu gyrfa na'r rhai sy'n cael addysg breifat.

Canfu Adolygiad gan Lywodraeth Cymru o'r Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSA) nad oedd llawer o fyfyrwyr wedi clywed am y cymorth cyn cyrraedd y brifysgol, a bod eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth yn aml yn deillio o'r brifysgol ei hun yn hytrach nag ysgolion neu Gyllid Myfyrwyr Cymru. Mae'r adolygiad hefyd yn tynnu sylw at faint o fyfyrwyr nad oeddent yn ymwybodol y byddent yn gymwys i gael cymorth o'r fath cyn dechrau gradd yn y brifysgol. Dengys data o arolwg a gynhaliwyd yn 2016/17 fod tua 68% o fyfyrwyr o'r farn y gellid gwella ymwybyddiaeth o'r DSA, ac roedd tuag 82% a oedd yn derbyn DSA wedi dweud eu bod wedi clywed amdano yn eu prifysgol. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â 38% a oedd wedi clywed am y DSA drwy Gyllid Myfyrwyr Cymru a dim ond 12% a oedd wedi clywed am y cynllun drwy eu hysgolion neu golegau.

Fodd bynnag, dengys y data swyddogol diweddaraf fod y DSA yn parhau i fod yn rhan bwysig o gymorth i fyfyrwyr yng Nghymru. Yn y flwyddyn academaidd 2023/24, cynyddodd y swm o DSA a dalwyd i fyfyrwyr llawnamser 4.5% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda thua 3,400 o fyfyrwyr yn derbyn DSA a £7.0 miliwn wedi'i dalu ar gyfer y flwyddyn 2024/25 erbyn mis Awst 2025, gan ddangos buddsoddiad parhaus mewn cymorth sy'n gysylltiedig ag anabledd i fyfyrwyr AU yng Nghymru. Mae hyn yn cynnig sail empirig gyfredol ar gyfer cymorth DSA yng Nghymru ac yn diweddaru'r dystiolaeth a grynhowyd yn flaenorol yn adolygiad Llywodraeth Cymru o 2017/19.

Gyda'i gilydd, mae'r astudiaethau hyn yn awgrymu fod canfyddiadau pobl o werth a fforddiadwyedd nid yn unig yn cael eu dylanwadu gan y gost a'r cymorth ariannol sydd ar gael, ond hefyd gan hygyrchedd a dibynadwyedd y wybodaeth sydd ar gael i ddysgwyr sy'n wynebu penderfyniadau am astudiaethau AU. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai o deuluoedd incwm isel a allai fod â llai o fynediad at wybodaeth o ansawdd da.

### 5.4. Ehangu mynediad a chanfyddiadau o werth

Mae'r berthynas rhwng cyfraddau cyfranogi mewn AU a chefndir myfyrwyr yn gymhleth. Mae'r adran hon yn edrych yn benodol ar sut y mae'r canfyddiadau hynny yn amrywio yn ôl cefndir economaidd-gymdeithasol a ph'un a oes gan rywun anabledd neu beidio, gan roi sylw arbennig i ystyriaethau economaidd.

Awgryma data ar gyfraddau cyfranogi mewn AU a ddadansoddwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru fod cyfraddau cyfranogi mewn AU yng Nghymru yn is ymysg myfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is a myfyrwyr anabl. Yn ogystal â hynny, awgryma ymchwil gan CASCADE hefyd fod cyfranogiad mewn AU ymhlith myfyrwyr sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal yn llawer is nag ymhlith myfyrwyr nad ydynt wedi cael profiad o fod mewn gofal. Dengys tystiolaeth o Loegr a gweddill y DU fod myfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn fwy tebygol o fynegi pryder ynghylch dyled myfyrwyr ac o gredu bod yr enillion ariannol yn deillio o AU yn ansicr. Mae astudiaethau'n awgrymu bod y pryder hwn yn gysylltiedig â chyfyngiadau arwyddocaol (er enghraifft, costau byw sylfaenol fel rhent, bwyd a biliau cyfleustodau) ac ymdeimlad ehangach o berthyn mewn perthynas ag AU. Canfuwyd bod yr olaf yn deillio o amheuon ynghylch a fyddent yn "ffitio i mewn" yn y brifysgol; mae normau sefydliadol anghyfarwydd a diffyg profiad teuluol blaenorol o AU yn cynyddu'r ymdeimlad hwnnw o bellter. O ganlyniad, gall hyn leihau uchelgeisiau i wneud cais i sefydliadau dethol a chynyddu'r tebygolrwydd o ohirio neu wrthod cynigion. Canfu'r un astudiaeth fod myfyrwyr o gefndiroedd dosbarth gweithiol yn llawer mwy amharod i ysgwyddo dyled, gan ystyried benthyciadau fel risg ariannol yn hytrach na buddsoddiad, a bod hynny wedi dylanwadu ar eu cais o ran dewis prifysgol a phwnc.

Caiff y duedd hon ei hategu gan ystadegau benthyciadau myfyrwyr, sy'n tynnu sylw at y ffaith bod myfyrwyr o aelwydydd incwm isel yn Lloegr yn llai tebygol o gymryd benthyciadau myfyrwyr hyd yn oed pan oeddent yn gymwys, yn aml oherwydd camsyniadau am delerau ad-dalu a diffyg canllawiau wedi'u teilwra.

Mae'r duedd hon yn arbennig o amlwg ymhlith pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae 'profiad o fod mewn gofal' yn derm sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ddefnyddir ym mholisi addysg uwch y DU i ddisgrifio unrhyw un sydd wedi treulio amser yng ngofal awdurdod lleol, waeth beth fo'r hyd neu'r lleoliad (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, gofal gan berthnasau a'r rhai sy'n gadael gofal rhwng 16 a 25 oed). Mae'r term yn cydnabod y gall hyd yn oed brofiadau gofal byr neu anffurfiol gael effeithiau parhaol ar lesiant a chanlyniadau addysgol.

Dim ond tua 15% o ddysgwyr a oedd mewn gofal yn barhaus am 12+ mis a aeth ymlaen i'r brifysgol erbyn iddynt gyrraedd 19 oed yn 2022/23 (o'u cymharu â 47% o ddysgwyr eraill); dim ond 14% o 'blant mewn angen' a aeth ymlaen i AU erbyn iddynt gyrraedd 19 oed (o'u cymharu â 48% o gyfoedion), a dim ond 2% o ddysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal a aeth ymlaen i brifysgolion â phwyntiau tariff uchel. Yng Nghymru, dim ond 62% o bobl ifanc 16 i 24 oed a oedd yn gadael gofal wnaeth gwblhau o leiaf 3 mis yn olynol mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. O ganlyniad, mae unigolion â phrofiad o fod mewn gofal yn cynrychioli un o'r grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU yn y DU.

Mae ymarferwyr yn pwysleisio bod gan lawer o bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ddyled flaenorol neu ansicrwydd ynghylch tai pan fyddant yn dod yn oedolion, a heb rwydi diogelwch teuluol gall benthyciad myfyriwr deimlo fel risg fawr. Lle mae prifysgolion ac awdurdodau lleol yn darparu pecynnau ariannol wedi'u targedu a chymorth bugeiliol rhagweithiol (er enghraifft, bwrsariaethau, cynghorwyr dynodedig, trefniadau gwarantwr ar gyfer llety a mentora), mae'r pryder ynghylch pontio a dyled yn lleihau ac mae'r cyfraddau cyfranogi yn gwella; ymysg yr enghreifftiau mae pecynnau i'r rhai sy'n gadael gofal a chynlluniau mentora Prifysgol De Cymru, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd. Mae prifysgolion hefyd yn cymryd rhan yn CLASS Cymru (y rhwydwaith Cymorth i'r Rhai sy'n Gadael Gofal a Myfyrwyr), gan rannu arfer gorau o ran cefnogi dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal.

Ar gyfer myfyrwyr anabl, mae tystiolaeth gan Disabled Students UK (2024) yn tynnu sylw at rwystrau ychwanegol yn ymwneud ag arian a gwybodaeth. Adroddodd ymatebwyr lefelau uwch o bryder ynghylch rheoli costau byw ac ansicrwydd ynghylch mynediad at gymorth ariannol. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod canfyddiadau o fforddiadwyedd a dyled yn cael eu dylanwadu nid yn unig gan lythrennedd ariannol ond hefyd gan brofiadau ehangach o gynhwysiant, hyder a chymorth sefydliadol.[16] Mae canlyniadau'r farchnad lafur yn helpu i esbonio rhywfaint o'r pryder hwn: yng Nghymru, roedd y gyfradd gyflogaeth ar gyfer oedolion anabl o oedran gweithio yn 51% o'i gymharu ag 82% ar gyfer oedolion nad ydynt yn anabl yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024. Gall y diffyg cynhwysiant a threfniadau cymorth dibynadwy, ynghyd â chanlyniadau gwannach i ôl-raddedigion, leihau'r canfyddiad o enillion ar fuddsoddiad, a chynyddu amharodrwydd i ysgwyddo dyled.

Mae tystiolaeth ynghylch sut y mae ethnigrwydd a rhyw yn dylanwadu ar ganfyddiadau dysgwyr o AU yng Nghymru yn fwy cyfyngedig, ond mae ymchwil sydd ar gael yn dangos bod y ffactorau hyn yn dylanwadu ar gyfranogiad a chanfyddiad myfyrwyr o werth AU. Er enghraifft, dengys dadansoddiad ledled y DU fod gan ddysgwyr Du Affricanaidd a Du Caribïaidd gyfraddau dilyniant is i AU na'r garfan gyffredinol, gan dynnu sylw at y cysylltiad rhwng ethnigrwydd a mynediad a deilliannau.

Ar wahân i adroddiad yr OECD a grybwyllir uchod, sy'n cynnwys uchelgeisiau AU yn ôl statws economaidd, mae tystiolaeth debyg sy'n benodol i Gymru mewn perthynas â dyled benthyciadau myfyrwyr yn parhau i fod yn gyfyngedig, gan danlinellu'r angen am waith ymchwil pellach i archwilio canfyddiad myfyrwyr Cymreig o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol o werth AU a fforddiadwyedd cyfranogi mewn AU yng ngoleuni Diwygiadau Diamond. Bydd hyn yn cael sylw, yn rhannol o leiaf, yn y dadansoddiad arfaethedig ar lefel Cymru o'r Arolwg o Brofiad Academaidd Myfyrwyr, a all, yn dibynnu ar faint y samplau, gynnwys is-ddadansoddiad o nodweddion penodol, fel incwm aelwyd a/neu anabledd.

### 5.5. Sylwadau i gloi

Mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn awgrymu bod y canfyddiadau o werth AU ac agweddau tuag at ddyled myfyrwyr yng Nghymru yn cael eu dylanwadu gan ffactorau'n ymwneud ag arian, gwybodaeth a ffactorau cymdeithasol. Er bod y data sydd ar gael yn darparu cyd-

[16] Dylid nodi, er i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi fel astudiaeth yn y DU, mai dim ond ymatebion gan fyfyrwyr anabl o 13 o SAUau yn Lloegr ac un yn yr Alban a gynhwyswyd yn y dadansoddiad ac nid yw'n glir a gyfrannodd myfyrwyr anabl o unrhyw SAU yng Nghymru at yr astudiaeth.

destun defnyddiol ar gyllid ac ymwybyddiaeth o bob cwr o'r DU (gan gynnwys Cymru), ni nodwyd unrhyw dystiolaeth sy'n archwilio'n benodol effaith Diwygiadau Diamond ar benderfyniadau ynghylch cyfranogi mewn AU neu ganfyddiadau o werth a fforddiadwyedd. Nid yw astudiaethau presennol yng Nghymru yn crynhoi effeithiau Diwygiadau Diamond ar batrymau cyfranogiad myfyrwyr mewn AU eto, sy'n golygu bod maint eu dylanwad yn parhau i fod yn ansicr. Mae hyn yn atgyfnerthu gwerth y gwerthusiad hwn o ran mynd i'r afael â rhai o'r bylchau yn y dystiolaeth. Fodd bynnag, dylid cydnabod hefyd, er y bydd y gwerthusiad yn amlygu bylchau penodol mewn gwybodaeth, mae'n anochel y bydd rhai bylchau'n parhau.

# 6. Penderfyniadau ynglŷn â'r brifysgol: gwaith maes gyda dysgwyr Blwyddyn 12 a 13 a rhieni a gwarcheidwaid dysgwyr Blwyddyn 12 a 13

Mae'r bennod hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwaith maes gyda dysgwyr Blwyddyn 12 a 13 a'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda rhieni a gwarcheidwaid dysgwyr Blwyddyn 12 a 13. Mae'n trafod cynlluniau dysgwyr o ran astudiaethau prifysgol a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar eu penderfyniadau. Mae'r bennod yn seiliedig ar ddata o'r arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13 (880 o ymatebwyr), cyfweliadau â 9 o ddysgwyr Blwyddyn 13, 2 grŵp ffocws a gynhaliwyd gydag 16 o ddysgwyr Blwyddyn 13 o SAB, yn ogystal â 3 trafodaeth grŵp ffocws yn cynnwys 24 o rieni a gwarcheidwaid.

## 6.1. Cynlluniau i astudio yn y brifysgol neu beidio

### 6.1.1. Barn dysgwyr

At ei gilydd, roedd 80% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn bwriadu mynd i'r brifysgol rywbryd yn y dyfodol, ond nid oedd yr 20% a oedd yn weddill wedi penderfynu neu roeddent wedi penderfynu peidio â mynd i'r brifysgol. Fel y dangosir yn Nhabl 6.1, roedd 70% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn bwriadu mynd ymlaen i'r brifysgol yn syth ar ôl gorffen eu hastudiaethau presennol, ac roedd gan 10% arall gynlluniau i wneud hynny rywbryd yn y dyfodol.

Roedd dysgwyr benywaidd, a oedd yn cynrychioli 64% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg, yn llawer mwy tebygol na dysgwyr gwrywaidd o ddweud eu bod yn bwriadu mynd i'r brifysgol yn syth ar ôl gorffen eu hastudiaethau yn yr ysgol neu'r coleg. Roedd dysgwyr gwrywaidd yn fwy tebygol o fod yn ansicr neu o fod heb benderfynu neu o fod wedi penderfynu peidio mynd i'r brifysgol o gwbl o'i gymharu â dysgwyr benywaidd.

Nid oedd yn annisgwyl bod dysgwyr Blwyddyn 13 yn fwy pendant ynglŷn â'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol na dysgwyr Blwyddyn 12 ac roeddent yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn bendant yn bwriadu mynd ymlaen i'r brifysgol ar unwaith ar ôl gorffen eu hastudiaethau presennol neu eu bod wedi penderfynu peidio â mynd i'r brifysgol.

Roedd dysgwyr â rhieni neu warcheidwaid nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau AU ychydig yn fwy tebygol o fod heb benderfynu neu o fod wedi penderfynu peidio â mynd ymlaen i'r brifysgol o gwbl, o'u cymharu â'r rhai yr oedd gan eu rhieni neu warcheidwaid gymwysterau AU.

**Tabl 6.1: Cynlluniau'r ymatebwyr i fynd i'r brifysgol ar ôl gorffen yr ysgol neu'r coleg**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Yn syth ar ôl gorffen eu hastudiaethau presennol** | 612 | 70% |
| **Ar ôl cymryd blwyddyn i ffwrdd** | 56 | 6% |
| **Rhywbryd yn y dyfodol** | 35 | 4% |
| **Heb benderfynu** | 127 | 14% |
| **Ddim yn mynd o gwbl** | 50 | 6% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 880 o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13

Mynegodd y rhan fwyaf o'r dysgwyr a gafodd eu cyfweld neu a gyfrannodd at drafodaethau grŵp ffocws eu bod yn bwriadu mynd i'r brifysgol, gan gyfeirio'n aml at ddiddordeb yn y pwnc, nodau gyrfa, neu'r awydd am dwf personol fel cymhellion dros wneud hynny.

Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i'r arolwg (56) a oedd wedi penderfynu cymryd blwyddyn i ffwrdd cyn mynd i'r brifysgol pam eu bod wedi gwneud y penderfyniad hwn. Fel y gwelir o'r prif resymau a nodir isod, heblaw am yr awydd i deithio, roedd y rhain yn ffactorau negyddol neu angenrheidiol ar y cyfan yn ymwneud â chyllid, costau a theimlo'n barod i fynd i'r brifysgol:

- roeddent eisiau ennill arian cyn mynd i'r brifysgol (71%)
- roeddent eisiau teithio cyn mynd i'r brifysgol (63%)
- nid oeddent wedi penderfynu pa gwrs prifysgol yr oeddent eisiau ei astudio (25%)
- roeddent yn poeni am allu fforddio hynny (21%)
- nid oeddent yn teimlo eu bod yn barod i astudio yn y brifysgol eto (21%).

Dim ond ychydig o ddysgwyr a gymerodd ran mewn cyfweliadau a oedd yn ystyried o ddifrif cymryd blwyddyn i ffwrdd. Roedd y rhan fwyaf yn teimlo y gallai gohirio mynd i'r brifysgol arwain at golli momentwm neu anghofio'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu yn yr ysgol:

> “dyw'r bwlch rhwng y coleg a’r brifysgol ddim mor frawychus os byddwch chi'n mynd yno'n syth.”

Fodd bynnag, mynegodd un dysgwr a gyfwelwyd ddiddordeb mewn teithio, gan ei ddisgrifio fel “profiad da a seibiant o’r system addysg cyn tair blynedd drom.”

Roedd cyfanswm o 5% (46 o'r ymatebion i'r arolwg) nad oeddent yn ystyried mynd i'r brifysgol yn y dyfodol ar hyn o bryd, ond byddent yn ystyried gwneud hynny pe bai'n ofyniad ar gyfer swydd neu yrfa benodol yr oedd ganddynt ddiddordeb ynddi, pe bai sicrwydd y byddent yn cael swydd neu yrfa ar y diwedd, neu pe bai'n werth gwneud hynny o ran datblygiad eu gyrfa. Dywedodd un y byddai'n ystyried mynd i'r brifysgol pe bai 'sicrwydd pendant o gael swydd ar ôl graddio' neu pe bai 'gradd yn sicrhau swydd sy'n talu'n dda' .

Dywedodd cyfanswm o 3% (26 o'r ymatebwyr i'r arolwg) y byddent yn ystyried mynd i'r brifysgol pan fyddent yn sicr ynglŷn â'r hyn yr oeddent am ei wneud yn y dyfodol: 'pan fyddaf yn penderfynu beth rydw i eisiau ei astudio' neu 'pan fyddaf yn dod o hyd i gwrs sy'n apelio ataf'. Nododd cyfran debyg (3% neu 29 o ymatebwyr) y byddent yn ystyried mynd i'r brifysgol pe bai'n fwy fforddiadwy neu'n rhatach. Byddai eraill yn ystyried mynd i'r brifysgol pe na bai eu cynlluniau presennol yn llwyddiant neu pe bai mwy o hyblygrwydd yn y ffordd o ddysgu, er enghraifft, drwy astudio un diwrnod yr wythnos ochr yn ochr â gwaith. Roedd ychydig yn llai (2% neu 20 o ymatebwyr) yn credu nad oedd unrhyw beth a fyddai'n newid eu meddwl ynglŷn â mynd i'r brifysgol, nawr nac yn y dyfodol.

### 6.1.2. Barn rhieni a gwarcheidwaid a gyfrannodd at yr ymchwil

Dywedodd rhieni a gwarcheidwaid a gyfwelwyd ar gyfer y gwaith ymchwil hwn fod eu plant a oedd ym Mlwyddyn 12 a 13 yn bwriadu ystyried ystod eang o lwybrau addysgol a llwybrau gyrfa. Roedd y rhain yn cynnwys dyheadau i fynd i'r brifysgol, dilyn prentisiaeth, dechrau gwaith llawnamser, neu gymryd amser i archwilio opsiynau drwy gyrsiau galwedigaethol neu deithio. Disgrifiodd rhieni a gwarcheidwaid sut yr oedd eu plant wrthi'n paratoi i fynd i'r brifysgol, a bod ganddynt ddiddordebau pendant mewn pynciau penodol fel meddygaeth, ffarmacoleg, busnes, neu ddylunio gemau cyfrifiadurol. Yn yr achosion hyn, nododd rhieni a gwarcheidwaid fod eu plant yn gweithio'n galed i fodloni gofynion academaidd ac wedi dechrau ymchwilio i sefydliadau a chyrsiau.

Fodd bynnag, hyd yn oed ymhlith y rhai a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol, roedd ansicrwydd ynghylch yr amseru, gyda rhai yn ystyried cymryd blwyddyn i ffwrdd er mwyn magu profiad neu arbed arian cyn ymrwymo:

> “mae hi eisoes yn meddwl y bydd yn rhaid iddi gael swydd ychwanegol dim ond i fyw os mai dyna beth mae hi'n penderfynu ei wneud.”

Nid oedd eraill wedi penderfynu neu'n ystyried llwybr heblaw AU. Dywedodd nifer o rieni a gwarcheidwaid a gyfrannodd at y gwaith ymchwil hwn fod eu plant wedi dychwelyd i addysg ar ôl gadael yr ysgol yn wreiddiol yn 16 oed, gan awgrymu llwybr aflinol. Yn yr achosion hyn, roedd pobl ifanc yn aml yn ymchwilio i gymwysterau BTEC neu gymwysterau galwedigaethol, weithiau gyda'r nod o ddilyn Prentisiaethau. Disgrifiodd un rhiant ddiddordeb ei blentyn mewn peirianneg fecanyddol drwy BTEC, a soniodd un arall am blentyn yn dilyn cwrs gofal iechyd a chymdeithasol gyda'r gobaith o ymuno â'r gweithlu'n uniongyrchol.

Thema a gododd droeon mewn trafodaethau gyda rhieni a gwarcheidwaid oedd y pwysau canfyddedig ar bobl ifanc i wneud penderfyniadau pwysig bywyd ar oedran ifanc iawn:

> “does dim sgwrs ynglŷn â 'beth wyt ti eisiau bod yn y dyfodol', mae disgyblion yn cael eu taflu i mewn i'r pen dwfn.”

Roedd y pryderon hyn yn cael eu gwaethygu gan ddylanwad cyfoedion a'r cyfryngau cymdeithasol. Fel y nododd un rhiant, “mae dylanwadwyr TikTok yn beth mawr,” ac awgrymodd fod platfformau ar-lein yn dylanwadu ar ganfyddiadau pobl ifanc o lwyddiant ac addysg, weithiau mewn ffyrdd a oedd yn tanseilio llwybrau traddodiadol fel y brifysgol.

Dangosodd dadansoddiad o adborth a gasglwyd gan rieni a gwarcheidwaid a gyfwelwyd rywfaint o wahaniaeth barn yn seiliedig ar lefelau incwm hefyd. Yn aml, roedd teuluoedd ag

incwm isel yn annog eu plant i fynd yn syth i gyflogaeth neu i ddilyn prentisiaeth yn hytrach nag astudiaethau prifysgol. Roedd pwyslais cryf ar annibyniaeth ariannol ac osgoi dyled: “roedd dyled myfyrwyr yn ffactor enfawr ym mhenderfyniad fy mab i ddilyn prentisiaeth”. Mynegodd rhieni a gwarcheidwaid ag incwm canolig bryder ynghylch pwysau sefydliadol i fynd i'r brifysgol, ac roedd rhai yn teimlo nad oedd ysgolion yn cyflwyno opsiynau cytbwys: “Prifysgol oedd y ffordd ymlaen, ac yna os nad ydych chi'n gwneud yn dda iawn, gallwch chi ystyried prentisiaeth, ond dim ond wedyn, sydd, yn fy marn i, yn dangos diffyg cydbwysedd”. Roedd cefnogaeth i ymreolaeth plant wrth wneud penderfyniadau yn fwy cyffredin ymhlith teuluoedd ag incwm uwch, ac roedd y grŵp hwn yn annog eu plant i archwilio a chymryd eu hamser i ddod o hyd i'r llwybr cywir: “rydych chi eisiau buddsoddi yn eu haddysg a’u dyfodol,” ac ychwanegodd un arall, “does dim cyfyngiad oedran ar astudio”.

## 6.2. Amseriad penderfyniadau ynglŷn â mynd i'r brifysgol

O blith y dysgwyr hynny a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol (703 i gyd), roedd traean wedi meddwl bod mynd i'r brifysgol yn rhywbeth yr oeddent wedi ei ystyried gyntaf tra roeddent yn yr ysgol gynradd, fel y dangosir yn Nhabl 6.2. Roedd ymatebwyr benywaidd yn llawer mwy tebygol (38%) na dysgwyr gwrywaidd (21%) o ddweud hynny ac roedd ymatebwyr gwrywaidd yn fwy tebygol o wneud eu penderfyniad pan oeddent yn hŷn, gyda 35% yn penderfynu ym Mlwyddyn 10 ac 11 bod mynd i'r brifysgol yn rhywbeth yr oeddent eisiau ei wneud.

Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg a chanddynt rieni neu warcheidwaid a oedd wedi cael addysg uwch hefyd yn fwy tebygol o feddwl ar oedran iau bod y brifysgol yn rhywbeth yr oeddent am ei wneud, tra bod y rhai â rhieni neu warcheidwaid nad oeddent wedi cael addysg uwch wedi gwneud y penderfyniad pan oeddent yn hŷn.

**Tabl 6.2: Y tro cyntaf y gwnaethant feddwl eu bod eisiau mynd i'r brifysgol**

| | Nifer | % |
|---|---:|---:|
| **Ysgol gynradd** | 228 | 32% |
| **Blynyddoedd 7 i 9** | 166 | 24% |
| **Blynyddoedd 10 ac 11** | 186 | 26% |
| **Blynyddoedd 12 a 13** | 77 | 11% |
| **Ddim yn gwybod / Heb ateb** | 48 | 7% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 703 o ymatebwyr Blwyddyn 12 a 13 a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol

O gymharu, roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr a gymerodd ran yn yr arolwg nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol (50) wedi gwneud y penderfyniad hwn yn ddiweddarach yn eu haddysg, fel y dangosir yn Nhabl 6.3, gyda thri chwarter wedi penderfynu nad oeddent am fynd i'r brifysgol o flwyddyn 10 ymlaen. Roedd dysgwyr gwrywaidd ychydig yn fwy tebygol na dysgwyr benywaidd o fod wedi gwneud eu penderfyniad i beidio â mynd i'r brifysgol yn ddiweddarach, o flwyddyn 10 ymlaen.

**Tabl 6.3: Y tro cynaf y gwnaethant feddwl nad oeddent eisiau mynd i'r brifysgol**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Ysgol gynradd** | <5 | 4% |
| **Blynyddoedd 7 i 9** | 9 | 18% |
| **Blynyddoedd 10 ac 11** | 18 | 36% |
| **Blynyddoedd 12 a 13** | 19 | 38% |
| **Ddim yn gwybod / Heb ateb** | <5 | 4% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 50 o ymatebwyr Blwyddyn 12 a 13 nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol

## 6.3. Cyrchfannau'r rhai a oedd y bwriadu mynd i'r brifysgol

Fel y dangosir yn Nhabl 6.4, roedd 33% o'r holl ymatebwyr hyn i'r arolwg yn bwriadu astudio mewn prifysgol yng Nghymru, a 40% yn bwriadu astudio yn Lloegr. Roedd tua 10% yn bwriadu astudio mewn prifysgol yng ngweddill y DU neu dramor.

Roedd lleoliad prifysgol a ffafriwyd gan gylch 2 yn wahanol i'r cylch cyntaf, a'r rheswm tebygol am hyn yw bod opsiwn 'heb benderfynu' ychwanegol wedi'i gynnwys yn yr arolwg gan iddo gael ei ddosbarthu ar ddechrau'r flwyddyn academaidd a'r ffaith bod yr arolwg hefyd wedi'i anfon at ddysgwyr Blwyddyn 12. Dywedodd bron i chwarter yr ymatebwyr, sef 23% o ymatebwyr cylch 2 nad oeddent wedi penderfynu, yn arbennig dysgwyr Blwyddyn 12.

O gymharu data ail gylch yr arolwg ar gyfer carfannau Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13, mae'n ymddangos bod cyfrannau tebyg wedi dewis prifysgol yn Lloegr fel y lleoliad yr oeddent yn ei ffafrio, sy'n awgrymu bod penderfyniad i astudio y tu allan i Gymru yn cael ei wneud yn gymharol gynnar. Fodd bynnag, roedd hyn yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r cyfrannau a oedd yn ffafrio astudio yng Nghymru (22% ym Mlwyddyn 12 a 38% ym Mlwyddyn 13, carfan cylch 2) sy'n awgrymu bod dysgwyr a oedd 'heb benderfynu' yn tueddu i gael eu denu at brifysgolion sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

O ran nodweddion eraill, roedd ymatebwyr benywaidd, y rhai mewn colegau a'r rhai â rhieni neu warcheidwaid nad oeddent wedi cael addysg uwch yn fwy tebygol o ffafrio prifysgol yng Nghymru, tra bod ymatebwyr gwrywaidd, y rhai mewn ysgolion a'r rhai â rhieni neu warcheidwaid a oedd wedi cael addysg uwch yn fwy tebygol o ffafrio prifysgol yn Lloegr.

**Tabl 6.4: Lleoliad prifysgol a ffafriwyd gan y rhai a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol**

| | Cylch 1 (Bl13 yn unig, o arolwg a gynhaliwyd ym mis Mehefin/Gorffennaf) | | Cylch 2 (Bl12 a Bl13, o arolwg a gynhaliwyd ym mis Medi/Hydref) | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| **Cymru** | 84 | 48% | 148 | 28% |
| **Lloegr** | 80 | 46% | 201 | 38% |
| **Gweddill y DU** | 8 | 5% | 43 | 8% |
| **Dramor** | <5 | 1% | 14 | 3% |
| **Heb benderfynu** | Ddim yn opsiwn yn yr arolwg | Ddim yn opsiwn yn yr arolwg | 121 | 23% |
| **Heb ateb** | 0 | 0% | <5 | <1% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 703 o ymatebwyr Blwyddyn 12 a 13 a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol  174 o gylch 1 a 529 o gylch 2. Ychwanegwyd yr opsiwn 'heb benderfynu' at holiadur arolwg cylch 2 o ystyried bod yr arolwg hefyd ar gael i ddysgwyr Blwyddyn 12.

O blith y dysgwyr a gafodd eu cyfweld, neu a gymerodd ran mewn trafodaethau grŵp ffocws, roedd rhai wedi derbyn cynigion diamod a ddylanwadodd ar eu penderfyniad ac roedd rhai yn bwriadu astudio'n lleol, yn enwedig yng Nghymru, oherwydd fforddiadwyedd ac oherwydd bod y brifysgol yn agos at eu cartref:

> "mae manteision gwych i aros gartref – fydd dim angen i mi gael benthyciad ar gyfer rhent. Rwy'n adnabod yr ardal, yn adnabod y system trafnidiaeth gyhoeddus. Mae gen i swydd yma hefyd a byddaf yn gallu parhau i weithio yn ystod y gwyliau."

Roedd eraill yn cael eu denu at sefydliadau penodol gan gyfeirio at safon y maes llafur, enw da y brifysgol a'r cyfleusterau.

Fodd bynnag, roedd y dysgwyr a gyfwelwyd hefyd yn bargamtaidd ynglŷn â'u dewisiadau. Pwysleisiodd llawer bwysigrwydd dewis gradd a chwrs a fyddai'n arwain at swydd. Dywedodd un dysgwr, "dyna pam rwy'n benderfynol nawr o wneud gradd sy'n arwain at swydd," ar ôl gweld ffrindiau'n dechrau prentisiaethau ac yn ennill arian. Ychwanegodd un arall, "Os nad ydych chi'n gwneud cwrs sy'n arwain at swydd, dyw e ddim yn werth chweil." O ganlyniad, roedd cyrsiau prifysgol a allai ddangos cysylltiad cryf â chyflogwyr yn boblogaidd.

## 6.4. Dylanwad teulu a chyfoedion ar y penderfyniad i fynd i'r brifysgol

Roedd dylanwad rhieni yn bwysig yn ôl y dysgwyr a gyfwelwyd, gan gynnwys y rhai nad oedd eu rhieni na'u gwarcheidwaid wedi mynd i'r brifysgol a ddywedodd bod eu rhieni'n eu hannog:

> “maen nhw’n bositif iawn ynglŷn â fi’n mynd i'r brifysgol.”

> “maen nhw’n hapus i mi wneud beth bynnag rwy'n dymuno.”

Roedd dylanwad cyfoedion hefyd yn dylanwadu'n fawr ar farn rhai o’r dysgwyr a gyfwelwyd:

> “pan ddechreuais i ym Mlwyddyn 12 roeddwn i wir eisiau mynd i’r brifysgol, mynd ymhell o gartref, cwrdd â phobl newydd - ond wedyn dechreuodd rhai o fy ffrindiau gael prentisiaethau a phrentisiaethau gradd, ennill arian, a dechreuais feddwl ddwywaith - dyna pam fy mod i wedi penderfynu gwneud gradd sy’n arwain at swydd nawr.”

Fodd bynnag, roedd rhai dysgwyr a gyfwelwyd ac a oedd wedi dewis peidio â mynd i'r brifysgol yn teimlo bod y brifysgol yn cael ei hyrwyddo'n ormodol gan ysgolion a cholegau, ac nad oedd digon o sylw'n cael ei roi i ddewisiadau eraill:

> “mae'r brifysgol yn cael ei gwthio i lawr ein gyddfau,”

> “yn yr ysgol, y ffocws yw mynd i’r brifysgol; yn y coleg, mae mwy o bwyslais ar brentisiaethau.”

Gan gyfeirio at elfennau eraill o'r gwaith maes a gynhaliwyd ar gyfer y gwaith ymchwil hwn, adleisiwyd y farn hon gan rai o'r myfyrwyr addysg uwch a gymerodd ran mewn trafodaethau grwpiau ffocws a awgrymodd fod ysgolion yn fwy tueddol o annog dysgwyr i wneud cais i fynd i'r brifysgol tra bod y rhai a oedd wedi mynd i golegau AB yn cofio cael cyngor ehangach am opsiynau AU ac opsiynau galwedigaethol.

## 6.5. Y rhai nad ydynt yn bwriadu astudio yn y brifysgol neu sydd heb benderfynu, a beth sy'n hatal neu'n eu poeni am hynny

Roedd cyfanswm o 177 o ymatebwyr i'r arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13 naill ai ddim yn bwriadu mynd i'r brifysgol (50) neu heb benderfynu (127). Y rheswm a roddwyd amlaf dros y ffaith nad oeddent wedi penderfynu oedd ansicrwydd ynghylch eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol, gyda 71% o'r garfan yn nodi nad oeddent yn gwybod eto beth roeddent am ei wneud. Mae hyn yn awgrymu bod dysgwyr yn amharod i ymrwymo i fynd i'r brifysgol oni bai bod ganddynt syniad clir o'u llwybr gyrfa hirdymor. Cost afresymol prifysgol oedd yr ail bryder a grybwyllwyd amlaf yn gyffredinol, gyda 61% yn nodi eu bod yn credu bod mynd i'r brifysgol yn rhy ddrud, a 27% arall yn ansicr a fyddent yn gallu fforddio hynny. Nododd bron i hanner (49%) yr ymatebwyr eu bod yn bwriadu dilyn prentisiaeth neu y byddai'n well ganddynt wneud hynny, gan dynnu sylw at ddiddordeb cryf mewn llwybrau seiliedig ar waith neu lwybrau galwedigaethol. Yn ogystal â hynny, roedd 44% yn cwestiynu a fyddai gradd yn werthfawr neu'n 'werth chweil', gan ddangos bod ganddynt amheuon ynghylch yr enillion ar fuddsoddiad mewn AU.

**Tabl 6.5: Rhesymau pam nad oedd dysgwyr a gymerodd ran yn yr arolwg yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu heb benderfynu**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Dydw i heb benderfynu beth rydw i eisiau ei wneud yn y dyfodol** (gofynnwyd i'r garfan a oedd heb benderfynu yn unig) | 90 | 71% |
| **Rwy'n meddwl ei bod hi'n rhy ddrud mynd i'r brifysgol** | 78 | 61% |
| **Rwy'n bwriadu cychwyn neu'n chwilio am brentisiaeth** | 62 | 49% |
| **Dydw i ddim yn siwr y byddai cael gradd yn werthfawr i mi / yn werth chweil** | 56 | 44% |
| **Rwy'n bwriadu teithio** | 46 | 36% |
| **Dwi heb benderfynu pa bwnc i'w astudio neu leoliad prifysgol** (gofynnwyd hyn i'r garfan a oedd heb benderfynu yn unig) | 44 | 35% |
| **Fyddwn i ddim/Dydw i ddim yn siwr a fydda i'n gallu ei fforddio** | 34 | 27% |
| **Rwy'n bwriadu cael neu chwilio am swydd** | 29 | 23% |
| **Nid oes gennyf ddiddordeb mewn astudio ymhellach** | 14 | 11% |
| **Dydw i ddim yn disgwyl cael y graddau mynediad sy'n ofynnol** | 5 | 4% |
| **Rheswm arall** | 10 | 8% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. Roedd cyfanswm o 177 o ymatebwyr i'r arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13 naill ai ddim yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu heb benderfynu. Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ymateb.

Er y dylid bod yn ofalus o ystyried y sampl gymharol fach, fe wnaeth ychydig dros chwarter o blith y 177 o ymatebwyr i'r arolwg nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu nad oeddent wedi penderfynu ddweud bod cost astudio am radd wedi cael effaith sylweddol ar eu penderfyniad, a dywedodd eu hanner fod hynny wedi cael o leiaf rywfaint o effaith. Dim ond lleiafrif bach oedd yn teimlo nad oedd cost wedi cael llawer o effaith, neu ddim effaith o gwbl, ar eu penderfyniad fel y dangosir yn Nhabl 6.6. At ei gilydd, mae'r data'n dangos bod ystyriaethau ariannol yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar ymddygiadau dysgwyr sydd leiaf tebygol o ddewis mynd i'r brifysgol.

**Tabl 6.6: Barn yr ymatebwyr i'r arolwg am yr effaith y mae cost astudio am radd wedi'i chael neu a fydd yn ei chael ar eu penderfyniad**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Effaith sylweddol** | 49 | 28% |
| **Rhywfaint o effaith** | 88 | 50% |
| **Ddim un na'r llall** | 8 | 5% |
| **Dim llawer o effaith** | 16 | 9% |
| **Dim effaith o gwbl** | 8 | 5% |
| **Ddim yn gwybod neu heb ateb** | 8 | 5% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. Roedd cyfanswm o 177 o ymatebwyr i'r arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13 naill ai ddim yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu heb benderfynu.

## 6.6. Gwerth AU

### 6.6.1. Barn dysgwyr

Fel y dangosir yn Nhabl 6.7, roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd yn bwriadu astudio yn y brifysgol o'r farn y byddai cymhwyster gradd yn werthfawr iawn (58%) neu'n weddol werthfawr (38%) iddynt, gan awgrymu, er gwaethaf eu pryderon ynghylch y goblygiadau ariannol, fod y rhan fwyaf o'r garfan hon yn dal i ystyried addysg prifysgol fel buddsoddiad gwerth chweil gyda manteision a chyfleoedd hirdymor. O'r garfan hon, dysgwyr mewn coleg, dysgwyr benywaidd a'r rhai â rhieni neu warcheidwaid addysg uwch oedd fwyaf tebygol o feddwl y byddai cymhwyster gradd yn 'werthfawr iawn' yn y dyfodol.

Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, roedd y rhai nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu ac nad oeddent wedi penderfynu yn llai argyhoeddedig o werth personol gradd. Dim ond 11% oedd yn ei ystyried yn 'werthfawr iawn', roedd 10% yn credu na fyddai'n werthfawr ac roedd tua un rhan o bump yn ansicr. Mae hyn yn awgrymu cyfuniad o ansicrwydd a dealltwriaeth gyfyngedig o fanteision posibl AU ymhlith y garfan hon.

**Tabl 6.7: Barn yr ymatebwyr i'r arolwg am werth cymhwyster gradd iddyn nhw yn y dyfodol**

| Barn am werth gradd | Y rhai a oedd y bwriadu mynd i'r brifysgol – Nifer | Y rhai a oedd y bwriadu mynd i'r brifysgol – % | Y rhai nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu a oedd heb benderfynu – Nifer | Y rhai nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu a oedd heb benderfynu – % |
|---|---|---|---|---|
| **Gwerthfawr iawn** | 404 | 58% | 19 | 11% |
| **Gweddol werthfawr** | 267 | 38% | 82 | 46% |
| **Ddim un na'r llall** | 10 | 1% | 25 | 14% |
| **Ddim yn arbennig o werthfawr** | 12 | 2% | 16 | 9% |
| **Ddim yn werthfawr o gwbl** | 0 | 0% | <5 | 1% |
| **Ddim yn gwybod** | 10 | 1% | 33 | 19% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 780 o ymatebwyr Blwyddyn 12 a 13 oedd yn bwriadu (703) a ddim yn bwriadu/heb benderfynu (177) mynd i'r brifysgol.

Mae Tabl 6.8 yn dangos mai'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol a oedd yn rhoi'r gwerth mwyaf ar radd mewn perthynas â deilliannau'n gysylltiedig â gyrfa. O blith y garfan hon, nododd 75% y byddai gradd yn eu helpu i gael swydd well, a nododd dros eu hanner y byddai'n rhoi mwy o opsiynau gyrfa iddynt yn ddiweddarach (53%) neu ei bod yn angenrheidiol ar gyfer yr yrfa yr oeddent ei heisiau (52%). Roedd y potensial o ran ennill incwm hefyd yn ystyriaeth allweddol, gyda 59% o'r garfan hon yn nodi y byddai gradd yn eu helpu i ennill mwy o arian yn y dyfodol.

Ymhlith y rhai nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu nad oeddent wedi penderfynu, mae'r gwerth canfyddedig ychydig yn is ar gyfer y rhan fwyaf o ddeilliannau ond mae'n dilyn patrwm tebyg yn gyffredinol. Helpu i gael swydd well (66%) a gallu ennill mwy o arian yn y dyfodol (64%) yw'r manteision a grybwyllir amlaf o hyd. Fodd bynnag, nododd llai o ymatebwyr o'r garfan hon ddysgu mwy am bwnc y maent yn ei fwynhau (34%), cael annibyniaeth (13%), neu gwrdd â phobl newydd/meithrin cysylltiadau (25%) fel manteision posibl. Mae hyn yn awgrymu bod dysgwyr a oedd heb benderfynu neu nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol yn canolbwyntio mwy ar ddeilliannau economaidd ac yn llai ymwybodol o fanteision ehangach gradd, neu bod hynny'n llai o gymhelliant iddynt.

Rhoddodd dysgwyr gwrywaidd fwy o bwyslais na dysgwyr benywaidd ar gymhwyster gradd fel rhywbeth a fyddai neu a allai eu helpu i gael swydd well ac ennill mwy o arian. Rhoddodd dysgwyr yn y coleg a dysgwyr benywaidd fwy o bwyslais ar gymhwyster gradd fel rhywbeth yr oedd ei angen arnynt neu y gallai fod ei angen arnynt ar gyfer yr yrfa yr oeddent ei heisiau o'i gymharu â dysgwyr yn yr ysgol a dysgwyr gwrywaidd.

**Tabl 6.8: Barn ymatebwyr i'r arolwg am y ffordd y bydd neu y gallai cymhwyster gradd fod yn werthfawr iddynt yn y dyfodol**

| | Y rhai a oedd y bwriadu mynd i'r brifysgol | | Y rhai nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu a oedd heb benderfynu | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| **Bydd/efallai y bydd yn fy helpu i gael swydd well** | 506 | 75% | 67 | 66% |
| **Byddaf/Efallai y byddaf yn gallu ennill mwy o arian yn y dyfodol** | 399 | 59% | 65 | 64% |
| **Bydd/efallai y bydd yn fy helpu i ddysgu mwy am bwnc rwy'n ei fwynhau** | 345 | 51% | 34 | 34% |
| **Bydd/efallai y bydd yn rhoi mwy o opsiynau gyrfa i mi yn nes ymlaen** | 354 | 53% | 53 | 53% |
| **Mae'n rhywbeth sydd ei angen arnaf/efallai y bydd ei angen arnaf ar gyfer yr yrfa rwyf ei heisiau** | 346 | 52% | 41 | 41% |
| **Mae'n rhoi/efallai y bydd yn rhoi amser i mi ddod yn fwy annibynnol** | 191 | 28% | 13 | 13% |
| **Byddaf/efallai y byddaf yn cwrdd â phobl newydd ac yn meithrin cysylltiadau defnyddiol** | 283 | 42% | 25 | 25% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 672 o ymatebwyr Blwyddyn 12 a 13 oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol ac yn meddwl y byddai cymhwyster gradd yn werthfawr a 101 o ymatebwyr Blwyddyn 12 a 13 nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu a oedd heb benderfynu ac yn meddwl y gallai cymhwyster gradd fod yn werthfawr iddynt. Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ymateb.

Roedd nifer o ddysgwyr a gyfwelwyd yn ystyried AU fel llwybr tuag at well rhagolygon swydd a datblygiad gyrfa. Roedd rhai o’r farn bod gradd yn hanfodol er mwyn gweithio mewn rhai proffesiynau, yn enwedig y gyfraith, meddygaeth ac addysgu. Dywedodd un

dysgwr “er mwyn astudio’r gyfraith, rwy'n meddwl bod angen gradd arna i a bydd yn golygu fy mod i’n ennill mwy o arian,” a nododd un arall, “dydw i ddim yn meddwl y bydd o reidrwydd yn golygu y byddaf yn ennill mwy o arian ond byddai'n well gen i gael gradd cyn cael swydd - byddwn i'n teimlo’n fwy parod.” Roedd eraill yn fwy gochelgar, gan gydnabod nad oedd pob gradd yn arwain yn uniongyrchol at swydd: “mae yna lawer o gyrsiau nad ydyn nhw'n gwarantu swydd ar y diwedd. Os nad ydych chi'n dilyn cwrs sy'n arwain at swydd, dydy e ddim yn werth chweil.” Er gwaethaf y pryderon hyn, roedd llawer o ddysgwyr a gyfwelwyd yn dal i weld prifysgol fel ffordd o gynyddu eu siawns o lwyddo:

> “gallwch gael swyddi da heb radd, ond mae'n llawer haws gyda chymwysterau y tu ôl i chi.”

Y tu hwnt i gyflogaeth, roedd dysgwyr a gyfwelwyd yn gwerthfawrogi'r brifysgol am ei rôl mewn datblygiad personol, annibyniaeth a thwf cymdeithasol. Disgrifiodd sawl un y brifysgol fel cyfnod pontio rhwng yr ysgol a'r byd gwaith. Dywedodd un dysgwr, “mae’n eich paratoi ar gyfer y byd go iawn – nid yn unig yr ochr academaidd ond yr ochr gymdeithasol - sut i fyw gydag eraill, gofalu amdanoch chi’ch hun.” Gwnaeth y dysgwyr sylwadau cadarnhaol am y cyfle i gwrdd â phobl newydd, archwilio gwahanol ddinasoedd, a chael eu hamlygu i amrywiaeth o syniadau: “ehangu persbectif, amgylchedd newydd, profiadau newydd” oedd y prif gymhellion dros fynd i'r brifysgol.

Er gwaethaf y safbwyntiau cadarnhaol hyn, mynegodd nifer o ddysgwyr a gyfwelwyd amheuaeth ynghylch gwerth mynd i'r brifysgol, yn enwedig o bwyso a mesur hynny yn erbyn y costau a'i risgiau:

> “mae rhywun yn y brifysgol am gyfnod hir a gallai fod yn wastraff amser a chostio llawer o arian.”
>
> “dewis y radd anghywir a chael dyled beth bynnag - mae angen sicrhau bod y radd yn ddefnyddiol.”

Roedd rhai dysgwyr wedi ystyried dewisiadau eraill fel prentisiaethau gradd ond roeddent yn ei chael hi'n anodd cael mynediad atynt: “byddai cael prentisiaeth gradd wedi bod yn wych, ond mae’n anodd iawn cael lle,” sy’n dangos, er bod diddordeb mewn llwybrau galwedigaethol, bod argaeledd a chystadleuaeth yn rhwystrau i ddilyn y trywydd yr oeddent yn ei ffafrio.

Roedd gan yr ymatebwyr i'r arolwg farn gymysg ynghylch a yw gradd yn angenrheidiol i gael swydd dda yn y dyfodol. Fel y dangosir yn Nhabl 6.9, roedd ychydig dros hanner (53%) y rhai a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol yn credu bod gradd yn angenrheidiol ond nid oedd 35% yn credu hynny. Mae'n nodedig mai dim ond 18% o'r garfan hon oedd yn ystyried bod gradd yn 'bendant' yn angenrheidiol, gyda dysgwyr a oedd yn y coleg a dysgwyr benywaidd yn fwy tebygol o gredu hynny, a dysgwyr a oedd yn yr ysgol a dysgwyr gwrywaidd yn llai tebygol o gredu hynny.

I'r gwrthwyneb, ymhlith y rhai nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu nad oeddent wedi penderfynu, roedd llawer llai yn gweld gradd fel rhywbeth angenrheidiol: dim ond 22% oedd yn meddwl ei bod yn angenrheidiol i gael swydd dda, ac nid oedd 60% yn ei hystyried yn angenrheidiol o gwbl. Mae hyn yn awgrymu y gallai dysgwyr sy'n llai tueddol o fynd i'r

brifysgol fod yn fwy hyderus o ran cael llwybrau amgen i gyflogaeth, neu'n llai argyhoeddedig o'r fantais y mae gradd yn ei chynnig yn y farchnad lafur.

**Tabl 6.9: Barn yr ymatebwyr i'r arolwg ynghylch a yw gradd yn angenrheidiol i gael swydd dda yn y dyfodol**

| | Y rhai a oedd y bwriadu mynd i'r brifysgol | | Y rhai nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu a oedd heb benderfynu | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| **Ydy, yn bendant** | 126 | 18% | 10 | 6% |
| **Ydy, o bosibl** | 248 | 35% | 29 | 16% |
| **Ansicr** | 79 | 11% | 34 | 19% |
| **Na, o bosibl ddim** | 175 | 25% | 73 | 41% |
| **Na, ddim o gwbl** | 73 | 10% | 31 | 18% |
| **Heb ateb** | <5 | <1% | 0 | 0% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 780 o ymatebwyr Blwyddyn 12 a 13 oedd yn bwriadu (703) a ddim yn bwriadu/heb benderfynu (177) mynd i'r brifysgol.

### 6.6.2. Barn rhieni a gwarcheidwaid

Roedd barn rhieni a gwarcheidwaid ar werth AU yn gymysg ac yn aml yn amrywiol. Roedd rhieni a gwarcheidwaid yn cydnabod bod mynd i'r brifysgol yn hanfodol ar gyfer rhai proffesiynau, fel meddygaeth, y gyfraith, neu addysgu, ond roeddent yn cwestiynu ei pherthnasedd ehangach mewn marchnad lafur sy'n newid. Nododd sawl cyfranogwr nad oedd graddau prifysgol bellach yn gwarantu cyflogaeth na chyflogau uwch, a bod profiad ymarferol, hyfforddiant galwedigaethol a phrentisiaethau yn cael eu gwerthfawrogi fwyfwy gan gyflogwyr. Meddai un rhiant, “nid yw’n paratoi pobl ar gyfer y byd go iawn a swyddi yn yr oes sydd ohoni.” Ychwanegodd un arall mai “llawer iawn o brofiad sydd gan rai o’r bobl fwyaf llwyddiannus,” gan dynnu sylw at werth canfyddedig dysgu ymarferol o gymharu â chymwysterau academaidd.

Rhannodd rhai rhieni a gwarcheidwaid brofiadau personol neu deuluol a ddylanwadodd ar eu barn. Disgrifiodd un blentyn a oedd wedi cwblhau gradd mewn plismona ond a oedd bellach yn gweithio'n rhan-amser yn y maes manwerthu, gan awgrymu bod datgysylltiad rhwng cymwysterau academaidd a deilliannau'n ymwneud â swyddi. Rhannodd rhiant arall y ffaith bod ei blentyn yn astudio theatr gerdd ac y byddai angen iddo gael clyweliadau er mwyn cael lle yn y brifysgol, gan dynnu sylw at natur gystadleuol ac ansicr y diwydiannau creadigol.

Roedd pryder hefyd ynghylch effaith deallusrwydd artiffisial ac awtomeiddio ar swyddi graddedigion. Mynegodd un rhiant amheuon ynghylch dyfodol swyddi a oedd yn gysylltiedig ag addysg prifysgol, gan awgrymu y gallai crefftau a sgiliau ymarferol gynnig mwy o sicrwydd: “mae crefft yn ddewis diogel gan na all deallusrwydd artiffisial gymryd ei lle.”

Er gwaethaf y pryderon hyn, roedd rhai rhieni a gwarcheidwaid yn dal i werthfawrogi'r profiad ehangach a gynigir gan y brifysgol, gan gynnwys datblygiad personol, annibyniaeth, ac amlygiad i syniadau newydd. Disgrifiodd un rhiant a gyfwelwyd y brifysgol fel lle i bobl ifanc “ddarganfod eu hunain,” a phwysleisiodd un arall werth diwylliannol ac academaidd AU, hyd yn oed os nad oedd yn arwain yn uniongyrchol at gyflogaeth.

Roedd cydnabyddiaeth hefyd y gallai'r brifysgol fod yn gam gwerthfawr ymlaen i'r rhai a chanddynt angerdd tuag at bwnc neu yrfa benodol. Fodd bynnag, pwysleisiodd rhieni a gwarcheidwaid bwysigrwydd gwneud dewisiadau gwybodus a pheidio â mynd i'r brifysgol dim ond oherwydd mai dyma a ystyrir fel y llwybr diofyn neu ddisgwyliedig:

> “mae rhai pobl yn mynd i'r brifysgol dim ond i gael gradd ac yn gorffen gyda dyled. Nid yw'n addas i bawb.”

Unwaith eto, dangosodd dadansoddiad pellach o'r adborth a gafwyd gan rieni a gwarcheidwaid rai gwahaniaethau yn seiliedig ar lefelau incwm. Roedd rhieni a gwarcheidwaid ag incwm isel yn tueddu i fod yn fwy amheus ynghylch gwerth mynd i'r brifysgol oni bai bod y cwrs yn amlwg yn arwain at swydd. Rhoddwyd pwyslais cryf ar ddeilliannau ymarferol ac enillion ariannol: “Mae rhywun yn y brifysgol am gyfnod hir a gallai fod yn wastraff amser a chostio llawer o arian,” sy’n adlewyrchu pryderon ynghylch buddsoddi mewn addysg heb sicrwydd o gael swydd. Roedd gan rieni a gwarcheidwaid ag incwm canolig safbwyntiau mwy cymysg. Er bod rhai yn gweld y brifysgol fel profiad gwerthfawr, roedd eraill yn cwestiynu a oedd yn angenrheidiol i lwyddo. Un thema a gododd dro ar ôl tro oedd bod y brifysgol yn wahanol i'r hyn yr arferai fod: “Nid yw'r brifysgol fel yr oedd ar un adeg.” Roedd rhieni a gwarcheidwaid ag incwm uchel yn fwy tebygol o ystyried y brifysgol fel profiad diwylliannol a datblygiadol, nid dim ond llwybr i gyflogaeth:

> “mae'n gyfnod pontio da i bobl ifanc nad ydyn nhw'n mynd yn syth i fyd gwaith annibynnol.”
>
> “yn ddiwylliannol, mae angen addysg arnoch chi - allwch chi ddim rhoi gwerth ar addysg.”

# 7. Cyllid myfyrwyr: gwaith maes gyda dysgwyr Blwyddyn 12 a 13 a rhieni a gwarcheidwaid dysgwyr Blwyddyn 12 a 13

Mae'r bennod hon yn nodi canfyddiadau'r gwaith maes gyda dysgwyr Blwyddyn 12 a 13 a'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda rhieni a gwarcheidwaid dysgwyr Blwyddyn 12 a 13. Mae'n ymchwilio i ddylanwad costau ar eu dewisiadau astudio, eu canfyddiadau o fforddiadwyedd AU, eu dealltwriaeth o gymorth cyllid myfyrwyr ac agweddau tuag at ddyledion benthyciadau myfyrwyr. Mae'r bennod yn seiliedig ar ddata o'r arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 12 a 13 (880), cyfweliadau â 9 o ddysgwyr Blwyddyn 13, 2 grŵp ffocws a gynhaliwyd gydag 16 o ddysgwyr Blwyddyn 13 mewn SAB, yn ogystal â 3 thrafodaeth grŵp ffocws gyda 24 o rieni a gwarcheidwaid dysgwyr ym Mlwyddyn 12 a 13.

## 7.1. Dylanwad costau ar y dewis o brifysgol a phwnc gradd

Mae Tabl 7.1 yn dangos, o ran traean yr ymatebwyr i'r arolwg o ddysgwyr Blwyddyn 13 hynny a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol, nad oedd costau astudio am radd yn effeithio ar y brifysgol yr oeddent wedi'i dewis neu'n bwriadu ei dewis. I'r ddwy ran o dair sy'n weddill (h.y. y rhai yr oedd y gost yn ffactor yn eu penderfyniad), rhoddwyd mwy o bwyslais ar enw da darpar brifysgol am gymwysterau a deilliannau cyflogaeth myfyrwyr. Roedd tuag un rhan o bump o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg wedi dewis eu prifysgol ar sail y ffaith ei bod yn agosach at eu cartref neu oherwydd bod ganddi opsiynau llety rhatach.

Er bod gan ymatebwyr gwrywaidd lai o ddiddordeb mewn astudio yng Nghymru na'u cymheiriaid benywaidd, roeddent serch hynny'n fwy tebygol o ddweud eu bod wedi dewis prifysgol a oedd yn agos at eu cartref neu lle y gallent barhau i fyw gartref, gan awgrymu bod agosrwydd a chyfleustra wedi chwarae mwy o ran yn eu penderfyniadau. Roedd y rhai nad oedd eu rhieni neu warcheidwaid wedi cael addysg uwch hefyd yn fwy tueddol o ddweud hyn ac yn fwy tebygol o ddewis prifysgol a oedd yn agos at eu cartref neu a oedd yn eu galluogi i barhau i fyw gartref.

Roedd dysgwyr benywaidd a'r rhai â rhieni neu warcheidwaid a oedd wedi cael addysg uwch yn fwy tebygol o ddweud nad oedd costau astudio ar gyfer gradd yn effeithio ar eu dewis o brifysgol.

**Tabl 7.1: A yw costau astudio am radd yn dylanwadu ar y brifysgol y gwnaeth dysgwyr gais iddi (neu yr oeddent yn ystyried gwneud cais iddi)**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Na, ni wnaeth unrhyw wahaniaeth i'm dewis o brifysgol** | 57 | 33% |
| **Do, dewisais brifysgol a oedd ag enw da am ganlyniadau academaidd** | 53 | 31% |
| **Do, dewisais brifysgol a oedd ag enw da am gael graddedigion i mewn i swyddi** | 45 | 26% |
| **Do, dewisais brifysgol oedd yn agos i gartref** | 35 | 20% |
| **Do, dewisais brifysgol gydag opsiynau llety rhatach** | 33 | 19% |
| **Do, dewisais brifysgol lle gallwn barhau i fyw gartref** | 28 | 16% |
| **Ddim yn gwybod** | 9 | 5% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 174 o ymatebwyr Blwyddyn 13 (cylch 1 yn unig) oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol

Mae Tabl 7.2 yn dangos, i 60% o'r ymatebwyr i arolwg Blwyddyn 13 a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol, nad oedd costau astudio am radd yn effeithio ar y cwrs yr oeddent wedi gwneud cais amdano neu'n ystyried gwneud cais amdano. O blith y 40% sy'n weddill o'r ymatebwyr i arolwg Blwyddyn 13, rhoddwyd ychydig mwy o bwyslais ar ddewis pwnc a fyddai'n arwain at swydd â chyflog gwell.

Nid oedd unrhyw wahaniaeth nodedig yn yr ymatebion i'r arolwg wrth ddadansoddi'r penderfyniadau hyn yn ôl rhyw, lleoliad addysg na chefndir addysgol rhieni neu warcheidwaid.

**Tabl 7.2: P'un a oedd costau astudio am radd wedi dylanwadu ar y pwnc yr oedd dysgwyr wedi gwneud cais amdano (neu yr oeddent yn ystyried gwneud cais amdano)**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Na, ni wnaeth unrhyw wahaniaeth i'm dewis o bwnc** | 103 | 60% |
| **Do, dewisais bwnc sy'n fwy tebygol o arwain at swyddi â chyflog gwell** | 47 | 27% |
| **Do, dewisais bwnc a fydd yn ei gwneud hi'n haws i mi ddod o hyd i swydd** | 37 | 21% |
| **Do, dewisais bwnc a oedd yn cynnig mwy o amser dysgu** | 6 | 4% |
| **Ddim yn gwybod** | <5 | 2% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 174 o ymatebwyr Blwyddyn 13 (cylch 1 yn unig) a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol

## 7.2. Fforddiadwyedd AU

### 7.2.1. Barn dysgwyr

Mae Tabl 7.3 yn dangos bod 65% o ddysgwyr a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol yn poeni am allu fforddio costau byw bob dydd tra byddent yn y brifysgol ac nad oedd 23% yn poeni am hynny. Roedd dysgwyr mewn colegau, dysgwyr benywaidd, dysgwyr Blwyddyn 13, a'r rhai â rhieni a gwarcheidwaid nad oeddent wedi cael addysg uwch yn fwy pryderus na'u cymheiriaid ynghylch gallu fforddio costau byw tra roeddent yn y brifysgol.

Mynegodd dysgwyr a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu a oedd heb benderfynu lefelau uchel tebyg o bryder ynghylch gallu fforddio mynd i'r brifysgol, gyda 62% yn dweud eu bod yn poeni am allu fforddio costau byw bob dydd pe byddent yn mynd i'r brifysgol i astudio ar gyfer gradd. Mae hyn yn awgrymu bod pryderon ynghylch costau byw yn rhwystr posibl i bobl ifanc hyd yn oed cyn penderfynu gwneud cais.

**Tabl 7.3: Pa mor bryderus yw neu y byddai'r ymatebwyr i'r arolwg am allu fforddio costau byw bob dydd fel rhent, bwyd a biliau tra byddant yn y brifysgol**

| | Y rhai a oedd y bwriadu mynd i'r brifysgol | | Y rhai nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu a oedd heb benderfynu | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| **Pryderus iawn** | 118 | 17% | 31 | 18% |
| **Gweddol bryderus** | 335 | 48% | 77 | 44% |
| **Ddim un na'r llall** | 72 | 10% | 25 | 14% |
| **Ddim yn bryderus iawn** | 136 | 19% | 28 | 16% |
| **Ddim yn bryderus o gwbl** | 28 | 4% | 9 | 5% |
| **Ddim yn gwybod / Heb ateb** | 14 | 2% | 7 | 4% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 780 o ymatebwyr Blwyddyn 12 a 13 oedd yn bwriadu (703) a ddim yn bwriadu/heb benderfynu (177) mynd i'r brifysgol.

Mae Tabl 7.4 yn dangos bod 79% o'r ymatebwyr i'r arolwg yn poeni y byddai costau byw cynyddol yn gwneud bywyd prifysgol yn anoddach i'w fforddio, ac mai dim ond 10% nad oeddent yn poeni am hyn, gan awgrymu bod dysgwyr yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol sy'n gysylltiedig â mynd i'r brifysgol. Roedd dysgwyr benywaidd a'r rhai â rhieni a gwarcheidwaid nad oeddent wedi cael addysg uwch yn fwy tebygol na'u cymheiriaid o fod yn bryderus ynglŷn ag effaith costau byw cynyddol.

**Tabl 7.4: Pa mor bryderus yw'r ymatebwyr i'r arolwg y bydd costau byw cynyddol yn gwneud bywyd prifysgol yn anoddach ei fforddio**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Pryderus iawn** | 223 | 32% |
| **Gweddol bryderus** | 332 | 47% |
| **Ddim un na'r llall** | 64 | 9% |
| **Ddim yn bryderus iawn** | 54 | 8% |
| **Ddim yn bryderus o gwbl** | 11 | 2% |
| **Ddim yn gwybod / Heb ateb** | 19 | 3% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 703 o ymatebwyr Blwyddyn 12 a 13 (cylch 1 yn unig) a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol

Roedd fforddiadwyedd yn thema amlwg yn sylwadau'r dysgwyr a gyfwelwyd, yn enwedig mewn perthynas â chostau byw, llety, a'r angen i weithio ochr yn ochr ag astudio. Roedd llawer o ddysgwyr yn rhagweld y byddai angen cyflogaeth ran-amser arnynt i ategu eu hincwm, “Mae’n debyg y byddaf yn cael swydd os na fydd y benthyciad yn talu am y cyfan, neu byddaf yn gofyn i fy rhieni.” Nododd un arall, “mae pawb yn awgrymu cael swydd, er nad yw bob amser yn ddigon, mae costau llety yn codi bob blwyddyn.” Roedd dealltwriaeth gyffredinol y byddai cyllidebu yn hanfodol, a mynegodd rhai dysgwyr bryder ynghylch costau byw cynyddol:

> “Rwy'n gwybod y bydd angen i mi gyllidebu. Rwy'n pryderu am gostau byw cynyddol."

Roedd dysgwyr yn arbennig o bryderus am gostau llety, yn enwedig ar ôl gadael neuaddau myfyrwyr. Cafodd y pryderon hyn eu gwaethygu gan ddiffyg profiad o reoli treuliau'r cartref, gydag un dysgwr yn nodi, “dydw i ddim yn talu am fwyd na biliau ar hyn o bryd, felly mae'n anodd gwybod.”

Roedd rhai dysgwyr yn ystyried bod aros gartref yn ffordd o leihau costau. Roedd gan nifer o'r dysgwyr Blwyddyn 13 a gyfwelwyd mewn coleg AB ddiddordeb mewn nyrsio neu ofal iechyd ac roedd ganddynt gymhelliant cryf i astudio yng Nghymru oherwydd y manteision ariannol sy'n gysylltiedig â bwrsariaeth GIG Cymru. I'r dysgwyr hyn, roedd bwrsariaeth y GIG yn gwneud i AU deimlo'n fwy hygyrch ac yn llai peryglus, yn enwedig yng nghyd-destun pryderon ehangach ynghylch costau byw a dyled myfyrwyr.

Nid oedd pob dysgwr yn disgwyl nac eisiau i'w rhieni na'u gwarcheidwaid gyfrannu'n ariannol. Dywedodd sawl un nad oedd eu rhieni na’u gwarcheidwaid yn gallu fforddio helpu, fel y dywedodd un, “Dydw i ddim yn meddwl y dylai rhieni gyfrannu, a dydyn nhw ddim yn gallu fforddio gwneud hynny.” Roedd eraill yn gobeithio dibynnu ar fenthyciadau a grantiau cynhaliaeth ond yn cydnabod na fyddent yn ddigonol o bosibl.

### 7.2.2. Barn rhieni a gwarcheidwaid

Roedd costau byw cynyddol yn thema bwysig ar draws y 3 grŵp ffocws, gyda rhieni a gwarcheidwaid yn mynegi pryder ynghylch sut y byddai eu plant yn gallu fforddio bywyd prifysgol. Roedd hyn yn cynnwys pryderon am rent, bwyd, teithio, llyfrau, a hanfodion eraill, hyd yn oed gyda chymorth ariannol. Disgrifiodd rhieni a gwarcheidwaid y pwysau ariannol sy'n wynebu pobl ifanc fel digynsail o'u cymharu â'u profiadau eu hunain:

> "mae pethau'n llawer drutach nag yr oedden nhw pan oedden ni yn yr ysgol neu'r brifysgol."

> "mae plant yn gorfod ymdopi â phethau'n ymwneud â chostau byw - dyna bwysau i berson ifanc ei ysgwyddo."

Roedd consensws cyffredinol nad oedd y cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr yn debygol o fod yn ddigonol, ac y byddai angen i deuluoedd gyfrannu. Fodd bynnag, nid oedd pob rhiant a gwarcheidwad yn teimlo eu bod yn gallu gwneud hynny'n ariannol. Roedd teuluoedd ag incwm is yn fwy tebygol o fynegi pryder ynghylch cost prifysgol a'r pwysau y mae'n ei roi ar bobl ifanc. Dywedodd nifer o rieni a gwarcheidwaid nad oedd ganddynt unrhyw gynilion ac na allent gyfrannu'n ariannol. Nododd un, "ni ddylid disgwyl i rieni gyfrannu," ac ychwanegodd un arall, "does gen i ddim cynilion." Roedd teuluoedd ag incwm canolig yn ymwybodol o'r baich ariannol, ond nododd rhai eu bod wedi dechrau cynilo neu gyllidebu ac anogodd eraill eu plant i aros yn lleol i leihau costau: "mae'n ystyried mynd i brifysgol leol yn ein hardal ni." Roedd teuluoedd ag incwm uwch yn fwy tebygol o fod wedi gallu gwneud paratoadau ariannol i'w plentyn fynd i'r brifysgol, gyda sawl un yn sôn am gynllunio ymlaen llaw a chynilo o'r adeg y cafodd plentyn ei eni, sefydlu cronfeydd ymddiriedolaeth neu gyfrifon cynilo a neilltuwyd i helpu i dalu costau prifysgol. Dywedodd un rhiant, "nid yw'n bwll diwaelod, ond mae'n ddechrau da iddo."

Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, roedd llawer o rieni a gwarcheidwaid yn teimlo y gallai'r straen ariannol effeithio ar iechyd meddwl a phenderfyniadau eu plant:

> "Byddai gen i ddiddordeb gweld sut mae dyledion yn effeithio ar iechyd meddwl a llesiant."

Ystyriwyd bod yr argyfwng costau byw yn ffactor allweddol a oedd yn dylanwadu ar agweddau pobl ifanc tuag at y brifysgol. Roedd rhai rhieni a gwarcheidwaid yn teimlo bod eu plant yn fwy ymwybodol o faterion ariannol na chenedlaethau a fu, ond roedd eraill yn credu eu bod yn dal yn naïf ynglŷn â'r realiti: "doedden nhw ddim o gwmpas i wybod a gweld y cynnydd sydyn, ond maen nhw'n mynd i sylweddoli rhyw ddydd pan fyddan nhw'n tyfu i fyny."

## 7.3. Deall y cymorth ariannol i fyfyrwyr

### 7.3.1. Barn dysgwyr

Gofynnwyd i gylch 1 carfan Blwyddyn 13 a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol (174 i gyd) a oeddent hwy, neu rywun ar eu haelwyd, wedi gwneud cais i Gyllid Myfyrwyr Cymru am gymorth ariannol i'w helpu gyda chostau mynychu'r brifysgol. Roedd y mwyafrif (84%) wedi gwneud cais a'r lleiafrif (13%) heb wneud hynny. Nid oedd yr ychydig (3%) a oedd yn weddill yn gwybod. Roedd ymatebwyr benywaidd, dysgwyr mewn ysgolion, a'r rhai a oedd yn cael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o fod wedi gwneud cais am gymorth ariannol.

Roedd y rhai â rhieni neu warcheidwaid a oedd wedi cael addysg uwch ychydig yn llai tebygol o fod wedi gwneud cais am gymorth ariannol.

Gofynnwyd i bawb yng nghylch 1 carfan Blwyddyn 13 pa mor dda yr oeddent yn deall sut y mae cyllid myfyrwyr yn gweithio, ac mae'r data i'w gweld yn Nhabl 7.5. Yn ôl y disgwyl, nododd y rhai a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol fwy o hyder, gyda dwy ran o dair (67%) yn nodi eu bod yn deall cyllid myfyrwyr yn weddol dda neu'n dda iawn. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, dim ond 30% o'r rhai a oedd heb benderfynu neu ddim yn bwriadu mynd i'r brifysgol a nododd yr un lefel o ddealltwriaeth, gan amlygu bwlch clir mewn gwybodaeth a allai fod yn cyfrannu at fethiant i benderfynu neu amharodrwydd i wneud cais.

Fodd bynnag, nid oedd chwarter y rhai a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth am drefniadau cyllid myfyrwyr, gan awgrymu bod cyfran o ddysgwyr yn paratoi i fynd i AU heb wybodaeth lawn am y goblygiadau ariannol. Ymhlith y rhai a oedd heb benderfynu neu nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol, dywedodd 60% nad oeddent yn deall cyllid myfyrwyr yn dda, gan awgrymu y gallai diffyg gwybodaeth fod yn rhwystr i gynnydd.

**Tabl 7.5: Pa mor dda yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo eu bod yn deall sut y mae cyllid myfyrwyr yn gweithio**

| | Y rhai a oedd y bwriadu mynd i'r brifysgol | | Y rhai nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu a oedd heb benderfynu | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| **Yn dda iawn** | 17 | 10% | <5 | 5% |
| **Yn weddol dda** | 98 | 57% | 13 | 25% |
| **Ddim un na'r llall** | 16 | 9% | 8 | 22% |
| **Ddim yn arbennig o dda** | 36 | 21% | 11 | 30% |
| **Ddim yn dda o gwbl** | 6 | 4% | <5 | 8% |
| **Heb ateb** | <5 | <1% | 0 | 0% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 211 o ymatebwyr Blwyddyn 13 (cylch 1 yn unig) a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol (174) neu a oedd heb benderfynu/ddim yn bwriadu mynd (37)

Dangosodd dysgwyr Blwyddyn 13 a gyfwelwyd ddealltwriaeth gymysg a chyfyngedig yn aml o gymorth ariannol i fyfyrwyr. Er bod rhai wedi dechrau ar y broses ymgeisio, mynegodd llawer ddryswch, ansicrwydd, neu ddibyniaeth ar eraill, yn enwedig rhieni a gwarcheidwaid a staff yr ysgol, i ymdrin â'r manylion. Cyfaddefodd sawl dysgwr nad oedd wedi cymryd rhan weithredol yn y broses o ddeall a gwneud cais am gyllid myfyrwyr: "Fe wnes i adael i fy mam a nhad ddelio â hynny." Roedd eraill yn dibynnu'n fawr ar gymorth gan staff yr ysgol, yn enwedig penaethiaid blwyddyn a chydlynwyr gyrfaoedd, i ddelio â'r broses ymgeisio: "fe wnaeth fy ysgol roi rhywfaint o wybodaeth i mi ond gall fod yn ddryslyd pan na fyddwch chi'n gwybod beth rydych chi'n ei wneud."

Roedd awydd clir am fwy o dryloywder a chymorth ynghylch cyllid myfyrwyr, gyda'r system yn aml yn cael ei disgrifio fel un ddryslyd a llethol. Roedd y dysgwyr a gyfwelwyd yn ei chael hi'n anodd gwahaniaethu rhwng mathau o fenthyciadau a grantiau, ac roedd llawer yn aneglur ynghylch y telerau ad-dalu. Meddai un, “mae’r holl fenthyciadau gwahanol yn chwalu fy mhen i,” a dywedodd un arall, “mae gwefan Cyllid Myfyrwyr Cymru yn anodd.” Roedd dryswch hefyd ynghylch dyddiadau a therfynau amser, gyda rhai dysgwyr yn ansicr pryd yr oedd angen cyflwyno ceisiadau neu pryd y byddai ad-daliadau'n dechrau.

Er gwaethaf y dryswch, roedd gan rai dysgwyr Blwyddyn 13 a gyfwelwyd ymwybyddiaeth gyffredinol bod yr ad-daliadau'n gysylltiedig ag incwm. Soniodd sawl un y byddai'r ad-daliadau'n dechrau unwaith pan fyddant wedi cyrraedd trothwy cyflog penodol, er mai ychydig a allai nodi'r union ffigur: “rwy’n deall ei fod wedi’i gysylltu ag incwm ond dydw i ddim yn deall y trothwy,” ac ychwanegodd un arall, “rwy’n gwybod eich bod chi’n talu rhywfaint yn ôl ar ôl ennill swm penodol ond wn i ddim faint yn union.” Roedd ymdeimlad bod athrawon yn rhoi sicrwydd i ddysgwyr, gydag un dysgwr yn dweud,

> “mae fy athrawon bob amser yn dweud, 'paid â phoeni, mae'n rhaid i ti ennill swm penodol cyn i ti orfod ei ad-dalu ... a dwyt ti ddim wir yn sylwi arno pan fyddi di'n dechrau ei dalu.”

Roedd rhai dysgwyr Blwyddyn 13 a gyfwelwyd yn ystyried benthyciadau myfyrwyr fel math o ddyled y gellir ymdopi â hi neu ddyled dderbyniol. Disgrifiodd un ef fel “dyled gadarnhaol neu dda,” gan gydnabod y byddai’n cymryd amser i’w had-dalu ond ei fod yn ei weld fel buddsoddiad gwerth chweil. Mynegodd dysgwr arall hyder y byddai'r yrfa yr oedd wedi'i dewis yn ei alluogi i ad-dalu'r benthyciad:

> “rwy'n credu y bydd yr yrfa rwy'n bwriadu ei dilyn yn ei gwneud hi’n haws i mi ad-dalu.”

Roedd awydd clir i gael addysg ariannol fwy strwythuredig tra roeddent yn yr ysgol neu'r coleg i'w cefnogi gyda'u dealltwriaeth. Roedd dysgwyr blwyddyn 13 a gyfwelwyd, a oedd wedi dilyn modiwlau rheoli arian ymarferol fel rhan o'u cyrsiau coleg, o'r farn bod yn rheini'n fuddiol iawn. Disgrifiodd un y profiad hwn fel un “mwy defnyddiol nag unrhyw wers fathemateg erioed”. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo nad oeddent wedi eu paratoi'n ddigonol i reoli arian yn annibynnol ac roeddent eisiau mwy o wybodaeth am gyllidebu, cyfraddau llog, a goblygiadau hirdymor benthyciadau myfyrwyr.

### 7.3.2. Barn rhieni a gwarcheidwaid

Roedd y ddealltwriaeth o gyllid myfyrwyr yn amrywio'n fawr ar draws y tair carfan o rieni a gwarcheidwaid a gyfwelwyd. Er bod rhai rhieni a gwarcheidwaid wedi cefnogi eu plant i wneud ceisiadau i Gyllid Myfyrwyr Cymru, roedd llawer yn anghyfarwydd â'r system neu'n credu ei bod yn ddryslyd ac yn anhygyrch.

Disgrifiodd rhieni a gwarcheidwaid a gyfwelwyd a oedd wedi ymgysylltu â Chyllid Myfyrwyr Cymru y broses fel un fiwrocrataidd a hen ffasiwn, gydag un yn cofio ei brofiad o orfod postio’r ffurflenni, a oedd, yn ei farn ef, yn “hurt yn yr oes sydd ohoni”.

Gwelwyd rhai gwahaniaethau ar draws gwahanol grwpiau incwm y rhieni a gwarcheidwaid a gyfrannodd at yr ymchwil. Rhieni a gwarcheidwaid ar incwm isel a ddangosodd y lleiaf o ddealltwriaeth o gyllid myfyrwyr. Roedd llawer yn anghyfarwydd â throthwyon ad-dalu ac yn

dibynnu ar eraill i ddeall y system. Dywedodd un rhiant o'r fath a gyfwelwyd fod "gormod o wybodaeth". Doedd gen i ddim amser ac roedd yn llethol". Roedd gan rieni a gwarcheidwaid ag incwm canolig ymwybyddiaeth rannol ond roedden nhw'n dal i fynegi dryswch. Roedd rhieni a gwarcheidwaid ag incwm uchel yn fwy hyderus o ran eu dealltwriaeth, gan eu bod yn aml wedi cynorthwyo plant hŷn gyda'r broses. Roeddent yn ymwybodol o strwythur benthyciadau a grantiau, er bod rhai yn dal i ystyried bod y system yn drafferthus.

Roedd ansicrwydd cyffredinol ynghylch agweddau allweddol ar gyllid myfyrwyr, gan gynnwys trothwyon ad-dalu, y gwahaniaeth rhwng benthyciadau a grantiau, a rôl incwm rhieni wrth bennu cymhwystra. Cyfaddefodd nifer o rieni a gwarcheidwaid a gafodd eu cyfweld nad oeddent yn gwybod ar ba lefel o incwm yr oedd yr ad-daliadau'n dechrau, er eu bod yn ymwybodol bod yr ad-daliadau'n gymesur ag enillion ac y byddai'r ddyled yn cael ei dileu ar ôl cyfnod penodol.

> "dydw i ddim yn gwybod beth yw'r trothwy ar gyfer ad-dalu."
>
> "rydyn ni wedi edrych ar y cyllid yn betrus…ond mae'n bwysau enfawr i bobl ifanc ei ysgwyddo."

Roedd rhai o'r rhieni a'r gwarcheidwaid a gyfwelwyd wedi mynychu diwrnodau agored prifysgol neu ddigwyddiadau UCAS, a fu o gymorth i egluro'r cymorth ariannol sydd ar gael. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo nad oedd ysgolion a cholegau yn darparu digon o wybodaeth, gan adael teuluoedd i geisio deall y system ar eu pen eu hunain. Mewn achosion lle yr oedd plant yn bwriadu astudio yn Llundain neu ardaloedd cost uchel eraill, mynegodd rhieni a gwarcheidwaid bryder na fyddai hyd yn oed y cymorth mwyaf sydd ar gael yn ddigonol i dalu costau byw. Esboniodd un rhiant "hyd yn oed gyda'r benthyciad…uchaf, byddai'n rhaid i mi dalu mwy ar ben hynny."

## 7.4. Agweddau tuag at ddyled myfyrwyr

### 7.4.1. Barn dysgwyr

Roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol yn bryderus iawn (32%) neu'n weddol bryderus (37%) ynghylch faint o ddyled benthyciad myfyrwyr y gallai fod ganddynt ar ôl mynd i'r brifysgol, sy'n awgrymu bod cost yn parhau i fod yn rhwystr mawr i gyfranogi mewn AU. O blith y garfan hon, ymatebwyr benywaidd, y rhai â rhieni a gwarcheidwaid nad oeddent wedi cael addysg uwch a'r rhai a oedd yn cael prydau ysgol neu goleg am ddim oedd fwyaf tebygol o fod yn bryderus am faint o ddyled benthyciad myfyrwyr y gallai fod ganddynt.

Fel y dangosir yn Nhabl 7.6, roedd tri chwarter yr ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol o'r farn ei bod yn werth ysgwyddo dyled benthyciad myfyrwyr er mwyn cael gradd. Cymharol ychydig o'r garfan hon oedd o'r farn nad oedd yn werth chweil, gan awgrymu bod y rhan fwyaf o ddarpar fyfyrwyr prifysgol yn credu bod manteision gradd yn fwy na'r risg ariannol sy'n gysylltiedig â benthyciadau myfyrwyr.

Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, roedd dysgwyr nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu nad oeddent wedi penderfynu yn llawer mwy ansicr. Dim ond 27% oedd yn ystyried ei bod o bosibl yn werth ysgwyddo dyled er mwn cael gradd, a dim ond un a ddywedodd y byddai'n bendant yn werth gwneud hynny. Roedd cyfran fawr naill ai'n ansicr (41%) neu'n tueddu i feddwl nad oedd yn werth mynd i ddyled er mwyn cael gradd (31%), sy'n tynnu

sylw at y ffaith y gallai pryderon ynghylch dyled fod yn ffactor o bwys sy'n annog y grŵp hwn i beidio ag ystyried mynd i'r brifysgol.

Ar draws pob carfan o ddysgwyr, roedd cyfran is o ddysgwyr mewn colegau o'r farn ei bod yn werth ymgymryd â dyled benthyciad myfyrwyr, ac felly hefyd gyfran is o ddysgwyr gwrywaidd a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol.

**Tabl 7.6: Barn ymatebwyr i'r arolwg ynghylch a yw'n werth ysgwyddo dyled benthyciad myfyrwyr er mwyn cael gradd**

| | Y rhai a oedd y bwriadu mynd i'r brifysgol | | Y rhai nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu a oedd heb benderfynu | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| **Ydy, yn bendant** | 204 | 29% | <5 | <1% |
| **Ydy, o bosibl** | 314 | 45% | 47 | 27% |
| **Ansicr** | 142 | 20% | 73 | 41% |
| **Na, o bosibl ddim** | 37 | 5% | 43 | 24% |
| **Na, ddim o gwbl** | <5 | <1% | 13 | 7% |
| **Heb ateb** | <5 | <1% | 0 | 0% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 780 o ymatebwyr Blwyddyn 12 a 13 oedd yn bwriadu (703) a ddim yn bwriadu/heb benderfynu (177) mynd i'r brifysgol.

Mae Tabl 7.7 yn dangos bod cyfran uwch o'r rhai nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu nad oeddent wedi penderfynu yn bryderus (78%) ynghylch faint o ddyled benthyciad myfyrwyr y gallai fod ganddynt o ganlyniad, gan awgrymu bod dyled benthyciad myfyrwyr yn ffactor mwy arwyddocaol i'r garfan hon. Ymhlith y garfan hon, roedd dysgwyr mewn ysgolion a dysgwyr benywaidd yn fwy pryderus na'u cymheiriaid ynghylch dyled benthyciad myfyrwyr.

**Tabl 7.7: Pa mor bryderus yw neu y byddai'r ymatebwyr i'r arolwg ynghylch faint o ddyled benthyciad myfyrwyr y gallai fod ganddynt pe baent yn mynd i'r brifysgol**

| | Y rhai a oedd y bwriadu mynd i'r brifysgol | | Y rhai nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol neu a oedd heb benderfynu | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| **Pryderus iawn** | 223 | 32% | 61 | 35% |
| **Gweddol bryderus** | 262 | 37% | 76 | 43% |
| **Ddim un na'r llall** | 76 | 11% | 15 | 9% |
| **Ddim yn bryderus iawn** | 98 | 14% | 14 | 8% |
| **Ddim yn bryderus o gwbl** | 28 | 4% | <5 | 2% |
| **Ddim yn gwybod / Heb ateb** | 16 | 2% | 8 | 5% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 780 o ymatebwyr Blwyddyn 12 a 13 oedd yn bwriadu (703) a ddim yn bwriadu/heb benderfynu (177) mynd i'r brifysgol.

Fel y dangosir yn Nhabl 7.8, dywedodd dros hanner yr ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol mai cael dyled benthyciad myfyrwyr oedd eu pryder mwyaf am gyllid myfyrwyr. Roedd bron yr un nifer yn poeni am y llog a godir ar y ddyled (48%) neu'r effaith bosibl ar eu hincwm yn y dyfodol (47%), sy'n dangos bod dysgwyr hefyd yn bryderus am ganlyniadau tymor hwy y ddyled. Roedd dros draean (37%) yn pryderu am y cyfanswm y gallent ei ad-dalu yn y pen draw, ac roedd 30% yn poeni ynghylch pa mor hir y byddai'n ei gymryd i ad-dalu'r ddyled. Dim ond cyfran fach iawn a ddywedodd nad oedd yr un o'r ffactorau hyn yn peri pryder iddynt.

Roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol na'u cymheiriaid gwrywaidd o fod yn bryderus am yr elfennau cyllid myfyrwyr hyn.

**Tabl 7.8: Elfennau o gyllid myfyrwyr a oedd yn destun pryder i'r ymatebwyr i'r arolwg**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Cael dyled benthyciad myfyrwyr** | 388 | 55% |
| **Y gyfradd llog sy'n cael ei chodi ar ddyled benthyciad myfyrwyr** | 340 | 48% |
| **Yr effaith allai'r ddyled ei chael ar incwm yn y dyfodol** | 334 | 47% |
| **Y swm y bydd angen ei ad-dalu** | 261 | 37% |
| **Hyd yr amser i dalu'r ddyled** | 213 | 30% |
| **Dim un o'r rhain** | 48 | 7% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 703 o ymatebwyr Blwyddyn 12 a 13 (cylch 1 yn unig) a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol  Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ymateb.

Roedd cyfanswm o 62% o'r ymatebwyr a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol wedi rhoi ystyriaeth sylweddol neu rywfaint o ystyriaeth i'r ddyled benthyciad myfyrwyr fyddai ganddynt, ac nid oedd 26% wedi rhoi unrhyw ystyriaeth o gwbl i hynny. Roedd y rhai nad oedd eu rhieni a'u gwarcheidwaid wedi cael addysg uwch ac a oedd yn cael prydau ysgol neu goleg am ddim yn fwy tebygol o fod wedi ystyried y ddyled hon na charfannau eraill a gymerodd ran yn yr arolwg.

**Tabl 7.9: Yr ystyriaeth a roddodd yr ymatebwyr i'r arolwg i ddyled benthyciad myfyrwyr wrth benderfynu mynd i'r brifysgol**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Ystyriaeth sylweddol** | 37 | 21% |
| **Rhywfaint o ystyriaeth** | 71 | 41% |
| **Ddim un na'r llall** | 17 | 10% |
| **Dim ystyriaeth benodol** | 36 | 21% |
| **Dim ystyriaeth o gwbl** | 9 | 5% |
| **Ddim yn gwybod / Heb ateb** | <5 | 2% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 174 o ymatebwyr Blwyddyn 13 (cylch 1 yn unig) a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol

Roedd dyled myfyrwyr yn fater cymhleth ac emosiynol i lawer o'r dysgwyr Blwyddyn 13 a gyfwelwyd. Er bod rhai yn ei dderbyn fel rhan anochel o gael mynediad at AU, mynegodd eraill bryder, dryswch, neu amwysedd ynghylch ei oblygiadau hirdymor. Disgrifiodd nifer o ddysgwyr Blwyddyn 13 a gyfwelwyd eu bod yn teimlo'n bryderus neu'n betrusgar ynghylch y posibilrwydd o ad-dalu benthyciadau, yn enwedig os nad oedd eu profiad o'r brifysgol wedi

arwain at swydd ddiogel neu swydd â chyflog da. Myfyriodd un dysgwr a gafodd ei gyfweld mai “y senario waethaf yw na fyddai'n gwneud yn dda yn y Brifysgol ac y bydd rhaid i mi dalu’r ddyled o hyd,” gan dynnu sylw at yr ofn o gael baich ariannol heb yr enillion disgwyliedig. Cyfaddefodd un arall, “rwy’n bryderus - mae’n effeithio ar fy iechyd meddwl,” gan awgrymu bod pwysau emosiynol dyled eisoes yn cael ei deimlo cyn dechrau yn y brifysgol hyd yn oed.

Er gwaethaf y pryderon hyn, roedd rhai dysgwyr Blwyddyn 13 a gyfwelwyd yn ystyried benthyciadau myfyrwyr fel mecanwaith angenrheidiol a hyd yn oed fecanwaith cadarnhaol ar gyfer galluogi mynediad:

> “mae benthyciadau myfyrwyr yn beth da - oni bai amdanyn nhw, fyddai gen i ddim gobaith o fynd i'r brifysgol.”

> “dyma’r pris rydych chi’n ei dalu am brifysgol. Allwch chi ddim mynd am ddim.”

Mynegodd y dysgwyr Blwyddyn 13 hynny a oedd yn gymwys i gael lefelau uwch o gymorth grant eu rhyddhad a'u diolchgarwch. Gwnaeth eraill benderfyniadau ariannol yn seiliedig ar eu pecyn cymorth, gydag un yn egluro, “dewisais y llety drutach oherwydd roeddwn i’n gwybod fy mod i’n cael y grant - byddwn i wedi bod yn fwy darbodus fel arall.” Nododd dau ddysgwr eu bod yn cael eu cefnogi'n ariannol gan eu rhieni neu eu gwarcheidwaid: “Dim ond y grant rwy'n ei gael, nid y benthyciad - rwy'n ffodus iawn bod arian wedi cael ei gynilo i mi er mwyn i mi fynd i’r brifysgol.”

Yn bwysig, nid oedd dyled myfyrwyr yn ymddangos yn ffactor pendant a oedd yn dylanwadu ar p'un a oedd dysgwyr Blwyddyn 13 a gyfwelwyd yn dewis mynd i'r brifysgol:

> “wnaeth o ddim effeithio ar fy mhenderfyniad i fynd i’r Brifysgol na ble i astudio.”

### 7.4.2. Barn rhieni a gwarcheidwaid

Roedd pryderon ynghylch dyled myfyrwyr yn gyffredin ar draws y 3 grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda rhieni a gwarcheidwaid. Disgrifiodd rhieni a gwarcheidwaid yn gyson faich ariannol prifysgol fel ffactor pwysig sy'n dylanwadu ar benderfyniadau eu plant ynghylch a ddylent fynychu, pa bynciau i'w hastudio, a ble i astudio. Roedd llawer o rieni a gwarcheidwaid yn teimlo bod maint y ddyled sy'n gysylltiedig ag AU yn anghymesur â’r manteision, yn enwedig pan oedd deilliannau cyflogaeth yn ansicr:

> “dydych chi ddim bob amser yn cael rhywbeth i’w ddangos am eich gradd, ac rydych chi’n mynd i ddechrau eich bywyd gyda llawer o ddyled.”

> “os ydych chi'n cael benthyciad ar gyfer tŷ neu gar, rydych chi'n cael rhywbeth i'w ddangos amdano, ond gyda gradd mae'n anodd.”

Roedd ymdeimlad cryf nad mater ariannol yn unig oedd dyled myfyrwyr ond un emosiynol a seicolegol hefyd. Roedd rhieni a gwarcheidwaid yn poeni am yr effaith hirdymor ar lesiant eu plant, yn enwedig os oeddent yn cael trafferth dod o hyd i waith ar ôl graddio:

> “mae’n faich mawr i'w ysgwyddo mor gynnar, ac yna mae angen ystyried morgeisi ac ati ar ôl hynny hefyd.”

Dywedodd rhai rhieni a gwarcheidwaid fod eu plant wedi dewis prentisiaethau neu lwybrau galwedigaethol er mwyn osgoi dyled: “roedd dyled myfyrwyr yn ffactor enfawr ym

mhenderfyniad fy mab i ddilyn prentisiaeth”. Nododd eraill nad oedd eu plant wedi ystyried goblygiadau dyled eto, gydag un rhiant yn dweud:

> “mae hi’n canu ac yn dawnsio ei ffordd drwy fywyd, dim ond poeni am gael i mewn i’r coleg mae hi ar hyn o bryd.”

Cafwyd trafodaeth hefyd am degwch a thryloywder y system benthyciadau myfyrwyr. Cyfaddefodd nifer o rieni a gwarcheidwaid nad oeddent yn llwyr ddeall sut yr oedd ad-daliadau'n gweithio, ac awgrymodd un y byddai "tryloywder ariannol o gymorth".

Roedd rhai rhieni a gwarcheidwaid a gafodd eu cyfweld yn dadlau dros ddarparu addysg prifysgol am ddim, yn enwedig i'r rhai sy'n ymuno â phroffesiynau sydd o fudd i gymdeithas:

> “dylai'r brifysgol fod am ddim os byddwch chi'n cael swydd dda,”

> “mae angen cydbwysedd o bynciau a sut mae hynny’n effeithio ar bethau yn y dyfodol.”

# 8. Gwaith maes gyda myfyrwyr israddedig rhan-amser

Mae'r bennod hon yn ystyried canfyddiadau'r gwaith maes a wnaed gyda myfyrwyr israddedig rhan-amser O ystyried bod nifer mawr o fyfyrwyr y Brifysgol Agored wedi cyfrannu at y gwaith maes, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau, gan y gall profiadau myfyrwyr a oedd yn astudio gyda Darparwyr AU eraill fod yn wahanol i'r rhai a oedd yn astudio gyda'r Brifysgol Agored.

Mae'n seiliedig ar ymatebion 449 o fyfyrwyr israddedig rhan-amser yn ogystal â 29 o fyfyrwyr israddedig rhan-amser a gymerodd ran mewn 6 trafodaeth grŵp ffocws.

O ran proffil y 29 o gyfranogwyr yn y grwpiau ffocws, roedd 25 yn astudio ar gyfer gradd gyda'r Brifysgol Agored drwy ddysgu o bell neu ar-lein. Roedd pedwar yn astudio gyda darparwr AU yng Nghymru, sef Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) ac yn mynychu cyrsiau wyneb yn wyneb neu gyrsiau cyfunol yn y sefydliadau hyn. Mewn 2 achos, roedd y cyfranogwyr yn mynychu dosbarthiadau nos yn eu prifysgolion.

Roedd y cyrsiau a astudiwyd gan gyfranogwyr y grwpiau ffocws yn cwmpasu ystod eang o bynciau megis Rheoli Busnes, Seicoleg a Chwnsela, Gwyddor yr Amgylchedd, y Gyfraith a Throseddeg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyfrifiadura a TG, a Seicoleg Fforensig. Roedd y cyfranogwyr ar wahanol gamau o’u gradd, yn amrywio o'r flwyddyn gyntaf i’r flwyddyn olaf. Roedd y cyfranogwyr fel arfer yn astudio rhwng 60 a 120 credyd y flwyddyn, gyda llawer yn cydbwyso eu hastudiaethau ochr yn ochr ag ymrwymiadau gwaith neu ymrwymiadau teuluol ac yn anelu at gwblhau eu graddau dros gyfnod o tua chwe blynedd.

## 8.1. Cymhellion dros astudio cwrs israddedig rhan-amser

Mae myfyrwyr israddedig yn tueddu i astudio'n rhan-amser o anghenraid yn hytrach nag o ddewis. Fel y dangosir yn Nhabl 8.1, y prif reswm pam yr oedd myfyrwyr israddedig a gymerodd ran yn yr arolwg wedi penderfynu astudio eu cwrs yn rhan-amser oedd yr angen i weithio tra roeddent yn astudio (a nodwyd gan 57%) a nododd traean (33%) na allent fforddio astudio'n llawnamser. Yn ail i hyn roedd cyfrifoldebau teuluol a gofalu (a nodwyd gan 41%) a'r ffaith bod astudio'n rhan-amser yn addas i'w ffordd o fyw (ar 33%). I un rhan o bump o'r ymatebwyr (19%), roedd astudio'n rhan-amser hefyd yn caniatáu iddynt ystyried eu hanghenion iechyd neu anableddau.

**Tabl 8.1: Rhesymau dros astudio cwrs israddedig yn rhan-amser**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Angen gweithio mewn swydd tra'n astudio** | 256 | 57% |
| **Cyfrifoldebau teuluol neu ofalu** | 183 | 41% |
| **Astudio'n rhan-amser yn cyd-fynd yn well â'u ffordd o fyw neu drefniadau** | 150 | 33% |
| **Ddim yn gallu fforddio astudio'n llawnamser** | 139 | 31% |
| **Eisiau astudio ar gyflymder arafach** | 107 | 24% |
| **Byddai problemau iechyd neu anabledd yn gwneud astudio'n llawnamser yn anodd** | 87 | 19% |
| **Eisiau dysgu rhywbeth newydd heb newid eu hamserlen gyfan** | 74 | 16% |
| **Cyflogwr yn eu cefnogi i astudio'n rhan-amser** | 49 | 11% |
| **Y cwrs ond ar gael yn rhan-amser** | 31 | 7% |
| **Ddim yn bodloni'r gofynion mynediad ar gyfer astudio'n llawnamser** | 5 | 1% |
| **Rheswm arall** | 14 | 3% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 449 o ymatebwyr a oedd yn dilyn cwrs israddedig rhan-amser. Gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb.

Ategodd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws y canfyddiadau hyn, gyda myfyrwyr yn nodi eu bod wedi dewis astudio'n rhan-amser yn bennaf oherwydd cost a fforddiadwyedd, gan na allai llawer fforddio rhoi'r gorau i waith llawnamser er mwyn astudio. Roedd llawer yn ystyried bod astudio'n rhan-amser yn llwybr mwy hyfyw yn ariannol gan ei fod yn caniatáu iddynt barhau i ennill arian wrth ddysgu. Nododd un cyfranogwr o’r fath y byddai “wedi bod wrth fy modd yn astudio’n llawnamser” ond ar ôl “edrych ar y cyllid myfyrwyr ar gyfer [astudio] llawnamser, allwn i ddim rhoi’r gorau i’m swydd, oherwydd fy ffordd o fyw, fy mywyd ac ymrwymiadau teuluol.”

Roedd hyblygrwydd hefyd yn bwysig, gan fod astudio'n rhan-amser yn galluogi cyfranogwyr i gydbwyso astudio â swyddi, cyfrifoldebau gofalu a bywyd teuluol. Roedd rhai wedi'u cymell gan resymau'n gysylltiedig ag iechyd gan gynnwys rheoli problemau iechyd meddwl neu anableddau corfforol, a oedd yn gwneud astudio'n llawnamser neu wyneb yn wyneb yn anodd. Roedd gan rai ddiffyg cymwysterau ffurfiol ar gyfer llwybrau llawnamser traddodiadol, gan olygu mai dysgu rhan-amser neu o bell oedd yr opsiwn gorau iddynt. Roedd rhai yn dychwelyd i addysg yn ddiweddarach mewn bywyd er mwyn uwchsgilio,

ailhyfforddi, neu ddilyn diddordebau personol hirhoedlog, yn aml yn chwilio am ffordd o sicrhau bod dysgu yn cyd-fynd â'u ffyrdd o fyw a'u hymrwymiadau.

> “rwy’n cael trafferthion iechyd meddwl. Felly i mi roedd astudio'n rhan-amser yn ddelfrydol oherwydd gallaf ei wneud sut bynnag y dymunaf.”
>
> “mae astudio'n rhan-amser yn cyd-fynd yn well â’m ffordd o fyw – rwyf wedi ymddeol, felly mae’n ymwneud â chydweddu â'm hamgylchiadau personol.”
>
> “rwy’n rhiant sengl gyda thri o blant. Byddai astudio'n llawnamser yn ormod. Fe wnes i ddewis gweithio’n rhan-amser oherwydd fy nghyfrifoldebau gofal.”

Roedd gan gyfranogwyr y grŵp ffocws lefel dda o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cyllid myfyrwyr sydd ar gael i ddysgwyr rhan-amser; ac roeddent yn cael mynediad at gymorth cynhaliaeth a ffioedd dysgu. Nododd rhai hefyd eu bod yn cael mathau eraill o gymorth ariannol fel Lwfans Dysgu i Rieni. Roedd argaeledd cyllid myfyrwyr wedi bod yn hollbwysig i'r rhan fwyaf o gyfranogwyr o ran eu penderfyniad i astudio'n rhan-amser.

## 8.2. Manteision ac anfanteision astudio'n rhan-amser

Efallai nad oedd yn syndod, o ystyried y nifer mawr o fyfyrwyr o'r Brifysgol Agored a gyfrannodd at yr ymchwil, fod prif fanteision astudio'n rhan-amser a nodwyd gan y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws yn ymwneud â'r hyblygrwydd yr oedd hynny'n ei gynnig. Mae'r cyfranogwyr yn gwerthfawrogi gallu astudio ar eu cyflymder eu hunain a gallu dysgu o amgylch eu gwaith, eu cyfrifoldebau gofalu a'u bywyd teuluol. Mae'r hyblygrwydd hwn yn lleihau straen, yn caniatáu iddynt barhau i weithio ac ennill incwm, ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer twf personol a phroffesiynol heb aberthu ymrwymiadau eraill. Mae rhai yn gwerthfawrogi'r annibyniaeth yn sgil rheoli eu hamserlenni astudio eu hunain, tra bod eraill yn tynnu sylw at sut y mae'r strwythur addasadwy yn cefnogi eu llesiant neu eu hamgylchiadau bywyd penodol nhw.

> “mae’r hyblygrwydd yn wych. Gyda'r Brifysgol Agored, rwy'n gallu cymryd seibiannau neu astudio'n araf. Gallaf weithio, bod yno i fy merch, a symud ymlaen ar fy nghyflymder fy hun heb ormod o straen. I mi, mae'r hyblygrwydd yn bwysicach na'r ystyriaethau ariannol.”
>
> “mae bod yn ofalwr yn golygu mai dim ond yn rhan-amser y gallaf astudio. Byddai llawnamser yn effeithio ar fy lwfans gofalwr.”

Nodwyd sawl anfantais i astudio'n rhan-amser gan y rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws. Roedd y cyntaf yn ymwneud â chost uchel ffioedd dysgu, yr oedd llawer o'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws yn teimlo na ellir ei chyfiawnhau o ystyried y cyswllt cyfyngedig â thiwtoriaid, y deunyddiau prin, a'r diffyg cyfleusterau campws sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n dysgu ar-lein neu o bell. Credwyd hefyd fod y ffaith bod hyd y cyrsiau rhan-amser wedi'u hymestyn a'u bod yn cymryd sawl blwyddyn i'w cwblhau, yn ei gwneud hi'n anodd i fyfyrwyr gynnal eu brwdfrydedd, yn enwedig wrth i amgylchiadau personol a phroffesiynol newid dros amser. Nodwyd yr angen am hunanddisgyblaeth a dysgu'n annibynnol fel anfantais bwysig arall; heb strwythur rheolaidd na goruchwyliaeth fanwl, gall myfyrwyr ei chael hi'n anodd cydbwyso astudio ochr yn ochr ag ymrwymiadau gwaith ac ymrwymiadau teuluol. Yn ogystal â hynny, mae myfyrwyr rhan-amser yn aml yn teimlo'n ynysig, gan mai prin yw'r cyfleoedd i ryngweithio'n ystyrlon â chyd-fyfyrwyr neu staff. Gall

problemau technegol, oedi o ran cael mynediad at ddeunyddiau, a diffyg cymorth wyneb yn wyneb, yn enwedig i'r rhai sydd ag anawsterau dysgu, waethygu'r heriau ymhellach, gan wneud i fyfyrwyr deimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi a'u bod wedi'u datgysylltu oddi wrth eu hastudiaethau.

> “mae'r gost yn syfrdanol.”
>
> “bydden i'n deall pe bawn i’n mynd i brifysgol brics a morter go iawn lle maen nhw’n defnyddio’r gost i dalu am yr holl adeiladau a’r holl staff.”
>
> “mae fy nghwrs yn cymryd chwe blynedd i'w gwblhau'n rhan-amser – mae'n ymrwymiad hir i astudio a gall pethau newid dros yr amser hwnnw.”

## 8.3. Profiad myfyrwyr israddedig rhan-amser o AU

Mae myfyrwyr israddedig rhan-amser yn ystyried bod eu profiad yn eu prifysgol yn gadarnhaol yn gyffredinol. Fel y nodir yn Nhabl 8.2, disgrifiodd 75% o'r ymatebwyr i'r arolwg eu profiad fel un gwych neu dda iawn. Mae'r data'n awgrymu bod rhywfaint o le i wella o ystyried bod 24% wedi dweud bod eu profiad yn weddol dda, ddim yn arbennig o dda neu ddim yn dda o gwbl.

**Tabl 8.2: Barn myfyrwyr israddedig rhan-amser am eu profiad yn y brifysgol**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Gwych** | 163 | 36% |
| **Da iawn** | 175 | 39% |
| **Gweddol dda** | 90 | 20% |
| **Ddim yn arbennig o dda** | 15 | 3% |
| **Ddim yn dda o gwbl** | 5 | 1% |
| **Ddim yn gwybod** | <5 | <1 |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 449 o ymatebwyr a oedd yn dilyn cwrs israddedig rhan-amser.

Caiff y neges hon ei hatgyfnerthu yn Nhabl 8.3, gyda 61% o fyfyrwyr israddedig rhan-amser o'r farn bod eu prifysgol wedi gallu diwallu eu hanghenion yn dda iawn ac ychydig iawn o'r farn nad oedd y brifysgol wedi gwneud hyn yn dda.

**Tabl 8.3: Pa mor dda y mae'r brifysgol wedi gallu diwallu anghenion myfyrwyr israddedig rhan-amser**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Yn dda iawn** | 275 | 61% |
| **Yn weddol dda** | 147 | 33% |
| **Ddim yn arbennig o dda** | 16 | 4% |
| **Ddim yn dda o gwbl** | 7 | 2% |
| **Ddim yn gwybod** | <5 | 1% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 449 o ymatebwyr a oedd yn dilyn cwrs israddedig rhan-amser.

Gwnaeth y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws sylwadau cadarnhaol ar y cyfan am eu profiad o astudio yn y brifysgol ac roeddent yn gwerthfawrogi gallu dysgu ar eu cyflymder eu hunain ac yn eu hamser eu hunain. Nid oedd yn syndod, o ystyried bod y rhan fwyaf yn astudio yn y Brifysgol Agored, fod hyblygrwydd eu gradd yn caniatáu iddynt weithio'n annibynnol o amgylch eu gwaith a'u hymrwymiadau personol. Mae achos un cyfranogwr o'r grwpiau ffocws yn helpu i ddangos hyn:

> “rydw i wedi cael cefnogaeth gan fy nhiwtor a’r tîm cymorth myfyrwyr yn y Brifysgol Agored ac maen nhw wedi bod yn wych. Roedd angen estyniadau arnaf ym mis Chwefror ... roedd yn gyfnod anodd ac roedd gen i aseiniad i'w gwblhau. Aeth fy nhiwtor personol i eithafoedd byd i sicrhau fy mod i'n gallu gwneud hyn. Roedd hi'n fy ffonio, yn anfon e-bost ataf bob dydd i wirio sut roedd pethau'n mynd, yn fy ffonio bob cwpl o ddiwrnodau ... roedd y tîm mor rhagweithiol o ran rhoi pethau yn eu lle i mi... maen nhw'n wirioneddol ragorol.”

Canmolodd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws ansawdd ac ehangder yr adnoddau sydd ar gael gan y Brifysgol Agored hefyd, gan nodi bod y deunyddiau'n gynhwysfawr, wedi'u strwythuro'n dda, ac yn aml yn fwy manwl nag adnoddau prifysgol traddodiadol. Ar y cyfan, roedd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws yn gadarnhaol eu barn am eu hymgysylltiad â thiwtoriaid. Roedd myfyrwyr y Brifysgol Agored yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i ryngweithio wyneb yn wyneb neu ar-lein gyda thiwtoriaid a chyfoedion o bryd i'w gilydd, er bod rhai wedi cwestiynu pa mor ddefnyddiol oedd sesiynau tiwtorial os nad oeddent yn ychwanegu cynnwys newydd.

Mae Tabl 8.4 yn dangos mai'r prif gamau a gymerwyd gan brifysgolion i ddiwallu anghenion myfyrwyr israddedig rhan-amser a gymerodd ran yn yr arolwg fu darparu darlithoedd wedi'u recordio neu adnoddau digidol, ac yna amserlenni dysgu hyblyg. Roedd llawer llai o ymatebwyr wedi cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn rhwydweithiau o gyd-fyfyrwyr rhan-amser neu ddyddiadau dechrau astudiaethau amrywiol. Pwysleisiodd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws werth cael darpariaeth hyblyg gan fod hyn yn addas i'w ffyrdd o fyw ond fe wnaethant dynnu sylw at gyfyngiadau megis opsiynau cyfyngedig i addasu dwyster yr astudiaethau, anghysondeb o ran cofnodi sesiynau a mynediad cyfyngedig at gyfleusterau ar y campws.

**Tabl 8.4: Y camau a gymerwyd gan y brifysgol i ddiwallu anghenion myfyrwyr israddedig rhan-amser**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Darparwyd darlithoedd wedi'u recordio neu adnoddau digidol** | 319 | 72% |
| **Darparwyd amserlenni dysgu hyblyg** | 281 | 64% |
| **Darparwyd opsiynau dysgu o bell neu astudio cyfunol** | 185 | 42% |
| **Caniatawyd dyddiadau cau hirach neu amserlenni cyflwyno aseiniadau mwy hyblyg** | 175 | 40% |
| **Darparwyd dosbarthiadau gyda'r nos neu ar y penwythnos** | 132 | 30% |
| **Darparwyd mynediad at wasanaethau cymorth i fyfyrwyr y tu allan i oriau busnes safonol** | 108 | 24% |
| **Darparwyd opsiynau i oedi neu addasu dwyster yr astudio** | 100 | 23% |
| **Crëwyd rhwydweithiau ar gyfer myfyrwyr rhan-amser** | 58 | 13% |
| **Galluogi myfyrwyr i ddechrau cyrsiau ar adegau gwahanol** | 42 | 10% |
| **Ddim yn gwybod** | 22 | 5% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 449 o ymatebwyr a oedd yn dilyn cwrs israddedig rhan-amser.

Myfyriodd ychydig o'r cyfranogwyr yn y grŵp ffocws ar sut y bu i'r pandemig COVID-19 effeithio ar astudiaethau rhan-amser. Nodwyd bod y newid tuag at fwy o ddarpariaeth ar-lein, mewn sawl ffordd, wedi bod o fudd i ddysgwyr rhan-amser, gan gynnig mwy o hyblygrwydd a gwneud y Brifysgol Agored yn opsiwn mwy deniadol byth. Fodd bynnag, mynegodd y cyfranogwyr bryder hefyd bod y newid hwn i ddysgu ar-lein wedi lleihau cyfleoedd i ryngweithio wyneb yn wyneb gyda thiwtoriaid a chyd-fyfyrwyr.

> “rwy’n adnabod rhywun wnaeth y cwrs hwn cyn COVID ac fe gawson nhw gyfarfodydd ac ati. Dydy'r cyfarfodydd ddim bodoli ar fy nghwrs i. Rwyf newydd orffen y drydedd flwyddyn ac yn ystod y tair blynedd, chawson ni ddim un cyfarfod."

## 8.4. Sut y gellid diwallu anghenion myfyrwyr israddedig rhan-amser yn well

Gwnaed nifer o awgrymiadau gan yr ymatebwyr i'r arolwg a'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws ynghylch sut y gallai prifysgolion ddiwallu anghenion myfyrwyr israddedig rhan-amser yn well. Roedd y prif themâu a godwyd yn ymwneud â'r canlynol:

- yr angen am fwy o hyblygrwydd i ddechrau cyrsiau a modiwlau drwy gydol y flwyddyn academaidd, a fyddai'n caniatáu i fyfyrwyr amrywio eu llwyth gwaith i gyd-fynd ag ymrwymiadau eraill yn eu gwaith a'u bywyd personol. Er enghraifft, roedd un o'r cyfranogwr yn y grwpiau ffocws yn astudio un modiwl y flwyddyn ond byddai'n croesawu'r cyfle i astudio ail fodiwl ar adegau penodol o'r flwyddyn er mwyn cwblhau ei radd yn gyflymach.
- yr angen am fwy o hyblygrwydd o ran aseiniadau cyrsiau, megis amserlenni hwy i ganiatáu i fyfyrwyr weithio o amgylch eu hymrwymiadau gwaith a'u bywyd personol e.e. "mae aseiniadau diwedd blwyddyn bob amser yn cyd-daro â hanner tymor ac mae'n anodd iawn gyda phlentyn ifanc a dim cymorth teuluol nag opsiynau gofal plant yn ein hardal ni"
- mwy o gymorth wedi'i deilwra, yn enwedig gan diwtoriaid a'r angen am gymorth hyblyg un-i-un y tu allan i oriau gwaith safonol. Codwyd y pwynt hwn yn benodol gan fyfyrwyr anabl a'r rhai ag ADY e.e. "roedd yna ddiffyg cefnogaeth ddifrifol, yn enwedig fel myfyriwr niwroamrywiol"
- myfyrwyr rhan-amser yn gorfod mynychu cyrsiau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer myfyrwyr llawnamser e.e. "gall deimlo weithiau fel pe baem yn ail orau i fyfyrwyr llawnamser". Roedd hwn yn fater a godwyd gan rai o'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws a oedd wedi cofrestru ar gyrsiau nad ydynt yn rhan o'r Brifysgol Agored a fyddai'n croesawu llai o ddarpariaeth wyneb yn wyneb a mwy o ddarpariaeth ar-lein, yn bennaf oherwydd y pellter i deithio i ddarlithoedd ond hefyd oherwydd y byddai hyn yn golygu llai o amharu ar eu diwrnod gwaith.
- hyd y tymor academaidd, gyda rhai eisiau tymhorau academaidd byrrach ac eraill eisiau rhai hwy er mwyn cyd-fynd â'u hymrwymiadau
- teimlo'n ynysig a'r diffyg cyswllt â myfyrwyr eraill, a godwyd gan y rhai oedd yn astudio o bell e.e. "dydw i ddim yn cael unrhyw gysylltiad â chyd-fyfyrwyr". Roedd hwn yn fater penodol a godwyd gan gyfranogwyr grŵp ffocws y Brifysgol Agored – byddai rhai ohonynt yn gwerthfawrogi'r cyfle i gwrdd â myfyrwyr eraill o'u hardal gan alw ar y brifysgol i sefydlu grwpiau cymorth cyfoedion
- ochr yn ochr â'r pwynt hwn roedd cais am ddull dysgu mwy cyfunol gyda mwy o gyswllt a darlithoedd wyneb yn wyneb, er enghraifft: "efallai y byddai mwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio byw, fel grwpiau trafod, neu fwy o ddigwyddiadau rhwydweithio, yn gwella'r ymdeimlad o gysylltiad â thiwtoriaid a myfyrwyr eraill, a all weithiau deimlo'n gyfyngedig mewn amgylchedd dysgu o bell."

Wrth ateb y cwestiwn hwn, ymatebodd llawer o fyfyrwyr a oedd yn dysgu o bell gan ddweud na allent nodi unrhyw welliannau oherwydd bod y sefydliad yn darparu'n helaeth ar gyfer myfyrwyr rhan-amser a'u hymrwymiadau:

> “mae’r Brifysgol Agored wedi darparu adnoddau gwych ar ffurf cymorth i fyfyrwyr fel fi i ddysgu ar gyflymder sy’n addas i mi. Mae cael y dewis i astudio un neu ddau fodiwl y flwyddyn yn rhoi mwy o amser i mi baratoi a chwblhau'r cwrs o fewn yr amserlen ddisgwyliedig.”

> “mae'n gweithio'n dda iawn mewn gwirionedd, oherwydd fy oriau craidd yw 9:00 tan 5:00, felly mae'r darlithoedd fel arfer tua 7:00 tan 9:00. Felly mae'n ddiwrnod hir ond dim ond unwaith neu ddwywaith y mis maen nhw'n digwydd. Mae gweddill y dysgu yn digwydd ar-lein. Rydych chi'n ei wneud yn eich amser eich hun. Yn gwneud pethau yn eich ffordd eich hun, yn ei gynnal eich hun.”

## 8.5. Profiad myfyrwyr israddedig rhan-amser o gyllid myfyrwyr

Roedd y mwyafrif helaeth o fyfyrwyr israddedig rhan-amser (98% neu 429 o ymatebwyr) wedi cael benthyciad myfyrwyr i'w helpu i dalu cost ffioedd dysgu prifysgol a/neu gostau byw. Roedd mwyafrif y myfyrwyr hyn yn credu bod hyn wedi bod yn bwysig iawn i'w penderfyniad i astudio eu cwrs, sef 86% (366 o ymatebwyr) tra bod 11% (46 o ymatebwyr) yn credu ei fod wedi bod yn eithaf pwysig i'w penderfyniad.

Cafodd cyfran fach o fyfyrwyr israddedig rhan-amser gymorth gan gyflogwr, boed hynny ar ffurf amser o'r gwaith â thâl i astudio (6% neu 25 o ymatebwyr), talu eu ffioedd dysgu yn llawn (7% neu 32 o ymatebwyr) neu gyfraniad ariannol tuag at eu ffioedd dysgu (2% neu 7 o ymatebwyr). Mewn tua hanner yr achosion (53% neu 237 o ymatebwyr), er gwaetha'r ffaith eu bod yn gyflogedig, ni wnaeth eu cyflogwr gyfrannu mewn unrhyw ffordd.

Roedd pob un o'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws heblaw un yn cael cymorth cyllid myfyrwyr i dalu cost ffioedd dysgu, ac yn yr un achos hwnnw roedd y cyflogwr yn talu'r ffioedd dysgu. Talodd y benthyciad ffioedd dysgu ffioedd pob un ond dau o'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws – yn yr achosion hyn, roedd y cyfranogwyr yn astudio eu cwrs wyneb yn wyneb gyda darparwr nad oedd yn rhan o’r Brifysgol Agored ac roedd yn rhaid iddynt dalu’r costau ychwanegol eu hunain. Roedd y rhan fwyaf hefyd yn cael mynediad at grantiau cynhaliaeth a benthyciadau i helpu i dalu eu costau byw tra roeddent yn astudio.

Roedd y rhan fwyaf o fyfyrwyr israddedig rhan-amser a gymerodd ran yn yr arolwg (85%) yn teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth dda iawn neu gymharol dda o sut y mae cyllid myfyrwyr yn gweithio, fel y dangosir yn Nhabl 9.5. Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws hefyd yn gallu cymharu'r pecyn cyllid myfyrwyr sydd ar gael i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru a Lloegr, gan ychwanegu bod y cymorth yn fwy hael yng Nghymru.

Roedd nifer o'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws yn amau a fyddent byth mewn sefyllfa i ad-dalu eu benthyciad myfyriwr, naill ai oherwydd eu bod eisoes wedi ymddeol neu oherwydd nad oeddent yn rhagweld y byddent yn ennill digon i ddechrau ad-dalu eu dyled. Heb wybod y byddai ei fenthyciad myfyriwr yn cael ei ganslo pe bai farw a heb ddisgwyl y byddai'r ddyled yn cael ei dileu yn ystod ei oes, dywedodd un dysgwr a oedd wedi ymddeol:

> “rwy'n drigain oed eleni… Dydw i ddim yn meddwl y byddaf byth yn cyrraedd y trothwy cyflog i dalu'r ddyled. Mae'n debyg y bydd yn ddyled y bydd yn rhaid iddyn nhw ei chymryd oddi ar fy ystâd. Felly meddyliais, rydw i eisiau gwneud hyn i mi fy hun.”

**Tabl 8.5: Pa mor dda y mae myfyrwyr israddedig rhan-amser yn teimlo eu bod yn deall sut y mae cyllid myfyrwyr yn gweithio**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Yn dda iawn** | 159 | 35% |
| **Yn weddol dda** | 225 | 50% |
| **Ddim un na'r llall** | 22 | 5% |
| **Ddim yn arbennig o dda** | 22 | 5% |
| **Ddim yn dda o gwbl** | 10 | 2% |
| **Ddim yn gwybod / Heb ateb** | 11 | 2% |
| **Cyfanswm** | 449 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 449 o ymatebwyr a oedd yn dilyn cwrs israddedig rhan-amser.

## 8.6. Dulliau myfyrwyr israddedig rhan-amser o ariannu costau byw

Roedd tua dwy ran o dair o'r myfyrwyr israddedig rhan-amser a gymerodd ran yn yr arolwg yn bryderus ynghylch talu eu costau byw tra roeddent yn astudio, gyda 38% (170 o ymatebwyr) yn bryderus iawn a 29% (128 o ymatebwyr) yn eithaf pryderus am hyn.

Fel y dangosir yn Nhabl 8.6, roedd ystod eang o safbwyntiau ynghylch pa mor dda yr oedd y benthyciad neu'r grant israddedig rhan-amser yn talu costau byw. Yn fras, roedd yn ymddangos bod 43% o fyfyrwyr israddedig rhan-amser a oedd yn derbyn cyllid myfyrwyr yn ymdopi'n ariannol, tra bod bron i ddwy ran o bump (39%) o'r farn nad oedd y cymorth yn ddigonol.

**Tabl 8.6: Pa mor dda y mae benthyciad neu grant myfyrwyr israddedig rhan-amser yn talu eu costau byw**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Mae'n talu costau gyda digon ar ôl** | 12 | 3% |
| **Mae'n talu costau gydag ychydig dros ben** | 67 | 16% |
| **Dim ond prin yn talu'r costau** | 104 | 24% |
| **Nid yw'n talu'r costau, ond dim ond o fymryn** | 56 | 13% |
| **Nid yw'n talu'r costau, ac ymhell o wneud hynny** | 165 | 39% |
| **Ddim yn gwybod / Heb ateb** | 25 | 5% |
| **Cyfanswm** | 429 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 429 o ymatebwyr a oedd yn dilyn cwrs israddedig rhan-amser ac a oedd wedi derbyn cyllid myfyrwyr.

Trafodwyd y materion hyn yn fanylach gyda'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn derbyn grantiau cynhaliaeth a benthyciadau i helpu i dalu eu costau byw tra roeddent yn astudio. Daeth dwy brif thema i'r amlwg o'r trafodaethau hyn.

Yn gyntaf, disgrifiodd y cyfranogwyr gyllid cynhaliaeth fel rhywbeth defnyddiol ond annigonol i dalu eu costau byw gwirioneddol. Roedd cytundeb cyffredinol nad oedd cymorth i fyfyrwyr llawnamser yn ddigon i'r rhai sydd ag ymrwymiadau ariannol neu bersonol presennol ystyried astudio'n llawnamser. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, roedd cyllid rhan-amser yn caniatáu i gyfranogwyr leihau eu horiau gwaith â thâl ac i wneud iawn, o leiaf yn rhannol, am yr incwm a gollwyd drwy wneud hynny:

> "fe wnaeth ganiatáu i mi leihau fy oriau."


Roedd yr ail fater allweddol yn ymwneud â'r cap a strwythur cyllid cynhaliaeth ar gyfer dysgwyr rhan-amser. Esboniodd un cyfranogwr, er ei fod yn astudio am 120 credyd y flwyddyn, mai dim ond £4,500 o gymorth cynhaliaeth yr oedd yn ei gael oherwydd bod cyrsiau'r Brifysgol Agored yn cael eu hystyried yn rhai rhan-amser. Pe bai'n astudio'r un nifer o gredydau mewn prifysgol arall, byddai'n cael tua £12,500 y flwyddyn. Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn y gall y ffordd y mae cyllid cynhaliaeth wedi'i strwythuro annog myfyrwyr i astudio llai o fodiwlau bob blwyddyn:

> "fan fyddwch yn gostwng i 60 credyd, rydych chi'n cael tua £3,000 [y flwyddyn] – bydd 60 credyd yn cymryd mwy o amser ond dros amser byddwch chi'n cael mwy o gyllid."

## 8.7. Profiad o galedi ariannol

Mae Ffigur 8.1 yn dangos i ba raddau yr oedd myfyrwyr israddedig rhan-amser a gymerodd ran yn yr arolwg wedi profi caledi ariannol yn ystod y 12 mis cyn yr arolwg. Eu prif anhawster oedd talu biliau'r cartref, ac roedd 56% o'r ymatebwyr wedi cael y broblem hon, ac yna gyfyngiadau o ran peidio â bwyta'n iach neu gyfyngu eu deiet i ychydig o wahanol fathau o fwydydd. Cydnabu'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws gostau byw cynyddol, a dywedodd hyd yn oed y rhai a oedd yn ennill cyflog a/neu'n byw mewn aelwyd â 2 gyflog eu bod wedi cael anawsterau i gael dau ben llinyn ynghyd. Nid oedd yr anawsterau hyn o reidrwydd i'w priodoli i gostau astudio uwch, ond yn hytrach i'r cynnydd mewn costau byw yn fwy cyffredinol. Serch hynny, roeddent yn cael effaith negyddol ar forâl a lefelau straen y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws.

**Ffigur 8.1: P'un a oedd myfyrwyr israddedig rhan-amser wedi wynebu caledi ariannol oherwydd diffyg arian neu adnoddau yn ystod y 12 mis blaenorol**




Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod myfyrwyr israddedig rhan-amser yn profi problemau caledi ariannol. Talu biliau'r cartref oedd y broblem ariannol fwyaf i fyfyrwyr israddedig rhan-amser.

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 449 o ymatebwyr a oedd yn dilyn cwrs israddedig rhan-amser.

## 8.8. Gwelliannau a awgrymwyd gan fyfyrwyr israddedig rhan-amser

Roedd y prif newidiadau i'r cymorth ariannol sydd ar gael a awgrymwyd gan fyfyrwyr israddedig rhan-amser yn ymwneud â:

- chynyddu gwerth y cymorth cynhaliaeth ariannol sydd ar gael, boed hynny ar ffurf cyllid benthyciadau a/neu gyllid grant, i helpu i oresgyn caledi ariannol a mynd i'r afael â chostau byw cynyddol:

  "benthyciad mwy er mwyn gwrthbwyso'r cynnydd yng nghostau byw"

  "rwy'n cael trafferth dod o hyd i lety sy'n cyd-fynd â'r swm a gefais gan SFW."

  "rwyf fi a fy mhartner yn anabl, rydym yn llwyddo i gael dau ben llinyn ynghyd bob mis. Mae'n golygu un pryd bwyd y dydd ac ar ddiwedd y mis rydyn ni'n gwledda ar unrhyw fwyd sydd dros ben o'r rhewgell i wneud iawn am y diffyg yn ystod y mis."

- darparu mwy o gydraddoldeb â myfyrwyr llawnamser, gan gynnwys darparu cyfradd uwch o gyllid i fyfyrwyr rhan-amser y Brifysgol Agored sy'n ymrwymo i'w hastudiaethau ar sail llawnamser:

“ar un adeg, fe wnes i astudio'n llawnamser am flwyddyn a dim ond benthyciad myfyriwr rhan-amser y gallwn i ei hawlio gan fod Cyllid Myfyrwyr Cymru yn ystyried cyrsiau’r Brifysgol Agored yn rhai rhan-amser. Efallai y gellid edrych ar hyn gan y byddwn i wedi hoffi cwblhau fy ngradd yn gynt ond yn anffodus dydw i ddim yn gallu fforddio hynny heb gael benthyciad myfyriwr llawnamser.”

“rwy'n astudio gyda'r Brifysgol Agored, felly does dim ots a ydw i'n gwneud 60 credyd neu 120 credyd, dim ond rhan-amser ydw i o hyd.”

“rwy’n astudio 4 modiwl y flwyddyn sy’n ddwy ran o dair o astudiaethau llawnamser, ond dydw i ddim yn derbyn dwy ran o dair o’r cyllid myfyrwyr llawnamser ac mae hynny'n gwneud bywyd yn anodd iawn.”

- adolygu'r gyfradd dalu, gan fod y cyfranwyr yn credu y byddai hyn yn rhoi mwy o gymhelliant i fyfyrwyr rhan-amser wneud cynnydd yn gyflymach:

  “os ydych chi'n astudio 60 credyd rydych chi'n cael grant o £3,000 ond os ydych chi'n cael trafferth ac yn gwneud 120 credyd - ochr yn ochr â gwaith mae'n £4,500 - felly'n dechnegol mae'n well bod y cwrs yn cymryd mwy o amser gan y byddwch yn cael mwy o arian dros gyfnod y cwrs a dyw hynny ddim yn gwneud synnwyr o gwbl.”

- ystyried incwm personol, yn hytrach nag incwm yr aelwyd, wrth benderfynu ar gymorth ariannol i fyfyrwyr:

  “peidio ag edrych ar faint mae eich partner (di-briod) yn ei ennill, nid fy arian i yw eu harian nhw ac nid eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau fy mod i'n gallu cael bwyd.”

- ystyried amgylchiadau personol, fel nifer y dibynyddion:

  “rwy'n meddwl y dylai’r grantiau fod yn fwy realistig o ystyried costau byw; prin fod pobl yn cael dau ben llinyn ynghyd. Rwy'n rhiant i 4 o blant. Dydy o ddim yn agos at fod yn ddigon."

- gwneud taliadau'n fwy rheolaidd fel taliadau misol yn hytrach na thymhorol:

  “gwneud y taliadau’n fwy rheolaidd drwy gydol y flwyddyn yn hytrach na thri thaliad untro.”

- newid rheoliadau Credyd Cynhwysol fel nad yw derbyn cyllid myfyrwyr yn effeithio ar fudd-daliadau:

  “mae’r cymorth ariannol rwy’n ei gael yn cael ei dynnu o'm budd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Dylai'r system fod yn decach i'r rhai sy'n ceisio gwella eu hunain.”

- darparu esemptiad neu gymhorthdal ar gyfer y dreth gyngor i fyfyrwyr rhan-amser, yn debyg i'r hyn a wneir ar gyfer myfyrwyr llawnamser
- gwneud newidiadau i'r telerau ad-dalu, yn enwedig “Peidio â gorfod ad-dalu'r benthyciad tra rydym yn dal i astudio”.

## 8.9. Agweddau myfyrwyr israddedig rhan-amser at ddyled benthyciad myfyrwyr

Roedd un rhan o bump o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn bryderus iawn ac roedd dwy ran o bump arall yn eithaf pryderus am y ddyled benthyciad myfyrwyr a fydd ganddynt o ganlyniad i'w hastudiaethau AU, fel y dangosir yn Nhabl 8.7.

**Tabl 8.7: Pa mor bryderus yw myfyrwyr israddedig rhan-amser ynghylch y ddyled benthyciad myfyrwyr a fydd ganddynt o ganlyniad i'w hastudiaethau AU?**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Pryderus iawn** | 85 | 20% |
| **Gweddol bryderus** | 164 | 38% |
| **Ddim un na'r llall** | 68 | 16% |
| **Ddim yn bryderus iawn** | 71 | 17% |
| **Ddim yn bryderus o gwbl** | 31 | 7% |
| **Ddim yn gwybod / Heb ateb** | 10 | 2% |
| **Cyfanswm** | 429 | 100 |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 429 o ymatebwyr a oedd yn dilyn cwrs israddedig rhan-amser ac a oedd wedi derbyn cyllid myfyrwyr.

Y prif elfennau o gyllid myfyrwyr yr oedd myfyrwyr israddedig rhan-amser a gymerodd ran yn yr arolwg yn pryderu amdanynt oedd:

- cael dyled benthyciad myfyrwyr, a nodwyd gan 49% (207 o ymatebwyr)
- y gyfradd llog sy'n cael ei chodi ar fenthyciadau myfyrwyr, a nodwyd gan 45% (193 o ymatebwyr)
- yr effaith y bydd yn ei chael ar eu hincwm yn y dyfodol, a nodwyd gan 39% (167 o ymatebwyr)
- y swm ad-dalu cyffredinol, a nodwyd gan 26% (109 o ymatebwyr)
- hyd yr amser i'w dalu, a nodwyd gan 19% (82 o ymatebwyr).

Adleisiwyd y teimladau hyn gan y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws. Y pryder mwyaf cyffredin oedd bod llog yn cael ei godi o ddechrau eu hastudiaethau, er bod myfyrwyr rhan-amser yn cymryd mwy o amser na myfyrwyr llawnamser i gwblhau eu gradd ac felly'n talu mwy o log cyn y gallant ddechrau gwneud ad-daliadau. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod hyn yn annheg, gan na all y rhai nad ydynt yn gweithio ddechrau gwneud ad-daliadau nes bod eu cwrs yn dod i ben.

> "allwch chi ddim dechrau ei dalu nes i chi orffen eich cwrs. Felly nid yw'n deg iawn ychwanegu llog at rywbeth na allwch ei dalu."

Tynnodd y rhai a oedd eisoes mewn cyflogaeth sylw at gymhlethdod ad-dalu tra roeddent yn parhau i astudio, gan fod yr ad-daliadau'n dechrau ar ôl i enillion basio'r trothwy, hyd yn

oed os yw myfyrwyr yn parhau i dderbyn cymorth cynhaliaeth. Disgrifiodd rhai yr angen i “jyglo” rhwng ad-dalu benthyciadau a chostau byw, gydag un cyfranogwr yn nodi ei fod yn defnyddio rhan o’i fenthyciad i bob pwrpas i wrthbwyso’r hyn oedd yn cael ei ad-dalu bob mis.

Mynegodd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws hefyd eu rhwystredigaeth ynghylch y cyfraddau llog uchel a godir ar fenthyciadau myfyrwyr, a oedd yn aml yn cael eu hystyried yn ormodol ac yn annheg. Teimlai’r cyfranogwyr fod y cyfraddau hyn yn cosbi’r rhai oedd yn ceisio gwella eu sgiliau neu newid gyrfaoedd yn ddiweddarach mewn bywyd:

> “rwy'n credu bod y cyfraddau llog yn afresymol… mae’n gosb arall am ddatblygu eich hun drwy newid cyfeiriad neu astudio. Pam cosbi rhywun am astudio?”

Awgrymodd ambell gyfranogwr y dylai'r cyfraddau llog gyd-fynd â chyfraddau chwyddiant neu gael eu hadolygu i wneud y system yn decach. Roedd eraill yn derbyn eu hamgylchiadau gan ddweud ei bod yn afrealistig y byddent yn ad-dalu'r benthyciad yn llawn.

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws yn deall bod ad-daliadau'n dechrau ar ôl i incwm fynd dros drothwy penodol ac yn ystyried bod hynny yn rhesymol ac yn deg. Dywedodd rhai o'r cyfranogwyr hyn nad oeddent yn poeni oherwydd byddai ad-daliadau'n cael eu didynnu'n awtomatig o gyflogau ac nad oeddent yn effeithio ar sgorau credyd na phenderfyniadau ariannol mawr fel prynu cartref.

> “does dim pwysau i dalu’r cyfan yn gyflym… mae’n dod allan o gyflogau unwaith y byddwch chi’n cyrraedd y trothwy a fydd e ddim yn swm enfawr.”

Fodd bynnag, roedd eraill yn llai sicr ac ychydig yn fwy dryslyd ynghylch sut y mae'r trefniadau ad-dalu'n gweithio. Disgrifiodd rhai y broses fel “tir peryglus,” a bod gwybodaeth gyfyngedig iawn ar gael am y cysylltiadau rhwng benthyciadau, grantiau a throthwyon ad-dalu. Mewn rhai o'r achosion hyn, roedd myfyrwyr yn ansicr ynghylch eu hamodau ad-dalu eu hunain.

Yn fwy cyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws yn ystyried dyled benthyciad myfyrwyr fel benthyciad y gallent ymdopi ag ef neu fenthyciad derbyniol, gan ei gymharu'n aml â morgais neu daliadau am gar. Ystyriwyd y ddyled fel ymrwymiad ariannol hirdymor nad oedd ganddo'r un stigma na straen â mathau eraill o ddyled:

> “mae gan bawb fenthyciad myfyriwr. Dydy e ddim wir yn mynd i effeithio arna i'n ariannol ... mae fel taliad car neu forgais.”

Pwysleisiodd sawl cyfranogwr hefyd ei fod yn gweld ei ddyled fel buddsoddiad ynddyn nhw eu hunain, yn enwedig dysgwyr aeddfed a oedd yn astudio ar gyfer datblygiad personol neu broffesiynol yn hytrach na dim ond er mwyn datblygu eu gyrfa.

Esboniodd ambell gyfranogwyr sut yr oedd yn ceisio ymdopi â'r straen sy'n gysylltiedig â dyled myfyrwyr, er enghraifft drwy ei ystyried fel math o dreth yn hytrach na benthyciad traddodiadol. Roedd eraill yn fwriadol yn osgoi meddwl amdano ac eraill yn mabwysiadu dulliau mwy ymarferol fel lleihau nifer y modiwlau fel y gallent dalu ffioedd dysgu'n uniongyrchol heb fynd i ddyled bellach.

## 8.10. A yw cymhwyster yn werth dyled benthyciad myfyrwyr

Mae Tabl 8.8 yn dangos bod 67% o'r holl fyfyrwyr israddedig rhan-amser a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn y byddai'n bendant neu o bosibl yn werth ysgwyddo dyled benthyciad myfyrwyr er mwyn ennill eu cymhwyster. Roedd y traean a oedd yn weddill yn ansicr neu heb gael eu hargyhoeddi o hynny.

**Tabl 8.8: P'un a yw myfyrwyr israddedig rhan-amser yn credu ei bod yn werth ysgwyddo dyled benthyciad myfyrwyr er mwyn cael gradd**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Ydy, yn bendant** | 139 | 33% |
| **Ydy, o bosibl** | 146 | 34% |
| **Ansicr** | 87 | 20% |
| **Na, o bosibl ddim** | 40 | 9% |
| **Na, ddim o gwbl** | 15 | 4% |
| **Ddim yn gwybod / Heb ateb** | <5 | <1% |
| **Cyfanswm** | 429 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 429 o ymatebwyr a oedd yn dilyn cwrs israddedig rhan-amser ac a oedd wedi derbyn cyllid myfyrwyr.

Pan ofynnwyd iddynt a oedd y posibilrwydd o gael dyled wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i astudio, dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws nad oedd hynny'n wir. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws yn derbyn bod dyled myfyrwyr bellach yn rhan arferol o astudio. Er mai ychydig oedd yn teimlo'n hapus am hynny, roeddent yn ei weld fel yr unig ffordd o gael mynediad at AU. I lawer, roedd gradd yn hanfodol er mwyn cyflawni eu huchelgeisiau gyrfa, yn enwedig y rhai a oedd yn anelu at weithio mewn proffesiynau fel cwnsela, y gyfraith, neu iechyd a gofal cymdeithasol. Yn yr achosion hyn, nid oedd y cyfranogwyr o'r farn bod opsiwn arall hyfyw.

Er bod dyled yn bryder, nid oedd yn rhwystr i astudio. Fodd bynnag, roedd yn dylanwadu ar ble a sut y dewisodd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws astudio. Dewisodd nifer o bobl y Brifysgol Agored oherwydd ei bod yn rhatach ac yn fwy hyblyg, gan ganiatáu iddynt weithio ac astudio ar yr un pryd. Roedd y ffioedd is yn golygu y gallent gadw cyfanswm eu dyled yn is na phe byddent wedi astudio mewn prifysgol draddodiadol.

I rai, roedd y dewis o bwnc hefyd yn cael ei ddylanwadu gan gyfleoedd swyddi. Roedd pobl eisiau astudio rhywbeth a fyddai'n rhoi ystod o opsiynau gyrfa iddyn nhw. Dewisodd eraill, yn enwedig myfyrwyr hŷn, bynciau am eu bod yn ymddiddori ynddynt yn bersonol neu yr oeddent wedi bod eisiau eu hastudio erioed, yn hytrach nag am resymau cyflogaeth.

# 9. Gwaith maes gyda myfyrwyr ôl-raddedig

Mae'r bennod hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwaith maes gyda myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir yn bennaf (boed yn astudio'n llawnamser neu'n rhan-amser). Mae'n seiliedig ar ymatebion gan 335 o ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn astudio cwrs meistr a addysgir. O blith y rhain, roedd 218 yn astudio'n llawnamser a 117 yn astudio'n rhan-amser.

Mae hefyd yn ystyried barn 23 o fyfyrwyr ôl-raddedig a gyfrannodd at drafodaethau'r grwpiau ffocws. O blith y rhain, roedd y rhan fwyaf yn astudio cwrs meistr a addysgir - roedd 15 yn astudio cwrs meistr a addysgir ar sail llawnamser a 6 yn astudio cwrs meistr a addysgir ar sail ran-amser. Gan mai dim ond 2 oedd yn astudio cymhwyster ôl-raddedig rhan-amser arall, a bod y ddau yn astudio cwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig rhan-amser, mae eu canfyddiadau wedi'u hymgorffori yn y dadansoddiad yn y bennod hon.

Mae'r bennod hon (yn adran 9.10) hefyd yn amlinellu'r dystiolaeth a gasglwyd gan y garfan fach o 27 o fyfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser eraill a gyfrannodd at yr ymchwil.

O ran proffil y 23 o'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws, roedd 14 yn astudio mewn prifysgolion yn Lloegr neu'r Alban, roedd 7 yn astudio yng Nghymru a'r 2 sy'n weddill yn astudio gyda'r Brifysgol Agored. Roedd y cyfranogwyr yn astudio amrywiaeth o gymwysterau, yn amrywio o feysydd STEM fel Peirianneg Gemegol, Cyfrifiadureg, a Fferylliaeth; i gyrsiau gwyddorau cymdeithasol a'r dyniaethau fel Hanes, Economi Fyd-eang, y Gyfraith, Seicoleg, Addysg, a'r Cyfryngau Digidol.

## 9.1. Cymhellion myfyrwyr ôl-raddedig dros astudio eu cwrs

Roedd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws wedi cofrestru ar eu cwrs ôl-raddedig yn bennaf oherwydd eu bod eisiau gwella eu gyrfa, newid cyfeiriad neu am resymau'n ymwneud â datblygiad personol. Roedd rhai yn ystyried bod gradd meistr yn gymhwyster hanfodol gan eu bod eisiau gweithio mewn sectorau fel y gyfraith, ymwelwyr iechyd, neu addysgu. Roedd eraill yn ystyried y cwrs fel ffordd o newid cyfeiriad tuag at ddiddordebau neu feysydd newydd ar ôl profiadau gwaith anfoddhaol neu oherwydd iddynt golli eu swydd. Disgrifiodd rhai astudiaeth ôl-raddedig fel modd o feithrin sgiliau ychwanegol neu fwy o hyder cyn ymuno â'r farchnad swyddi, tra bod eraill wedi'u cymell gan awydd i gael gyrfa academaidd. I rai, roedd cyfnod o astudio hefyd yn cynnig rhywfaint o strwythur iddynt yn ystod newidiadau mawr bywyd:

> "fe wnes i adael y maes gwerthu gan fy mod i wedi cael llond bol ac yn meddwl y byddai gradd meistr yn agor mwy o ddrysau."

> "a bod yn onest, roedd yn benderfyniad wnes i mewn panig… doeddwn i ddim yn gwybod beth roeddwn i eisiau ei wneud mewn gwirionedd."

> "fe wnes i orffen fy ngradd baglor a doeddwn i ddim yn teimlo'n barod i fynd i fyd gwaith."

Pwysleisiodd y rhai a oedd yn astudio cyrsiau rhan-amser bwysigrwydd gallu cael cydbwysedd rhwng gwaith, teulu, anghenion iechyd yn ogystal ag ystyriaethau ariannol a oedd yn effeithio ar eu rhesymau dros astudio'n rhan-amser:

> "rwy'n gweithio mewn swydd ochr yn ochr â'm hastudiaethau."

> “byddwn i wedi bod yn hapusach…a fwy na thebyg yn well fy myd [pe bawn i wedi ei wneud yn llawnamser] oherwydd wedyn byddwn i wedi gallu canolbwyntio'n llwyr arno… ond allwn i ddim fforddio gwneud hynny.”

Gofynnwyd i fyfyrwyr ar gyrsiau meistr rhan-amser a addysgir yn benodol am eu cymhellion dros astudio'n rhan-amser, a dangosir y rhain yn Nhabl 9.1. Mae'r rhesymau a roddwyd yn cyfateb yn fras i'r rhai a nodwyd gan fyfyrwyr israddedig rhan-amser, a'r angen i weithio tra roeddent yn astudio oedd y ffactor pwysicaf o bell ffordd, a nodwyd gan 74%. Roedd myfyrwyr ar gyrsiau meistr rhan-amser a addysgir yn rhoi llai o bwyslais ar gyfrifoldebau teuluol neu ofalu ac roeddent yn fwy tebygol o ddweud mai dim ond ar sail ran-amser yr oedd y cwrs ar gael (o'u cymharu â myfyrwyr israddedig rhan-amser).

**Tabl 9.1: Rhesymau dros astudio cwrs meistr a addysgir yn rhan-amser**

| | Nifer | % |
|---|---:|---:|
| **Angen gweithio mewn swydd tra'n astudio** | 87 | 74% |
| **Astudio'n rhan-amser yn cyd-fynd yn well â'u ffordd o fyw neu drefniadau** | 50 | 43% |
| **Ddim yn gallu fforddio astudio'n llawnamser** | 44 | 38% |
| **Cyfrifoldebau teuluol neu ofalu** | 37 | 32% |
| **Eisiau astudio ar gyflymder arafach** | 34 | 29% |
| **Byddai problemau iechyd neu anabledd yn gwneud astudio'n llawnamser yn anodd** | 23 | 20% |
| **Y cwrs ond ar gael yn rhan-amser** | 21 | 18% |
| **Eisiau dysgu rhywbeth newydd heb newid eu hamserlen gyfan** | 18 | 15% |
| **Cyflogwr yn eu cefnogi i astudio'n rhan-amser** | 9 | 8% |
| **Ddim yn bodloni'r gofynion mynediad ar gyfer astudio'n llawnamser** | <5 | <1% |
| **Rheswm arall** | <5 | <1% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 117 o ymatebwyr a oedd yn dilyn gradd meistr a addysgir a oedd yn astudio'n rhan-amser. Gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb.

Roedd cynlluniau cyfranogwyr ôl-raddedig yn y grwpiau ffocws ar ôl eu hastudiaethau yn amrywio. Roedd rhai yn bwriadu cael rôl broffesiynol gan ddefnyddio eu cymwysterau, fel ym maes y gyfraith, gofal iechyd, addysgu neu waith treftadaeth, tra bod eraill yn bwriadu aros yn y byd academaidd a pharhau â'u hastudiaethau i lefel doethuriaeth neu ennill cymwysterau proffesiynol pellach. Roedd rhai yn dal yn ansicr ynghylch eu camau nesaf

ond roeddent yn hyderus y byddai eu cwrs yn eu gwneud yn fwy cymwys ac y byddai'n rhoi cyfleoedd newydd iddynt yr oeddent yn dal i ymchwilio iddynt.

## 9.2. Profiad myfyrwyr ôl-raddedig o AU

Roedd myfyrwyr ar gyrsiau meistr a addysgir, a gymerodd ran yn yr arolwg, yn ystyried yn gyffredinol bod eu profiad yn y brifysgol yn un cadarnhaol, a soniodd myfyrwyr llawnamser a rhan-amser am brofiadau tebyg. Fodd bynnag, fel y dangosir yn Nhabl 9.2, mae lle i wella – yn enwedig ymhlith myfyrwyr llawnamser.

**Tabl 9.2: Barn myfyrwyr meistr a addysgir am eu profiad yn y brifysgol**

| | Llawnamser | | Rhan-amser | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| **Gwych** | 58 | 27% | 31 | 27% |
| **Da iawn** | 90 | 42% | 45 | 39% |
| **Gweddol dda** | 49 | 23% | 37 | 32% |
| **Ddim yn arbennig o dda** | 18 | 8% | <5 | 3% |
| **Ddim yn dda o gwbl** | <5 | <1% | <5 | <1% |
| **Ddim yn gwybod / Heb ateb** | <5 | <1% | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | 218 | 100% | 117 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 335 o ymatebwyr a astudiodd gwrs meistr a addysgir, 218 yn llawnamser a 117 yn rhan-amser

Roedd myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir a gymerodd ran yn yr arolwg yn ogystal â myfyrwyr ôl-raddedig a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws hefyd o'r farn bod eu prifysgol wedi gallu diwallu eu hanghenion yn gyffredinol. Fel y dangosir yn Nhabl 9.3, roedd myfyrwyr cyrsiau meistr rhan-amser a addysgir yn fwy tebygol o fod o'r farn hon na'u cymheiriaid llawnamser.

**Tabl 9.3: Pa mor dda y mae'r brifysgol wedi gallu diwallu eu hanghenion fel myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir yn llawnamser neu'n rhan-amser**

| | Llawnamser | | Rhan-amser | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| **Yn dda iawn** | 87 | 40% | 52 | 44% |
| **Yn weddol dda** | 99 | 46% | 57 | 49% |
| **Ddim yn arbennig o dda** | 24 | 11% | 7 | 6% |
| **Ddim yn dda o gwbl** | 7 | 2% | 0 | 0% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ddim yn gwybod / Heb ateb** | <5 | <1% | <5 | <1% |
| **Cyfanswm** | 218 | 100% | 117 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 335 o ymatebwyr a astudiodd gwrs meistr a addysgir, 218 yn llawnamser a 117 yn rhan-amser

Mae Tabl 9.4 yn nodi'r prif gamau a gymerwyd gan brifysgolion i ddiwallu anghenion myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir ar sail llawnamser a rhan-amser. Fodd bynnag, mae'n werth nodi nad oedd angen rhoi'r darpariaethau hyn ar waith ar gyfer pob myfyriwr ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data.

Y prif gam a gymerwyd gan brifysgolion i ddiwallu anghenion myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir ar sail llawnamser a rhan-amser fu darparu darlithoedd wedi'u recordio neu adnoddau digidol. Nodwyd hyn gan 68% o fyfyrwyr llawnamser a rhan-amser; ac roedd yn llawer uwch nag unrhyw gamau eraill a gymerwyd gan brifysgolion. Er bod y camau a gymerwyd yr un fath yn fras ar draws y carfanau llawnamser a rhan-amser, roedd yn nodedig bod myfyrwyr rhan-amser yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael rhai opsiynau dysgu o bell neu astudio cyfunol, amserlenni dysgu hyblyg a dosbarthiadau gyda'r nos neu ar y penwythnos. Cyfeiriodd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws at ba mor dda yr oedd eu prifysgol wedi gallu diwallu eu hanghenion dysgu, er enghraifft drwy dechnoleg gynorthwyol fel Grammarly, a soniodd eraill eu bod wedi cael mynediad at gymorth anabledd i brynu offer fel gliniadur a chlustffonau canslo sŵn.

**Tabl 9.4: Camau a gymerwyd gan y brifysgol i ddiwallu anghenion myfyrwyr llawnamser a rhan-amser**

| | Llawnamser | | Rhan-amser | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| **Darparwyd darlithoedd wedi'u recordio neu adnoddau digidol** | 143 | 68% | 78 | 68% |
| **Caniatawyd dyddiadau cau hirach neu amserlenni cyflwyno aseiniadau mwy hyblyg** | 76 | 36% | 36 | 31% |
| **Darparwyd amserlenni dysgu hyblyg** | 58 | 28% | 49 | 43% |
| **Darparwyd opsiynau dysgu o bell neu astudio cyfunol** | 51 | 24% | 51 | 44% |
| **Darparwyd mynediad at wasanaethau cymorth i fyfyrwyr y tu allan i oriau busnes safonol** | 49 | 23% | 18 | 16% |
| **Creodd rwydweithiau ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig** | 44 | 21% | 21 | 18% |
| **Darparwyd opsiynau i oedi neu addasu dwyster yr astudio** | 21 | 10% | 12 | 10% |
| **Darparwyd dosbarthiadau gyda'r nos neu ar y penwythnos** | 21 | 5% | 31 | 27% |
| **Galluogi myfyrwyr i ddechrau cyrsiau ar adegau gwahanol** | 11 | 5% | 6 | 5% |
| **Ddim yn gwybod** | 22 | 10% | 12 | 10% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 335 o ymatebwyr a astudiodd gwrs meistr a addysgir, 218 yn llawnamser a 117 yn rhan-amser

Roedd adborth gan gyfranogwyr y grwpiau ffocws yn adleisio canfyddiadau'r arolwg. Roedd llawer o gyfranogwyr o'r farn bod eu cyrsiau'n ddiddorol, wedi'u haddysgu'n dda, yn ysgogol ac wedi'u helpu i feithrin gwybodaeth a sgiliau newydd defnyddiol:

> “mae’r addysg rwyf wedi'i gael wedi bod heb ei ail.”
>
> “yn sicr, mae wedi bod yn ddwys iawn ac yn gyflym… ond nid yw wedi bod yn ormod.”
>
> “rwyf wedi mwynhau’r cynnwys yn fawr.”

Fodd bynnag, codwyd nifer o broblemau. Roedd y rhain yn ymwneud â llwythi gwaith trwm, ei chael hi’n anodd ymdopi â chyflymder y cwrs ac adborth araf gan diwtoriaid. Roedd y cyfranogwyr a oedd yn astudio eu maes pwnc am y tro cyntaf yn ei chael hi'n fwy heriol na'r

rhai a oedd wedi gwneud gradd yn yr un pwnc. Cododd rhai cyfranogwyr faterion hefyd fel yr angen i'r addysgu fod yn fwy rhyngweithiol a chyfleoedd i gael mwy o brofiad ymarferol. Cododd eraill heriau ymarferol yn ymwneud â'u lleoliadau profiad gwaith:

> “mae dull dysgu wedi bod yn eithaf goddefol … roeddwn i’n disgwyl llawer mwy o drafodaeth.”

> “byddai wedi bod yn braf mynd allan i'r maes yn amlach. Efallai mai rhywbeth ariannol yw e, ond roeddwn i'n disgwyl cael mwy o'r elfen ymarferol.”

> "mae llawer o ansicrwydd wedi bod [oherwydd i swyddi gael eu dileu] ac mae'r rhai [staff] sydd ar ôl yn ysgwyddo llwyth gwaith 2-3 darlithydd."

> “gallwn i fod wedi dysgu yr un faint ar YouTube am ddim yn hanner yr amser.”

Pwysleisiodd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws a oedd yn fyfyrwyr rhan-amser yn benodol yr opsiynau astudio hyblyg ac ar-lein a oedd ar gael iddynt a oedd yn ei gwneud hi'n haws iddynt gydbwyso eu hastudiaethau â gwaith neu fywyd teuluol. Nododd nifer o gyfranogwyr y grwpiau ffocws hyn sut yr oedd darlithoedd wedi'u crynhoi i un neu ddau ddiwrnod yr wythnos a oedd yn caniatáu iddynt astudio o amgylch eu hymrwymiadau gwaith. Er eu bod wedi cofrestru ar gyrsiau rhan-amser oherwydd problemau iechyd, roedd rhai yn dal i’w chael hi’n anodd bodloni'r gofynion astudio rhan-amser, ac roedd rhai hefyd yn ei chael hi’n anodd cyflawni ymrwymiadau gwaith ac astudio:

> “yn lle cwrs israddedig lle mae 'na ddosbarth ddydd Llun, dosbarth ddydd Mawrth… maen nhw'n ei drefnu fel ei fod i gyd ar yr un diwrnod. Felly mae hynny'n ddefnyddiol iawn i ni.”

> “i mi, y teulu oedd y rheswm. Dim ond 11 oed yw fy mab… os bydd yr ysgol yn fy ffonio, dwi'n mynd yn syth yno. Felly roedd cwrs rhan-amser yn ddefnyddiol.”

> “roeddwn i'n gwneud bron i saith diwrnod yr wythnos am fisoedd… mae’n anodd iawn ceisio gwneud popeth.”

Materion ariannol oedd y prif rwystr a godwyd gan fyfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws. Adroddodd myfyrwyr am broblemau wrth wneud cais am gyllid myfyrwyr gan ddweud fod lefel y cymorth a gawsant yn llai na'r hyn a roddir i israddedigion. Nododd myfyrwyr rhan-amser, yn enwedig myfyrwyr aeddfed â chyfrifoldebau teuluol a chartref, y byddai astudio'n llawnamser wedi bod yn amhosibl iddynt oherwydd pwysau ariannol.

## 9.3. Sut y gellid diwallu anghenion myfyrwyr ôl-raddedig yn well

Nodir isod y prif themâu a godwyd gan fyfyrwyr ôl-raddedig a gwblhaodd yr arolwg ac a gymerodd ran mewn sesiynau grwpiau ffocws ar sut y gellid diwallu eu hanghenion yn well.

- Gwell cyfathrebu a threfnu cyrsiau'n well. Tynnodd y myfyrwyr sylw at bwysigrwydd rhyddhau amserlenni, dyddiadau cau a dyddiadau arholiadau ymhell ymlaen llaw, ynghyd â strwythur mwy cyson i'r ddarpariaeth addysgu:

> “pennu'r amserlen yn gynharach / yr un diwrnodau ar draws y flwyddyn academaidd.”

“pennu amseroedd a dyddiau bob wythnos gan ganiatáu amser ar gyfer swydd ran-amser.”

- Mwy o gydnabyddiaeth o'r ffaith bod y rhan fwyaf o fyfyrwyr ôl-raddedig, boed yn astudio'n llawnamser neu'n rhan-amser, hefyd yn gweithio i gynnal eu hunain. O ganlyniad, mae sesiynau a drefnir ar fyr rybudd yn creu heriau iddynt, yn enwedig pan fyddant yn gwrthdaro ag ymrwymiadau gwaith.
- Yn gysylltiedig â hyn, galwodd y myfyrwyr am recordio pob darlith, fel y gallai'r rhai na allent fynychu oherwydd gwaith neu gyfrifoldebau eraill ddal i fyny:

  “roedd angen i mi weithio’n rhan-amser er mwyn gallu fforddio byw ac roedd darlithoedd wedi'u recordio yn y semester cyntaf yn caniatáu i mi wneud hynny pan oeddwn i'n colli darlithoedd. Yn yr ail semester, doedd y darlithoedd ddim yn cael eu recordio ac fe wnaeth hynny effeithio ar fy nysgu.”

- Adnoddau ar-lein gwell, ochr yn ochr â mwy o opsiynau astudio cyfunol ac o bell. I lawer, byddai argaeledd darpariaeth ar-lein hyblyg yn gwneud astudiaethau ôl-raddedig yn fwy hygyrch ac yn fwy addas i'w hamgylchiadau.
- Roedd hyblygrwydd wrth asesu yn thema arall, a chafwyd ceisiadau niferus am derfynau amser hwy ar gyfer cyflwyno aseiniadau. Teimlai myfyrwyr nad oedd yr amserlenni presennol bob amser yn ystyried yr amrywiol gyfrifoldebau a oedd yn cystadlu am eu hamser.
- Roedd galwadau am well cymorth academaidd yn gyffredin, gan gynnwys mwy o gymorth un-i-un ac ymateb yn fwy prydlon i ymholiadau:

  “mae adegau pan nad yw myfyrwyr rhan-amser yn cael unrhyw gymorth gan fod myfyrwyr llawnamser yn cael blaenoriaeth.”

- Gofynnodd myfyrwyr am well dealltwriaeth gan diwtoriaid a darlithwyr o'r pwysau y mae myfyrwyr rhan-amser yn eu hwynebu, yn enwedig y rhai sy'n dilyn rhaglenni a gynlluniwyd i'w hastudio'n llawnamser:

  “mae’r Brifysgol wedi bod mor gefnogol ag y gallent ond y gwir amdani yw bod fy nghwrs wedi’i gynllunio ar gyfer astudio’n llawnamser felly mae’r amserlen a’r amserlenni’n eithaf anodd ac weithiau’n fy rhoi dan straen wrth geisio cydbwyso hynny â fy swydd.”

- Yn olaf, galwodd rhai myfyrwyr am fwy o gyfleoedd i ymgysylltu'n gymdeithasol. I fyfyrwyr llawnamser yn benodol, roedd awydd i weld y brifysgol yn meithrin ymdeimlad cryfach o gymuned ôl-raddedig:

  “gallai’r brifysgol ddarparu mwy o gyfleoedd cymdeithasol i fyfyrwyr ôl-raddedig.”

Gan fyfyrio ar effaith barhaus y pandemig ar eu profiadau, roedd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws ôl-raddedig o'r farn ei fod wedi effeithio'n bennaf ar sut yr oedd eu cyrsiau'n cael eu darparu. Roedd dysgu ar-lein a dysgu cyfunol wedi dod yn norm ac yn aml roedd y myfyrwyr yn disgwyl hynny. Roedd rhai o’r farn bod hwn yn newid cadarnhaol, gan ei fod yn rhoi mwy o ddewis i fyfyrwyr ynghylch ble y gallent astudio, tra bod eraill yn ffafrio darpariaeth wyneb yn wyneb ac yn poeni bod opsiynau ar-lein yn lleihau ansawdd eu

haddysg. Dywedodd rhai fod prifysgolion wedi cadw'r rhannau gorau o'r ddau ddull, gan gyfuno offer digidol â dysgu wyneb yn wyneb:

> "pan ddaeth yn bryd i mi ddewis fy nghwrs… roedd pawb wedi dechrau ei wneud [darpariaeth ar-lein]."
>
> "dewisais i [enw'r brifysgol] oherwydd ei bod wedi bod yn cynnig yr opsiwn i ddysgu o bell cyn y pandemig… doedd e ddim yn benderfyniad byrbwyll i'r brifysgol."
>
> "maen nhw wedi cadw'r hyn sy'n gweithio'n dda o ran y dulliau traddodiadol ac wedi defnyddio strategaethau digidol i wella'r addysgu."
>
> "mae fy nghwrs yn sicr wedi addasu oherwydd gallwn fod wedi gwneud fy nghwrs cyfan ar-lein."

## 9.4. Profiad myfyrwyr ôl-raddedig o gyllid myfyrwyr

Roedd mwyafrif helaeth y myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir a gymerodd ran yn yr arolwg wedi cael benthyciad myfyrwyr i'w helpu i dalu cost ffioedd dysgu'r brifysgol a/neu gostau byw. At ei gilydd, roedd 97% (210 o 218) o fyfyrwyr cyrsiau meistr llawnamser a 93% (109 o 117) o fyfyrwyr cyrsiau meistr rhan-amser wedi gwneud hynny.

Roedd mwyafrif helaeth y myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir a oedd wedi cael benthyciad myfyrwyr yn credu bod hyn wedi bod yn bwysig iawn i'w penderfyniad i astudio eu cwrs, sef 95% (198 o 210) o fyfyrwyr llawnamser a 94% (64 o 109) o fyfyrwyr rhan-amser.

Ychydig iawn o fyfyrwyr cyrsiau meistr a gymerodd ran yn yr arolwg a gafodd gymorth gan gyflogwr, boed yn ariannol neu fel arall, tuag at gyfrannu at gostau eu hastudiaethau. Nododd pump (2%) o fyfyrwyr cyrsiau meistr llawnamser a gymerodd ran yn yr arolwg fod cyflogwr wedi gwneud cyfraniad ariannol tuag at y ffioedd dysgu, a nododd tri o'r rhain bod y cyflogwr wedi talu eu ffioedd dysgu yn llawn. Ar draws y garfan ran-amser, nododd tri (3%) fod cyflogwr wedi gwneud cyfraniad ariannol tuag at y ffioedd dysgu, a nododd dau o'r rhain fod y cyflogwr wedi talu eu ffioedd dysgu yn llawn. Nododd cyfanswm o 8 o ymatebwyr eu bod wedi cael amser o'r gwaith i astudio – o blith y rhain roedd 6 yn astudio'n rhan-amser a 2 yn astudio'n llawnamser.

Roedd ychydig dros hanner y myfyrwyr cyrsiau meistr llawnamser a gymerodd ran yn yr arolwg (51% neu 111) hefyd wedi gweithio mewn swydd gyflogedig yn ystod y flwyddyn academaidd. O blith y rhain, roedd rhai yn gweithio nifer sylweddol o oriau:

- roedd 35% yn gweithio 18 awr neu fwy bob wythnos
- roedd 28% yn gweithio rhwng 12 awr a hyd at 18 awr bob wythnos
- roedd 23% yn gweithio rhwng 6 a hyd at 12 awr bob wythnos
- roedd 14% yn gweithio hyd at 6 awr bob wythnos

Roedd y rhan fwyaf o fyfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir a gymerodd ran yn yr arolwg, p'un a oeddent yn astudio'n llawnamser neu'n rhan-amser, yn teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth dda iawn neu gymharol dda o sut y mae cyllid myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig yn gweithio, fel y dangosir yn Nhabl 9.5.

**Tabl 9.5: Pa mor dda y mae myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir yn teimlo eu bod yn deall sut y mae cyllid myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig yn gweithio**

| | Llawnamser | | Rhan-amser | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| **Yn dda iawn** | 60 | 28% | 35 | 30% |
| **Yn weddol dda** | 125 | 58% | 64 | 55% |
| **Ddim un na'r llall** | 9 | 4% | 9 | 8% |
| **Ddim yn arbennig o dda** | 15 | 7% | 8 | 7% |
| **Ddim yn dda o gwbl** | 7 | 3% | <5 | <1% |
| **Ddim yn gwybod / Heb ateb** | <5 | <1% | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | 218 | 100% | 117 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 335 o ymatebwyr a astudiodd gwrs meistr a addysgir, 218 yn llawnamser a 117 yn rhan-amser

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws eu bod wedi bod yn ymwybodol o'r opsiynau cyllid myfyrwyr oedd ar gael iddynt cyn dechrau eu cwrs, naill ai oherwydd eu bod wedi ymchwilio i hyn eu hunain neu oherwydd eu bod wedi cael cymorth gan eraill, fel yn achos un myfyriwr a oedd am ddilyn cwrs Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig (TAR) a oedd wedi cael cymorth gan ddarpar diwtor cwrs. Fodd bynnag, cydnabu rhai eu bod wedi cael trafferth i ddeall beth oedd ar gael iddynt ar y pryd, gan ychwanegu bod cyllid myfyrwyr ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig yn gymhleth.

I lawer o'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws, roedd argaeledd cyllid myfyrwyr wedi dylanwadu'n gryf ar eu penderfyniad i gofrestru ar gwrs ôl-raddedig ac ni fyddai'r rhan fwyaf wedi dewis y llwybr hwn oni bai bod y cyllid ar gael. Cafodd rhai myfyrwyr eu dylanwadu hefyd gan fwrsariaethau bach a gynigiwyd i barhau i astudio yn yr un brifysgol ag y gwnaethant gwblhau eu gradd israddedig, tra bod eraill yn ystyried ffioedd cwrs yn ofalus wrth wneud eu dewis. Esboniodd un cyfranogwr ei fod wedi dewis astudio cwrs meistr academaidd uwch yn y gyfraith, yn hytrach na dim ond y cymhwyster proffesiynol yr oedd ei angen arno, oherwydd bod hynny'n ei wneud yn gymwys i gael cyllid myfyrwyr:

> “roeddwn i'n edrych ar ychydig o gyrsiau Meistr ac roeddwn i’n gallu cael bwrsariaeth fach oherwydd i mi wneud fy ngradd israddedig yn yr un Brifysgol.”
>
> “roedd [ffioedd] yn ffactor mawr yn fy mhenderfyniad.”
>
> “y rhai yn Glasgow oedd yr unig rai y gallwn i eu fforddio.”
>
> “roeddwn i’n hwyr yn gwneud cais… doeddwn i ddim yn deall sut i lenwi’r ffurflenni.”

Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws yn ymwybodol bod elfen grant cyllid myfyrwyr ôl-raddedig wedi cael ei thynnu'n ôl, a wnaeth iddynt ailystyried eu penderfyniad i astudio. Yn y ddau achos, fodd bynnag, fe wnaethant ddewis parhau â'u cynlluniau yn y pen draw:

> "pan ddes i wybod am hynny, roeddwn yn demtasiwn mawr peidio gwneud fy ngradd meistr oherwydd roedd yn fenthyciad £18,000 llawn."

> "roeddwn i'n gwybod bod grantiau wedi bod ar gael o'r blaen ac fe wnaeth y ffaith eu bod nhw wedi cael eu dileu wneud i mi ailystyried a oedd hyn yn rhywbeth oeddwn i eisiau ei wneud."

Roedd tri o'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws wedi cael mynediad at fenthyciadau myfyrwyr ôl-raddedig drwy Gyllid Myfyrwyr Cymru, er eu bod wedi cael eu cyllid israddedig gan Student Finance England. Roedd myfyrwyr a oedd wedi astudio ar gyfer eu graddau israddedig yng Nghymru yn teimlo'n ffodus o fod yn gymwys i gael pecyn cyllido ôl-raddedig mwy hael na myfyrwyr sydd â'u domisil yn Lloegr. Cyfaddefodd un myfyriwr ei fod wedi symud i Gymru yn benodol er mwyn elwa o'r lefel uwch o gymorth ariannol sydd ar gael yno: [troednodyn 17]

> "Roedd yn un o'r prif resymau pam y gwnaethon ni symud i Gymru."

> "Roeddwn i'n meddwl ei fod yn llawer mwy hael ac roedd hynny'n ddefnyddiol iawn."

## 9.5. Dulliau myfyrwyr ôl-raddedig o gyllido ffioedd dysgu a chostau byw

Y ffioedd dysgu cyfartalog cymedrig a dalwyd gan fyfyrwyr cyrsiau meistr llawnamser a rhan-amser a gymerodd ran yn yr arolwg oedd £12,764 a £9,679 yn y drefn honno. Mae'n bosibl y gellid cyfrif am y gwahaniaeth gan y ffaith bod rhai myfyrwyr rhan-amser wedi nodi eu ffi ddysgu flynyddol yn hytrach na chyfanswm y ffi, y gofynnwyd amdano yn yr arolwg.

Roedd y ffioedd a dalwyd gan y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws fel arfer rhwng £10,000 a £18,000 ar gyfer myfyrwyr cyrsiau meistr llawnamser a addysgir. Er bod rhai yn derbyn ysgoloriaethau a bwrsariaethau bach i helpu i dalu'r ffioedd hyn, roedd y rhan fwyaf yn dibynnu ar gyllid myfyrwyr i dalu'r costau. Roedd nifer o gyfranogwyr, yn enwedig y rhai a oedd yn astudio yn y Brifysgol Agored, yn ei chael hi'n anodd talu ffioedd eu cwrs ymlaen llaw cyn derbyn eu cyllid myfyrwyr.

Roedd mwyafrif y myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir a gymerodd ran yn yr arolwg yn pryderu ynghylch talu eu costau byw tra roeddent yn astudio, ac roedd myfyrwyr llawnamser yn fwy tebygol o fod yn bryderus na'u cymheiriaid rhan-amser:

[17] Byddai myfyrwyr sy'n symud ymlaen yn syth i gwrs ôl-raddedig ar ôl cwblhau eu cwrs israddedig blaenorol yn cael eu hystyried fel myfyrwyr sy'n preswylio'n arferol yn y diriogaeth y gwnaethant symud ohoni; ac ni fyddent yn gymwys i gael cymorth gan Cyllid Myfyrwyr Cymru. Er mwyn bod yn gymwys i fod yn rhywun sy'n perswylio'n arferol yng Nghymru ar gyfer cymorth cyllid myfyrwyr ôl-raddedig, byddai'n rhaid i'r myfyrwyr hyn fod wedi byw yng Nghymru am o leiaf dair blynedd, gan gynnwys ar ôl cwblhau eu cwrs israddedig.

- roedd 41% (89 o blith 218) o fyfyrwyr cyrsiau meistr llawnamser a 34% (40 o blith 117) o fyfyrwyr cyrsiau meistr rhan-amser yn bryderus iawn ynghylch talu eu costau byw.
- roedd 36% (89 o blith 218) o fyfyrwyr cyrsiau meistr llawnamser a 37% (43 o blith 117) o fyfyrwyr cyrsiau meistr rhan-amser yn eithaf pryderus ynghylch talu eu costau byw.

Fel y dangosir yn Nhabl 9.6, roedd ystod eang o safbwyntiau ynghylch pa mor dda yr oedd y benthyciad neu'r grant cwrs meistr a addysgir yn talu eu costau byw. Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod 46% o fyfyrwyr cyrsiau meistr llawnamser a addysgir a oedd yn derbyn cyllid myfyrwyr yn ymdopi'n ariannol, tra bod ychydig o dan draean (31%) o'r farn nad oedd y cymorth yn ddigonol.

**Tabl 9.6: Pa mor dda y mae benthyciadau neu grantiau myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir yn talu eu costau byw**

| | Llawnamser | | Rhan-amser | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| **Mae'n talu costau gyda digon ar ôl** | 6 | 3% | <5 | 2% |
| **Mae'n talu costau gydag ychydig dros ben** | 28 | 13% | 8 | 7% |
| **Dim ond prin yn talu'r costau** | 63 | 30% | 20 | 19% |
| **Nid yw'n talu'r costau, ond dim ond o fymryn** | 43 | 21% | 24 | 22% |
| **Nid yw'n talu'r costau, ac ymhell o wneud hynny** | 64 | 31% | 51 | 47% |
| **Ddim yn gwybod / Heb ateb** | 6 | 3% | <5 | 4% |
| **Cyfanswm** | 210 | 100 | 109 | 100 |


Ffynhonnell: Arolwg OB3. 210 o ymatebwyr a astudiodd gwrs meistr llawnamser a 109 o ymatebwyr a astudiodd gwrs meistr rhan-amser a gafodd gyllid myfyrwyr

## 9.6. Profiad o galedi ariannol

Fel y gwelir yn Ffigur 9.1, roedd myfyrwyr cyrsiau meistr llawnamser a addysgir a gymerodd ran yn yr arolwg yn fwy tebygol na'u cymheiriaid rhan-amser o ddweud eu bod wedi profi anawsterau ariannol a effeithiodd ar eu patrymau bwyta yn ogystal â'u gallu i dalu rhent neu forgais a biliau'r cartref. Mae'r ffigur hefyd yn dangos bod tua thraean o fyfyrwyr cyrsiau

meistr llawnamser wedi wynebu heriau mwy difrifol fel poeni am beidio â chael digon o fwyd i bob un a bod yn llwglyd ond heb fwyta.

**Ffigur 9.1: A oedd myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir wedi profi caledi ariannol oherwydd diffyg arian neu adnoddau yn ystod y cyfnod o 12 mis blaenorol**




Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod traean o fyfyrwyr meistr llawnamser a addysgir wedi wynebu heriau ariannol difrifol.

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 335 o ymatebwyr a astudiodd gwrs meistr a addysgir. O blith y rhain, roedd 218 yn astudio'n llawnamser a 117 yn rhan-amser.

## 9.7. Gwelliannau a awgrymwyd gan fyfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir

Galwodd myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir a gwblhaodd yr arolwg ac a gymerodd ran mewn trafodaethau grŵp ffocws am 7 prif newid i'r ffordd y caiff cyllid myfyrwyr ei drefnu:

- galwodd y myfyrwyr am sicrhau bod cyllid ar gyfer rhaglenni meistr a addysgir yn adlewyrchu'r system israddedig, gyda chyllid ar wahân ar gyfer ffioedd dysgu a chostau byw. Mae cael un benthyciad i dalu ffioedd dysgu a chostau byw yn aml yn eu gadael heb fawr ddim arian, neu ddim arian o gwbl, i dalu rhent, talu am fwyd, neu hanfodion eraill. Ystyriwyd hefyd fod talu ffioedd dysgu yn uniongyrchol i brifysgolion yn hanfodol er mwyn i fyfyrwyr allu cyllidebu ac i leihau straen ariannol:

  "dylai fod fel cyllid i israddedigion lle mae ffioedd dysgu a chymorth cynhaliaeth ar wahân."

  "aeth fy holl fenthyciad i dalu ffioedd dysgu a rhent — doedd gen i ddim byd ar ôl i fyw arno."

- roedd myfyrwyr yn gofyn yn gyson am adfer neu ehangu'r grant cyrsiau meistr a addysgir, yn enwedig ar gyfer myfyrwyr incwm isel. Disgrifiwyd y ffaith bod grant Llywodraeth Cymru wedi cael ei ddileu fel rhywbeth arbennig o siomedig:

  "dewch â'r elfen grant yn ôl - mae'n annheg ei bod wedi cael ei dileu."

  "byddai grantiau i deuluoedd incwm isel yn gwneud astudiaethau ôl-raddedig yn fwy hygyrch."

- tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at y ffaith nad yw cyfanswm y benthyciad sydd ar gael ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig yn ddigonol i dalu ffioedd dysgu a chostau byw, yn enwedig o ystyried y cynnydd mewn rhenti, biliau a chwyddiant. Galwyd am gynyddu benthyciadau yn unol â chostau gwirioneddol cyrsiau, chwyddiant, a gwahaniaethau rhanbarthol mewn costau byw. Cafodd myfyrwyr yn Llundain a'r rhai ar gyrsiau hwy eu crybwyll yn aml fel rhai sydd dan anfantais benodol:

  "dydy fy menthyciad i ddim yn talu ffioedd dysgu a rhent hyd yn oed."

  "mae costau byw wedi codi, ond dyw'r benthyciad ddim wedi cynyddu i adlewyrchu hynny."

  "byddai lwfans Llundain tebyg i'r cyllid israddedig yn ei wneud yn decach."

- galwodd y myfyrwyr am amserlenni talu mwy hyblyg a realistig. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys rhandaliadau misol neu amlach i helpu gyda chyllidebu, cysoni dyddiadau cau ar gyfer talu ffioedd dysgu â thaliadau cyllid myfyrwyr, ac ymestyn y taliadau drwy fisoedd yr haf. Byddai addasiadau o'r fath yn lleihau straen ariannol ac yn caniatáu i fyfyrwyr ganolbwyntio ar eu hastudiaethau:

  "byddwn yn gwerthfawrogi pe bai taliadau'n cyd-fynd â'r dyddiadau y mae ffioedd dysgu'n ddyledus… roedd yn rhaid i mi fenthyg i ymestyn fy nghyllideb ac roedd hynny'n straen."

  "lledaenu'r taliadau dros bedwar rhandaliad [gan] fod y cwrs yn parhau drwy gydol y flwyddyn."

- roedd galwad am fynd i'r afael â rheolau cymhwystra anhyblyg sy'n atal y rhai sydd â chredydau neu gymwysterau ôl-raddedig blaenorol rhag cael mynediad at gyllid myfyrwyr. Dadleuodd rhai myfyrwyr fod y rheolau hyn yn creu anfantais i fyfyrwyr tlotach a'r rhai sy'n dymuno ailhyfforddi yn ddiweddarach mewn bywyd. Tynnodd myfyrwyr rhan-amser sylw at y ffaith bod eu cymorth ariannol yn aml yn cael ei wasgaru ar draws sawl blwyddyn, gan leihau ei effeithiolrwydd. Codwyd pryderon crefyddol ynghylch benthyciadau sy'n seiliedig ar log,[troednodyn 18] hefyd gan y grŵp hwn, a chafwyd ceisiadau am opsiynau di-log i fyfyrwyr na allant fenthyca oherwydd eu ffydd:

  "mae myfyrwyr tlawd yn colli credydau os nad ydynt yn gallu cael mynediad at gyllid ar gyfer ail gwrs."

[18] Byddai'r pryderon hyn yr un mor berthnasol i gynhyrchion benthyciadau cyllid myfyrwyr israddedig.

> “Mae myfyrwyr Mwslimaidd wedi’u heithrio oherwydd y llog sy'n cael ei godi ar fenthyciadau.”

- dywedodd llawer o fyfyrwyr iddynt gael anhawster cael gafael ar wybodaeth glir a chyson am gyllid ôl-raddedig. Fe wnaethant ofyn am ganllawiau gwell cyn gwneud cais, esboniadau gwell o'r telerau ad-dalu a chymhwystra, a hyrwyddo mwy ar fwrsariaethau, ysgoloriaethau a chronfeydd brys. Pwysleisiodd y myfyrwyr y gallai gwybodaeth well atal caledi ariannol a'u helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am astudiaethau ôl-raddedig:

> “doeddwn i ddim hyd yn oed yn gwybod fy mod i’n gymwys tan yn ddiweddarach yn fy mywyd.”

> “dyw hi ddim yn glir beth allwch chi ei gael na sut i wneud cais amdano.”

- yn olaf, tynnodd y myfyrwyr sylw at yr angen am gymorth ychwanegol sy'n mynd y tu hwnt i fenthyciadau a grantiau safonol, yn enwedig i'r rhai ag amgylchiadau penodol, fel rhieni a gwarcheidwaid sy'n gweithio, myfyrwyr ag anableddau, neu rieni a gwarcheidwaid sengl yr effeithir arnynt gan ddidyniadau o Gredyd Cynhwysol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys cyllid gofal plant a chymorth i deuluoedd, cronfeydd caledi brys, ysgoloriaethau ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a chyllid ar gyfer lleoliadau, teithio a deunyddiau, yn enwedig ar gyfer cyrsiau creadigol neu broffesiynol lle mae costau'n uchel:

> “mae angen help arnaf gyda chostau gofal plant … mae israddedigion yn ei gael ond nid myfyrwyr ar gyrsiau meistr.”

> “dylai myfyrwyr ôl-raddedig ar leoliadau di-dâl gael grantiau teithio fel y caiff israddedigion.”

## 9.8. Agweddau myfyrwyr cyrsiau meistr tuag at ddyled benthyciad myfyrwyr

Roedd ychydig o dan draean o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn bryderus iawn ac roedd dwy ran o bump arall yn weddol bryderus am y ddyled benthyciad myfyrwyr a fydd ganddynt o ganlyniad i'w hastudiaethau AU, fel y dangosir yn Nhabl 9.7. Ni oedd y cyfrannau'n amrywio yn ôl dull astudio.

**Tabl 9.7: Pa mor bryderus yw myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir ynghylch y ddyled benthyciad myfyrwyr a fydd ganddynt o ganlyniad i'w hastudiaethau AU**

| | Llawnamser | | Rhan-amser | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| **Pryderus iawn** | 62 | 30% | 33 | 30% |
| **Gweddol bryderus** | 86 | 41% | 45 | 41% |
| **Ddim un na'r llall** | 27 | 13% | 15 | 14% |
| **Ddim yn bryderus iawn** | 27 | 13% | 14 | 13% |
| **Ddim yn bryderus o gwbl** | 7 | 3% | <5 | 2% |
| **Ddim yn gwybod / Heb ateb** | 0 | 0% | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | 210 | 100% | 109 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 210 o ymatebwyr a astudiodd gwrs meistr llawnamser a 109 o ymatebwyr a astudiodd gwrs meistr rhan-amser a gafodd gyllid myfyrwyr

Y prif elfennau o gyllid myfyrwyr yr oedd myfyrwyr meistr, llawnamser a rhan-amser, yn bryderus amdanynt yn yr arolwg oedd:

- y gyfradd llog a godir ar fenthyciadau myfyrwyr, a nodwyd gan 63% o'r holl fyfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir. Roedd myfyrwyr llawnamser yn fwy tebygol o grybwyll hyn fel pryder, sef 64%, o'i gymharu â myfyrwyr rhan-amser (61%).
- cael dyled benthyciadau myfyrwyr, a nodwyd gan 47% (149 o blith 319) o'r holl fyfyrwyr meistr a addysgir ac yn fwy tebygol o fod yn broblem a godwyd gan fyfyrwyr rhan-amser (ar 52%) na myfyrwyr llawnamser (ar 44%)
- yr effaith y bydd yn ei chael ar eu hincwm yn y dyfodol, a nodwyd gan 50% (158 o blith 319) o'r holl fyfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir
- hyd yr amser i ad-dalu'r ddyled, a nodwyd gan 29% (91 o blith 319) o'r holl fyfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir ac yn fwy tebygol o fod yn fater a godwyd gan fyfyrwyr rhan-amser (37%) o'i gymharu â myfyrwyr llawnamser (24%)
- y cyfanswm y byddai'n rhaid iddynt ad-dalu, a nodwyd gan 32% (101 o blith 319) o'r holl fyfyrwyr meistr a addysgir ac yn fwy tebygol o fod yn fater a godwyd gan fyfyrwyr llawnamser (39%) o'i gymharu â myfyrwyr rhan-amser (19%).

## 9.9. A yw'n werth ysgwyddo dyled benthyciad myfyrwyr er mwyn ennill cymhwyster

Mae Tabl 9.8 yn dangos bod 74% o'r holl fyfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir yn credu ei bod yn bendant neu o bosibl yn werth mynd i ddyled benthyciad myfyrwyr er mwyn cael eu cymhwyster, ac roedd y cyfrannau'n debyg ymhlith myfyrwyr llawnamser a rhan-amser.

**Tabl 9.8: A yw myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir yn credu ei bod yn werth mynd i ddyled benthyciadau myfyrwyr er mwyn cael eu cymhwyster**

| | Llawnamser | | Rhan-amser | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| **Ydy, yn bendant** | 72 | 34% | 40 | 37% |
| **Ydy, o bosibl** | 81 | 39% | 42 | 39% |
| **Ansicr** | 37 | 18% | 20 | 18% |
| **Na, o bosibl ddim** | 15 | 7% | 6 | 6% |
| **Na, ddim o gwbl** | <5 | 2% | <5 | 1% |
| **Ddim yn gwybod / Heb ateb** | <5 | <1% | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | 210 | 100% | 109 | 100 |

Ffynhonnell: Arolwg OB3. 210 o ymatebwyr a ddilynodd gwrs meistr llawnamser a 109 o ymatebwyr a ddilynodd gwrs meistr rhan-amser a gafodd gyllid myfyrwyr

Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws yn ystyried benthyciad ôl-raddedig yn rhywbeth yr oedd yn rhaid iddynt ei ysgwyddo er mwyn cyrraedd eu nodau gyrfa. Roeddent yn ei weld fel buddsoddiad yn eu dyfodol, yn hytrach na dyled draddodiadol, ac yn teimlo bod modd ei had-dalu pan fyddent yn dechrau ennill cyflog. Disgrifiodd rhai y ddyled fel “cost suddedig” sy'n dod law yn llaw ag astudio'r cwrs yr oedd ei angen arnynt:

> “rwy'n gobeithio y byddaf yn dechrau swydd ym mis Medi. I mi, mae'n ymddangos mai'r gost y mae'n rhaid i mi ei thalu i gyrraedd yno yw hyn ac rwy'n gwybod y byddaf yn ei had-dalu... hyd y gellir rhagweld ac mae'n teimlo i mi fel rhyw fath o gost suddedig, rhywbeth yr oedd yn rhaid i mi ei wneud, felly efallai fy mod i jest wedi'i dderbyn."

> “allwn i ddim gwneud fy swydd heb y cymhwyster… does neb yn holi am y benthyciad mewn ceisiadau am forgais.”

> “roeddwn i’n meddwl amdano fel pedwaredd flwyddyn… roedd llawer o'm ffrindiau’n wyddonwyr a oedd yn dilyn cyrsiau pedair blynedd, felly roedd yn gwneud synnwyr i mi.”

Roedd y farn am ddyled myfyrwyr yn amlwg wedi dylanwadu ar benderfyniadau rhai myfyrwyr ynghylch hyd y cwrs, y pwnc a'r lleoliad, er nad oedd wedi'u hatal rhag cofrestru. Dewisodd rhai gyrsiau byrrach yn fwriadol er mwyn cyfyngu ar ffioedd dysgu a chostau byw, ac roedd eraill yn cydbwyso ffactorau ymarferol fel ymrwymiadau teuluol, gwaith a gofynion achredu wrth ddewis prifysgol. Roedd un myfyriwr wedi ystyried cyllid gan gyflogwr ond penderfynodd ariannu ei hun drwy fenthyciad er mwyn sicrhau annibyniaeth broffesiynol:

> “pe bawn i wedi astudio’n llawnamser, byddwn i wedi gorfod cymryd y benthyciad… a dyna pam y penderfynais i, 'reit, cwrs rhan-amser amdani'.”

> “dim ond cyrsiau blwyddyn wnes i edrych arnyn nhw ond roedd eithaf tipyn o gyrsiau'n rhai dwy flynedd.”

> “fy mhrif bryder oedd cael y cwrs a fyddai’n rhoi’r sgiliau a’r profiad sydd eu hangen arnaf i gael swydd yn y maes.”

> “gallwn i fod wedi mynd drwy un y cwmni, ond wedyn roeddwn i'n teimlo pe bawn i’n mynd drwy un y cwmni, gallai hynny fod wedi fy nghlymu iddyn nhw. Drwy ei wneud yn annibynnol, gallaf drafod fy nghyflog a dod o hyd i swydd well yn rhywle.”

Fodd bynnag, er eu bod yn derbyn bod benthyciadau'n angenrheidiol roedd llawer o fyfyrwyr yn teimlo'n bryderus pan welsant faint y ddyled neu pan oeddent yn meddwl am reolau llog ac ad-dalu. Roedden nhw'n poeni am ad-dalu benthyciadau ar incwm isel neu orfod cyfaddawdu gyda phethau fel pensiynau. I eraill, roedd y ddyled yn cael ei hystyried yn dreth ar raddedigion a ddeuai allan o'u cyflog, gan wneud iddi deimlo'n llai o faich:

> “mae’n eithaf brawychus, pan fyddwch chi’n mewngofnodi ac yn gweld faint sydd arnoch chi.”

> “roedd y swm roeddwn i’n ei dalu am y benthyciad yn golygu nad oeddwn i’n talu cymaint ag y gallwn i mewn i bensiwn… yn ddiweddarach efallai y byddaf yn meddwl nad dyna oedd y penderfyniad iawn.”

> “rwy'n byw yng Ngogledd Cymru, a dydy'r sefyllfa o ran gwaith ddim yn wych, felly dwi'n nerfus ynghylch a fydda i’n ennill digon i allu ad-dalu'r benthyciad.”

> “rwy’n ei weld yn fwy fel treth yn hytrach na dyled mewn ffordd, er mwyn cael swydd sy’n talu’n well a chyfleoedd gwell, gobeithio… rydych chi’n ei ad-dalu o'ch cyflog, a dydw i ddim yn meddwl ei fod mor ddrwg â hynny oherwydd ei fod yn dod allan o'ch cyflog cyn i chi gael yr arian.”

Nododd myfyrwyr a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws hefyd nad oedd y system fenthyca bob amser yn ystyried amgylchiadau bywyd. Bu’n rhaid i rai roi’r gorau i gyrsiau neu ailgychwyn cyrsiau oherwydd problemau iechyd meddwl neu broblemau eraill ond roedd ganddynt ddyled o hyd:

> “mae'n achosi llawer iawn o straen. Mae'n gwneud i mi deimlo fel bod gen i lawer o ddyled a dim byd i'w ddangos amdano ... er iddyn nhw ddileu cyllid blaenorol ... mae'r ddyled gen i o hyd."

Er gwaethaf y pryderon hyn, roedd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn teimlo y byddai modd ymdopi â'u benthyciad oherwydd bod ad-daliadau’n gysylltiedig ag incwm ac nad oedd y ddyled yn effeithio ar sgoriau credyd. Disgrifiodd rhai ddyled fel rhywbeth a oedd yn bodoli yn y cefndir: nid oedd yn ddelfrydol, ond roedd yn deg ac yn angenrheidiol er mwyn iddynt gwblhau eu hastudiaethau:

> “dydy e ddim yn effeithio ar fy sgôr credyd… mae'n rhywbeth y gallaf ymdopi ag ef. Rwy'n nerfus i weld faint fydd yn dod allan o'm cyflog.”

> “nid yw cael dyled yn ddelfrydol… ond mae'n system eithaf teg.”

## 9.10. Myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser

Cafwyd nifer bach o ymatebion i'r arolwg gan fyfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser eraill (27 ymateb) h.y. y rhai a oedd yn astudio cymhwyster arall heblaw cwrs meistr a addysgir. O ystyried maint bach y sampl hon, rydym yn amlinellu'r prif negeseuon a godwyd gan y grŵp hwn yn yr adran hon ond yn ychwanegu bod y canfyddiadau'n debyg i'r rhai a amlinellwyd eisoes yn y bennod hon:

- y rheswm pwysicaf dros astudio eu cwrs yn rhan-amser oedd yr angen i weithio tra roeddent yn astudio, ac yna gyfrifoldebau teuluol neu ofalu a'r ffaith nad oeddent yn gallu fforddio astudio'n llawnamser
- disgrifiodd y rhan fwyaf eu profiad fel myfyriwr ôl-raddedig rhan-amser fel gwych (37%) neu dda iawn (22%) ac roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod eu prifysgol wedi gallu diwallu eu hanghenion fel myfyriwr ôl-raddedig rhan-amser yn dda iawn (56%) neu'n weddol dda (26%)
- darparu darlithoedd wedi'u recordio ac adnoddau digidol oedd y brif ffordd yr oedd eu prifysgol wedi diwallu eu hanghenion fel myfyriwr rhan-amser
- roedd pob un ond 2 wedi derbyn benthyciad neu grant myfyrwyr i'w helpu gyda ffioedd dysgu'r brifysgol a chostau byw, ac roedd hyn wedi bod yn bwysig iawn i'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn
- roedd tri chwarter y myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser yn teimlo eu bod yn deall cyllid myfyrwyr, ond nid felly tua chwarter ohonynt
- roedd y mwyafrif helaeth (85%) yn pryderu am dalu eu costau byw tra roeddent yn astudio'n rhan-amser
- roedd cyfran debyg (84%) hefyd yn bryderus ynghylch faint o ddyled benthyciad myfyrwyr fyddai ganddynt o ganlyniad i'w hastudiaethau AU.

# 10. Canfyddiadau o'r gwaith maes gyda rhanddeiliaid a staff Darparwyr AU

Mae'r bennod hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwaith maes gyda Darparwyr AU a rhanddeiliaid. Yn gyntaf mae'n ystyried rhai themâu strategol a godwyd gan y cyfranwyr hyn cyn troi i drafod eu myfyrdodau ar faterion yn ymwneud ag ehangu mynediad i AU a chryfhau darpariaeth ran-amser ac ôl-raddedig.

Cyfrannodd deg Darparwr AU at y gwaith maes. Roedd 8 yn SAUau a 2 yn SABau. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda 7 Darparwr AU a chyflwynwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan 4 Darparwr AU. Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd 2 drafodaeth grŵp ffocws – un gydag Is-Gangellorion a oedd yn bresennol yn un o gyfarfodydd Prifysgolion Cymru ac un arall gydag arweinwyr y rhaglen Ymestyn yn Ehangach.

Cyfwelwyd â rhanddeiliaid mewn 2 gylch: cynhaliwyd cyfweliadau cwmpasu cychwynnol gyda rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, Medr, Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, Prifysgolion Cymru ac NYAS Cymru), a chynhaliwyd cyfweliadau pellach yn ystod yr astudiaeth gyda Phrifysgolion Cymru, NUS Cymru, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Gyrfa Cymru, CLASS Cymru a Voices from Care.

## 10.1. Materion strategol

### 10.1.1. Yr hyn yr oedd disgwyl i Ddiwygiadau Diamond ei gyflawni

Disgrifiodd y rhanddeiliaid a'r Darparwyr AU Ddiwygiadau Diamond yn gyson fel ymarfer ailstrwythuro mawr o gyllid myfyrwyr a chyllid AU yng Nghymru, gyda'r nod o wneud AU yn fwy hygyrch a chyfartal. Pwysleisiodd sawl un a gyfwelwyd fod y diwygiadau wedi'u cynllunio i roi'r gorau i ddarparu cymorth ar ffurf cymorthdaliadau ffioedd dysgu a gwneud mwy o ddefnydd o grantiau a benthyciadau cynhaliaeth yn lle hynny, gyda'r nod o ehangu cyfranogiad a lleihau rhwystrau ariannol i ddysgwyr sydd â'u domisil yng Nghymru.

Amlygodd y rhanddeiliaid a'r Darparwyr AU y pwyslais cryf yn y diwygiadau ar wella cymorth i fyfyrwyr rhan-amser ac ôl-raddedig. Ystyriwyd y newidiadau hyn yn eang fel cam cadarnhaol tuag at annog astudio hyblyg a hyrwyddo dysgu gydol oes.

Roedd y sector AU hefyd yn gweld y diwygiadau fel ymdrech gan Lywodraeth Cymru i sefydlu model cyllido mwy cynaliadwy a chydlynol ar gyfer prifysgolion - un a oedd yn cyd-fynd yn well â'r system yn Lloegr ond a oedd hefyd yn cynnal ymrwymiad cryf i degwch a mynediad. Roedd Darparwyr AU yn rhagweld y byddai digon o gyllid grant yn cael ei ddarparu i dalu am addysg israddedig llawnamser mewn pynciau cost uchel, ochr yn ochr â thaliadau atodol pro rata ar gyfer cyrsiau rhan-amser cost uchel. Roeddent hefyd yn disgwyl i'r diwygiadau sicrhau bod digon o gyllid ar gael i gefnogi gwaith ymchwil ac i sefydlu model cyllido cynaliadwy ar gyfer prifysgolion.

Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid a Darparwyr AU fel ei gilydd yr heriau o wahanu effaith benodol Diwygiadau Diamond oddi wrth ffactorau ehangach sy'n effeithio ar gyfranogiad mewn AU. Roedd Brexit, y pandemig COVID-19, pwysau economaidd parhaus, newidiadau yn y boblogaeth, newid yn nhueddiadau'r farchnad myfyrwyr rhyngwladol, a chostau byw cynyddol oll yn ffactorau y credir eu bod wedi effeithio ar dueddiadau cofrestru myfyrwyr ers i'r diwygiadau gael eu cyflwyno. Credwyd bod y dylanwadau allanol hyn yn ystyriaethau

pwysig yr oedd angen rhoi sylw iddynt wrth asesu effeithiau'r diwygiadau a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Yn olaf, nododd y rhanddeiliaid a'r Darparwyr AU, er bod Diwygiadau Diamond yn cael eu hystyried yn flaengar ar y pryd ac wedi cael eu croesawu'n gyffredinol, nad oeddent yn credu bod unrhyw ddiweddariadau mawr wedi bod i gyllid myfyrwyr na threfniadau cyllido AU ers eu cyflwyno. Felly, cododd y rhai a gyfwelwyd bryderon nad yw'r system gymorth bresennol bellach yn cyd-fynd yn dda â'r amgylchiadau yn yr oes sydd ohoni, yn enwedig o ystyried yr amgylchedd ariannol cynyddol heriol a chostau byw sy'n parhau i godi.

### 10.1.2. Gweithredu Diwygiadau Diamond yn rhannol

Rhybuddiodd y sector AU, er bod Diwygiadau Diamond wedi ailwampio trefniadau cyllid myfyrwyr, bod eu heffaith ar strwythurau cyllido AU ehangach wedi bod yn fwy cyfyngedig. Priodolwyd hyn yn rhannol i'r ffaith na chafodd yr holl argymhellion eu gweithredu'n llawn nac yn unol â'r bwriad gwreiddiol. Ni welwyd bod y cynnydd disgwyliedig mewn cyllid AU, a elwir yn aml yn 'ddifidend Diamond'. O ganlyniad, dadleuodd y sector, er bod y diwygiadau wedi cynyddu'r galw am AU, nad oeddent wedi cynyddu'r ddarpariaeth.

Nododd y sector hefyd, pan gyflwynwyd Diwygiadau Diamond, fod £310 miliwn wedi'i ddarparu i AU, gydag argymhelliad y dylid diweddaru'r ffigur hwn yn flynyddol yn unol â chwyddiant. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Brifysgolion Cymru, er bod cyllid wedi gostwng yn 2017/18, fod lefelau cyllido blynyddol wedi codi tan 2021/22 (heb gynnwys cymorth COVID-19 ychwanegol yn ystod y flwyddyn) ond eu bod wedi gostwng ers hynny. Tynnodd Prifysgolion Cymru sylw at y ffaith, pe bai chwyddiant a'r rhagdybiaethau sy'n sail i Ddiwygiadau Diamond yn cael eu cymhwyso, y dylai cyllid grant Medr gyrraedd o leiaf £427 miliwn erbyn 2025/26. Fodd bynnag, adroddwyd bod y cyllid cyfredol yn llai na hanner y lefel honno, sef £198 miliwn. O ganlyniad, mae'r sector dan bwysau i leihau costau ac mae'n dileu swyddi, gan gyfyngu ar ei allu i gyflawni polisïau ac amcanion Llywodraeth Cymru.

Tynnodd SABau sylw hefyd at annhegwch yn y trefniant cyllido rhwng colegau a phrifysgolion mewn perthynas ag AU, gyda SABau yn nodi eu bod yn derbyn llai o gymorth cyllido na'u cymheiriaid i ddarparu cyrsiau AU.

Yng ngoleuni hyn, galwodd y sector AU am adolygiad annibynnol o drefniadau cyllido prifysgolion a chymorth cyllid myfyrwyr.

### 10.1.3. Cwmpas yr astudiaeth ymchwil hon

Cwestiynodd y sector AU hefyd gwmpas cul yr astudiaeth ymchwil hon, gan nodi y byddai canolbwyntio ar ddim ond tair elfen benodol o Ddiwygiadau Diamond ond yn arwain at ddealltwriaeth rannol o effaith y diwygiadau a'u perthnasedd parhaus. Byddai cynrychiolwyr o'r sector AU yn croesawu mwy o ffocws yn yr ymchwil ar y gostyngiad yng nghyfradd y bobl ifanc 18 oed sy'n mynd ymlaen i AU, sy'n bryder mawr ar hyn o bryd. Awgrymwyd bod llawer o'r heriau sy'n wynebu'r sector heddiw yn mynd ymhell y tu hwnt i'r rhai sy'n effeithio ar fyfyrwyr o gefndiroedd sy'n gymwys ar gyfer y rhaglen ehangu mynediad: “Rwy'n ei chael hi'n anodd deall pam yr ymdrinnir â hyn drwy Ddiwygiadau Diamond, pan fo cymaint wedi newid o’n cwmpas ni.”

Mater arall yn ymwneud â chwmpas yr ymchwil a godwyd gan rai staff yn y sector AU oedd ffocws cryf yr ymchwil ar gyfranogiad ac ymgysylltiad myfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y rhaglen ehangu mynediad, yn hytrach nag ar yr hyn sy'n digwydd ar ôl iddynt fynd ymlaen i AU. Dadleuodd y rhai a gyfwelwyd fod cynnydd, cyfraddau cadw a chwblhau astudiaethau'n llwyddiannus yn ystyriaethau yr un mor bwysig, ac y byddai asesiad mwy cyflawn o berthnasedd parhaus y diwygiadau yn gofyn am archwilio'r deilliannau hyn ochr yn ochr â thueddiadau cyfranogi cychwynnol.

## 10.2. Ehangu mynediad i AU

Mae'r adran hon yn ystyried barn rhanddeiliaid a staff AU ar effaith Diwygiadau Diamond ar ehangu mynediad i AU, gyda ffocws penodol ar yr effaith ar nifer y myfyrwyr israddedig a'u proffil. Er mwyn deall y safbwyntiau hyn, mae'n bwysig nodi bod Darparwyr AU wedi adrodd bod cyfraddau dechreuwyr ar gyrsiau israddedig llawnamser sydd â'u domisil yng Nghymru wedi cynyddu yn dilyn Diwygiadau Diamond, gan gyrraedd uchafbwynt yn 2021/22. Fodd bynnag, ers hynny mae'r cyfraddau hyn wedi gostwng islaw'r lefelau a welwyd cyn y diwygiadau. Tynnodd Prifysgolion Cymru sylw hefyd at y bwlch mewn cyfraddau dechreuwyr israddedig 18 oed rhwng Cymru a'r DU a gyrhaeddodd 7% yn 2025/26, y mwyaf a gofnodwyd erioed.

### 10.2.1. Priodoldeb y cyllid i fyfyrwyr

Roedd y rhai a gafodd eu cyfweld yn croesawu'r ffaith bod mwy o gymorth grant wedi cael ei gyflwyno i israddedigion llawnamser o ganlyniad i'r diwygiadau, gan nodi ei fod yn gwella mynediad i fyfyrwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod trothwyon incwm aelwydydd a lefelau grant wedi aros yn eu hunfan ers 2018/19 wedi lleihau nifer y myfyrwyr sy'n gymwys i gael uchafswm y grant cynhaliaeth. O ganlyniad, mae grantiau bellach yn cyfrif am gyfran lai o'r pecyn cymorth cyffredinol. Roedd un sefydliad rhanddeiliaid o'r farn bod hyn yn cael effaith negyddol iawn ar gofrestriadau israddedigion, yn enwedig o ran myfyrwyr o aelwydydd incwm isel.

Roedd y rhanddeiliaid a'r Darparwyr AU fel ei gilydd yn croesawu'r ffaith bod Diwygiadau Diamond wedi arwain at ddarparu pecyn cymorth i fyfyrwyr a oedd yn cyd-fynd â chostau byw. Yn unol ag argymhellion Diamond, roedd cymhwystra ar gyfer y benthyciad cynhaliaeth i israddedigion wedi'i gysylltu'n wreiddiol â'r Cyflog Byw Go Iawn. Fodd bynnag, arweiniodd pryderon ynghylch fforddiadwyedd at newid i ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr o'r flwyddyn academaidd 2023/24 ymlaen. O ganlyniad, dadleuodd y rhai a gyfwelwyd nad yw cyllid myfyrwyr wedi cynyddu i gyd-fynd â'r cynnydd mewn costau. Er enghraifft, bellach mae costau llety yn aml yn fwy na gwerth benthyciadau cynhaliaeth, gan olygu bod yn rhaid i lawer o fyfyrwyr gymryd swyddi rhan-amser ochr yn ochr â'u hastudiaethau.

O ganlyniad i'r diwygiadau, pwysleisiodd y rhanddeiliaid a'r Darparwyr AU fod Cymru yn gallu cynnig pecyn cymorth mwy hael i fyfyrwyr na'r hyn sydd ar gael i fyfyrwyr sydd â'u domisil yn Lloegr. Fodd bynnag, tynnodd y rhanddeiliaid a'r Darparwyr AU sylw at y ffaith, er gwaethaf y pecyn cymorth mwy hael hwn, fod y bwlch cyfranogiad sy'n ehangu rhwng Cymru a Lloegr ymysg israddedigion yn awgrymu bod ffactorau eraill yn dylanwadu ar agweddau ac ymddygiad. Galwodd nifer o'r rhai a gyfwelwyd am ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol hyn. Ynghyd â'r pwynt hwn, tynnodd rhanddeiliaid sylw

hefyd at y ffaith, er bod pecyn cyllid mwy hael yn lleihau pwysau ariannol uniongyrchol ar fyfyrwyr, y gall hefyd gynyddu cyfanswm y ddyled y mae rhai myfyrwyr yn ei chronni ac y byddai angen iddynt ei had-dalu yn y pen draw.

### 10.2.2. Ffactorau sydd i'w cyfrif am y bwlch mewn cyfranogiad

Mae'r adran hon yn trafod rhai o'r ffactorau ariannol, cymdeithasol a strwythurol a nodwyd gan randdeiliaid a Darparwyr AU fel rhai sy'n cyfrannu at y bwlch sy'n ehangu mewn cyfranogiad.

Thema gref, a godwyd yn arbennig gan y rhai sy'n ymwneud â chyflawni'r cynllun ehangu mynediad a chefnogi myfyrwyr, oedd ymdeimlad cynyddol o ansicrwydd ymhlith pobl ifanc ynghylch a ydynt eisiau cyfranogi mewn AU. Awgrymodd rhanddeiliaid fod nifer cynyddol o bobl ifanc yn cwestiynu ai prifysgol yw'r dewis cywir iddyn nhw, yn hytrach na thybio bod cyfranogi yn llwybr diofyn.

Mae rhai o'r pryderon hyn yn gysylltiedig ag ofnau ynghylch dyled cyllid myfyrwyr. Tynnodd y rhai a gyfwelwyd sylw at y ffaith bod hyn yn arbennig o amlwg ymhlith grwpiau penodol, fel dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, sy'n aml yn cael eu cynghori i osgoi dyled wrth iddynt baratoi i fyw'n annibynnol. I'r myfyrwyr hyn, gall cymryd benthyciadau myfyrwyr deimlo fel eu bod yn mynd yn groes i'r arweiniad y maent wedi'i gael, er gwaethaf y ffaith bod dyled myfyrwyr yn cael ei hystyried yn fath o 'ddyled dda', yn debyg i forgais. Mae rhai dysgwyr yn gweld dyled fel problem, ac mae rhanddeiliaid yn teimlo bod hyn yn eu hatal rhag cyfranogi mewn AU. Adroddodd y rhai a oedd yn darparu mentrau ehangu mynediad fod ofn dyled yn thema sy’n codi dro ar ôl tro ymhlith dysgwyr a theuluoedd, gyda llawer yn cysylltu'r brifysgol â “dyled am oes”. Felly mae llawer o waith y Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth glir a chyson am gyllid myfyrwyr, a hynny ar gam cynnar:

> “mae’n rhaid i ni siarad am gyllid heb godi ofn arnyn nhw – gan ddangos mai cymorth ydyw, nid dyled. Mae'n rhaid dechrau cyfleu'r neges honno'n gynnar.”

Yn gysylltiedig â hyn, nododd y rhanddeiliaid fod trefniadau cyllid myfyrwyr wedi mynd yn fwyfwy cymhleth i ddarpar fyfyrwyr a'u teuluoedd, sefyllfa sy'n cael ei gwaethygu yng Nghymru gan wahaniaethau yn y cymorth i fyfyrwyr sydd â'u domisil yn Lloegr.

Fodd bynnag, nid yw pob pryder yn ymwneud â materion ariannol. Disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd gynnydd mewn pryder cymdeithasol ymhlith pobl ifanc ar ôl y pandemig, gan gynnwys pryderon ynghylch gadael cartref, byw'n annibynnol, a rheoli llwythi gwaith academaidd. Mae darpar fyfyrwyr bellach yn gofyn mwy o gwestiynau am gymorth iechyd meddwl, asesiadau niwroamrywiaeth, a gwasanaethau llesiant:

> “nid arian yn unig sy'n eu poeni nhw; maen nhw'n poeni am sut y byddan nhw'n ymdopi.”

Tynnodd y rhanddeiliaid a'r Darparwyr AU sylw hefyd at ffactorau systemig a strwythurol sy'n effeithio ar gofrestru, a'i bod yn anodd gwahanu hynny oddi wrth effaith Diwygiadau Diamond. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys presenoldeb is yn yr ysgol ers y pandemig, yr ystyriwyd ei fod, yn ei dro, wedi effeithio ar gyflawniad academaidd a gallu myfyrwyr i fodloni gofynion mynediad i'r brifysgol; cynnydd yn nifer y dysgwyr Lefel UG nad ydynt yn symud ymlaen i astudio pynciau Safon Uwch; cynnydd mewn problemau ymddygiad a llesiant, yr

ystyriwyd eu bod yn effeithio ymhellach ar berfformiad academaidd; a chynnydd sylweddol mewn addysg ddewisol yn y cartref, sydd wedi newid y gronfa o fyfyrwyr sy'n mynd ymlaen i AU. O ganlyniad, galwodd y cyfranwyr am fynd i'r afael â'r materion hyn yn llawer cynharach er mwyn atal a gwrthdroi'r dirywiad parhaus yng nghyfranogiad myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru mewn AU.

### 10.2.3. Natur y cymorth ehangu mynediad a ddarperir

Dywedodd Darparwyr AU eu bod yn darparu ystod eang o gymorth ariannol, academaidd a llesiant gyda'r nod o ehangu mynediad a gwella cyfraddau cadw myfyrwyr, yn enwedig dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig neu annhraddodiadol.

Mae manylion gweithgareddau ehangu mynediad penodol i'w gweld yng Nghynlluniau Ffioedd a Mynediad prifysgolion, a gyhoeddir ar eu gwefannau. Ni chafodd y cynlluniau hyn eu hadolygu fel rhan o'r astudiaeth hon; felly dim ond enghreifftiau dethol y mae'r adran hon yn eu darparu i ddangos y mathau o weithgareddau a ddarperir gan Ddarparwyr AU.

Cydnabu'r Darparwyr AU y gofyniad i gyrraedd y targedau a amlinellir yn y Cynlluniau Ffioedd a Mynediad, sy'n cynnwys gwario cyfran o incwm ffioedd dysgu ar fentrau sy'n cefnogi myfyrwyr o gefndiroedd sy'n gymwys ar gyfer y rhaglen ehangu cyfranogiad. Fodd bynnag, cafwyd neges gyson gan Ddarparwyr AU a sefydliadau rhanddeiliaid bod cyllid ar gyfer cymorth i fyfyrwyr yn gyfyngedig, yn enwedig ar gyfer darpariaethau AU o fewn SABau. Ystyrir bod cyflawni'r gweithgareddau hyn yn gofyn am lawer o adnoddau a'u bod yn anodd eu cynnal o dan y cyfyngiadau cyllido presennol.

Mae'r ddarpariaeth ehangu mynediad yn dod o dan dair prif thema: codi ymwybyddiaeth a dyheadau, cymorth ar gyfer ceisiadau a derbyniadau, a pharhad a chyrhaeddiad. Trafodir y tri hyn yn eu tro.

*Codi ymwybyddiaeth a dyheadau*

Mae gweithgareddau codi ymwybyddiaeth a dyheadau yn cynnwys ymweliadau ag ysgolion, sesiynau ymgysylltu â rhieni, ysgolion haf, a chyrsiau blasu.

Mae'r gweithgareddau a gyflwynir drwy'r Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach hefyd yn dod o dan y faner hon. Mae gweithgareddau'r Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach yn amrywio yn ôl rhanbarth ond maent yn cynnwys ymweliadau â champysau, profiadau preswyl, rhaglenni mentora, sesiynau blasu mewn pynciau fel STEM a gwyddorau iechyd, a darpariaeth yn y gymuned i ddysgwyr sy'n oedolion. Nod y gweithgareddau hyn yw "egluro dirgelwch bywyd prifysgol" a chodi uchelgeisiau.

*Ceisiadau a derbyniadau*

O dan y thema hon, dywedodd y Darparwyr AU fod ganddynt brosesau sefydledig ar gyfer cefnogi darpar fyfyrwyr wrth iddynt wneud cais neu ystyried gwneud cais i brifysgolion. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys cynnig derbyniadau cyd-destunol, cydnabod profiadau dysgu blaenorol yn ymwneud â chymwysterau annhraddodiadol, darparu Graddau Sylfaen a chyrsiau Mynediad i AU, modiwlau blasu ac opsiynau dysgu hyblyg.

*Parhad a chyrhaeddiad*

O dan y thema hon, adroddodd Darparwyr AU eu bod yn darparu cymorth ariannol ar ffurf bwrsariaethau a chronfeydd caledi. Dyma rai enghreifftiau:

- ysgoloriaethau dilyniant ar gyfer myfyrwyr colegau AB sy'n mynd ymlaen i AU
- bwrsariaethau ac ysgoloriaethau a gwobrau wedi'u targedu ar gyfer myfyrwyr fel y rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal, rhieni, gofalwyr, cyn-filwyr anabl, myfyrwyr noddfa a myfyrwyr â chodau post mewn ardaloedd o amddifadedd
- cymorth ar gyfer cyfarpar digidol a bwrsariaethau ar gyfer costau cyrsiau i helpu gyda deunyddiau astudio
- cronfeydd caledi a ddefnyddir yn aml i bontio rhwng oedi mewn taliadau cyllid myfyrwyr neu fylchau mewn cyllid gofal plant.

Pwysleisiodd y Darparwyr AU hefyd eu darpariaeth cymorth llesiant i fyfyrwyr presennol. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- timau llesiant ymroddedig sy'n cynnig gwasanaeth cwnsela, sesiynau grŵp, a systemau brysbennu ar gyfer atgyfeirio cyflym
- pecynnau croeso ar gyfer carfannau penodol fel gofalwyr ifanc, y rhai sy'n gadael gofal a myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio
- llinellau cymorth 24/7 a chyngor cyfrinachol ar iechyd meddwl a materion cyfreithiol
- mynediad at apiau llesiant
- unedau cymorth dysgu a thimau ADY sy'n cynnig sgrinio ar gyfer dyslecsia, apiau cynhwysiant, ac asesiad cynnar cyn cofrestru
- rhwydweithiau cymorth gan gyfoedion a chymorth gan diwtor personol gyda chyfarfodydd un-i-un rheolaidd.

Dywedodd rhai prifysgolion eu bod hefyd yn integreiddio llesiant i'r cwricwlwm, gyda chymorth wedi'i dargedu yn ystod cyfnodau o straen mawr (e.e. adeg y Nadolig). Roedd undebau myfyrwyr hefyd yn gweithredu banciau bwyd a gwasanaethau galw heibio er mwyn mynd i'r afael ag anghenion ariannol neu lesiant uniongyrchol.

### 10.2.4. Effeithiolrwydd cymorth ehangu mynediad

Yn gyffredinol, roedd Darparwyr AU o'r farn bod eu mentrau ehangu mynediad yn cael effaith gadarnhaol bendant ar fyfyrwyr, er bod yr effeithiau'n amrywio rhwng sefydliadau ac ar draws gwahanol garfannau o fyfyrwyr.

Credwyd bod yr effeithiau ar eu cryfaf pan fyddai cymorth ariannol, academaidd a llesiant yn cael ei hintegreiddio mewn ffordd gydlynol. Fodd bynnag, neges allweddol gan Ddarparwyr AU oedd bod cyllido ymyriadau ehangu mynediad yn parhau i fod yn heriol.

Roedd consensws ymhlith Darparwyr AU a rhanddeiliaid bod y cymorth llesiant ac academaidd a ddarperir i fyfyrwyr cofrestredig yn ddigonol ac yn hynod effeithiol yn gyffredinol. Ystyriwyd yn eang bod Darparwyr AU yn gwneud gwaith da yn y maes hwn, yn enwedig o ran cefnogi myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys myfyrwyr anabl, y rhai ag ADY, dysgwyr aeddfed, a myfyrwyr rhan-amser. Ystyriwyd bod cymorth ar gyfer llesiant a sgiliau astudio yn hanfodol er mwyn cadw myfyrwyr, ac awgrymodd y cyfranwyr y byddai'r niferoedd a fyddai'n rhoi'r gorau i'w cwrs yn debygol o fod yn llawer uwch heb yr ymyriadau hyn.

I’r gwrthwyneb, roedd yn anoddach barnu effeithiolrwydd ymyriadau cynharach a oedd yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a dyheadau, o ystyried natur hirdymor yr effaith y bwriadwyd iddynt ei chael. Er y gellid dangos bod mentrau o'r fath yn gwella ymgysylltiad a chanlyniadau tymor byr, nododd Darparwyr AU heriau o ran mesur eu heffeithiau tymor hwy. Mae mesur y gwahaniaeth a wneir gan ymyriadau cynnar yn cael ei gymhlethu ymhellach gan ddylanwad ffactorau eraill a natur anuniongyrchol llawer o weithgareddau. Galwodd y cyfranwyr am fframwaith cenedlaethol mwy cyson neu system olrhain hydredol i ddangos tystiolaeth o effeithiolrwydd gweithgareddau ehangu mynediad, gan gynnwys darpariaeth y Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach.

Credwyd hefyd mai cyfyngiadau ariannol ar draws y sector oedd wedi cael yr effaith fwyaf negyddol ar yr ymyriadau cynnar hyn. Adroddodd Darparwyr AU y gallent wneud mwy yn y maes hwn pe bai adnoddau ychwanegol ar gael.

Pwysleisiodd sawl cyfrannwr nad yw cymorth ariannol yn unig yn ddigonol yn aml. Gan gyfeirio at astudiaethau a phrofiad sefydliadol, dywedwyd nad oedd bwrsariaethau ar eu pen eu hunain yn cael fawr o effaith ar y niferoedd a oedd yn rhoi'r gorau i'w cwrs nac ar lwyddiant myfyrwyr. Yn hytrach, mae cymorth ariannol ar ei fwyaf effeithiol pan gaiff ei gyfuno fel rhan o “becyn cofleidiol” sy’n cynnwys gofal bugeiliol, mentora, tiwtora a chyfathrebu clir. Fel y crynhodd un cyfranogwr: “Mae arian yn bwysig, ond nid dyma'r ateb cyfan byth - mae ymdeimlad o berthyn, cred ynddyn nhw eu hunain a pherthnasoedd yn bwysicach.” Esboniodd cyfrannwr arall: “Fe wnaethom roi arian iddyn nhw a chanfod nad oedd hynny'n newid y deilliannau - yr hyn wnaeth helpu oedd cael rhywun ar y campws a oedd yn deall eu sefyllfa ac a allai ymyrryd yn gynnar.” Adleisiodd cyfranwyr eraill y farn hon, gan nodi, er y gall cymorth ariannol leddfu pwysau tymor byr, anaml y mae'n mynd i'r afael â heriau dyfnach fel cyfrifoldebau gofalu, iechyd meddwl gwael, ynysu, neu ddiffyg hyder. Gwelwyd bod ymyriadau personol ac ymyriadau wedi'u teilwra yn cael mwy o effaith. Fel y nododd un o'r rhai a gyfwelwyd: “Pan fydd rhywun yn gwybod eu stori ac yn gweithredu’n gyflym, dyna sy’n eu cadw nhw yma. Nid y bwrsari, ond y person.”

Roedd y pwynt olaf a wnaed gan rai Darparwyr AU wrth ystyried effeithiolrwydd darpariaeth ehangu mynediad yn ymwneud ag anghenion dysgwyr aeddfed a rhan-amser, sy'n aml yn cydbwyso ymrwymiadau gwaith ac ymrwymiadau teuluol, ac sy'n elwa o allu manteisio ar fodelau hyblyg fel darpariaeth un diwrnod yr wythnos a dull cyllido rhan-amser yn seiliedig ar gredydau. O'r herwydd, dadleuwyd y dylai'r gweithgaredd ehangu mynediad fod yn llawer ehangach na darparu cymorth ariannol a chymorth llesiant, gan y dylid ei ymgorffori yn y ffordd y sicrheir bod y ddarpariaeth ar gael mewn ffordd hyblyg.

#### 10.2.5. Effaith Diwygiadau Diamond ar allu Darparwyr AU i ehangu mynediad i AU

Roedd y rhan fwyaf o Ddarparwyr AU yn cael anhawster darparu tystiolaeth uniongyrchol bod Diwygiadau Diamond wedi cynyddu nifer y myfyrwyr o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n mynd ymlaen i AU. Mynegodd rhai bryder y gallai'r lleihad yn nifer y ceisiadau wneud hyn yn fwy heriol yn y dyfodol. Er gwaethaf hyn, adroddwyd am rai enghreifftiau cadarnhaol. Dywedodd un SAU ei fod wedi llwyddo i gynnal niferoedd y myfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is sydd â'u domisil yng Nghymru a dderbyniwyd, fel y'i mesurwyd gan y MALIC. Tynnodd un arall sylw at y ffaith bod gwell cymorth cynhaliaeth

wedi galluogi'r sefydliad i roi sicrwydd i ddysgwyr bod astudio mewn prifysgol yng Nghymru yn ariannol hygyrch, gan awgrymu y byddai ehangu mynediad wedi bod yn anoddach heb y diwygiadau. Fodd bynnag, nodwyd hefyd, oherwydd nad yw'r model cyllido yn mynd i'r afael â rhwystrau ariannol cyn ymgeisio, bod effaith y diwygiadau ar benderfyniadau cychwynnol i gyfranogi yn parhau i fod yn gyfyngedig.

Roedd y neges gan y Brifysgol Agored yn wahanol iawn, fodd bynnag. Mae ei holl fyfyrwyr yn fyfyrwyr rhan-amser, ac mae tua'u hanner yn fyfyrwyr sy'n rhan o'r rhaglen ehangu mynediad, gan gynnwys y rhai â chymwysterau blaenorol is, gofalwyr, a myfyrwyr anabl. O ystyried y twf yn nifer y myfyrwyr ers y diwygiadau, mae hyn yn arbennig o nodedig. Mae nifer y myfyrwyr sy'n rhan o'r rhaglen ehangu mynediad (y rhai yn y ddau gwintel isaf) wedi cynyddu'n gyflymach na'r cofrestriadau cyffredinol, sef cynnydd o 168%. Mae'r myfyrwyr hyn bellach yn cyfrif am 54% o gofrestriadau israddedigion newydd. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig i'r gwaith ymchwil hwn, adroddodd y Brifysgol Agored nad oes gan 42% o'i myfyrwyr gymwysterau mynediad traddodiadol, bod 29% yn anabl, bod gan 15% statws gofalwr ffurfiol, a bod 48% yn byw yn ardaloedd â'r lefelau uchaf o amddifadedd yng Nghymru. Dadleuodd y Brifysgol Agored hefyd fod Diwygiadau Diamond wedi cyfrannu at gynnydd sylweddol yng nghroestoriadedd ac amrywiaeth ei myfyrwyr. At hynny, er i gofrestriadau rhan-amser gynyddu ar draws y Brifysgol Agored yn ystod y pandemig, mae Cymru wedi parhau i weld twf mewn cofrestriadau rhan-amser ers hynny, tra bod gwledydd cartref eraill wedi gweld gostyngiad. Mae hyn yn awgrymu bod y diwygiadau, ynghyd â'r pecyn cyllid myfyrwyr mwy hael sydd ar gael i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru, yn helpu i wrthweithio tueddiadau cenedlaethol.

Awgrymodd 2 Ddarparwr AU fod rhaglenni prentisiaeth wedi bod yn fwy effeithiol o ran denu myfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol, yn enwedig gwrywod a oedd yn llai tebygol o fynd i'r brifysgol yn y gorffennol. Priodolwyd hyn i'r ffaith bod prentisiaethau'n cael eu cynnig mewn pynciau sy'n apelio at y dysgwyr hyn, fel peirianneg, cyfrifiadura ac adeiladu. Fel y dywedodd un cyfrannwr:

> “dydw i ddim yn credu y byddwn ni'n gweld cynnydd enfawr yn niferoedd y myfyrwyr sy'n rhan o'r rhaglen ehangu cyfranogiad. Ble rydyn ni'n gweld patrymau diddorol iawn o ran ehangu cyfranogiad yw mewn perthynas â phrentisiaethau.”

Mewn achosion eraill, adroddwyd bod darparu Graddau Sylfaen wedi bod yn bwysig o ran helpu i recriwtio myfyrwyr fel rhan o'r rhaglen ehangu mynediad, yn rhannol oherwydd eu bod yn aml yn cael eu hystyried yn fwy hygyrch na gradd anrhydedd lawn. Mae'r ffaith eu bod yn gyrsiau byrrach a'u ffocws galwedigaethol yn gwneud i AU deimlo'n llai brawychus i fyfyrwyr a allai fod yn ddihyder neu sydd wedi gadael addysg ers peth amser. Maent hefyd fel arfer yn cynnig gofynion mynediad mwy hyblyg, gan werthfawrogi profiad gwaith yn ogystal â chymwysterau ffurfiol, sy'n agor y drws i ystod ehangach o ddysgwyr.

#### 10.2.6. Sut y gellid ehangu mynediad i AU ymhellach

Mae'r adborth gan randdeiliaid a Darparwyr AU yn awgrymu y gellid cryfhau'r gweithgaredd ehangu mynediad i AU yng Nghymru mewn sawl ffordd:

- dylai ymdrechion i ehangu mynediad ddechrau'n gynharach er mwyn codi dyheadau a gwella'r ddealltwriaeth o AU. Pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen i ymgysylltu â dysgwyr pan fyddant yn llawer iau, gan nodi bod gan lawer o blant eisoes ymdeimlad o beth sy'n “addas i bobl fel fi” erbyn iddynt gyrraedd yn 11 oed. Er bod mentrau fel Ymestyn yn Ehangach wedi gwneud cynnydd, argymhellwyd trefniadau cydlynu cryfach ar draws y sector. Amlygwyd hefyd y dylid ehangu allgymorth drwy sefydliadau trydydd parti, yn debyg i fodelau llwyddiannus yn Lloegr fel UniConnect. Tynnodd sawl rhanddeiliad sylw hefyd at bwysigrwydd targedu athrawon o ystyried eu dylanwad hollbwysig ar bobl ifanc; gan y gall unrhyw ansicrwydd neu ddiffyg ymwybyddiaeth gan addysgwyr “dreiddio'n syth i lawr i ddisgyblion”
- darparu cymorth ariannol cyn ymgeisio. Gallai bwrsariaethau neu grantiau bach helpu i ddileu'r rhwystrau i ddysgwyr fynychu diwrnodau agored, cyrsiau preswyl, neu gyfweliadau mynediad, gan gefnogi mynediad i fyfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig.
- ehangu prentisiaethau gradd ar draws ystod ehangach o bynciau. Roedd rhanddeiliaid yn dadlau dros ymestyn prentisiaethau gradd y tu hwnt i STEM ac adeiladu i feysydd fel y celfyddydau, iechyd a busnes. Ystyriwyd bod y rhaglenni hyn yn llwybr effeithiol ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr annhraddodiadol
- hyrwyddo llwybrau AU galwedigaethol a lleol yn fwy effeithiol. Anogwyd ysgolion a cholegau i dynnu sylw at lwybrau galwedigaethol a llwybrau AU lleol, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan SABau, er mwyn sicrhau bod dysgwyr annhraddodiadol yn cael cynnig llwybrau sy'n addas i'w hanghenion
- diwygio cyllid myfyrwyr i gefnogi llwybrau astudio mwy hyblyg. Dadleuodd y rhai a gyfwelwyd y byddai darparu nifer o bwyntiau mynediad, yn hytrach na'u trefnu o amgylch y flwyddyn academaidd draddodiadol, o fudd i fyfyrwyr sy'n astudio'n rhan-amser, yn cymryd seibiannau gyrfa, neu sydd â chyfrifoldebau gofalu
- gwella'r cyfathrebu ynghylch cyllid myfyrwyr. Mae camddealltwriaeth o'r system Gymreig yn parhau ymhlith ysgolion, darpar fyfyrwyr, a rhieni a gwarcheidwaid, oherwydd ei chymhlethdod. Galwodd Darparwyr AU am ymgyrch gyfathrebu genedlaethol i ddarparu neges glir, syml, lefel uchel am y cynnig Cymreig i wrthweithio goruchafiaeth y cyfryngau yn Lloegr, sy'n tueddu i atgyfnerthu'r camsyniadau. Disgrifiwyd ymwybyddiaeth o’r gwahaniaethau rhwng systemau Cymru a Lloegr fel “syfrdanol o isel”, yn enwedig ymhlith teuluoedd nad oedd ganddynt unrhyw brofiad blaenorol o AU, ac mae llawer o'r camsyniadau’n aml “wedi hen sefydlu” erbyn Blwyddyn 12. Fel y nododd un cyfranogwr, “Mae'n becyn gwych, ond nid yw'n cael ei hyrwyddo'n ddigon da. Dydy'r neges ddim yn cyrraedd y bobl sydd angen ei chlywed fwyaf.” Roedd y cyfranwyr yn annog llunwyr polisïau i hyrwyddo neges Gymreig gryfach a mwy penodol gan bwysleisio cyfle, fforddiadwyedd a budd cymunedol, gydag un yn nodi, “Mae angen stori Gymreig glir a chadarnhaol arnom am AU, nid dim ond am yr hyn mae’n ei gostio, ond am yr hyn y mae’n ei roi yn ôl.”

Yn ogystal â'r camau gweithredu hyn, cafwyd galwad am newidiadau systemig sylfaenol mewn camau cynharach yn nhaith y dysgwr tuag at AU. Mae hyn yn cynnwys cynyddu cyfran y bobl ifanc 16 oed sy'n aros mewn addysg llawnamser, sicrhau bod mwy o bobl ifanc 16 i 18 oed yn sefyll arholiadau Safon Uwch, a lleihau nifer y bobl sy'n rhoi'r gorau i'w

hastudiaethau ar Lefel UG. Awgrymodd un sefydliad addysg uwch y dylai Llywodraeth Cymru ystyried codi oedran addysg neu hyfforddiant statudol i 18, fel y gwnaed mewn gwledydd eraill yn y DU, a fyddai'n cynyddu'r tebygolrwydd y byddai dysgwyr yn symud ymlaen i AU. Tynnodd eraill sylw at y ffaith mai anghydraddoldebau strwythurol mewn addysg gynnar yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar gyfranogiad mewn AU o hyd, gydag un yn nodi:

> “erbyn i ddysgwyr gyrraedd 16 neu 18 oed, mae llawer ohonynt eisoes wedi cael eu hidlo gan y system. Perfformiad mewn TGAU yw'r sail i bopeth.”

## 10.3. Cryfhau'r ddarpariaeth ran-amser

Roedd rhanddeiliaid a Darparwyr AU o'r farn bod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'r rhan fwyaf o argymhellion Adolygiad Diamond ar gyfer AU rhan-amser, yn enwedig o ran diwygio trefniadau cyllid myfyrwyr. Nodwyd mai nod y diwygiadau oedd ehangu mynediad a gwneud astudio'n rhan-amser yn fwy fforddiadwy, yn enwedig i ddysgwyr aeddfed a dysgwyr a oedd yn gweithio. Nododd rhanddeiliaid a Darparwyr AU fod Diwygiadau Diamond wedi cyflwyno pecyn cyllid myfyrwyr tecach i fyfyrwyr rhan-amser, a ddisgrifiwyd fel “system gyllido fwy blaengar a chefnogol” sydd bellach yn fwy cydnaws â’r hyn sydd ar gael i fyfyrwyr llawnamser.

### 10.3.1. Effaith y diwygiadau ar gyfranogiad rhan-amser

Credwyd yn gyffredinol fod y diwygiadau wedi ysgogi twf mewn cyfranogiad rhan-amser, a Chymru bellach sydd â'r gyfran uchaf o fyfyrwyr rhan-amser yn y DU. Adroddodd y sector AU gynnydd uniongyrchol mewn cofrestriadau yn ystod 2018/19, ac mae nifer y myfyrwyr rhan-amser sydd â'u domisil yng Nghymru wedi dyblu ers 2017/18.

Mae llawer o'r twf hwn i'w briodoli i'r Brifysgol Agored, sy'n parhau i fod yn brif ddarparwr cyrsiau rhan-amser yng Nghymru. Gan ddefnyddio data HESA, dwedodd y Brifysgol Agored fod mwy na hanner yr holl fyfyrwyr rhan-amser yn astudio gyda hi, ac roedd nifer ei myfyrwyr israddedig wedi codi o 7,206 yn 2017/18 i 15,613 erbyn 2024/25. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Brifysgol Agored:

> “mae'r diwygiadau i gyllid myfyrwyr a gyflwynwyd yn 2018/19 wedi cael effaith fawr ar nifer y dysgwyr rhan-amser sy’n astudio gyda’r Brifysgol Agored yng Nghymru. Maent wedi galluogi miloedd yn fwy o fyfyrwyr, yn enwedig myfyrwyr o rai o'r cymunedau â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru, i ehangu eu gorwelion, gwella eu rhagolygon economaidd, a gwireddu eu breuddwydion.”

Adroddodd dau sefydliad arall hefyd am gynnydd mewn cyfranogiad ar gyrsiau rhan-amser. Roedd un SAB wedi gweld cynnydd yn y galw am astudiaethau rhan-amser fel rhan o strategaeth ehangach i arallgyfeirio ac ehangu ei ddarpariaeth. Yn yr un modd, nododd un SAU iddo weld twf yn y cofrestriadau rhan-amser, a bod myfyrwyr rhan-amser bellach yn cyfrif am tua 60% o gyfanswm y myfyrwyr. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, dywedodd Darparwyr AU eraill mai prin oedd y galw am ddarpariaeth israddedig ran-amser.

Awgrymodd rhai Darparwyr AU fod cyflogwyr yn dewis prentisiaethau gradd yn gynyddol yn hytrach na graddau rhan-amser traddodiadol ar gyfer eu staff. Priodolwyd y newid hwn i'r cymhellion ariannol sydd ar gael drwy'r ardoll prentisiaethau, sy'n gwneud prentisiaethau gradd yn opsiwn mwy deniadol i gyflogwyr.

Nododd Darparwyr AU hefyd fod y galw am ddarpariaeth ran-amser hyblyg, sy'n cyd-fynd â'r diwydiant, wedi cynyddu, yn enwedig ar gyfer cyrsiau a gynlluniwyd mewn partneriaeth â chyflogwyr yn hytrach na graddau llawnamser arferol yn cael eu cynnig ar sail ran-amser. Adroddodd un SAU fod nifer fawr o bobl yn manteisio ar raddau sylfaen, graddau sy'n gysylltiedig â phrentisiaethau, a rhaglenni hyfforddiant proffesiynol, sy'n aml yn cael eu datblygu ar y cyd â diwydiant. Mewn SAU arall, adroddwyd bod darpariaeth ran-amser yn canolbwyntio'n bennaf ar gyrsiau byr achrededig, gan adlewyrchu patrymau'r galw cyfredol.

Mae rhai meysydd pwnc hefyd wedi bod yn fwy llwyddiannus o ran denu dysgwyr rhan-amser, yn enwedig peirianneg, cyfrifiadura, adeiladu, a disgyblaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd, tra bod y galw'n parhau i fod yn is yn y dyniaethau traddodiadol. Yn ogystal â hynny, adroddodd un SAB am dwf mewn darpariaeth ran-amser yn y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, peirianneg, ynni gwyrdd, adeiladu, rheoli, a hyfforddiant proffesiynol, gan dynnu sylw at gryfder cyrsiau sy'n cyd-fynd yn agos ag anghenion diwydiant a deilliannau cyflogaeth.

Yn y Brifysgol Agored, priodolwyd y galw cynyddol am ddarpariaeth ran-amser hefyd i'w hymgyrch farchnata amlsector ledled Cymru, a oedd yn cwmpasu hysbysebion ar y radio, oddi allan i'r cartref, ar y teledu ac ati, a oedd wedi helpu i ledaenu'r neges i sylfaen ddemograffig lawer ehangach. Bu o gymorth i gyrraedd pobl nad oeddent erioed wedi ystyried AU o'r blaen a'u darbwyllo bod AU yn opsiwn iddyn nhw.

### 10.3.2. Effaith y diwygiadau ar ddarpariaeth ran-amser

Y tu hwnt i'r Brifysgol Agored, mae effaith y diwygiadau wedi bod yn gymysg. Adroddodd llawer o brifysgolion, er bod y diwygiadau wedi ysgogi galw, nad oeddent yn darparu digon o gymorth ariannol i sefydliadau ehangu eu cynnig yn gynaliadwy. Tynnodd darparwyr sylw at y costau uwch sy'n gysylltiedig â darparu cyrsiau rhan-amser fel rhwystr parhaus.

### 10.3.3. Effaith y pandemig ar ddarpariaeth ran-amser

Credwyd yn gyffredinol bod y pandemig wedi cyflymu'r newid tuag at ffyrdd mwy cyfunol a hyblyg o gynnig darpariaeth ran-amser. Roedd sefydliadau yr oedd ganddynt eisoes brofiad o ddysgu ar-lein yn gallu addasu'n gyflym, ac fe wnaeth llawer ohonynt gadw rhai elfennau digidol wedi hynny, fel arholiadau agored ar-lein a sesiynau addysgu rhithwir. Roedd Darparwyr AU yn cydnabod bod myfyrwyr yn gwerthfawrogi nifer o agweddau ar ddysgu ar-lein, er bod y rhan fwyaf yn dal i ffafrio addysgu wyneb yn wyneb. Ymddengys hefyd fod y pandemig wedi cynyddu'r galw am opsiynau astudio rhan-amser mwy hyblyg a byrrach, yn enwedig ymhlith myfyrwyr aeddfed a myfyrwyr sy'n gweithio.

Adroddodd rhai darparwyr fod gwasanaethau cwnsela ar-lein a llesiant digidol a gyflwynwyd yn ystod y pandemig wedi cael eu cadw wedi hynny. Nodwyd hefyd y bu cynnydd sydyn yn y galw am gymorth iechyd meddwl yn ystod y cyfnod hwn, sydd wedi aros yn uchel byth ers hynny.

### 10.3.4. Pa mor dda y mae Darparwyr AU yn diwallu anghenion myfyrwyr rhan-amser

Adroddodd rhai Darparwyr AU eu bod wedi gwneud cynnydd da o ran diwallu anghenion dysgwyr rhan-amser, er nad oedd hyn yn wir ar draws y sector. Roedd sawl sefydliad wedi cyflwyno darpariaeth benodol ar gyfer myfyrwyr rhan-amser, gan gynnwys modelau darparu

hyblyg fel graddau gyda'r hwyr, opsiynau diwrnod astudio, ac amserlenni undydd cywasgedig, gan alluogi dysgwyr i gyfuno astudio â chyfrifoldebau gweithio neu ofalu. Roedd rhai Darparwyr AU hefyd wedi cyflwyno opsiynau dysgu modiwlaidd a byr, gan gynnwys cyrsiau a ddarperir mewn cymunedau lleol.

Mae myfyrwyr rhan-amser hefyd yn gallu cael mynediad at wasanaethau llesiant, cwnsela, cymorth dysgu, cymorth ariannol, a gwasanaethau anabledd/dyslecsia, gan fod y rhain ar gael i bob myfyriwr waeth beth fo'u dull astudio.

Yn y Brifysgol Agored, mae pob myfyriwr yn rhan-amser, felly mae'r cymorth wedi'i gynllunio'n fwriadol ar gyfer y garfan hon. Mae hyn yn cynnwys adnoddau ar-lein, cymorth drwy e-bost a thros y ffôn, sydd wedi'i deilwra i anghenion dysgwyr rhan-amser.

### 10.3.5. Deilliannau myfyrwyr rhan-amser

Adroddodd Darparwyr AU fod deilliannau myfyrwyr rhan-amser yn gyffredinol yn debyg i, neu'n well na deilliannau myfyrwyr llawnamser, yn enwedig y rhai sy'n astudio prentisiaethau a darpariaeth sy'n gysylltiedig â chyflogaeth lle mae cyfraddau cwblhau a chyrhaeddiad yn gryf yn gyffredinol. Amlygodd Darparwyr AU hefyd y ffaith bod dysgwyr rhan-amser yn elwa o well cyfatebiaeth rhwng eu hastudiaethau a'u ffyrdd o fyw, dwyster astudio wythnosol is, a chysylltiadau cliriach rhwng astudio a gwaith sy'n cynorthwyo myfyrwyr i gael deilliannau gwell. Fodd bynnag, roedd peth awgrym y gall cyfraddau cwblhau cyrsiau fod yn ymysg myfyrwyr rhan-amser nad ydynt yn dilyn prentisiaeth, yn bennaf oherwydd pwysau eraill fel gwaith, cyfrifoldebau gofalu, anawsterau ariannol a phroblemau iechyd. Nodwyd bod myfyrwyr aeddfed yn arbennig o debygol o wynebu'r problemau hyn.

### 10.3.6. Bylchau a dyblygu mewn darpariaeth ran-amser

Y prif fwlch a nodwyd gan Ddarparwyr AU yw llwybrau dilyniant cyfyngedig i fyfyrwyr sy'n symud o gymwysterau proffesiynol neu sector i raglenni gradd llawn, ac awgrymwyd bod cyfleoedd i integreiddio cymwysterau proffesiynol ag astudiaethau israddedig ac ôl-raddedig.

Nid oedd achosion o ddyblygu yn y ddarpariaeth bob amser yn cael ei ystyried yn negyddol. I rai carfannau, fel myfyrwyr hŷn na allant adleoli er mwyn astudio, ystyriwyd bod hyn yn fuddiol er mwyn cynyddu'r dewis i fyfyrwyr.

### 10.3.7. Sut y mae Darparwyr AU yn cyllido darpariaeth ran-amser

Nododd Darparwyr AU nad oedd ffioedd dysgu ar eu pen eu hunain yn talu'r costau llawn sy'n gysylltiedig â darparu cwrs rhan-amser, yn enwedig ar gyfer rhaglenni astudio carlam lle y codir ffioedd ar sail dwy flynedd o ffioedd safonol.

Yn ogystal â chyllid yn seiliedig ar gredydau craidd, tynnodd Darparwyr AU sylw at bwysigrwydd nifer o bremiymau Medr (CCAUC gynt) sy'n cyfrannu at gost darpariaeth AU ran-amser, gan gynnwys y premiwm ehangu mynediad a chynhwysiant a'r premiwm myfyrwyr anabl. Ystyriwyd bod y premiymau hyn yn hanfodol ar gyfer cefnogi myfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol a lliniaru'r costau uwch sy'n gysylltiedig â darpariaeth ran-amser a hyblyg.

Nododd y cyfranwyr fod Cyfrifon Dysgu Personol yn rhan o system sgiliau ehangach Cymru; fodd bynnag, dim ond i addysg bellach y maent yn berthnasol ac nid ydynt yn ariannu darpariaeth AU yn uniongyrchol.

### 10.3.8. Y prif rwystrau i gynnig mwy o astudiaethau rhan-amser

Tynnodd Prifysgolion Cymru sylw at y ffaith bod uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru ac sy'n astudio mewn sefydliad yng Nghymru neu'r Brifysgol Agored (£2,625) yn sylweddol is nag ar gyfer y rhai sy'n astudio mewn sefydliad tebyg y tu allan i Gymru (£7,145). Mae'r anghysondeb canfyddedig hwn yn creu sawl her i'r sector. Nid yw'r uchafswm benthyciad ffioedd yng Nghymru wedi newid ers 2014/15, ac mae bellach yn gweithredu fel cap gwirfoddol ar y ffioedd dysgu y gall sefydliadau eu codi. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, gall prifysgolion y tu allan i Gymru bennu ffioedd uwch, sy'n creu tirwedd anghyfartal. Fodd bynnag, mae hyn yng nghyd-destun cyllid grant ychwanegol a ddarperir i'r sector AU yng Nghymru a ddefnyddir fel cymhorthdal i gyflwyno darpariaeth ran-amser.

Yn fwy cyffredinol, mae'r diffyg cyllid ar gyfer y sector AU wedi creu dwy brif her. Yn gyntaf, adroddodd Darparwyr AU fod cyflwyno darpariaeth hyblyg, gan gynnwys cyrsiau gyda'r nos ac ar benwythnosau, neu raglenni masnachfraint drwy golegau AB, yn ddrud, ac nad yw'r model cyllido presennol yn cefnogi strwythurau modiwlaidd, hybrid, na strwythurau ble y gellid dechrau ar gyrsiau ar fwy nag un adeg o'r flwyddyn. Yn ail, mae'r model cyllido wedi'i gynllunio'n bennaf ar gyfer rhaglenni hirach, traddodiadol ac nid yw'n cefnogi'n ddigonol y galw cynyddol am opsiynau byrrach, hyblyg neu gyflymach, fel prentisiaethau. Yn wahanol i Loegr, nid yw graddau israddedig carlam yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd drwy system ffioedd neu gyllido wahanol yng Nghymru. Mae myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru sy'n cofrestru ar raglenni carlam mewn mannau eraill yn y DU yn cael yr hawl i fenthyciad ffioedd safonol Cymru.

Nododd un sefydliad ateb rhannol i'r problemau hyn: mae wedi dechrau codi ffioedd uwch am gyrsiau rhan-amser a ariennir gan gyflogwyr, ar oddeutu hanner y ffioedd dysgu llawnamser. Mae hyn wedi helpu i sicrhau tegwch o ran incwm, er y gallai roi dysgwyr sy'n hunanariannu dan anfantais.

## 10.4. Cryfhau'r ddarpariaeth ôl-raddedig

Canolbwyntiodd y gwaith maes gyda rhanddeiliaid a Darparwyr AU ar gyllid a darpariaeth myfyrwyr cyrsiau meistr ôl-raddedig a addysgir, gan mai dyma oedd y prif faes yr effeithiwyd arno gan Ddiwygiadau Diamond. Roedd rhanddeiliaid yn deall mai bwriad elfen ôl-raddedig y diwygiadau oedd cyfrannu at ffioedd dysgu a chostau byw, yn hytrach na'u talu'n llawn. Serch hynny, ystyriwyd yn gyffredinol fod y cymorth yn fwy hael na'r hyn a gynigir i fyfyrwyr sydd â'u domisil yn Lloegr.

### 10.4.1. Effaith Diwygiadau Diamond ar ddarpariaeth ôl-raddedig

Nododd Prifysgolion Cymru fod effaith y diwygiadau ar fyfyrwyr ôl-raddedig sydd â'u domisil yng Nghymru yn llai clir nag ar gyfer grwpiau o fyfyrwyr eraill. Gwelwyd cynnydd nodedig yn nifer y myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru a oedd yn astudio cyrsiau meistr a addysgir ar ôl gweithredu'r diwygiadau, ond ni welwyd twf tebyg ymhlith myfyrwyr sydd â'u domisil yn Lloegr. Fodd bynnag, gwelwyd mwy o gynnydd mewn recriwtio yn ystod 2017/18 (cyn

gweithredu'r diwygiadau) ac eto yn ystod 2020/21, pan fyddai'r pandemig wedi effeithio ar niferoedd y myfyrwyr. Daeth Prifysgolion Cymru i'r casgliad, er ei bod yn debygol bod y diwygiadau wedi cael dylanwad cadarnhaol, ei bod yn amhosibl gwahanu eu heffaith benodol ar niferoedd yr ôl-raddedigion oddi wrth ffactorau eraill.

Disgrifiodd adborth gan Ddarparwyr AU effaith gymysg ond cadarnhaol ar y cyfan. Credwyd bod cyflwyno benthyciadau ôl-raddedig wedi gwella mynediad at raglenni meistr a addysgir ac fe'i croesawyd gan staff, er eu bod yn ymwybodol bod myfyrwyr wedi mynegi pryder ynghylch y telerau ad-dalu, llog ac amseru.

Mae'n ymddangos bod dileu grantiau ôl-raddedig o 2024/25 ymlaen yn cael effaith gymysg. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranwyr o'r farn na fyddai'n lleihau cyfranogiad yn sylweddol, gan fod myfyrwyr eisoes yn gyfarwydd â chyllid yn seiliedig ar fenthyciadau. Roedd eraill yn fwy gochelgar, gan awgrymu y gallai cylchoedd recriwtio yn y dyfodol gael eu heffeithio a nodwyd bod y niferoedd wedi gostwng yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol 2025/26. Er enghraifft, adroddodd un sefydliad am gynnydd yn nifer y myfyrwyr ôl-raddedig ar gyfer 2025/26, gan ddangos nad oedd dileu'r grant wedi effeithio ar eu niferoedd hyd yn hyn. Adroddodd sefydliad arall ostyngiad yn nifer y myfyrwyr a fyddai wedi bod yn gymwys i gael y grant yn flaenorol.

Un canlyniad anfwriadol i'r diwygiadau yw y gall graddedigion o Loegr sy'n astudio yng Nghymru fod yn gymwys i gael cyllid ôl-raddedigion sydd â'u domisil yng Nghymru. Roedd rhai Darparwyr AU yn ystyried bod hyn yn gam cadarnhaol, ac yn gyfle i gadw graddedigion medrus yn yr ardal leol.

### 10.4.2. Nifer a natur cyrsiau meistr a addysgir

Awgrymodd Darparwyr AU mai myfyrwyr llawnamser a rhyngwladol yn bennaf yw'r rhai sy'n dilyn astudiaethau ôl-raddedig ar draws sefydliadau Cymru, a bod darpariaeth ran-amser yn parhau i fod yn fwy cyfyngedig ac yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiwallu anghenion cyflogwyr am gymwysterau achredededig. Yn ddiweddar, mae prentisiaethau a'r galw gan gyflogwyr wedi dod yn ffactorau pwysig sy'n sbarduno twf, yn enwedig ar gyfer darpariaeth ran-amser, mewn rhai sefydliadau.

Dywedodd Darparwyr AU fod y ddarpariaeth cyrsiau meistr a addysgir yng Nghymru yn amrywiol ond yn canolbwyntio'n bennaf ar raglenni proffesiynol, galwedigaethol a dysgu o bell. Roedd y ddarpariaeth wedi ehangu'n ddiweddar mewn ymateb i alw gan gyflogwyr a datblygu modelau mwy hyblyg, ond gwelwyd gostyngiad yn y galw am gyrsiau meistr traddodiadol llawn a addysgir ac roedd y cyfle ar gyfer twf yn gyfyngedig.

### 10.4.3. Cyllido cyrsiau meistr a addysgir

Ariennir cyrsiau meistr a addysgir yn bennaf drwy ffioedd dysgu, nad ydynt wedi'u capio. Yn ogystal â hynny, mae cyllid blynyddol uniongyrchol o hyd at £1 miliwn y flwyddyn ar gael i'r sector drwy gyllid y pen a chyllid premiwm anabledd drwy Medr. Mae incwm o ffioedd rhyngwladol yn parhau i fod yn ffynhonnell refeniw bwysig i brifysgolion ac yn helpu i ddarparu cymhorthdal ar gyfer darpariaeth i fyfyrwyr sydd â'u domisil yn y DU.

Dywedodd Darparwyr AU fod benthyciadau ôl-raddedig a gyflwynwyd o dan Ddiwygiadau Diamond yn gyfraniad allweddol at helpu myfyrwyr i dalu ffioedd dysgu cyrsiau meistr a

addysgir. Mewn rhai achosion, adroddwyd bod cyllid prentisiaethau hefyd yn cael ei ddefnyddio, a bod cyflogwyr yn defnyddio'r ardoll prentisiaethau i dalu ffioedd cyrsiau.

Caiff ffioedd dysgu ar gyfer rhaglenni meistr a addysgir eu pennu drwy gyfeirio at gyfraddau'r farchnad (yr hyn y mae sefydliadau eraill yn ei godi) a chost darparu pob cwrs. Roedd awgrym cryf hefyd gan y sector y dylai sefydliadau addysg uwch gynnig gostyngiadau ar ffioedd i fyfyrwyr presennol ar raglenni meistr a addysgir er mwyn helpu i gynnal niferoedd y myfyrwyr sy'n cofrestru.

#### 10.4.4. Rhwystrau i ddarparu cyrsiau meistr a addysgir

Mae'r prif rwystrau i sefydliadau sy'n cynnig mwy o opsiynau astudio cyrsiau meistr a addysgir yn ymwneud â'u dibyniaeth ar recriwtio myfyrwyr rhyngwladol, sy'n agored i newidiadau ym mholisi mewnfudo'r DU, a'r ffaith nad yw ffioedd dysgu bob amser yn talu cost lawn cyflwyno rhaglenni dwys neu arbenigol. Nododd Darparwyr AU hefyd nad yw strwythurau cyllid myfyrwyr presennol yn addas i gefnogi cyrsiau meistr carlam neu hyblyg a addysgir, gan ei gwneud hi'n anoddach i ddatblygu modelau darparu amgen. Yn ogystal â hynny, adroddodd rhai sefydliadau fod prifysgolion yn aml yn amharod i fasnachfreinio eu darpariaeth ôl-raddedig i SABau, gan gyfyngu ar gyfleoedd i ehangu mynediad a chapasiti.

# 11. Casgliadau

I gloi, rydym yn dychwelyd i ystyried y dystiolaeth ar gyfer pob un o'r naw amcan a osodwyd ar gyfer y gwaith ymchwil hwn.

## 11.1. Barn dysgwyr colegau addysg bellach (AB) a dysgwyr chweched dosbarth sydd â'u domisil yng Nghymru am AU

Mae canfyddiadau ein gwaith maes yn dangos bod y rhan fwyaf o’r bobl ifanc a gyfrannodd at yr ymchwil yn bwriadu mynd i’r brifysgol, ond bod eu penderfyniadau’n cael eu dylanwadu gan ystod eang o ffactorau personol, ariannol a chymdeithasol. Roedd tua 4 o bob 5 o'r dysgwyr a gymerodd ran yn yr arolwg yn bwriadu mynd i addysg uwch ar ryw adeg, fel arfer yn syth ar ôl gorffen addysg ôl-16 yn yr ysgol neu'r coleg. I lawer, roedd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar ddiddordeb mewn pwnc penodol, uchelgais gyrfa, a disgwyliad y byddai'r brifysgol yn arwain at dwf personol, annibyniaeth a chyfleoedd ehangach.

Fodd bynnag, roedd lleiafrif sylweddol yn parhau i fod yn ansicr neu wedi penderfynu peidio â mynd i'r brifysgol, yn aml oherwydd ansicrwydd ynghylch eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol, pryderon ynghylch cost neu amheuon ynghylch a yw gradd yn fuddsoddiad gwerth chweil. Mae'n ymddangos bod dysgwyr a oedd heb benderfynu yn fwy amharod i ymrwymo i fynd i'r brifysgol oni bai eu bod wedi'u hargyhoeddi o fanteision pendant gwneud hynny. Awgrymodd llawer o bobl ifanc y byddent yn mynd i'r brifysgol pe gallent gael sicrwydd y byddai swydd neu yrfa benodol ar ei diwedd.

Mae rhieni a gwarcheidwaid yn parhau i chwarae rhan bwysig o ran dylanwadu ar ddewisiadau pobl ifanc, ond mae eu barn yn amrywio yn dibynnu ar eu hincwm a'u cefndir. Yn gyffredinol, roedd rhieni a gwarcheidwaid ag incwm uwch yn gefnogol i'w plant fynd i'r brifysgol ac yn ei ystyried fel cyfle i ddatblygu, ond roedd y rhai o aelwydydd ag incwm isel yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar y goblygiadau ariannol ag yn annog eu plant i ddilyn llwybrau mwy ymarferol fel cael swydd neu brentisiaeth. Roedd dysgwyr nad oedd eu rhieni neu eu gwarcheidwaid wedi mynd i'r brifysgol eu hunain yn fwy tebygol o fod yn ansicr neu o ystyried opsiynau eraill fel gwaith neu hyfforddiant galwedigaethol.

Mae rhyw a lleoliad astudio hefyd yn dylanwadu ar benderfyniadau. Roedd dysgwyr benywaidd a'r rhai a oedd mewn colegau yn fwy tebygol o fwriadu mynd i'r brifysgol ac i werthfawrogi AU, tra bod dysgwyr gwrywaidd yn fwy tebygol o fod yn ansicr neu'n penderfynu yn erbyn hynny oherwydd pwysau ariannol. Ar draws pob grŵp, cost oedd y prif bryder o hyd, gan ddylanwadu nid yn unig ar a fydd dysgwyr yn dewis mynd i'r brifysgol ai peidio ond hefyd ar ble y maent yn dewis mynd a beth maent yn dewis ei astudio. Roedd yn well gan lawer o ddysgwyr astudio'n agosach at eu cartref neu mewn sefydliadau â chostau byw is, ac roedd rhai eisoes yn meddwl yn ofalus am gyrsiau sy'n arwain yn uniongyrchol at gyflogaeth.

Mae dysgwyr a rhieni a gwarcheidwaid fel ei gilydd yn cydnabod y gall AU arwain at fanteision hirdymor, yn enwedig o ran helpu i sicrhau swyddi gwell ac enillion uwch. Fodd bynnag, mae ffocws clir a chynyddol hefyd ar werth am arian, gyda llawer yn cwestiynu a yw pob gradd yn cynnig enillion da ar fuddsoddiad. I'r rhai nad oeddent wedi penderfynu neu nad oeddent yn bwriadu mynd i'r brifysgol, mae ansicrwydd ariannol, ofni dyled, ac amheuon ynghylch rhagolygon swyddi i raddedigion yn parhau i fod yn rhwystrau sylweddol.

At ei gilydd, awgryma'r dystiolaeth, er bod y brifysgol yn dal i gael ei hystyried yn gam cadarnhaol, nad yw'n cael ei gweld fel yr unig lwybr na'r llwybr awtomatig i lwyddiant. Mae dysgwyr yn dewis a dethol yn fwy ac maent yn fwy pragmataidd ynghylch eu dewisiadau, gan bwyso a mesur y costau, y canlyniadau cyflogaeth, a pharodrwydd personol cyn penderfynu.

### 11.2. Ymwybyddiaeth dysgwyr mewn colegau AB a'r chweched dosbarth, sydd â'u domisil yng Nghymru, o'r pecyn cymorth ariannol

Mae canfyddiadau ein gwaith maes yn awgrymu bod pobl ifanc a rhieni a gwarcheidwaid yn ystyried bod cyllid myfyrwyr yn gymhleth ac yn anodd ei ddeall. Er bod y rhan fwyaf o ddysgwyr Blwyddyn 13 a oedd yn bwriadu mynd i'r brifysgol wedi gwneud cais am gyllid myfyrwyr, roedd llawer yn dal i deimlo'n ansicr ynghylch sut y mae'r system yn gweithio. Roedd y pryderon yn ymwneud yn bennaf â therfynau amser ceisiadau, rheolau ad-dalu a'r cydbwysedd rhwng benthyciadau a grantiau.

Dangosodd rhieni a gwarcheidwaid ddryswch tebyg. Er bod rhai, yn enwedig teuluoedd ag incwm uwch neu'r rhai â phlant hŷn a oedd eisoes mewn AU, yn teimlo'n fwy hyderus, roedd llawer o rieni a gwarcheidwaid, yn enwedig y rhai o aelwydydd ag incwm isel, yn gweld y system yn ddryslyd ac yn anodd ei defnyddio. Roedd teimlad cyffredinol bod angen gwybodaeth gliriach a haws ei deall i helpu dysgwyr a rhieni a gwarcheidwaid i ddeall y pecyn cymorth ariannol yn well.

Roedd ofni dyled yn chwarae rhan bwysig o ran dylanwadu ar agweddau tuag at AU. Roedd llawer o ddysgwyr yn bryderus ynghylch ysgwyddo symiau mawr o ddyled ac yn poeni am eu gallu i'w had-dalu. Roedd y pryder hwn ar ei gryfaf ymhlith dysgwyr benywaidd, y rhai o gefndiroedd incwm isel, a'r rhai nad oedd eu rhieni neu warcheidwaid wedi mynd i'r brifysgol. Roedd dysgwyr yn y grwpiau hyn yn fwy tebygol o ddweud bod dyled benthyciad myfyrwyr yn eu gwneud yn betrusgar neu'n gwneud iddynt deimlo'n ansicr ynghylch gwneud cais i'r brifysgol. Mewn rhai achosion, arweiniodd y pryderon ynghylch dyledion at bobl ifanc yn ystyried llwybrau eraill, fel prentisiaethau neu opsiynau astudio lleol, er mwyn lleihau risg ariannol. Fodd bynnag, i'r rhan fwyaf, er bod dyled myfyrwyr yn destun pryder, nid oedd yn atal cyfranogiad yn llwyr gan ei fod yn aml yn cael ei ystyried yn rhan annymunol ond angenrheidiol o gael mynediad at AU.

Roedd y canfyddiad o ddyled benthyciad myfyrwyr yn amrywio yn ôl cefndir a phrofiad y dysgwr. Roedd dysgwyr o deuluoedd ag incwm uwch neu'r rhai a oedd yn hyderus ynghylch eu rhagolygon cyflogaeth yn y dyfodol yn fwy tebygol o ystyried benthyciadau myfyrwyr fel rhywbeth y gallant ymdopi ag ef neu hyd yn oed yn fuddsoddiad "da". I'r gwrthwyneb, roedd y rhai o aelwydydd ag incwm is neu â llai o gymorth ariannol yn tueddu i ystyried dyled mewn goleuni mwy negyddol, gan ei gweld fel baich yn hytrach na rhywbeth a oedd yn rhoi cyfle iddynt. Roedd dysgwyr benywaidd yn gyson fwy gochelgar a phryderus ynghylch benthyca na'u cymheiriaid gwrywaidd.

Mae'r argyfwng costau byw wedi cael effaith glir ar farn dysgwyr a rhieni a gwarcheidwaid ynghylch fforddiadwyedd AU. Roedd llawer yn poeni am dalu costau dyddiol fel rhent, bwyd a biliau, hyd yn oed gyda chymorth ariannol. Yn gynyddol, roedd dysgwyr yn disgwyl y

byddai angen gwaith rhan-amser neu gyfraniadau teuluol arnynt i gael dau ben llinyn ynghyd, ond nid oedd pob teulu’n gallu fforddio helpu. Roedd pryderon ynghylch costau byw cynyddol yn gyffredin ar draws pob grŵp incwm ond roeddent yn arbennig o gryf ymhlith menywod, dysgwyr Blwyddyn 13, a'r rhai nad oedd gan eu rhieni na'u gwarcheidwaid brofiad o AU. Roedd rhai dysgwyr yn ystyried bod astudio'n lleol neu yng Nghymru yn ffordd o leihau costau a risg, ac roedd cynlluniau fel bwrsariaeth GIG Cymru yn gwneud i AU deimlo'n fwy o bosibilrwydd ar gyfer rhai cyrsiau.

O ran rhieni a gwarcheidwaid, disgrifiwyd bod y pwysau ariannol sy'n wynebu pobl ifanc yn llawer mwy na'r pwysau a oedd arnynt hwy pan oeddent hwy eu hunain yn brifysgol, a mynegodd llawer bryder ynghylch sut y gallai pwysau yn sgil dyled a chost effeithio ar lesiant a dewisiadau bywyd eu plant.

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pryderon ariannol, yn enwedig ynghylch deall cyllid myfyrwyr, ofni dyled, a chostau byw, yn parhau i fod yn rhwystrau pwysig i ymgysylltu ag AU. Mae'r rhwystrau hyn yn fwyaf amlwg ymysg dysgwyr o gefndiroedd incwm isel, menywod, a'r rhai nad aeth eu rhieni neu warcheidwaid i'r brifysgol.

## 11.3. Profiadau myfyrwyr o ddarpariaeth ran-amser

Canfu'r gwaith maes fod y ddarpariaeth israddedig ran-amser yn llwybr pwysig i AU, sy'n aml yn newid bywydau pobl, yn enwedig pobl sydd angen cydbwyso astudio â chyflogaeth neu ymrwymiadau personol eraill. Prin yw'r myfyrwyr sy'n astudio'n rhan-amser o ddewis; i lawer mae amgylchiadau ariannol neu ymarferol yn golygu bod astudio'n llawnamser yn anymarferol. Ni allai llawer fforddio rhoi'r gorau i'w swydd, ac mae astudio'n rhan-amser yn caniatáu iddynt barhau i ennill arian tra byddant yn gweithio tuag at gymhwyster.

Ystyriwyd yn gyson mai hyblygrwydd oedd prif fantais darpariaeth ran-amser. Roedd y myfyrwyr yn gwerthfawrogi gallu astudio ar eu cyflymder eu hunain, astudio o amgylch eu hymrwymiadau, a gwneud cynnydd mewn ffordd a oedd yn addas i'w hamgylchiadau. Mae'r hyblygrwydd hwn yn ehangu mynediad i grwpiau a allai fel arall gael eu heithrio o AU, fel rhieni, gofalwyr, pobl â chyflyrau iechyd neu anableddau, a myfyrwyr aeddfed. Mae hefyd yn cefnogi llesiant drwy leihau'r pwysau i ddilyn patrymau astudio traddodiadol.

Disgrifiwyd ansawdd y profiad dysgu rhan-amser fel un cadarnhaol yn gyffredinol. Roedd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda, yn enwedig os oedd eu prifysgol yn cynnig mynediad at ddarlithoedd wedi'u recordio, amserlenni hyblyg, a dysgu ar-lein neu ddysgu cyfunol. Roedd myfyrwyr y Brifysgol Agored, a oedd yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r sampl, yn arbennig o gadarnhaol ynghylch y cymorth gan diwtoriaid, ansawdd y deunyddiau, a'r gallu i reoli eu llwyth gwaith yn hyblyg. Fodd bynnag, nododd rhai dysgwyr ar y campws eu bod yn teimlo y gall darpariaeth ran-amser fod yn eilbeth i gyrsiau llawnamser, gyda llai o hyblygrwydd a mynediad mwy cyfyngedig at gyfleusterau.

Roedd teimlo'n ynysig yn broblem gyson i fyfyrwyr rhan-amser, yn enwedig y rhai a oedd yn dysgu o bell nad oeddent yn cael fawr o gyswllt â'u cyd-fyfyrwyr. Er bod rhai yn gwerthfawrogi annibyniaeth astudio ar-lein, byddai eraill yn hoffi cael mwy o gyfleoedd rhyngweithio byw, cymryd rhan mewn rhwydweithiau cyfoedion, neu gyfarfodydd lleol. Tynnodd y myfyrwyr sylw hefyd at yr angen am gymorth un-i-un mwy hyblyg, yn enwedig i'r

rhai ag ADY neu anableddau, yn ogystal â mynediad at gymorth academaidd y tu allan i oriau gwaith safonol.

At ei gilydd, roedd myfyrwyr rhan-amser yn ystyried eu profiad yn un gwerth chweil ond heriol. Roeddent yn gwerthfawrogi'r cyfle i astudio heb roi'r gorau i weithio a chyflawni rhwymedigaethau teuluol, ond gall hyd hir y cyrsiau a'r angen am hunanddisgyblaeth gref olygu bod gwneud cynnydd yn heriol. Pwysleisiodd nifer fod cymhelliant parhaus a chefnogaeth gan eu sefydliad yn allweddol er mwyn aros ar y trywydd iawn.

## 11.4. Rhwystrau i fyfyrwyr sydd am astudio'n rhan-amser

Er gwaethaf yr hyblygrwydd y mae'n ei gynnig, nid yw AU rhan-amser heb ei rwystrau. Pwysau ariannol yw'r her fwyaf amlwg o hyd. Mae llawer o fyfyrwyr yn ystyried bod y ffioedd dysgu yn uchel o'u cymharu â'r oriau cyswllt a'r gefnogaeth gyfyngedig a gânt, a dywedodd y rhan fwyaf nad yw benthyciadau a grantiau cynhaliaeth yn ddigonol i dalu costau byw. Mae costau cynyddol aelwydydd a'r argyfwng costau byw ehangach wedi cynyddu'r straen ariannol hyd yn oed i'r rhai sydd mewn cyflogaeth, gyda llawer yn ei chael hi'n anodd talu costau'r cartref.

Er bod bron pob un o'r myfyrwyr rhan-amser a gyfrannodd at yr ymchwil wedi cael cyllid myfyrwyr, nodwyd sawl diffyg o ran y cymorth. Ystyriwyd bod strwythur cyllid cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr rhan-amser yn annheg, yn enwedig pan fo myfyrwyr y Brifysgol Agored sy'n astudio ar gyfer 120 o gredydau yn cael eu categoreiddio fel myfyrwyr 'rhan-amser' ond yn cael llawer llai o gymorth ariannol na myfyrwyr llawnamser sy'n astudio'r un nifer o gredydau mewn mannau eraill. Nododd rhai myfyrwyr hefyd y gall y system, yn anfwriadol, rwystro myfyrwyr rhag gwneud cynnydd cyflymach, gan fod myfyrwyr sy'n astudio llai o fodiwlau bob blwyddyn yn cael mwy o gyllid cynhaliaeth dros amser.

Nodwyd rhwystrau gweinyddol a rhwystrau'n ymwneud â pholisi hefyd. Gall defnyddio incwm aelwyd yn hytrach nag incwm unigol i asesu cymhwystra roi myfyrwyr sydd â phartneriaid dan anfantais, yn enwedig lle nad yw'r arian yn cael ei rannu. Roedd rhai myfyrwyr rhan-amser hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu cosbi oherwydd bod ganddynt lai o fynediad at fudd-daliadau neu ostyngiadau yn y dreth gyngor, gan ei gwneud yn anoddach cydbwyso astudio â rhwymedigaethau ariannol.

Nid oedd amharodrwydd i ysgwyddo dyled ynddo'i hun yn atal pobl rhag cyfranogi mewn astudiaethau rhan-amser, ond canfuwyd ei fod yn dylanwadu ar sut a ble y mae myfyrwyr yn dewis astudio. Roedd y rhan fwyaf o fyfyrwyr rhan-amser yn ystyried bod benthyciadau myfyrwyr yn rhan angenrheidiol o gael mynediad at AU, er bod llawer yn pryderu am y cyfraddau llog uchel a'r ffaith bod llog yn dechrau cronni tra roeddent yn dal i astudio. Fel gyda darpar israddedigion, roedd rhai myfyrwyr rhan-amser yn derbyn bod y ddyled yn rhywbeth y gallent ymdopi ag ef, tra bod eraill fel myfyrwyr aeddfed a'r rhai ag incwm is, yn ei gweld fel baich a oedd yn ychwanegu at straen ariannol.

I'r rhai nad oeddent yn gallu cael digon o gymorth, gall rhwystrau ariannol arwain at ohirio eu cyfranogiad neu ei atal yn gyfan gwbl. Canfuwyd bod myfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu, cyflyrau iechyd, neu incwm aelwyd isel mewn mwy o berygl o gael eu heithrio os nad oedd y cyllid a'r hyblygrwydd yn ddigonol.

## 11.5. Effeithiau ariannol a gweithredol y ddarpariaeth ran-amser ar Ddarparwyr AU yng Nghymru

Cafodd Diwygiadau Diamond glod eang am ysgogi twf mewn cofrestriadau ar gyrsiau rhan-amser, yn enwedig ymhlith myfyrwyr aeddfed a myfyrwyr a oedd yn gweithio, er bod llawer o'r twf hwn wedi deillio o un Darparwr AU, sef y Brifysgol Agored. Er nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r diwygiadau, mae'r sector ehangach hefyd wedi gweld tuedd nodedig yn ddiweddar tuag at ddarpariaeth ran-amser fwy hyblyg, sy'n gydnaws â diwydiant, gyda galw cynyddol am gyrsiau byr hyblyg, achrededig.

Er gwaethaf y galw hwn, mae Darparwyr AU yn wynebu pwysau ariannol a gweithredol sy'n cyfyngu ar ehangu darpariaeth ran-amser ymhellach ac ni chredwyd bod y diwygiadau wedi mynd i'r afael â'r rhain. Mae'r model cyllido ar gyfer darpariaeth ran-amser yn gymhleth ac yn aml yn annigonol i dalu'r costau uwch sy'n gysylltiedig â darparu rhaglenni hyblyg neu raglenni carlam.

Mae canfyddiad hefyd ymhlith Darparwyr AU, er bod cyllid grant ychwanegol yn cael ei ddarparu drwy Medr, bod uchafswm is y benthyciad ffioedd dysgu sydd ar gael i ddysgwyr sydd â'u domisil yng Nghymru ac sy'n astudio yng Nghymru yn cyfyngu ar y ffioedd dysgu y gall Darparwyr AU Cymru eu codi, a thrwy hynny'n cyfyngu ar y refeniw y gallant ei godi.

## 11.6. Profiadau myfyrwyr o'r ddarpariaeth ôl-raddedig

Canfu ein gwaith maes fod myfyrwyr ôl-raddedig wedi'u cymell i ddilyn astudiaethau am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys datblygiad gyrfa, newid cyfeiriad, datblygiad personol, a dyheadau am yrfa academaidd. Roedd rhai yn ystyried bod eu gradd meistr yn hanfodol ar gyfer ymuno â meysydd rheoleiddiedig neu broffesiynol, fel y gyfraith, gofal iechyd, neu addysgu, tra bod eraill yn ei gweld fel ffordd o newid cyfeiriad i feysydd newydd o ddiddordeb ar ôl profiadau gwaith anfoddhaol neu ar ôl i'w swyddi gael eu dileu. I ddysgwyr ôl-raddedig rhan-amser, roedd cymhellion yn cael eu dylanwadu'n gryf gan yr angen i gydbwyso astudio ag ymrwymiadau cyflogaeth, teuluol ac ymrwymiadau eraill bywyd.

Mae canfyddiadau'r arolwg a'r grwpiau ffocws yn dangos bod y rhan fwyaf o fyfyrwyr wedi cael profiadau cadarnhaol o AU. Disgrifiodd y myfyrwyr eu cyrsiau fel rhai diddorol, ysgogol, a oedd wedi'u haddysgu'n dda, gan ddarparu cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau sy'n berthnasol i'w hamcanion proffesiynol a phersonol. Tynnodd llawer sylw at werth addysgu o ansawdd uchel, cynnwys sy'n eu herio'n ddeallusol, a llwybrau dysgu strwythuredig. Pwysleisiodd myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser yn benodol bwysigrwydd opsiynau dysgu hyblyg, gan gynnwys dysgu cyfunol, darlithoedd ar-lein, ac addysg wedi'i amserlennu wedi'i grynhoi i un neu ddau ddiwrnod yr wythnos, a oedd yn caniatáu iddynt astudio ochr yn ochr â chyfrifoldebau gwaith a chyfrifoldebau teuluol. Nododd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws hefyd fanteision technolegau cynorthwyol, cymorth i bobl ag anabledd, a rhwydweithiau cyd-fyfyrwyr o ran cefnogi eu dysgu.

Er gwaethaf yr agweddau cadarnhaol hyn, adroddodd y myfyrwyr am sawl her gyffredin gan gynnwys llwythi gwaith trwm, cyrsiau a oedd yn symud yn gyflym, ac adborth araf neu anghyson. Nododd myfyrwyr a oedd yn astudio pwnc am y tro cyntaf anhawster ychwanegol o ran ymdopi â'r gofynion academaidd. Mynegodd rhai myfyrwyr yr awydd am fwy o addysgu rhyngweithiol a phrofiad ymarferol, yn enwedig mewn disgyblaethau y mae gwaith

maes neu waith labordy yn ganolog iddynt. Roedd myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser yn wynebu'r pwysau dyblyg o orfod cydbwyso ymrwymiadau academaidd a phroffesiynol, ac roedd rhai yn ei chael hi'n anodd ymdopi â phroblemau iechyd, ymrwymiadau teuluol neu gyfyngiadau ariannol ochr yn ochr ag astudio.

Roedd ystyriaethau ariannol yn ffactor pwysig a oedd yn dylanwadu ar brofiad dysgwyr ôl-raddedig ac roedd y farn am ddyled myfyrwyr yn dylanwadu ar benderfyniadau myfyrwyr ynghylch hyd y cwrs, y pwnc a'r lleoliad. Cyfeiriwyd yn gyson at ffioedd dysgu a chostau byw fel rhwystrau i astudio’n llawnamser, yn enwedig i fyfyrwyr aeddfed neu ran-amser, ond nid oedd dyled myfyrwyr yn ffactor a oedd wedi’u hatal rhag astudio. Er bod y rhan fwyaf o fyfyrwyr wedi cael mynediad at fenthyciadau ôl-raddedig, roedd cymhlethdod cyllid myfyrwyr, y ffaith i'r cyllid grant gael ei dynnu'n ôl, a chefnogaeth annigonol gan gyflogwyr yn golygu bod llawer o fyfyrwyr wedi profi straen ariannol. Mae data'r arolwg yn dangos bod cyfran sylweddol o fyfyrwyr o'r farn nad oedd benthyciadau'n ddigonol i dalu costau byw, a dywedodd rhai eu bod wedi wynebu caledi ariannol a effeithiodd ar eu hanghenion sylfaenol, fel bwyd a thai. Yn aml, roedd myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser yn dibynnu ar weithio tra roeddent yn astudio, ac er eu bod yn gwerthfawrogi hyblygrwydd y ddarpariaeth ran-amser, roedd y llwyth gwaith a'r pwysau ariannol yn creu heriau mawr weithiau.

Nododd myfyrwyr sawl maes i'w gwella gan gynnwys cyfathrebu cliriach, amserlennu cynharach, asesiadau mwy hyblyg, trefnu cyrsiau'n well, ehangu dysgu cyfunol a dysgu ar-lein a chefnogaeth academaidd fwy cyson. Pwysleisiodd myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser yr angen i brifysgolion ddeall ac ystyried y cyfrifoldebau a oedd yn cystadlu am eu hamser drwy gyflwyno amserlenni hyblyg a darlithoedd wedi'u recordio. Nodwyd bod ymgysylltiad cymdeithasol a chymuned ôl-raddedig gryfach yn bwysig i fyfyrwyr llawnamser.

## 11.7. Y rhwystrau i fyfyrwyr ôl-raddedig sydd am astudio'n rhan-amser

Yn benodol, adroddodd myfyrwyr rhan-amser a oedd yn astudio cyrsiau meistr a addysgir eu bod wedi wynebu sawl rhwystr i gyfranogiad a llwyddiant a oedd yn gysylltiedig â'i gilydd.

Pwysau ariannol oedd yr her a grybwyllwyd amlaf. Dywedodd llawer o fyfyrwyr fod benthyciadau ôl-raddedig presennol, sy'n cwmpasu costau dysgu a chostau byw, yn aml yn annigonol. Mae ffioedd dysgu yn llyncu'r rhan fwyaf o'r cyllid, gan adael ychydig iawn ar ôl ar gyfer rhent, biliau, neu dreuliau dyddiol. O ganlyniad, mae myfyrwyr rhan-amser yn aml yn gweithio ochr yn ochr ag astudio, sy'n cynyddu'r straen arnynt ac yn cyfyngu ar yr amser sydd ar gael ar gyfer gwaith academaidd. Dylanwadodd pryderon ynghylch dyled, cyfraddau llog, a thelerau ad-dalu hefyd ar benderfyniadau ynghylch y math o gwrs yr oeddent yn ei ddilyn, ei hyd, a'i leoliad.

Roedd y rhwystrau ymarferol yn cynnwys amserlenni a therfynau amser asesu a gynlluniwyd yn bennaf ar gyfer myfyrwyr llawnamser. Er bod rhai prifysgolion yn cynnig darlithoedd wedi'u recordio, dysgu cyfunol, a sesiynau gyda'r nos neu ar benwythnosau, roedd darpariaeth anghyson yn ei gwneud yn anoddach i ddysgwyr rhan-amser gydbwyso astudio â gwaith, teulu, neu gyfrifoldebau iechyd. Ychwanegodd anawsterau o ran cael mynediad at wybodaeth glir am gyllid myfyrwyr a chymorth sefydliadol at yr heriau.

Mae rhwystrau strwythurol a thegwch, gan gynnwys rheolau cymhwystra ar gyfer cyllid, yn enwedig i fyfyrwyr sydd wedi ymgymryd ag astudiaethau ôl-raddedig yn flaenorol neu'r rhai sydd wedi'u cyfyngu gan ystyriaethau crefyddol, yn cyfyngu ymhellach ar fynediad. Gyda'i gilydd, roedd y rhwystrau hyn yn effeithio'n anghymesur ar fyfyrwyr aeddfed, myfyrwyr rhan-amser, a myfyrwyr ag incwm isel.

## 11.8. Effeithiau ariannol a gweithredol darpariaeth ôl-raddedig ar Ddarparwyr AU yng Nghymru

Ystyriwyd bod Diwygiadau Diamond wedi cael effaith gadarnhaol ar y cyfan, os yn anwastad, ar y ddarpariaeth o gyrsiau meistr ôl-raddedig a addysgir ar draws Darparwyr AU yng Nghymru. Er bod cynnydd clir wedi bod yn nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru ers cyflwyno'r benthyciadau ôl-raddedig, nid yw'n glir i ba raddau y mae hyn yn adlewyrchu'r diwygiadau yn hytrach na ffactorau allanol ehangach fel twf cyn y diwygiadau neu dueddiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Cafodd argaeledd benthyciadau ôl-raddedig eu croesawu'n eang oherwydd eu bod yn gwella mynediad, er bod pryderon ynghylch ad-dalu a chyfraddau llog yn parhau.

Mae dileu grantiau ôl-raddedig o 2024/25 ymlaen wedi arwain at effeithiau cymysg. Nid yw rhai sefydliadau wedi gweld unrhyw ostyngiad amlwg yn y galw, tra bod eraill yn dweud y bu gostyngiadau ymhlith myfyrwyr a fyddai wedi bod yn gymwys ar gyfer y grant o'r blaen.

Un o ganlyniadau anfwriadol ond buddiol Diwygiadau Diamond yw'r ffaith y gall rhai graddedigion o Loegr sydd wedi astudio ar gyfer eu gradd yng Nghymru ac sydd ers hynny yn preswylio'n arferol yng Nghymru gael mynediad at gymorth i ôl-raddedig Cymru, a allai helpu sefydliadau Cymru i gadw graddedigion medrus.

Myfyrwyr llawnamser a rhyngwladol yw'r mwyafrif llethol sy'n manteisio ar ddarpariaeth ôl-raddedig o hyd, ac mae'r twf yn nifer y myfyrwyr rhan-amser yn cael ei ysgogi'n bennaf gan y galw gan gyflogwyr a phrentisiaethau. Dywedodd Darparwyr AU fod pobl yn llai tueddol o ddilyn cyrsiau meistr academaidd traddodiadol ar hyn o bryd gan ddewis modelau mwy galwedigaethol, proffesiynol a hyblyg sy'n ymateb i anghenion y farchnad lafur. Fodd bynnag, mae'r model ariannol ar gyfer addysgu ôl-raddedig yn parhau i fod dan bwysau, ac mae'n dibynnu'n fawr ar ffioedd dysgu, gan gynnwys incwm gan fyfyrwyr rhyngwladol, a chaiff ei ategu gan swm cymharol fach o gyllid wedi'i dargedu gan Medr.

Roedd y rhwystrau allweddol i dwf yn cynnwys anwadalrwydd yn y maes recriwtio rhyngwladol, cost uchel darparu rhaglenni arbenigol neu ddwys, a system gyllido nad yw'n addas i gefnogi dulliau astudio carlam neu hyblyg.

## 11.9. Pa mor dda y mae pecyn cymorth ariannol Llywodraeth Cymru yn diwallu anghenion pob myfyriwr AU sydd â'i ddomisil yng Nghymru

At ei gilydd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr AU yn diwallu rhai anghenion yn effeithiol ond yn parhau i adael bylchau mewn perthynas â grwpiau penodol. Mae cost AU yn parhau i fod yn bryder allweddol i ddarpar fyfyrwyr, yn enwedig y rhai o aelwydydd ag incwm isel, menywod, a'r rhai nad yw eu rhieni nau'n gwarcheidwaid wedi cael addysg AU. Er bod benthyciadau cyllid myfyrwyr a

chynlluniau cymorth wedi'u targedu fel bwrsariaeth GIG Cymru yn helpu i liniaru rhai rhwystrau, mae cymhlethdod y system, pryderon ynghylch dyledion, a chostau byw cynyddol yn parhau i ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch a fydd pobl yn astudio, ymhle, a sut.

Fel yr amlinellwyd eisoes yn y bennod hon, mae myfyrwyr rhan-amser, myfyrwyr aeddfed, a'r rhai ag ymrwymiadau gofalu neu waith yn elwa'n arbennig o opsiynau astudio hyblyg, ond mae'r trefniadau cyllido ar gyfer y myfyrwyr hyn yn aml yn parhau i fod yn annigonol, sy'n amlygu annhegwch mewn cymorth cynhaliaeth a benthyciadau ffioedd dysgu. Mae myfyrwyr ôl-raddedig yn wynebu heriau tebyg, gyda ffioedd dysgu a chostau byw yn dylanwadu ar batrymau cyfranogi ac astudio. Er bod cyflwyno benthyciadau ôl-raddedig wedi gwella mynediad, mae bylchau’n parhau o ran talu am gostau byw ac astudio hyblyg, yn enwedig i fyfyrwyr rhan-amser sy’n cydbwyso cyfrifoldebau lluosog fel gwaith a gofalu am blant.

At ei gilydd, mae myfyrwyr AU sydd â'u domisil yng Nghymru yn elwa o becyn cymorth ariannol cymharol hael o'i gymharu â gweddill y DU, ond mae rhwystrau ariannol a strwythurol a rhwystrau'n ymwneud â gwybodaeth yn golygu nad yw'r system yn diwallu anghenion amrywiol pob myfyriwr sydd â'i ddomisil yng Nghymru yn llawn.

# 12. Argymhellion

Nod yr ymchwil hwn oedd darparu tystiolaeth i gefnogi tri amcan Diwygiadau Diamond yn ymwneud ag ehangu mynediad i AU, cryfhau'r ddarpariaeth ran-amser a chryfhau'r ddarpariaeth ôl-raddedig. Yn seiliedig ar y canfyddiadau a'r casgliadau, cynigir yr argymhellion canlynol.

**Argymhelliad 1:**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chyllid Myfyrwyr Cymru, Medr, UCAS, Colegau Cymru, Prifysgolion Cymru a'r sector AU, yn ystyried sut y gellid gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cymorth cyllid myfyrwyr sydd ar gael i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru, gan gynnwys sicrhau gwell dealltwriaeth o delerau ac amodau ad-dalu benthyciadau myfyrwyr. Dylai'r ymarfer hwn geisio symleiddio'r wybodaeth sydd ar gael i fyfyrwyr ac o bosibl adeiladu ar weithgarwch allgymorth, ymgysylltu a pharatoi presennol a ddarperir gan ddarparwyr addysg uwch Cymru.

Dylai bwysleisio manteision y pecyn cymorth a darparu canllawiau ac adnoddau clir sy'n hawdd cael gafael arnynt. Byddai hefyd yn werthfawr tynnu sylw at opsiynau sy'n helpu myfyrwyr i ymgysylltu ag AU yn ogystal â lleihau costau a risg, fel astudio'n lleol, astudio o gartref, neu ddilyn cyrsiau gradd sylfaen a chyrsiau rhan-amser. Y nod fyddai sicrhau ymwybyddiaeth gyson a chynhwysfawr o becynnau cymorth AU ymhlith dysgwyr sy'n astudio mewn ysgolion a cholegau AB.

**Argymhelliad 2:**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r sector AU a rhanddeiliaid allweddol, yn dangos gwerth AU yn well i ddarpar ddysgwyr. Dylai hyn gynnwys nid yn unig dystiolaeth am gyflogaeth ac enillion, ond hefyd y manteision personol, cymdeithasol a llesiant ehangach sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn addysg uwch.

Yn ogystal â hynny, mae dadl dros ymestyn a chryfhau gweithgareddau ymgysylltu, fel y rhai a ddarperir drwy'r Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach [troednodyn19], fel eu bod yn cyrraedd ystod ehangach o ddarpar ddysgwyr, nid dim ond y rhai sy'n cael eu targedu ar hyn o bryd drwy fentrau ehangu mynediad. Er mwyn bod yn effeithiol, dylid cydlynu'r ymdrechion hyn yn dda a monitro eu heffaith hirdymor yn fanwl.

**Argymhelliad 3:**

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol, barhau i fynd i'r afael â'r ffactorau systemig a strwythurol sylfaenol sy'n gyfrifol am gyfranogiad isel mewn AU ymhlith pobl 18 oed. Mae dadl gref dros gyflwyno ymyrraeth barhaus i fynd i'r afael â materion fel lefelau presenoldeb isel yn yr ysgol, y cynnydd yn y niferoedd sy'n cael addysg ddewisol yn

[19] Mae Medr wedi comisiynu gwerthusiad o'r rhaglen Ymestyn yn Ehangach

y cartref, heriau cynyddol yn ymwneud ag ymddygiad a llesiant, perfformiad academaidd gwan, a llai o fyfyrwyr yn symud ymlaen o astudio cymwysterau UG i Safon Uwch. Dylai'r ymyriadau hyn ddechrau ar gam cynharach yn addysg pobl ifanc er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl.

**Argymhelliad 4:**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried adolygu'r trothwyon incwm aelwydydd a lefelau'r grant cynhaliaeth ar gyfer cyllid myfyrwyr, gan fod y rhain wedi aros yn eu hunfan ers Diwygiadau Diamond ac nid ydynt wedi cynyddu yn unol â'r cynnydd mewn incwm aelwydydd a'r cynnydd mewn costau byw. Gallai addasu'r trothwyon a'r grantiau hyn i ystyried cynnydd mewn chwyddiant helpu i wella cyfranogiad mewn AU ymhlith myfyrwyr o aelwydydd incwm isel.

**Argymhelliad 5:**

Mewn perthynas ag astudiaethau ôl-raddedig, rydym yn argymell y dylid archwilio dichonoldeb sicrhau bod pecyn cymorth presennol y radd meistr ôl-raddedig yn efelychu'r system israddedig, gyda chyfraniadau cyllido ar wahân ar gael ar gyfer ffioedd dysgu a chostau byw, gan gynnwys Cyllid Myfyrwyr Cymru yn talu rhan o'r ffioedd dysgu yn uniongyrchol i brifysgolion.

**Argymhelliad 6:**

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ffyrdd o symleiddio cymorth cyllid myfyrwyr i fyfyrwyr AU a'i wneud yn fwy hyblyg, er mwyn ymateb yn well i'r duedd gynyddol i ymgysylltu ag AU mewn ffordd fwy hyblyg dros oes unigolyn. Gallai hyn gynnwys gwella hyblygrwydd ar gyfer llwybrau astudio rhan-amser, modiwlaidd, dysgu o bell a llwybrau astudio carlam, gan sicrhau bod y system gyllido yn cefnogi'n ddigonol batrymau cyfranogi mwy amrywiol. Byddai'n werth archwilio unrhyw dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch effeithiolrwydd ac effaith y model Hawl Dysgu Gydol Oes yn Lloegr fel dull posibl y gellid ei efelychu yng Nghymru.

**Argymhelliad 7:**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellid gweithredu'n llawn y cynigion yn Niwygiadau Diamond ar gyfer ailwampio cyllid AU er mwyn cyflawni model cyllido mwy cynaliadwy ar gyfer AU yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys adolygu uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr rhan-amser a helpu i ysgogi astudiaeth ran-amser ar draws sefydliadau AU.

**Argymhelliad 8:**

Rydym yn argymell y dylid ehangu cwmpas yr ymchwil i lywio'r adolygiad o Ddiwygiadau Diamond y tu hwnt i'r tair elfen sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd, i ystyried yr heriau ehangach sy'n wynebu'r sector AU. Yn benodol, mae angen ailedrych ar drefniadau cyllido AU ac yn ehangach er mwyn galluogi sefydliadau i fynd i'r afael ag un o'r materion sydd angen sylw ar fyrder: y bwlch mewn

cyfranogiad sy'n ehangu rhwng Cymru a gweddill y DU drwy ddull gweithredu ehangach ar lefel system.

## Cyfeiriadau


Anderberg D, Chevalier A, Luhrmann M a Pavan R (2019), 'Expectations and aspirations in HE', Sefydliad Nuffield a Phrifysgol Royal Holloway, Llundain, ar gael yn: https://www.nuffieldfoundation.org/wp-content/uploads/2019/07/anderberg-42242-educationreport7.pdf

Callender C a Mason G (2017), 'Does student loan debt deter participation?', Ymddiriedolaeth Sutton, Llundain, ar gael yn: https://www.suttontrust.com/our-research/does-student-loan-debt-deter-participation/

Callender C a Thompson J (2018), 'The lost part-timers: the decline of part-time undergraduate HE in England', HE Policy Institute, Rhydychen, ar gael yn: https://www.hepi.ac.uk/2018/02/22/the-lost-part-timers-the-decline-of-part-time-undergraduate-higher-education-in-england/

Canolfan Trawsnewid Mynediad a Chanlyniadau Myfyrwyr (2023), 'Care experience and HE', Canolfan ar gyfer Trawsnewid Mynediad a Chanlyniadau Myfyrwyr, ar gael yn: https://www.taso.org.uk/wp-content/uploads/2023/07/Care-Experience-and-HE-final-report.pdf

Cyngor Cyllido AU Cymru (2023), 'Dealltwriaeth o anghydraddoldeb mewn addysg drydyddol', ADR Cymru, ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2023-11/ADR-Wales-Data-Report-Dealltwriaeth-o-anghydraddoldeb-mewn-addysg-drydyddol.pdf

Cyllid Myfyrwyr Cymru (2024), 'Datganiad ystadegol: cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru', Cyllid Myfyrwyr Cymru, ar gael yn: https://www.studentfinancewales.co.uk/media/

Education Futures (2024), 'Debt and decision-making among non-traditional learners', Education Futures, Llundain

HE Policy Institute (2022), 'Are universities worth it?', ar gael yn: https://www.hepi.ac.uk/wp-content/uploads/2022/03/are-universities-worth-it.pdf

HE Policy Institute (2024), 'Student academic experience survey 2024', HE Policy Institute, ar gael yn: https://www.hepi.ac.uk/2024/05/22/the-student-academic-experience-survey-2024/

HE Policy Institute a Phrifysgol Loughborough (2023), 'A minimum income standard for students', HE Policy Institute, ar gael yn: https://www.hepi.ac.uk/reports/a-minimum-income-standard-for-students/

Llywodraeth Cymru (2023), 'Cyllid myfyrwyr a chanlyniadau AU: crynodeb data', Llywodraeth Cymru, ar gael yn: https://llyw.cymru/cyrchfannau-dysgwyr-ôl-16-a-chynnydd-2023-24

Llywodraeth Cymru (2024), 'Polisi cymorth i fyfyrwyr a ffioedd dysgu 2025 i 2026', Llywodraeth Cymru, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/polisi-cymorth-myfyrwyr-a-ffioedd-dysgu-2025-2026

Newyddion y BBC (2023), ‘Myfyrwyr Cymru'n gadael y brifysgol gyda dyled o £35,000 ar gyfartaledd’, Newyddion y BBC, ar gael yn: https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/erthyglau/c7283ej1x87o

Prifysgolion Cymru (2024), 'Esboniad: cyfranogiad Cymru mewn AU', Prifysgolion Cymru, Caerdydd, ar gael yn: https://uniswales.ac.uk/sites/default/files/2024-08/Website%20explainer%20-%20participation%2012.8.24%20%28CY%29.pdf

Resolution Foundation (2025), ‘Graduate outcomes and student loan repayment’, Resolution Foundation, Llundain, ar gael yn: https://www.resolutionfoundation.org/publications/graduate-outcomes-and-student-loan-repayment

Sefydliad Nuffield (2023), ‘Post-16 pathways study’, Sefydliad Nuffield, Llundain, ar gael yn: https://www.nuffieldfoundation.org/project/post-16-pathways

Sefydliad Polisi Coleg y Brenin Llundain (2025), ‘HE: perceptions vs reality’, Coleg y Brenin Llundain, ar gael yn: https://www.kcl.ac.uk/policy-institute/assets/higher-education-perceptions-vs-reality.pdf

Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) (2014), 'Targeting "Communities First” areas in Wales to widening access to HE: how appropriate are the methods? (Cyfres Papurau Gwaith WAQLCE2014-11)', WISERD, Caerdydd, ar gael yn: https://wiserd.ac.uk/wp-content/uploads/Working_paper_WAQLCE2014-11.pdf

Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru (2023), 'Student cost-of-living report: Wales summer 2023’, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru, ar gael yn: https://assets.nationbuilder.com/nus/pages/669/attachments/original/1692109057/NUS_Wales_Cost_of_Living_Report_Summer_2023.pdf

Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru (2024), ‘Student housing and renters in Wales: findings from a national survey’, National Union of Students Wales, ar gael yn: https://assets.nationbuilder.com/nus/pages/8120/attachments/original/1731946790/Wales_Student_Housing_and_renters_2024_report.pdf

Y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted) (2025), 'Navigating post-16 careers guidance', Ofsted, Manceinion, ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/navigating-post-16-careers-guidance

Yr Adran Addysg (2019), ‘Impact of the student finance system on participation, experience and outcomes of disadvantaged young people’, Llywodraeth y DU, ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/909623/Impact_of_the_student_finance_system_on_disadvantaged_young_people.pdf

# Atodiad A Offerynnau ymchwil

## Canllaw trafod 1: Dysgwyr Blwyddyn 13

### Cyflwyniad

1. Allwch chi ddweud ychydig wrthyf am yr hyn wnaethoch chi ei astudio ym Mlynyddoedd 12/13? Pa bynciau Lefel A/BTEC wnaethoch chi eu hastudio?

2. Ydych chi'n bwriadu mynd i'r brifysgol?
    - Os felly, pa bwnc hoffech chi ei astudio ac ymhle?
    - Os felly, pam wnaethoch chi ddewis y brifysgol a'r cwrs hwn?
    - Os nad ydych, pa gynlluniau sydd gennych chi?

3. [Os nad ydynt yn bwriadu astudio yn y brifysgol] Pam ydych chi wedi penderfynu peidio â mynd i'r brifysgol?
    - Oes unrhyw beth sy'n eich atal rhag gwneud hynny?
    - Oes unrhyw beth am astudio yn y brifysgol sy'n eich poeni chi?

4. Beth yw manteision ac anfanteision mynd i'r brifysgol?
    - Faint o ystyriaeth ydych chi wedi'i rhoi i gost mynd i'r brifysgol?

### Gwerth AU

5. Pa mor werthfawr ydych chi'n meddwl y bydd (neu y byddai) mynd i'r brifysgol a chael gradd i chi?
    - Ydych chi'n meddwl bod gradd yn werth y gost?
    - Ydych chi erioed wedi meddwl nad yw cael gradd o bosibl yn werth chweil? Pam ydych chi'n dweud hynny?
    - Ydych chi wedi ystyried opsiynau eraill, fel prentisiaeth gradd o gwbl?
    - Faint o bwys mae eich rhieni/gwarcheidwaid/teulu yn ei roi ar gymhwyster gradd?

6. Ydych chi'n meddwl bod angen gradd arnoch chi i gael swydd dda?
    - Ydych chi'n meddwl y bydd gradd yn golygu y byddwch chi'n ennill mwy o arian?
    - Pam ydych chi'n meddwl hynny?

7. Ydych chi'n meddwl bod y brifysgol yn paratoi myfyrwyr ar gyfer y byd go iawn?
    - Pam ydych chi'n meddwl hynny?

8. Ydych chi'n credu bod mynd i'r brifysgol a chael gradd o werth ehangach i gymdeithas?
    - Fel gwerth diwylliannol?
    - Fel gwerth academaidd?

**Deall y cymorth ariannol i fyfyrwyr**

9. [Os ydynt yn bwriadu astudio yn y brifysgol] Ydych chi wedi gwneud cais i Gyllid Myfyrwyr Cymru am gyllid myfyrwyr i helpu gyda ffioedd a chostau byw?
    - Ai chi neu'ch rhieni/gofalwyr wnaeth lenwi'r cais, neu wnaethoch chi ei lenwi ar y cyd?

10. Ble cawsoch chi wybodaeth am gyllid myfyrwyr?
    - Prociwch os oes angen: Cyllid Myfyrwyr Cymru; UCAS, ysgolion/colegau ac ati
    - Beth oedd eich barn am ansawdd y wybodaeth oedd ar gael?

11. Sut y gellid ei gwella? Pa mor dda ydych chi'n deall y cymorth ariannol sydd ar gael i fynd i'r brifysgol?
    - Dywedwch wrthyf am y cymorth sydd ar gael i chi
    - Prociwch os oes angen: Ydych chi'n gwybod y gallwch chi gael benthyciad i dalu ffioedd dysgu?
    - Prociwch os oes angen: Ydych chi'n deall y gallwch chi gael cymorth i dalu eich costau byw? Ac y byddai rhan ohono'n grant, yn dibynnu ar incwm eich aelwyd?

12. Pa mor dda ydych chi'n deall y telerau ad-dalu ar gyfer benthyciadau myfyrwyr?
    - Ar ba lefel o incwm blynyddol mae pobl yn dechrau ad-dalu eu benthyciad myfyrwyr?
    - Ydych chi'n deall bod swm yr ad-daliadau misol yn dibynnu ar incwm blynyddol?

**Agweddau tuag at ddyled myfyrwyr**

13. Beth yw'r problemau mwyaf gyda dyled benthyciad myfyrwyr yn eich barn chi?
    - Pam ydych chi'n dweud hynny?
    - Beth, os o gwbl, sy'n eich poeni am y ddyled e.e. y llog, pa mor hir mae'n ei gymryd i'w had-dalu neu sut y gallai effeithio ar eich incwm yn y dyfodol?

14. A wnaeth y syniad o fynd i ddyled effeithio ar eich penderfyniad i fynd i'r brifysgol / peidio â mynd i'r brifysgol?
    - A wnaeth hynny wneud i chi feddwl am opsiynau eraill neu efallai peidio â mynd o gwbl?
    - A wnaeth hynny effeithio ar eich dewis o bwnc? e.e. dewis cwrs sy'n arwain at swydd neu broffesiwn penodol?
    - A gafodd hynny unrhyw effaith ar ble y gwnaethoch chi ddewis astudio? e.e. astudio gartref neu'n agosach at eich cartref; neu mewn prifysgol â chostau byw is fel y tu allan i Lundain

**Fforddiadwyedd AU**

15. [Os ydynt yn bwriadu astudio yn y brifysgol] Sut ydych chi'n bwriadu talu eich costau byw yn y brifysgol?
    - Ydych chi'n meddwl y bydd y benthyciad cynhaliaeth yn ddigon?
    - Ydych chi'n meddwl y dylid disgwyl i rieni neu deulu gyfrannu?
    - Ydych chi'n bwriadu defnyddio unrhyw gynilion?
    - Ydych chi'n bwriadu cael swydd yn ystod y tymor neu'r gwyliau?

16. Ydych chi / Fyddech chi'n poeni am dalu costau byw fel rhent, bwyd, teithio a llyfrau yn y brifysgol?
    - Ydych chi / Fyddech chi'n poeni am sut y bydd unrhyw gostau byw cynyddol yn ei gwneud hi'n anoddach i chi allu fforddio mynd i'r brifysgol?

17. Ydy'r cynnydd diweddar mewn costau byw wedi effeithio ar eich penderfyniad i fynd i'r brifysgol ai peidio?
    - Pam ydych chi'n dweud hynny?

## Canllaw trafod 2: Rhieni/gwarcheidwaid dysgwyr Blwyddyn 12/13 sy'n bwriadu / ddim yn bwriadu astudio mewn AU

### Cyflwyniad

1. Dywedwch wrthyf am eich plentyn sydd ym Mlwyddyn 12/13 neu sydd newydd orffen astudiaethau Blwyddyn 13. Pa bynciau Safon Uwch mae eich plentyn yn eu hastudio / y gwnaeth eich plentyn eu hastudio?

2. Ydy eich plentyn yn bwriadu mynd i'r brifysgol?
   - Os felly, pa bwnc mae'n bwriadu ei astudio ac ym mha brifysgol?
   - Os felly, pam wnaeth eich plentyn benderfynu ar y brifysgol a'r pwnc hwn?
   - Os na, pa gynlluniau sydd ganddo/ganddi?

3. [Os nad yw'n bwriadu astudio yn y brifysgol] Pam nad yw eich plentyn yn bwriadu mynd i'r brifysgol?
   - Beth, os o gwbl, sy'n ei atal rhag mynd i'r brifysgol?
   - Beth, os o gwbl, fyddai'n ei boeni ynglŷn ag astudio yn y brifysgol?
   - A fyddai'n poeni o gwbl am ei iechyd meddwl a'i lesiant tra bydd yn y brifysgol?

4. Beth yw manteision ac anfanteision mynd i'r brifysgol?
   - Faint o ystyriaeth roddodd eich plentyn i gost mynd i'r brifysgol?

### Gwerth AU

5. Ydych chi'n meddwl y bydd mynd i'r brifysgol a chael cymhwyster gradd yn werthfawr i'ch plentyn?
   - Ydych chi'n meddwl bod gradd yn werth y gost i'ch plentyn?
   - Ydych chi erioed wedi meddwl nad yw cael gradd o bosibl yn werth chweil? Pam ydych chi'n dweud hynny?
   - Ydy eich plentyn wedi ystyried opsiynau eraill, fel prentisiaeth gradd o gwbl?
   - Faint o bwyslais ydych chi'n bersonol yn ei roi ar gymhwyster gradd?

6. Ydych chi'n meddwl bod gradd prifysgol yn angenrheidiol i bobl ifanc gael swydd dda y dyddiau hyn?
   - Ydych chi'n meddwl y bydd gradd prifysgol yn arwain at gyflog uwch?
   - Pam ydych chi'n meddwl hynny?

7. Ydych chi'n meddwl bod prifysgolion yn paratoi myfyrwyr ar gyfer y byd go iawn?
   - Pam ydych chi'n meddwl hynny?

8. Ydych chi'n credu bod mynd i'r brifysgol a chael gradd o werth ehangach i gymdeithas?
   - Fel gwerth diwylliannol?

- Fel gwerth academaidd?

**Deall y cymorth ariannol i fyfyrwyr**

9. [Os ydynt yn bwriadu astudio yn y brifysgol] Ydy eich plentyn wedi gwneud cais i Gyllid Myfyrwyr Cymru i gael cymorth gyda'i ffioedd dysgu a'i gostau byw yn y brifysgol?
    - Ai chi neu'ch plentyn wnaeth lenwi'r cais, neu a wnaethoch chi ei lenwi ar y cyd?

10. Ble cawsoch chi wybodaeth am gyllid myfyrwyr?
    - Prociwch os oes angen: Cyllid Myfyrwyr Cymru; UCAS, ysgolion/colegau ac ati
    - Beth oedd eich barn am ansawdd y wybodaeth oedd ar gael?
    - Sut y gellid ei gwella?

11. Pa mor dda ydych chi'n deall y cymorth ariannol y gallai/y bydd eich plentyn yn ei chael yn y brifysgol?
    - Dywedwch wrthyf am y cymorth hwn.
    - Prociwch os oes angen: Ydych chi'n deall y gall eich plentyn gael benthyciad i dalu ffioedd dysgu?
    - Prociwch os oes angen: Ydych chi'n deall y gall eich plentyn gael cymorth i dalu eu costau cynhaliaeth? Ac y byddai rhan ohono'n grant, yn dibynnu ar incwm eich aelwyd?

12. Pa mor dda ydych chi'n deall y telerau ad-dalu ar gyfer benthyciadau myfyrwyr?
    - Ar ba lefel o incwm blynyddol mae pobl yn dechrau ad-dalu eu benthyciad myfyrwyr?
    - Ydych chi'n deall bod swm yr ad-daliadau misol yn dibynnu ar incwm blynyddol?

**Agweddau tuag at ddyled myfyrwyr**

13. Beth yw'r problemau mwyaf gyda dyled benthyciad myfyrwyr yn eich barn chi?
    - Pam ydych chi'n dweud hynny?
    - Beth, os o gwbl, sy'n eich poeni chi am y ddyled e.e. cyfradd llog, pa mor hir mae'n ei gymryd i'w had-dalu, yr effaith ar eu hincwm yn y dyfodol

14. A wnaeth y syniad o gael dyled myfyrwyr effeithio ar benderfyniad eich plentyn i fynd / peidio â mynd i'r brifysgol?
    - A wnaeth hynny wneud i chi/i'ch plentyn ystyried opsiynau eraill neu beidio â mynd i'r brifysgol o gwbl?
    - A wnaeth hynny effeithio ar y pwnc a ddewisodd? E.e. dewis pwnc sy'n arwain at broffesiwn

- A gafodd hynny unrhyw effaith ar ble y gwnaeth eich plentyn astudio? e.e. astudio gartref neu'n agosach at ei gartref; neu mewn prifysgol â chostau byw is fel y tu allan i Lundain

**Fforddiadwyedd AU**

15. [Os yn bwriadu astudio yn y brifysgol] Sut fydd eich plentyn yn talu am gostau byw yn y brifysgol?
    - Ydych chi'n meddwl y bydd y cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr yn ddigon?
    - Ydych chi'n meddwl y dylid disgwyl i rieni/teulu gyfrannu?
    - Ydy eich plentyn yn bwriadu defnyddio unrhyw gynilion i helpu gyda chostau prifysgol?
    - Ydy eich plentyn yn bwriadu gweithio yn ystod y tymor neu yn ystod y gwyliau?

16. Ydy eich plentyn / a fyddai eich plentyn yn poeni am dalu costau byw fel rhent, bwyd, teithio, llyfrau ac ati yn y brifysgol?
    - Ydych chi / Fyddech chi'n pryderu am effaith costau byw cynyddol ar fforddiadwyedd bywyd prifysgol?

17. Ydy'r cynnydd diweddar mewn costau byw wedi effeithio ar benderfyniad eich plentyn i fynd i'r brifysgol mewn unrhyw ffordd?
    - Pam ydych chi'n dweud hynny?

## Canllaw trafod 3: Myfyrwyr israddedig rhan-amser presennol mewn AU

### Cyflwyniad

1. Dywedwch wrthyf am eich astudiaethau presennol:
   - Pa bwnc ydych chi'n ei astudio ar hyn o bryd?
   - Ym mha brifysgol ydych chi'n astudio?
   - Ydych chi'n astudio wyneb yn wyneb, ar-lein neu'n dysgu o bell?
   - Ym mha flwyddyn astudio ydych chi?
   - Faint o gredydau ydych chi'n eu hastudio eleni?

2. Pam wnaethoch chi benderfynu astudio'n rhan-amser?
   - Oeddech chi eisiau uwchsgilio, newid cyfeiriad neu symud ymlaen yn eich gyrfa?
   - A wnaeth eich cyflogwr dynnu eich sylw at y cyfle neu awgrymu'r cwrs?
   - Wnaethoch chi ystyried astudio'n llawnamser o gwbl?
   - Oeddech chi eisiau cwrs yr oeddech chi'n gallu ei ddilyn o amgylch amgylchiadau gwaith, teuluol neu iechyd?
   - I ba raddau y gwnaeth cost a fforddiadwyedd ddylanwadu ar eich penderfyniad?
   - Beth arall, os o gwbl, ydych chi'n ei wneud ochr yn ochr â'ch astudiaethau (e.e. gweithio, cyfrifoldebau gofalu)?

3. Beth ydych chi'n gobeithio ei wneud ar ôl i chi gwblhau eich astudiaethau rhan-amser?

### Profiadau AU rhan-amser

4. Sut mae eich cwrs yn cael ei ddarparu?
   - Pa drefniadau addysgu a thiwtora sydd ar waith e.e. diwrnodau bloc, darlithoedd gyda'r nos neu ar benwythnosau, dysgu hyblyg?
   - Pa mor dda mae'r trefniant hwn yn gweithio i chi?

5. Beth yw manteision astudio'n rhan-amser?
   - Ydy hynny wedi eich helpu i barhau i weithio?
   - Ydy hynny wedi eich helpu i ymdopi ag unrhyw gyfrifoldebau teuluol?
   - Ydy hynny wedi eich helpu i ymdopi ag unrhyw bryderon iechyd?
   - Ydy'r cymorth cyllid myfyrwyr wedi helpu? Os felly, ym mha ffordd…

6. Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig ag astudio'n rhan-amser?
   - Sut ydych chi wedi llwyddo i ymdopi â'r gwahanol gyfrifoldebau?
   - Pa mor heriol oedd rheoli'r gost?

7. Yn gyffredinol, sut byddech chi'n disgrifio eich profiad o ddysgu'n rhan-amser yn eich prifysgol?
   - Ydy'r cwrs wedi bodloni eich disgwyliadau?

- Beth sydd wedi bod yn dda?
- Beth y gellid ei wella?

8. Pa rwystrau ychwanegol, os o gwbl, y mae myfyrwyr rhan-amser yn eu hwynebu o'u cymharu â myfyrwyr llawnamser ar eich cwrs?

9. Pa mor dda, neu fel arall, y mae eich prifysgol wedi diwallu eich anghenion fel myfyriwr rhan-amser?
   - Beth mae'r brifysgol wedi'i wneud yn dda? Holwch am ddarpariaeth ran-amser wedi'i theilwra, addysgu hyblyg, dysgu ar-lein, adnoddau digidol, cymorth llesiant
   - Beth y gallai'r brifysgol fod wedi'i wneud yn well?

10. Pa effaith, os o gwbl, y mae'r pandemig wedi'i chael ar eich profiadau o astudio'n rhan-amser?
    - A fu unrhyw newid yn y cyfleoedd dysgu o bell sydd ar gael i chi, ac os felly, pa wahaniaeth mae hyn wedi'i wneud i chi?

**Fforddiadwyedd AU rhan-amser**

11. Ydych chi'n cael benthyciad gan Lywodraeth Cymru i dalu eich ffioedd dysgu?
    - Os felly, ydy'r benthyciad yn talu cost lawn eich cwrs?
    - Os nad ydych, ydy hynny oherwydd eich bod chi'n astudio ar ddwyster llai na 25% ac felly nad ydych yn gymwys i gael benthyciad ffioedd dysgu?
    - Os nad ydych, sut ydych chi'n talu eich ffioedd dysgu? Ydy eich cyflogwr (yn helpu) i dalu cost y ffioedd?

12. Ydych chi'n cael grant cynhaliaeth a/neu fenthyciad gan Lywodraeth Cymru i dalu eich costau byw yn y brifysgol?
    - I ba raddau y mae'r cymorth hwn yn talu eich costau byw?

13. Sut arall ydych chi'n talu eich costau byw wrth astudio?
    - Ydych chi'n cael unrhyw gymorth arall gan y llywodraeth, fel unrhyw grantiau neu fudd-daliadau?
    - Oes gennych chi unrhyw ffynonellau incwm eraill, fel gwaith cyflogedig, cynilion neu gymorth gan rieni, partner neu deulu arall?

14. Ydy myfyrwyr rhan-amser yn cael unrhyw anawsterau i dalu eu costau byw tra byddan nhw'n astudio'n rhan-amser?
    - Pa anawsterau, os o gwbl, y mae myfyrwyr rhan-amser yn tueddu i'w hwynebu? Ydyn nhw'n:
      - methu taliadau rhent neu forgais?
      - mynd heb fwyd neu ddefnyddio banc bwyd?
      - cwtogi ar hanfodion eraill / aberthu rhywbeth arall?
    - Ydy costau byw cynyddol yn ei gwneud hi'n anoddach astudio'n rhan-amser?

15. I ba raddau y mae cymorth ariannol Llywodraeth Cymru yn diwallu eich anghenion fel myfyriwr rhan-amser?
    - Pam ydych chi'n dweud hynny?

16. Pa newidiadau, os o gwbl, hoffech chi eu gweld i'r cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i fyfyrwyr rhan-amser?

**Agweddau tuag at ddyled myfyrwyr**

17. Beth yw'r problemau mwyaf gyda dyled benthyciad myfyrwyr yn eich barn chi?
    - Pam ydych chi'n dweud hynny?
    - Beth, os o gwbl, sy'n eich poeni chi am y ddyled e.e. cyfradd llog, pa mor hir mae'n ei gymryd i'w had-dalu, yr effaith ar eu hincwm yn y dyfodol

18. A wnaeth y syniad o gael dyled myfyrwyr effeithio ar eich penderfyniad i astudio'n rhan-amser?
    - A wnaeth hynny wneud i chi ystyried opsiynau eraill neu beidio â mynd i'r brifysgol o gwbl?
    - A wnaeth hynny ddylanwadu ar eich dewis o bwnc? e.e. dewis un sy'n arwain at broffesiwn
    - A gafodd hynny unrhyw effaith ar ble y gwnaethoch chi ddewis astudio? e.e. astudio gartref neu'n agosach at eich cartref; neu mewn prifysgol â chostau byw is fel y tu allan i Lundain

## Canllaw trafod 4: Myfyrwyr presennol cyrsiau meistr llawnamser a addysgir

### Cyflwyniad

1. Dywedwch wrthyf am eich cwrs meistr a addysgir:
    - Pa bwnc ydych chi'n ei astudio ar hyn o bryd?
    - Ym mha brifysgol ydych chi'n astudio?

2. Pam wnaethoch chi ddewis astudio cwrs meistr a addysgir?
    - Oeddech chi eisiau/angen ennill cymhwyster proffesiynol?
    - Oeddech chi eisiau uwchsgilio, newid cyfeiriad neu symud ymlaen yn eich gyrfa?
    - A wnaeth eich cyflogwr neu'ch darpar gyflogwr ei awgrymu?
    - Pa opsiynau eraill, heblaw am gwrs meistr a addysgir, wnaethoch chi eu hystyried?

3. Beth ydych chi'n gobeithio ei gyflawni ar ôl i chi gwblhau eich cwrs meistr a addysgir?

### Profiadau AU ôl-raddedig

4. Yn gyffredinol, beth yw eich barn am eich profiad o'ch cwrs meistr a addysgir yn eich prifysgol?
    - Ydy'r cwrs wedi bodloni eich disgwyliadau?
    - Beth sydd wedi bod yn dda?
    - Beth y gellid ei wella?

5. Pa rwystrau, os o gwbl, fyddech chi'n dweud bod myfyrwyr meistr a addysgir yn eu hwynebu o'i gymharu â myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig eraill?

6. Pa mor dda, neu fel arall, y mae eich prifysgol wedi diwallu eich anghenion fel myfyriwr rhan-amser?
    - Beth mae'r brifysgol wedi'i wneud yn dda? Holwch am ddarpariaeth ran-amser wedi'i theilwra, addysgu hyblyg, dysgu ar-lein, adnoddau digidol, cymorth llesiant
    - Beth y gallai'r brifysgol fod wedi'i wneud yn well?

7. Pa effaith, os o gwbl, y mae'r pandemig wedi'i chael ar eich profiadau o'ch cwrs meistr a addysgir?
    - A fu unrhyw newid yn y cyfleoedd dysgu o bell sydd ar gael i chi, ac os felly, pa wahaniaeth mae hyn wedi'i wneud i chi?

**Fforddiadwyedd AU ôl-raddedig**

8. Pa mor ymwybodol oeddech chi o'r cymorth ariannol y gallech chi ei gael pan oeddech chi'n penderfynu ymgymryd â'ch cwrs meistr a addysgir?
    - Faint o ystyriaeth wnaethoch chi ei rhoi i gost astudio cwrs meistr a addysgir cyn gwneud cais?
    - Fyddech chi wedi cofrestru ar y cwrs heb y cymorth, neu gyda phecyn llai o gymorth ariannol?

9. Faint ydych chi'n ei dalu mewn ffioedd dysgu ar gyfer eich cwrs meistr a addysgir?

10. Ydych chi'n cael benthyciad cyllid myfyrwyr?
    - Faint o gyfraniad mae'r benthyciad myfyriwr yn ei wneud at dalu eich costau byw?
    - Faint o gyfraniad mae'r benthyciad myfyriwr yn ei wneud at dalu eich ffioedd dysgu?

11. Sut arall ydych chi'n talu eich costau byw wrth astudio?
    - Ydych chi'n cael unrhyw gymorth arall gan y llywodraeth, fel unrhyw grantiau neu fudd-daliadau?
    - Oes gennych chi unrhyw ffynonellau incwm eraill, fel gwaith cyflogedig, cynilion neu gymorth gan rieni, partner neu deulu arall?

12. Ydy myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir yn cael unrhyw anawsterau i dalu eu costau byw tra byddan nhw'n dilyn eu cwrs?
    - Pa anawsterau, os o gwbl, y mae myfyrwyr meistr a addysgir yn tueddu i'w profi? Ydyn nhw'n:
        - methu taliadau rhent neu forgais?
        - mynd heb fwyd / defnyddio banc bwyd?
        - cwtogi ar hanfodion eraill / aberthu rhywbeth arall?
    - Ydy costau byw cynyddol yn ei gwneud hi'n anoddach astudio cwrs meistr a addysgir?

13. I ba raddau y mae cymorth ariannol Llywodraeth Cymru yn diwallu eich anghenion fel myfyriwr cwrs meistr a addysgir?
    - Pam ydych chi'n dweud hynny?

14. Pa newidiadau, os o gwbl, hoffech chi eu gweld i'r cymorth ariannol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i fyfyrwyr meistr a addysgir?

**Agweddau tuag at ddyled myfyrwyr**

15. Beth yw'r problemau mwyaf gyda dyled benthyciad myfyrwyr yn eich barn chi?
    - Pam ydych chi'n dweud hynny?

- Beth, os o gwbl, sy'n eich poeni chi am y ddyled e.e. cyfradd llog, pa mor hir mae'n ei gymryd i'w had-dalu, yr effaith ar eu hincwm yn y dyfodol

16. A wnaeth y syniad o gael dyled myfyrwyr (ychwanegol) effeithio ar eich penderfyniad i astudio am gymhwyster meistr?
    - A wnaeth hynny i chi ystyried opsiynau eraill neu o bosibl peidio â pharhau â'ch addysg?
    - A gafodd hynny unrhyw effaith ar eich dewis o bwnc? e.e. dewis un sy'n arwain at broffesiwn
    - A gafodd hynny unrhyw effaith ar ble y gwnaethoch chi ddewis astudio? e.e. astudio gartref neu'n agosach at eich cartref; neu mewn prifysgol â chostau byw is fel y tu allan i Lundain

## Canllaw trafod 5: Myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser presennol mewn AU

### Cyflwyniad

1. Dywedwch wrthyf am eich astudiaethau presennol:
    - Pa bwnc ydych chi'n ei astudio ar hyn o bryd?
    - Ym mha brifysgol ydych chi'n astudio?
    - Pa fath o gwrs ôl-raddedig ydych chi'n ei astudio e.e. cwrs meistr a addysgir?
    - Ydych chi'n astudio wyneb yn wyneb, ar-lein neu'n dysgu o bell?
    - Ym mha flwyddyn astudio ydych chi?
    - Faint o gredydau ydych chi'n eu hastudio eleni?

2. Pam wnaethoch chi benderfynu astudio'n rhan-amser?
    - Oeddech chi eisiau uwchsgilio, newid cyfeiriad neu symud ymlaen yn eich gyrfa?
    - A wnaeth eich cyflogwr dynnu eich sylw at y cyfle neu awgrymu'r cwrs?
    - Wnaethoch chi ystyried astudio'n llawnamser o gwbl?
    - Oeddech chi eisiau cwrs yr oeddech chi'n gallu ei ddilyn o amgylch amgylchiadau gwaith, teuluol neu iechyd?
    - I ba raddau y gwnaeth cost a fforddiadwyedd ddylanwadu ar eich penderfyniad?
    - Beth arall, os o gwbl, ydych chi'n ei wneud ochr yn ochr â'ch astudiaethau (e.e. gweithio, cyfrifoldebau gofalu)?

3. Beth ydych chi'n gobeithio ei wneud ar ôl i chi gwblhau eich astudiaethau rhan-amser?

### Profiadau AU ôl-raddedig rhan-amser

4. Sut mae eich cwrs yn cael ei ddarparu?
    - Pa drefniadau addysgu a thiwtora sydd ar waith e.e. diwrnodau bloc, darlithoedd gyda'r nos neu ar benwythnosau, dysgu hyblyg?
    - Pa mor dda mae'r trefniant hwn yn gweithio i chi?

5. Beth yw manteision astudio cwrs ôl-raddedig yn rhan-amser?
    - Ydy hynny wedi eich helpu i barhau i weithio?
    - Ydy hynny wedi eich helpu i ymdopi ag unrhyw gyfrifoldebau teuluol?
    - Ydy hynny wedi eich helpu i ymdopi ag unrhyw bryderon iechyd?
    - Ydy'r cymorth cyllid myfyrwyr wedi helpu? Os felly, ym mha ffordd…

6. Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig ag astudio cwrs ôl-raddedig yn rhan-amser?
    - Sut ydych chi wedi llwyddo i ymdopi â'r gwahanol gyfrifoldebau?
    - Pa mor heriol oedd rheoli'r gost?

7. Yn gyffredinol, sut byddech chi'n disgrifio eich profiad o astudio'n rhan-amser yn eich prifysgol?
    - Ydy'r cwrs wedi bodloni eich disgwyliadau?
    - Beth sydd wedi bod yn dda?
    - Beth y gellid ei wella?

8. Pa rwystrau ychwanegol, os o gwbl, y mae myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser yn eu hwynebu o'u cymharu â myfyrwyr ôl-raddedig llawnamser ar eich cwrs?

9. Pa mor dda, neu fel arall, y mae eich prifysgol wedi diwallu eich anghenion fel myfyriwr ôl-raddedig?
    - Beth mae'r brifysgol wedi'i wneud yn dda? Holwch am ddarpariaeth ran-amser wedi'i theilwra, addysgu hyblyg, dysgu ar-lein, adnoddau digidol, cymorth llesiant
    - Beth y gallai'r brifysgol fod wedi'i wneud yn well?

10. Pa effaith, os o gwbl, y mae'r pandemig wedi'i chael ar eich profiadau o astudiaethau ôl-raddedig rhan-amser?
    - A fu unrhyw newid yn y cyfleoedd dysgu o bell sydd ar gael i chi, ac os felly, pa wahaniaeth mae hyn wedi'i wneud i chi?

**Fforddiadwyedd AU ôl-raddedig rhan-amser**

11. Pa mor ymwybodol oeddech chi o'r cymorth ariannol y gallech chi ei gael pan oeddech chi'n penderfynu ymgymryd â'ch cwrs meistr a addysgir?
    - Faint o ystyriaeth wnaethoch chi ei rhoi i gost eich cwrs cyn gwneud cais?
    - Fyddech chi wedi cofrestru ar y cwrs heb y cymorth, neu gyda phecyn llai o gymorth ariannol?

12. Faint ydych chi'n ei dalu mewn ffioedd dysgu ar gyfer eich cwrs?

13. Ydych chi'n cael benthyciad cyllid myfyrwyr?
    - Faint o gyfraniad mae'r benthyciad myfyriwr yn ei wneud at dalu eich costau byw?

- Faint o gyfraniad mae'r benthyciad myfyriwr yn ei wneud at dalu eich ffioedd dysgu?
- Os nad ydych, ydy hynny oherwydd eich bod chi'n astudio ar ddwyster llai na 25% ac felly nad ydych yn gymwys i gael benthyciad ffioedd dysgu?
- Os nad ydych, sut ydych chi'n talu eich ffioedd dysgu? Ydy eich cyflogwr (yn helpu) i dalu cost y ffioedd?

14. Sut arall ydych chi'n talu eich costau byw wrth astudio?
    - Ydych chi'n cael unrhyw gymorth arall gan y llywodraeth, fel unrhyw grantiau neu fudd-daliadau?
    - Oes gennych chi unrhyw ffynonellau incwm eraill, fel gwaith cyflogedig, cynilion neu gymorth gan rieni, partner neu deulu arall?

15. Ydy myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser yn cael unrhyw anawsterau i dalu eu costau byw tra'n astudio'n rhan-amser?
    - Pa anawsterau, os o gwbl, y mae myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser yn tueddu i'w hwynebu? Ydyn nhw'n:
        - methu taliadau rhent neu forgais?
        - mynd heb fwyd neu ddefnyddio banc bwyd?
        - cwtogi ar hanfodion eraill / aberthu rhywbeth arall?
    - Ydy costau byw cynyddol yn ei gwneud hi'n anoddach astudio'n rhan-amser?

16. I ba raddau y mae cymorth ariannol Llywodraeth Cymru yn diwallu eich anghenion fel myfyriwr ôl-raddedig rhan-amser?
    - Pam ydych chi'n dweud hynny?

17. Pa newidiadau, os o gwbl, hoffech chi eu gweld i gymorth ariannol Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser?

**Agweddau tuag at ddyled myfyrwyr**

18. Beth yw'r problemau mwyaf gyda dyled benthyciad myfyrwyr yn eich barn chi?
    - Pam ydych chi'n dweud hynny?
    - Beth, os o gwbl, sy'n eich poeni chi am y ddyled e.e. cyfradd llog, pa mor hir mae'n ei gymryd i'w had-dalu, yr effaith ar eu hincwm yn y dyfodol

19. A wnaeth y syniad o gael dyled myfyrwyr effeithio ar eich penderfyniad i astudio am gymhwyster ôl-raddedig rhan-amser?
    - A wnaeth hynny wneud i chi ystyried opsiynau eraill neu beidio â mynd i'r brifysgol o gwbl?
    - A wnaeth hynny ddylanwadu ar eich dewis o bwnc? e.e. dewis un sy'n arwain at broffesiwn
    - A gafodd hynny unrhyw effaith ar ble y gwnaethoch chi ddewis astudio? e.e. astudio gartref neu'n agosach at eich cartref; neu mewn prifysgol â chostau byw is fel y tu allan i Lundain

## Canllaw trafod 6: Staff ac arweinwyr Darparwyr AU

### Cyflwyniad

1. Dywedwch wrthyf sut rydych yn ymwneud ag:
    - Ehangu mynediad i AU
    - Darpariaeth ran-amser
    - Darpariaeth ôl-raddedig

2. Dywedwch wrthyf am eich dealltwriaeth o Ddiwygiadau Diamond, a'r hyn yr oeddech yn disgwyl y byddent yn ei gyflawni:
    - i ddysgwyr sydd â'u domisil yng Nghymru?
    - i ddarparwyr AU yng Nghymru?

### Ehangu mynediad i AU

3. Pa gymorth ehangu mynediad mae eich sefydliad yn ei gynnig i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru?
    - Pa gymorth ariannol ydych chi'n ei gynnig i fyfyrwyr?
    - Pa gymorth caledi ariannol ydych chi'n ei gynnig i fyfyrwyr?
    - Pa gymorth iechyd emosiynol a meddyliol ydych chi'n ei gynnig i fyfyrwyr?

4. Pa mor effeithiol yw'r cymorth ehangu mynediad a ddarperir gan eich sefydliad o ran helpu i fynd i'r afael â'r heriau y mae myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru yn eu hwynebu?
    - Pa dystiolaeth sydd gennych o'r gwahaniaeth mae'n ei wneud?
    - Pa wahaniaeth mae'r cymorth yn ei wneud i garfannau penodol o fyfyrwyr, fel y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, profiad o fod mewn gofal, myfyrwyr ag ADY, myfyrwyr anabl, a siaradwyr Cymraeg?

5. Pa effaith a gafodd Diwygiadau Diamond, a ddaeth i rym o 2018/19 ymlaen, ar allu eich sefydliad i ehangu mynediad i AU?

6. Pa gamau pellach y gallai Llywodraeth Cymru a'r sector eu cymryd i ehangu mynediad at AU?

### Cryfhau'r ddarpariaeth ran-amser

7. Pa effaith gafodd Diwygiadau Diamond ar ddarpariaeth ran-amser, a ddaeth i rym o 2018/19 ymlaen, ar eich sefydliad?

8. Dywedwch ychydig wrthym am y ddarpariaeth ran-amser sydd ar gael yn eich sefydliad, a faint o fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru sy'n manteisio ar hyn dros amser.

- Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r math o gyrsiau neu raglenni a gynigir yn rhan-amser?
- Ar draws pa feysydd pwnc ydych chi wedi gweld darpariaeth ran-amser yn ehangu, a beth sy'n cyfrif am hyn?
- Beth yw proffil y boblogaeth o fyfyrwyr rhan-amser? Sut mae hyn wedi newid ers Diwygiadau Diamond?
- Pa heriau mae eich sefydliad wedi'u hwynebu wrth ehangu'r cynnig rhan-amser?
- Sut mae newidiadau mewn disgwyliadau yn y gweithle wedi dylanwadu ar y ddarpariaeth cyrsiau meistr a addysgir sydd ar gael?

9. Pa effaith mae'r pandemig COVID-19 wedi'i chael ar:
    - ddarpariaeth ran-amser
    - cofrestriadau ar gyrsiau rhan-amser
    - cymorth i fyfyrwyr rhan-amser?

10. Pa mor dda mae eich sefydliad yn darparu ar gyfer dysgwyr rhan-amser sydd â'u domisil yng Nghymru?
    - Pa mor dda mae'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion dysgwyr?
    - Pa newidiadau diweddar, os o gwbl, a gyflwynwyd i ddiwallu anghenion dysgwyr rhan-amser yn well? Gallai'r rhain gynnwys amserlenni hyblyg, cyrsiau ar-lein, cyrsiau penodol, offer digidol

11. Sut mae canlyniadau myfyrwyr rhan-amser yn cymharu â chanlyniadau myfyrwyr llawnamser yn eich sefydliad?
    - Holwch am y cyfraddau cwblhau a'r cyfraddau graddio
    - Beth sydd i'w gyfrif am unrhyw wahaniaethau yn neilliannau'r myfyrwyr?

12. Beth yw'r bylchau yn y ddarpariaeth ran-amser ar draws eich sefydliad?
    - Ble mae'r cyfleoedd i gynyddu'r ddarpariaeth ran-amser ar draws eich sefydliad?

13. A oes unrhyw ddyblygu ar draws y cynnig rhan-amser ledled Cymru?
    - Os felly, ym mha feysydd pwnc?

14. Sut mae eich sefydliad yn cyllido addysg ran-amser?
    - Sut mae'r model cyllido hwn wedi newid dros amser, os o gwbl?
    - Sut mae cyllid o ffynonellau'r llywodraeth, ysgoloriaethau, neu newidiadau i ffioedd dysgu wedi effeithio ar ddarpariaeth ran-amser?

15. Pa gymorth mae eich sefydliad yn ei ddarparu i fyfyrwyr rhan-amser?
    - Sut mae'r cymorth hwn yn wahanol i'r hyn sydd ar gael i fyfyrwyr llawnamser, os o gwbl?

16. Beth yw'r rhwystrau i'ch sefydliad gynnig mwy o opsiynau astudio rhan-amser?

**Cryfhau'r ddarpariaeth ôl-raddedig**

17. Pa effaith gafodd Diwygiadau Diamond ar ddarpariaeth ôl-raddedig, a ddaeth i rym o 2018/19 ymlaen, ar eich sefydliad?
    - Pa effaith a gafodd dileu'r gronfa grantiau ôl-raddedig (neu pa effaith yr ydych yn disgwyl y bydd hynny'n ei gael) 2024/25 ymlaen?

18. Dywedwch ychydig wrthym am y ddarpariaeth graddau meistr a addysgir sydd ar gael yn eich sefydliad, a faint o fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru sydd wedi manteisio ar hyn dros amser.
    - Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r math o radd meistr a addysgir a gynigir?
    - Ar draws pa feysydd pwnc ydych chi wedi gweld darpariaeth yn ehangu, a beth sydd i'w gyfrif am hyn?
    - Beth yw proffil y myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir? Sut mae hyn wedi newid ers Diwygiadau Diamond, os o gwbl?
    - Pa heriau mae eich sefydliad wedi'u hwynebu wrth ehangu'r cyrsiau meistr a addysgir sydd ar gael?
    - Sut mae newidiadau mewn disgwyliadau yn y gweithle wedi dylanwadu ar y cyrsiau meistr a addysgir sydd ar gael?

19. Pa effaith mae'r pandemig COVID-19 wedi'i chael ar:
    - y ffordd y darperir cyrsiau meistr a addysgir
    - cofrestriadau ar gyrsiau meistr a addysgir ymhlith myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru
    - cymorth i fyfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir sydd â'u domisil yng Nghymru?

20. Pa mor dda mae eich sefydliad yn cefnogi dysgwyr cyrsiau meistr a addysgir sydd â'u domisil yng Nghymru?
    - Pa heriau y mae dysgwyr cyrsiau meistr a addysgir fel arfer yn eu hwynebu o ran cael mynediad at AU?
    - Pa mor dda mae'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion dysgwyr?
    - Pa newidiadau diweddar, os o gwbl, a gyflwynwyd i ddarparu'n well ar gyfer dysgwyr cyrsiau meistr a addysgir?

21. Beth yw'r bylchau yn y ddarpariaeth cyrsiau meistr a addysgir ar draws eich sefydliad?

22. Ble mae'r cyfleoedd i gynyddu'r ddarpariaeth cyrsiau meistr a addysgir ar draws eich sefydliad?

23. Sut y mae eich sefydliad yn cyllido cyrsiau meistr a addysgir?
    - Pa ffioedd dysgu mae eich sefydliad yn eu codi?
    - Sut mae'r model cyllido hwn wedi newid dros amser, os o gwbl?
    - Sut mae cyllid o ffynonellau'r llywodraeth, ysgoloriaethau, neu newidiadau i ffioedd dysgu wedi effeithio ar y ddarpariaeth o gyrsiau meistr a addysgir?

24. Beth yw'r rhwystrau i'ch sefydliad gynnig mwy o opsiynau astudio cyrsiau meistr a addysgir?

Mae copïau o'r arolygon o ddysgwyr Blwyddyn 13 a myfyrwyr cyrsiau meistr a addysgir ar sail ran-amser a/neu ôl-raddedig ar gael ar gais.